

Cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim

Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cynnwys

1. CRYNODEB GWEITHREDOL.....	3
2. CEFNDIR.....	4
3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU	4
4. DADANSODDI'R YMATEBION	5
5. YR ADRODDIAD GWRTHWYNEBU	5
6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL.....	7
7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL.....	86
8. OPSIYNAU ERAILL	93
9. AILASESIAD AR ÔL Y CYFNOD GWRTHWYNEBU MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG	93
10. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R CYFNOD GWRTHWYNEBU	120
11. CASGLIAD	121
12. ARGYMHELLIAD	122
13. Y CAMAU NESAF.....	124
ATODIAD A – DOGFEN WRTHWYNEBU – CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD MEIDRIM	125
ATODIAD B – CRYNODEB O'R YMATEB A DDAETH I LAW AR ÔL CAU'R ADRODDIAD GWRTHWYNEBU	163
ATODIAD C – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED	175
ATODIAD D – YR ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG	191
ATODIAD E – ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG	235

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones, Sanclêr neu i Ysgol Hafodwenog, Tre-lech. Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori ar 1 Mehefin 2026, cytunodd aelodau Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Ar y cyfan, roedd y gyfradd ymateb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn eithaf uchel, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig. Dim ond ychydig o sylwadau cefnogol ddaeth i law. Mynegodd y gwrthwynebwyr bryderon am effaith bosibl y cynnig ar y disgyblion, y teuluoedd a'r gymuned ehangach. Roedd y pryderon mwyaf cyffredin a nodwyd yn ymwneud â rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel rhan ganolog o fywyd y pentref a phwysigrwydd yr ysgol wrth gynnal cydlyniant cymunedol, cefnogi hunaniaeth leol a chyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y gymuned wledig. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y manteision addysgol a bugeiliol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod yr ysgol yn fach, gan gynnwys cymorth personol, perthnasoedd cryf rhwng y staff a'r disgyblion, a'r amgylchedd meithringar y mae llawer o blant yn ei gael ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon sylweddol hefyd ynglŷn â'r effaith bosibl ar y Gymraeg a diwylliant Cymru, llesiant disgyblion, tarfu ar grwpiau cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymunedol sydd eisoes wedi'u sefydlu, gofynion teithio cynyddol, a'r effaith ganfyddedig y gallai cau'r ysgol ei chael ar fywiogrwydd y pentref yn y dyfodol.

Roedd nifer sylweddol o wrthwynebiadau hefyd yn herio'r achos ariannol a strategol dros gau'r ysgol. Cwestiynodd ymatebwyr a fyddai'r arbedion ariannol a ragwelir yn drech na'r effeithiau addysgol, cymdeithasol, ieithyddol a chymunedol a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori. Dadleuodd llawer o wrthwynebwyr nad oedd opsiynau amgen, gan gynnwys trefniadau ffedereiddio, modelau arweinyddiaeth a rennir, defnydd cymunedol estynedig, darpariaeth gofal plant a mentrau ehangach a arweinir gan y gymuned, wedi'u harchwilio'n llawn cyn symud ymlaen i gau'r ysgol. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn ag amcanestyniadau disgyblion yn y dyfodol, datblygiadau tai cynlluniedig, y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, addasrwydd ysgolion derbyn, yr effaith ar ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a'r effaith yr oedd yr ansicrwydd ynghylch y cynnig eisoes wedi'i chael ar rai plant a theuluoedd.

Roedd y sylwadau cefnogol a ddaeth i law yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud i'w disgyblion a'r gymuned leol gan gydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r ysgol. Roedd cefnogwyr y cynnig o'r farn bod gostyngiad yn nifer y disgyblion, lleoedd gwag a phwysau ariannol parhaus yn codi pryderon dilys ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod darpariaeth addysgol yn parhau i fod yn hyfyw ar draws rhwydwaith ehangach yr ysgol. Tynnodd ymatebwyr cefnogol sylw hefyd at argaeledd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen o fewn pellteroedd teithio rhesymol, gan awgrymu y byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at gyfleoedd addysgol addas gan alluogi'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio dull strategol a chynaliadwy wrth drefnu lleoedd mewn ysgolion. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gweld y cynnig fel ymateb pragmatig i heriau demograffig ac ariannol, er gwaethaf bod pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned leol yn cael ei gydnabod.

2. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a gynhaliwyd rhwng 19 Mehefin 2026 ac 17 Gorffennaf 2026 mewn ymateb i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones, Sanclêr neu i Ysgol Hafodwenog, Tre-lech.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol a phroses y cyfnod gwrthwynebu, yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), rhoddodd y cyfnod gwrthwynebu gyfle i bawb gyflwyno gwrthwynebiad neu sylwadau cefnogol ar y cynnig.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ynghylch y cynnig ar 19 Mehefin 2026 am gyfnod o 28 diwrnod tan 17 Gorffennaf 2026.

Cafodd y ddogfen ei dosbarthu'n electronig i'r holl randdeiliaid a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau caled ar gael ar gais a chawsant eu harddangos ar ffens derfyn a gatiâu'r ysgol. Roedd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynnig a'r broses ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau.

4. DADANSODDI'R YMATEBION

Cafwyd cyfanswm o 160 o sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad statudol; 151 yn gwrthwynebu'r cynnig a 9 yn ei gefnogi.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

Y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	Cyfanswm
108	43	0	151

Daeth gwrthwynebiad i law drwy e-bost ar 22 Gorffennaf 2026, ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu statudol ddod i ben ar 17 Gorffennaf 2026. Yn unol â hynny, nid yw wedi'i gyfrif fel gwrthwynebiad ffurfiol at ddibenion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fodd bynnag, er cyflawnder a thryloywder, nodwyd y pwyntiau a godwyd yn y sylw ac maent wedi'u crynhoi yn Atodiad B er gwybodaeth i'r aelodau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law.

Y Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	Cyfanswm
9	0	0	9

5. YR ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Mae'r adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r gwrthwynebiadau neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law fel a ganlyn:

Pryderon

- **Thema 1 – Cydlyniant Cymunedol a Chynaliadwyedd y Pentref**
- **Thema 2 – Manteision Ysgolion Bach a Dosbarthiadau Bach**
- **Thema 3 – Y Gymraeg a Chymunedau Cymraeg**
- **Thema 4 – Llesiant Disgyblion, Diogelwch ac Ymdeimlad o Berthyn**

- Thema 5 – Yr Achos Ariannol dros Gau Heb ei Brofi
- Thema 6 – Hunaniaeth Gymunedol, Treftadaeth a Chysylltiadau rhwng Cenedlaethau
- Thema 7 – Rhannu Cymuned Bresennol yr Ysgol rhwng Tair Ysgol
- Thema 8 – ADY, Anabledd ac Anghenion Meddygol
- Thema 9 – Diwylliant Cymru a Hunaniaeth Gymreig
- Thema 10 – Y Broses Ymgynghori a Phryderon am Wneud Penderfyniadau
- Thema 11 – Safonau Addysgol a Pherfformiad yr Ysgol
- Thema 12 – Nifer y Disgyblion yn y Dyfodol, Twf Tai a Chynaliadwyedd
- Thema 13 – Cludiant, Teithio a Hygyrchedd
- Thema 14 – Cynigion Amgen heb eu Harchwilio'n Llawn
- Thema 15 – Canolfan Gymunedol a Defnydd Gymunedol Ehangach
- Thema 16 – Rhannu Grwpiau Cyfeillgarwch a Pherthnasoedd sydd eisoes wedi'u Sefydlu
- Thema 17 – Effaith yr Ansicrwydd ar y Plant
- Thema 18 – Addasrwydd a Chapasiti'r Ysgolion Derbyn
- Thema 19 – Cau ar Ganol Blwyddyn Academiaidd a Threfniadau Pontio
- Thema 20 – Hyder ym Mlaenoriaethau Gwario'r Cyngor
- Thema 21 – Hawliau Plant a Gwneud Penderfyniadau sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn
- Thema 22 – Cywirdeb Dogfennau a Newidiadau i'r Cynnig
- Thema 23 – Rhagdybiaeth yn erbyn Cau Ysgolion Gwledig
- Thema 24 – Gwydnwch Gymunedol a Chymorth Brys
- Thema 25 – Effeithiau ar yr Amgylchedd a'r Hinsawdd

Sylwadau Cefnogol

- Thema 1 – Cynaliadwyedd ariannol a defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Thema 2 – Argaeledd darpariaeth leol amgen a rhesymoli ysgolion
- Thema 3 – Cydnabod cyfraniad cadarnhaol yr ysgol mewn perthynas â'r disgyblion a'r gymuned

6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny. Mae'r cyfrif ar gyfer pob thema yn adlewyrchu nifer yr ymatebion unigryw sy'n sôn amdani:

Y Pryderon a Fynegwyd			
Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
1.	Cydllynant Cymunedol a Chynaliadwyedd y Pentref	77	92%
<p>Roedd y pryder a fynegwyd amlaf yn y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ymwneud â rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel rhan ganolog o fywyd y pentref a'r effaith bosibl y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar gynaliadwyedd hirdymor y gymuned. Roedd yr ymatebwyr yn disgrifio'r ysgol yn gyson fel calon y pentref gan ddadlau bod ei phwysigrwydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol. Roedd llawer o wrthwynebiadau'n nodi bod yr ysgol yn gweithredu fel y prif ganolbwynt lle mae teuluoedd, plant, mam-gu a thad-cu ac aelodau o'r gymuned yn dod at ei gilydd yn rheolaidd. Cyfeiriodd nifer o ymatebion at yr ysgol fel un o'r ychydig leoedd sy'n weddill sy'n parhau i uno gwahanol genedlaethau a chynnal cysylltiadau cymdeithasol cryf o fewn y pentref. Mynegodd nifer o wrthwynebwyr bryder y byddai cau'r ysgol yn gwanhau bywyd cymunedol yn sylweddol ac yn cyflymu'r broses o golli gwasanaethau a chyfleusterau lleol pwysig yn raddol. Roedd yr ymatebwyr wedi nodi'n aml fod llawer o gymunedau gwledig eisoes wedi colli siopau, capeli, tafarndai, swyddfeydd post ac amwynderau eraill, gan ddadlau y byddai cau'r ysgol yn cynrychioli colli elfen hanfodol arall o fywyd y pentref.</p> <p>Roedd llawer o ymatebwyr wedi pwysleisio'r cyfraniad y mae'r ysgol yn ei wneud mewn perthynas â chreu a chynnal perthnasoedd rhwng trigolion. Roedd gwrthwynebiadau'n cyfeirio at ryngweithiadau dyddiol adeg amseroedd gollwng a chasglu plant o'r ysgol, digwyddiadau'r ysgol, gweithgareddau codi arian, perfformiadau, digwyddiadau chwaraeon ac achlysuron cymunedol. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod y cyfleoedd hyn yn dod â phobl at ei gilydd, yn creu</p>			

rhwydweithiau cymorth ac yn cryfhau perthnasoedd rhwng teuluoedd. Roedd sawl gwrthwynebydd wedi disgrifio'r ysgol fel man cyfarfod naturiol lle mae cyfeillgarwch a chysylltiadau cymunedol yn cael eu ffurfio a'u cynnal. Awgrymwyd hefyd fod gweithgareddau'r ysgol yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig mewn cymuned wledig lle gall cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol rheolaidd fod yn fwy cyfyngedig. Roedd nifer o'r ymatebion wedi tynnu sylw at y rôl y mae'r ysgol yn ei chwarae o ran cefnogi llesiant cymunedol ehangach trwy feithrin ymdeimlad o berthyn ac annog pobl i gymryd rhan weithredol mewn bywyd cymunedol. Y farn a fynegwyd yn aml gan wrthwynebwyr oedd y byddai cau'r ysgol yn gwanhau'r rhwydweithiau hyn ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol ystyrlon ar draws y pentref.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr wedi cysylltu dyfodol yr ysgol yn uniongyrchol â hyfywedd Meidrim yn y dyfodol fel cymuned wledig ffyniannus. Nododd gwrthwynebwyr dro ar ôl tro fod mynediad i ysgol bentref leol yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar ble mae teuluoedd yn dewis byw a magu eu plant. Mynegodd llawer bryder y byddai cau'r ysgol yn gwneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd ifanc a gallai gyfrannu at ostyngiad yn y boblogaeth yn y tymor hwy. Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai absenoldeb ysgol leol yn annog pobl rhag mewnfudo ac y gallai newid proffil demograffig y pentref yn y pen draw. Mynegwyd pryderon y gallai'r gymuned ddod yn fwyfwy dibynnol ar boblogaeth sy'n heneiddio os bydd cyfleoedd i deuluoedd iau yn cael eu lleihau. Cyfeiriodd nifer o'r gwrthwynebwyr at ddatblygiadau tai arfaethedig a thwf posibl yn nifer y disgyblion yn y dyfodol fel tystiolaeth bod gan y pentref y gallu i gefnogi ysgol a chymuned gynaliadwy yn y dyfodol. Dadleuwyd y gallai cau'r ysgol danseilio'r potensial hwn a chael gwared ar ased pwysig ar adeg pan fo cyfleoedd ar gyfer adfywio a thwf yn bodoli.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ystyried Ysgol Gynradd Meidrim fel elfen hanfodol o seilwaith cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach y pentref. Roedd y gwrthwynebiadau'n aml yn dadlau y byddai canlyniadau cau'r ysgol yn ymestyn y tu hwnt i addysg ac y byddai'n effeithio ar hunaniaeth, cyfranogiad a gwydnwch cymunedol am flynyddoedd lawer i ddod. Dywedodd sawl ymatebydd, unwaith y bydd ysgol wledig yn cau, ei bod hi'n hynod o anodd, os nad yn amhosibl, gwrthdroi'r penderfyniad neu ail-greu'r manteision a ddarparodd yr ysgol. Disgrifiodd gwrthwynebwyr y cynnig dro ar ôl tro fel un a oedd nid yn unig yn cau adeilad ond yn dileu sefydliad hirsefydlog sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a bywiogrwydd yr ardal leol. Y farn lethol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod yr ysgol yn chwarae rôl hanfodol o ran cynnal bywyd cymunedol ac y byddai ei chau yn cael canlyniadau dwys ac, o bosibl, anadferadwy, o ran cydlyniant, gwydnwch a chynaliadwyedd Meidrim yn y dyfodol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cryfder y teimladau a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr ynglŷn â rôl Ysgol Gynradd Meidrim o fewn y gymuned ac yn cydnabod bod yr ysgol yn cael ei hystyried yn rhan bwysig o fywyd y pentref. Trwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu, disgrifiodd llawer o ymatebwyr yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, cyfranogiad cymunedol ac ymgysylltu rhwng cenedlaethau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn aml yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth a chydlyniant cymunedol trwy eu cyfranogiad mewn gweithgareddau, digwyddiadau a phartneriaethau lleol. Mae'r manteision cymunedol ehangach hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac wedi llywio asesiad yr Awdurdod o effaith bosibl y cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon y gallai cau'r ysgol effeithio ar gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol o fewn y pentref a gallai newid rhai patrymau sydd wedi'u sefydlu mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd digwyddiadau'r ysgol, gweithgareddau codi arian, perfformiadau a chysylltiad anffurfiol o ddydd i ddydd wrth ddod â thrigolion at ei gilydd a chryfhau perthnasoedd cymunedol. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall y gweithgareddau hyn wneud cyfraniad gwerthfawr at lesiant cymunedol a chydlyniant cymdeithasol. Am y rheswm hwn, cynhaliwyd Asesiad manwl o'r Effaith ar y Gymuned i werthuso effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y cynnig ar y gymuned ac i nodi unrhyw fesurau lliniaru posibl pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Wrth ystyried y pryderon hyn, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod wahaniaethu rhwng y cyfraniad pwysig y mae ysgol yn ei wneud i gymuned a'i phrif swyddogaeth fel sefydliad addysgol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion yn aml yn gwasanaethu fel asedau cymunedol, mae'n ofynnol i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ystyried ystod eang o ffactorau gan gynnwys darpariaeth addysgol, nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth, lleoedd gwag a hyfywedd hirdymor. Mae effeithiau cymunedol yn elfen bwysig o'r asesiad hwn ond mae'n rhaid eu cydbwyso â chyfrifoldeb statudol yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion y dysgwyr presennol a'r dysgwyr yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus y pryderon y gallai cau'r ysgol effeithio ar ddengarwch a bywiogrwydd Meidrim yn y dyfodol fel lle i deuluoedd fyw. Mynegodd gwrthwynebwyr bryderon y gallai colli ysgol bentref atal pobl rhag mewnfudo a chyfrannu at newid demograffig dros amser. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y safbwyntiau hyn, mae'n bwysig nodi bod ystod eang o ffactorau

cymdeithasol, economaidd a demograffig yn dylanwadu ar gynaliadwyedd cymunedol, ac mae llawer o'r ffactorau hyn yn gweithredu ar wahân i ddarpariaeth ysgolion. Mae argaeledd tai, cyfleoedd cyflogaeth, seilwaith trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau a thueddiadau poblogaeth ehangach i gyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor cymunedau gwledig. Er y gall ysgol leol fod yn ffactor pwysig i rai teuluoedd, nid yw'r Awdurdod wedi nodi tystiolaeth bendant fod hyfywedd y gymuned yn y dyfodol yn dibynnu ar weithrediad parhaus yr ysgol yn unig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi bod rhai gwrthwynebwyr wedi codi pryderon ynghylch twf poblogaeth yn y dyfodol a chynnydd posibl yn nifer y disgyblion. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried ochr yn ochr â data demograffig, amcanestyniadau o nifer y disgyblion a gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygiadau tai arfaethedig. Er bod gan ddatblygiadau yn y dyfodol y potensial i ddylanwadu ar dueddiadau poblogaeth, mae'n rhaid asesu cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch amcanestyniad o niferoedd y dysgwyr a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cymesur a rhesymol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr yr ysgol i fywyd cymunedol, mae'n fodlon y gallir parhau i ddiwallu anghenion addysgol disgyblion drwy ddarpariaeth amgen a bod y cynnig yn adlewyrchu dull cytbwys o sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy wrth ystyried effeithiau cymunedol.

2.	Manteision Ysgolion Bach a Dosbarthiadau Bach	66	78%
-----------	--	-----------	------------

Tynnodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr sylw at yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn fanteision addysgol, cymdeithasol a bugeiliol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol fach. Dadl llawer o'r gwrthwynebwyr oedd bod maint yr ysgol yn galluogi'r staff i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o bob disgybl fel unigolyn, yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i'w anghenion addysgol a phersonol. Cyfeiriodd y rhieni'n aml at natur bersonol y cymorth a ddarperir gan nodi bod y plant yn elwa ar gael lefel o sylw a allai fod yn anoddach i'w chyflawni mewn lleoliadau addysgol mwy o faint. Dywedodd sawl ymatebydd fod yr athrawon yn gallu nodi cryfderau, heriau a meysydd sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar, gan ganiatáu i ymyriadau gael eu teilwra'n briodol. Roedd llawer o wrthwynebwyr o'r farn bod y dull personol hwn yn un o gryfderau mwyaf yr ysgol ac yn dadlau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyrhaeddiad addysgol a datblygiad personol.

Rhoddodd ymatebwyr bwyslais sylweddol hefyd ar ansawdd perthnasoedd sy'n datblygu mewn amgylchedd ysgol llai o faint. Disgrifiodd llawer fod gan Ysgol Gynradd Meidrim awyrgylch agos a

theuluol lle mae'r disgyblion, y staff a'r rhieni yn adnabod ei gilydd yn dda. Cyfeiriodd gwrthwynebwyr yn aml at blant yn cael eu hadnabod wrth eu henwau ledled yr ysgol ac at staff sydd â gwybodaeth dda am amgylchiadau, personoliaethau ac anghenion disgyblion unigol. Esboniodd sawl rhiant fod y cyfathrebu agos rhwng yr ysgol a'r cartref yn caniatáu i bryderon gael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol. Roedd cyn-ddisgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned yn aml yn cyfeirio at y ffaith bod y disgyblion yn cael profiad o gynhwysiant ac yn cael ymdeimlad o berthyn o fewn yr ysgol ac roeddent yn awgrymu bod hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder a hunan-barch. Dadleuwyd yn aml fod y perthnasoedd cryf hyn yn helpu i greu amgylchedd dysgu cefnogol lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd llawer o wrthwynebiadau'n tynnu sylw at y manteision cymdeithasol sy'n gysylltiedig â dysgu mewn cymuned ysgol fach. Disgrifiodd yr ymatebwyr sut mae'r disgyblion yn rhyngweithio'n rheolaidd â phlant o wahanol grwpiau blwyddyn ac yn datblygu cyfeillgarwch ar draws ystod oedran eang. Awgrymwyd bod plant iau yn elwa ar gael disgyblion hŷn fel esiamplau, ac mae disgyblion hŷn yn magu hyder ac yn ennill sgiliau arwain trwy gefnogi dysgwyr iau. Dywedodd sawl gwrthwynebydd fod yr amgylchedd oedran cymysg yn helpu plant i ddatblygu empathi, cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Disgrifiodd rhai ymatebwyr gymuned yr ysgol fel un sy'n gweithredu fel teulu estynedig lle mae'r plant yn dysgu i gydweithredu, cefnogi ei gilydd a gweithio ar y cyd. Roedd llawer o'r farn bod y cyfleoedd hyn yn arbennig o werthfawr wrth helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd pwysig ochr yn ochr â'u dysgu academaidd ac roeddent yn dadlau bod profiadau o'r fath yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cyffredinol disgyblion.

Dadl oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd nad yw ysgolion mwy o faint yn addas i bob plentyn ac y dylai darpariaeth addysgol gydnabod anghenion gwahanol ddysgwyr unigol. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder y gallai rhai plant gael trafferth ffynnu mewn amgylcheddau addysgol mwy o faint, prysurach ac roeddent yn dadlau bod ysgolion llai o faint yn darparu dewis arall gwerthfawr i'r rhai sy'n elwa ar leoliad tawelach a mwy meithringar. Cyfeiriwyd yn arbennig at blant sy'n swil, yn bryderus, yn brin o hyder neu sydd angen cymorth ychwanegol. Disgrifiodd sawl gwrthwynebydd enghreifftiau o blant yn ffynnu yn Ysgol Gynradd Meidrim oherwydd amgylchedd cefnogol yr ysgol a'r sylw unigol sydd ar gael iddynt. Roedd rhieni'n aml yn dadlau bod cynnal ystod o leoliadau addysgol yn galluogi teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion eu plant orau ac y dylid felly gydnabod y buddion a gynigir gan ysgolion gwledig bach fel rhan bwysig o'r system addysg ehangach. Y farn gref a fynegwyd gan yr ymatebwyr

oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu amgylchedd addysgol lle mae llawer o blant yn ffynnu ac y dylid ystyried y manteision hyn yn ofalus wrth werthuso'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr ynghylch manteision canfyddedig ysgolion bach ac yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd personol a chefnogol a ddarperir gan Ysgol Gynradd Meidrim. Tynnodd rhieni ac aelodau o'r gymuned sylw at y berthynas agos rhwng y staff, y disgyblion a'r teuluoedd, ynghyd â'r sylw unigol y gellir ei ddarparu mewn ysgol fach. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y nodweddion hyn yn aml yn cael eu hystyried yn gryfderau ysgolion bach a gallant gyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau addysgol, llesiant ac ymdeimlad o berthyn disgyblion. Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn dangos y parch mawr sydd gan lawer o aelodau o'r gymuned at yr ysgol, gan adlewyrchu eu hyder yn y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod barn yr ymatebwyr y gall maint dosbarthiadau llai a pherthnasoedd agos rhwng y staff a'r disgyblion gefnogi'r gwaith o adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar a hwyluso cymorth wedi'i deilwra. Mae gofal bugeiliol effeithiol, cyfathrebu cryf â theuluoedd ac amgylchedd dysgu meithringar yn cael eu cydnabod fel elfennau pwysig o ddarpariaeth addysgol lwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn nad yw'r deilliannau hyn yn cael eu pennu gan faint ysgol yn unig. Mae tystiolaeth gan Estyn ac ymchwil addysgol ehangach yn dangos yn gyson mai ansawdd arweinyddiaeth, addysgu, cymorth i ddysgwyr a diwylliant ysgol yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol wrth ddylanwadu ar lesiant disgyblion a deilliannau addysgol. O ganlyniad, er y gall maint ysgol gyfrannu at brofiadau penodol, ni ddylid ei ystyried ar ei ben ei hun fel modd o fesur effeithiolrwydd addysgol.

Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus allu'r ysgolion derbyn arfaethedig i ddarparu cymorth unigol priodol i ddysgwyr. Mae Ysgol Hafodwenog yn ysgol wledig gymharol fach ac mae'n cynnig amgylchedd dysgu sy'n rhannu rhai nodweddion â'r hyn a brofir gan ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol sylweddol fwy, sy'n darparu mynediad i ddysgwyr i grwpiau cyfoedion mwy o faint, ystod ehangach o ryngweithiadau cymdeithasol a chyfleoedd addysgol ehangach.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan y ddwy ysgol systemau a phrosesau sefydledig ar waith i gefnogi llesiant disgyblion, monitro cynnydd unigol ac ymateb i anghenion ychwanegol dysgwyr. Mae'r trefniadau arweinyddiaeth, y strwythurau staffio a'r systemau cymorth bugeiliol presennol yn rhoi

sicrwydd y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig yn parhau i dderbyn lefelau priodol o ofal, arweiniad a chymorth addysgol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pwysigrwydd roedd y gwrthwynebwyr yn ei roi ar ddysgu oedran cymysg a'r cyfleoedd y gall hyn eu darparu ar gyfer cael cymorth gan gyfoedion, datblygu arweinyddiaeth a rhyngweithio cymdeithasol ar draws grwpiau blwyddyn. Mae'r manteision hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r broses asesu. Fodd bynnag, nid yw trefniadau addysgu oedran cymysg yn unigryw i Ysgol Gynradd Meidrim ac maent yn nodwedd o lawer o ysgolion cynradd gwledig ledled y sir, gan gynnwys yr ysgolion derbyn arfaethedig. Mae'r Awdurdod felly yn fodlon y byddai'r disgyblion yn parhau i elwa ar gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol, sgiliau cymdeithasol a nodweddion personol ehangach yn eu lleoliadau addysgol newydd. Ar ben hynny, gall carfanau disgyblion mwy o faint hefyd ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu cyfeillgarwch, ymgysylltu cymdeithasol a phrofiadau dysgu cydweithredol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon y gallai pontio i amgylchedd ysgol mwy o faint fod yn heriol i rai disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n llai hyderus neu sy'n elwa ar gymorth personol iawn. Am y rheswm hwn, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Byddai'r trefniadau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi disgyblion a theuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl trosglwyddo, gan helpu dysgwyr i ddod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ysgol newydd a sefydlu perthynas gadarnhaol â staff a chyfoedion. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'r Awdurdod yn credu bod y manteision addysgol a bugeiliol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol fach yn drech na'r heriau tymor hwy sy'n ymwneud â nifer y disgyblion, cynaliadwyedd a hyfywedd. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon y gall disgyblion barhau i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel, gofal bugeiliol effeithiol a chymorth unigol priodol o fewn yr ysgolion derbyn arfaethedig.

3.	Y Gymraeg a Chymunedau Cymraeg	61	73%
-----------	---------------------------------------	-----------	------------

Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg a'r rôl y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae wrth gefnogi'r addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel cyfrannwr pwysig i gymeriad ieithyddol y gymuned ac roeddent yn dadlau ei bod yn darparu cyfleoedd i blant ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus waeth beth fo'u cefndir ieithyddol. Esboniodd sawl gwrthwynebydd fod plant sy'n dod o aelwydydd Saesneg wedi llwyddo i ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg trwy fynychu'r ysgol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn tynnu sylw at lwyddiant yr ysgol o ran helpu disgyblion i ddod

yn rhugl gan awgrymu ei bod yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Felly, roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn cwestiynu a fyddai cau ysgol cyfrwng Cymraeg lwyddiannus yn cefnogi uchelgeisiau lleol a chenedlaethol ehangach i hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hefyd rôl yr ysgol wrth annog defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr yn aml at y ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu gweithgareddau bob dydd, gyda'u ffrindiau ac yn ystod rhyngweithiadau cymunedol. Nododd sawl ymateb fod y plant sy'n mynychu'r ysgol yn aml yn defnyddio'r iaith gartref, gan annog rhieni, mam-gu a thad-cu ac aelodau eraill o'r teulu i ymgysylltu â'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau a'u hyder eu hunain. Disgrifiodd rhai o'r ymatebwyr sut roedd mynychu Ysgol Gynradd Meidrim wedi ysbrydoli teuluoedd cyfan i ddysgu Cymraeg a chymryd mwy o ran mewn gweithgareddau Cymraeg. Dadleuwyd bod yr ysgol yn cyfrannu nid yn unig at gaffaeliad iaith y plant ond hefyd at hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach o fewn teuluoedd a'r gymuned gyfagos. Felly, roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn gweld yr ysgol fel mecanwaith pwysig ar gyfer cryfhau'r iaith ar draws sawl cenhedlaeth.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd yr effaith bosibl y gallai cau'r ysgol ei chael ar fywiogrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol yn y dyfodol. Dadl yr ymatebwyr oedd bod ysgolion fel Ysgol Gynradd Meidrim yn sefydliadau allweddol o fewn cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith, a'u bod yn darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel rhan o fywyd bob dydd. Roedd sawl sylw yn mynegi pryder y gallai gwasgaru'r disgyblion rhwng gwahanol ysgolion wanhau rhwydweithiau Cymraeg sefydledig a lleihau cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu grwpiau cyfeillgarwch a gweithgareddau cymunedol ehangach. Tynnodd rhai gwrthwynebwyr sylw hefyd at bryderon ynghylch trefniadau derbyn ysgol, gan nodi bod un ysgol dderbyn arfaethedig ar hyn o bryd yn gweithredu darpariaeth ddeuol o ran iaith. Awgrymwyd y gallai cau'r ysgol felly arwain at lai o gyfleoedd i blant gael amgylchedd addysgol cyfrwng Cymraeg llawn ac y gallai hyn gael goblygiadau ehangach ar gyfer defnydd hirdymor o'r Gymraeg yn yr ardal.

Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd bod arwyddocâd Ysgol Gynradd Meidrim yn ymestyn y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol a bod yr ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg eu hiaith. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr yn aml at y berthynas rhwng ysgolion gwledig, hunaniaeth gymunedol a throsglwyddo iaith, gan awgrymu bod ysgolion yn gweithredu fel canolfannau pwysig lle mae iaith a diwylliant yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Mynegodd sawl ymatebydd bryderon am y ffaith fod cau ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn

ardaloedd gwledig yn cyfrannu at wanhau cymunedau Cymraeg yn raddol ac yn tanseilio ymdrechion i gadw'r iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dadleuwyd y gall fod yn anodd gwrthdroi'r effeithiau ieithyddol a diwylliannol ehangach unwaith y bydd sefydliad cyfrwng Cymraeg yn cael ei dynnu o gymuned. Y farn gyffredin a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn gwneud cyfraniad sylweddol mewn perthynas â hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg a'i chynaliadwyedd, ac y dylid ystyried y cyfraniad hwn yn sylweddol wrth asesu'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn deall y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg ac mae'n cydnabod y rôl bwysig y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae ar hyn o bryd wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at lwyddiant yr ysgol wrth gefnogi dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, gan bwysleisio'i chyfraniad mewn perthynas â bywyd ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ac mae wedi ymrwymo i gefnogi amcanion strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg a'r goblygiadau posibl o ran datblygiad iaith y dysgwyr. Mae'r Awdurdod yn fodlon y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion yr effeithir arnynt yn yr ysgolion derbyn arfaethedig. Mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac mae ganddynt drefniadau sefydledig ar waith i gefnogi dilyniant ieithyddol dysgwyr. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig yn lleihau mynediad disgyblion at addysg cyfrwng Cymraeg nac yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Awdurdod yn hyderus y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylcheddau sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd ac yn cefnogi safonau uchel o ran caffael iaith.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod barn yr ymatebwyr ynglŷn â chyfraniad yr ysgol at y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn cydnabod y gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth annog defnydd ehangach o'r iaith o fewn teuluoedd a chymunedau. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at enghreifftiau o blant o aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn datblygu rhuglder ac yn hyrwyddo'r iaith yn eu cartrefi a'u rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth y profiadau hyn ac yn derbyn y gall ysgolion wneud cyfraniad sylweddol mewn perthynas â throsglwyddo iaith a chyfranogiad diwylliannol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd o'r farn bod y

gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei gefnogi drwy ystod eang o gyfleoedd addysgol, cymunedol a diwylliannol ar draws y sir ac nad yw'n dibynnu ar barhad ysgol benodol yn unig. Mae datblygu'r Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws pob ysgol cyfrwng Cymraeg ac o fewn Cynllun Strategol ehangach y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod, waeth beth fo categori iaith yr ysgol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried pryderon ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg a chynaliadwyedd hirdymor y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mynegodd y gwrthwynebwyr bryderon y gallai gwasgaru disgyblion i ysgolion amgen effeithio ar grwpiau cyfeillgarwch sydd wedi'u sefydlu a lleihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned leol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon hyn, mae'n nodi y byddai'r disgyblion yn dal i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfagos sy'n mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd yr ysgolion. Mae'r ysgolion derbyn eisoes yn cefnogi dysgwyr o ystod o gymunedau ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol trwy addysgu, gweithgareddau allgyrsiol, rhyngweithiadau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Mae'r Awdurdod felly yn fodlon y byddai dal cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg ar ôl gweithredu'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ymhellach y berthynas agos sy'n bodoli rhwng cymunedau gwledig, ysgolion lleol a'r Gymraeg. Mae ysgolion yn aml yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth gymunedol a pharhad diwylliannol, ac mae'r manteision ehangach hyn wedi'u hystyried yn ofalus drwy'r broses ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gydbwysu'r ystyriaethau hyn mewn perthynas â ffactorau eraill gan gynnwys cynaliadwyedd addysgol, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, hyfywedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth a defnydd effeithlon o adnoddau. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn dal i fod yn fodlon na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar addysg cyfrwng Cymraeg na gallu dysgwyr i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn credu y gellir parhau i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg gadarn drwy'r ysgolion derbyn gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor addysg ar draws y sir.

4.	Llesiant Disgyblion, Diogelwch ac Ymdeimlad o Berthyn	55	66%
Mynegodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr bryder am yr effaith y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar lesiant disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel amgylchedd diogel, meithringar a chefnogol lle mae'r plant yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Cyfeiriodd y rhieni'n aml at y perthnasoedd cryf sy'n			

bodoli rhwng y disgyblion a'r staff, gan esbonio bod y plant yn elwa ar gael eu haddysgu mewn amgylchedd lle maent yn cael eu hadnabod a'u deall yn dda. Dywedodd sawl ymatebydd, oherwydd bod yr ysgol yn fach, fod y staff yn gallu nodi pryderon yn gyflym a darparu cymorth addysgol a bugeiliol wedi'i deilwra i anghenion unigol. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn ystyried yr amgylchedd cefnogol hwn fel un o gryfderau mwyaf yr ysgol ac roeddent yn dadlau bod hyn yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant emosiynol, hyder a datblygiad cyffredinol y disgyblion.

Roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar bwysigrwydd yr ymdeimlad o berthyn sydd gan y disgyblion yng nghymuned yr ysgol. Disgrifiodd y gwrthwynebwyr dro ar ôl tro Ysgol Gynradd Meidrim fel man lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn, eu cynnwys a'u parchu. Dywedodd sawl rhiant fod eu plant yn mwynhau mynychu'r ysgol a'u bod wedi datblygu perthynas gref â'r staff a'u cyd-ddisgyblion. Dadl yr ymatebwyr oedd bod natur glos yr ysgol yn helpu'r plant i deimlo'n rhan o gymuned ehangach ac mae'n creu amgylchedd lle maent yn gyfforddus yn bod yn nhw eu hunain. Disgrifiodd nifer o gyn-ddisgyblion, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned fod gan yr ysgol awyrgylch teuluol lle mae plant o wahanol oedrannau'n cefnogi ei gilydd a lle mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cydnabod fel unigolyn. Roedd llawer o'r farn bod yr ymdeimlad hwn o berthyn yn ffactor pwysig wrth hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu a helpu plant i ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd yr effaith emosiynol bosibl o drosglwyddo disgyblion i ysgolion eraill. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y byddai cau'r ysgol yn golygu bod angen i blant adael amgylchedd cyfarwydd, oedolion dibynadwy a grwpiau cyfeillgarwch sefydledig. Tynnodd sawl rhiant sylw at y ffaith y gall newid fod yn arbennig o anodd i blant iau ac i'r rhai sy'n dibynnu'n helaeth ar drefn a sefydlogrwydd. Awgrymodd y gwrthwynebwyr yn aml y gallai colli rhwydweithiau cymorth sefydledig arwain at fwy o bryder, llai o hyder ac anawsterau addasu i amgylchedd addysgol newydd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch gofyn i ddisgyblion integreiddio mewn ysgolion mwy o faint lle byddai angen ailfeithrin perthynas â staff a chyfoedion. Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd y dylid ystyried canlyniadau emosiynol proses bontio o'r fath yn ofalus a rhoi pwys sylweddol ar hynny yn y broses o wneud penderfyniad.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr y dylai llesiant plant aros yn ganolog i unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol yr ysgol. Dadl sawl gwrthwynebydd oedd na ddylai penderfyniadau addysgol fod yn seiliedig ar ffactorau fel cyllid, gallu neu drefniadau trefniadaethol yn unig ond y dylent hefyd ystyried anghenion emosiynol, cymdeithasol a seicolegol disgyblion. Cyfeiriwyd yn aml at bwysigrwydd sefydlogrwydd, parhad a chynnal amgylcheddau addysgol cefnogol yn ystod

blynyddoedd plant yn yr ysgol gynradd. Awgrymodd rhai ymatebwyr efallai na fydd effeithiau cau'r ysgol ar lesiant yn weladwy ar unwaith ond y gallai effeithio ar ymgysylltu â dysgu, hyder a gwydnwch emosiynol plant dros gyfnod hwy. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd yn darparu amgylchedd cadarnhaol a meithringar sy'n cefnogi llesiant plant ac y dylid ystyried unrhyw bosibilrwydd o golli'r manteision hyn yn ofalus wrth werthuso'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Rhoddodd yr Awdurdod Lleol ystyriaeth ofalus i'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y cynnig ar lesiant y disgyblion ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd y mae'r rhieni, y gofawyr a'r gymuned ehangach yn ei roi ar yr amgylchedd cefnogol a ddarperir gan Ysgol Gynradd Meidrim. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel lleoliad meithringar lle mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn elwa ar berthnasoedd cryf, cymorth personol ac ymdeimlad cryf o ddiogelwch. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod perthnasoedd cadarnhaol, gofal bugeiliol effeithiol ac amgylchedd dysgu diogel yn elfennau sylfaenol o ddarpariaeth addysgol lwyddiannus. Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn adlewyrchu'r enw da sydd gan yr ysgol ac yn dangos y pwysigrwydd y mae'r rhanddeiliaid yn ei roi ar sicrhau bod llesiant y dysgwyr yn parhau i fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y farn bod y ffaith bod yr ysgol yn fach yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant emosiynol y disgyblion a bod hyn yn galluogi'r staff i nodi ac ymateb yn gyflym i anghenion unigol. Fodd bynnag, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y manteision a all ddeillio o gael perthynas agos rhwng staff a disgyblion, nid yw'n ystyried bod canlyniadau llesiant yn cael eu pennu yn unig gan faint ysgol. Mae tystiolaeth gan Estyn ac ymarfer addysgol ehangach yn tynnu sylw at y ffaith bod darpariaeth llesiant effeithiol yn cael ei hategu gan arweinyddiaeth gref, ymarferwyr medrus, diwylliant ysgol cynhwysol a systemau cymorth cadarn. Gellir dod o hyd i'r nodweddion hyn mewn ysgolion o wahanol feintiau. Fel rhan o'r broses asesu, mae'r Awdurdod felly wedi ystyried ansawdd y cymorth bugeiliol, y trefniadau diogelu a'r ddarpariaeth llesiant sydd ar gael yn yr ysgolion derbyn arfaethedig, yn hytrach na chanolbwyntio ar nifer y disgyblion yn unig.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried pryderon yn ofalus ynghylch ymdeimlad o berthyn disgyblion a phwysigrwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u hadnabod yng nghymuned yr ysgol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn datblygu perthynas gref â staff a chyfoedion, gan helpu i fagu hyder, hunan-barch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r Awdurdod yn derbyn pwysigrwydd

y ffactorau hyn ac felly mae wedi archwilio gallu'r ysgolion derbyn arfaethedig i ddarparu amgylcheddau dysgu cefnogol tebyg. Mae Ysgol Hafodwenog yn ysgol wledig gymharol fach ac mae'n cynnig amgylchedd dysgu sy'n rhannu rhai nodweddion â'r hyn y mae'r disgyblion yn ei brofi yn Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol sylweddol fwy, sy'n darparu mynediad i ddysgwyr at grwpiau cyfoedion mwy o faint, ystod ehangach o ryngweithiadau cymdeithasol a chyfleoedd addysgol ehangach. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan y ddwy ysgol y gallu i ddarparu amgylchedd croesawgar a chefnogol lle gall disgyblion ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a pharhau i ffynnu'n academiaidd ac yn bersonol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon ynghylch effaith emosiynol bosibl y broses bontio, yn enwedig ar ddysgwyr iau a'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid. Cydnabyddir y gall symud i ysgol newydd greu ansicrwydd a gall hyn olygu bod angen i ddisgyblion addasu i amgylcheddau, arferion, staff a grwpiau cyfoedion newydd. Am y rheswm hwn, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Byddai'r trefniadau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd rhwng yr ysgolion dan sylw a byddent yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion a'u teuluoedd ddod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ysgol newydd, sefydlu perthynas â staff a chyfoedion, a chael mynediad at gymorth priodol drwy gydol y broses bontio. Byddai sylw arbennig yn cael ei roi i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r Awdurdod yn cytuno bod yn rhaid i lesiant disgyblion aros yn ystyriaeth ganolog mewn cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion ac mae wedi gwerthuso'n ofalus yr effeithiau posibl a nodwyd drwy'r broses ymgynghori a gwrthwynebu. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo hefyd ystyried llesiant ochr yn ochr ag ystod ehangach o ffactorau, gan gynnwys safonau addysgol, cyfleoedd i ddysgwyr, cynaliadwyedd hirdymor, capasiti arweinyddiaeth a hyfywedd ariannol. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn systemau, staffio a strwythurau cymorth priodol ar waith i ddiogelu llesiant dysgwyr a chefnogi proses bontio lwyddiannus. Gan gydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr, bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion priodol i sicrhau bod llesiant yn cael ei ystyried o ddifrif wrth gynllunio'r broses bontio ac ati ac mae'n hyderus y byddai'r disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn amgylcheddau dysgu diogel, cefnogol a chynhwysol sy'n hyrwyddo datblygiad personol a llwyddiant addysgol.

5.	Yr Achos Ariannol dros Gau Heb ei Brofi	51	61%
-----------	--	-----------	------------

Cwestiynodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr y cyfiawnhad ariannol a gyflwynwyd i gefnogi'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr wedi cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod lleol ond roeddent wedi mynegi pryder fod yr arbedion a ragwelir sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn ymddangos yn gymharol gyfyngedig o gymharu â'r canlyniadau addysgol, cymdeithasol a chymunedol posibl a nodwyd mewn mannau eraill yn eu hymatebion. Dadl sawl ymatebydd oedd nad oedd y wybodaeth ariannol yn dangos achos digon cymhellol dros gau ysgol bentref yn barhaol ac roeddent yn awgrymu nad oedd costau a manteision ehangach wedi'u hystyried yn llawn. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr o'r farn bod y cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar ystyriaethau ariannol tymor byr yn hytrach na'r effeithiau tymor hwy ar y disgyblion, y teuluoedd a'r gymuned ehangach. Nododd yr ymatebwyr yn aml na ddylid asesu sefydliadau addysgol trwy fetrigau ariannol yn unig ac y dylai'r gwerth ehangach a ddarperir gan ysgol wledig fod yn rhan sylweddol o'r broses asesu.

Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryderon y gallai'r arbedion ariannol a ragwelir gael eu datgan yn rhy uchel oherwydd nad ydynt yn cyfrif yn llawn am wariant ychwanegol a allai godi ar ôl cau'r ysgol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y cynnydd tebygol mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol o ganlyniad i'r disgyblion yn teithio i ysgolion amgen ac roeddent yn cwestiynu a fyddai'r costau hyn yn lleihau unrhyw arbedion cyffredinol yn sylweddol. Roedd sawl sylw wedi tynnu sylw hefyd at y costau posibl sy'n gysylltiedig â darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol o fewn ysgolion derbyn, gan gynnwys buddsoddiad posibl mewn adeiladau, ystafelloedd dosbarth, staffio a seilwaith yn y dyfodol. Dadl rhai o'r gwrthwynebwyr oedd nad oedd y cyfrifiadau ariannol a gyflwynwyd yn adlewyrchu'n ddigonol y canlyniadau llawn o wasgaru disgyblion ar draws sawl ysgol ac roeddent yn awgrymu y gallai'r costau ymarferol o weithredu'r cynnig fod yn uwch na'r disgwyl ar hyn o bryd. Felly, mynegodd llawer o'r ymatebwyr ansicrwydd ynghylch a fyddai cau'r ysgol yn cyflawni'r lefel o fudd ariannol a awgrymir yn y dogfennau ategol.

Roedd pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau yn ymwneud â hyder yn y wybodaeth ariannol a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r broses o ran yr hysbysiad statudol. Roedd sawl ymatebydd wedi cyfeirio at ddiwygiadau a chywiriadau a wnaed i ffigurau ariannol yn ystod y broses ac roeddent yn dadlau bod hyn wedi arwain at lai o hyder yn yr achos ariannol sy'n cael ei ddatblygu. Awgrymodd rhai o'r gwrthwynebwyr fod anghysondebau yn y data ariannol wedi ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid ddeall yn llawn y rhesymeg economaidd sy'n sail i'r cynnig. Roedd nifer o'r ymatebion yn cwestiynu'n benodol a oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i dwf yn nifer y disgyblion

yn y dyfodol, demograffeg sy'n newid a datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd y gallai penderfyniadau sy'n seiliedig ar amgylchiadau ariannol presennol yn unig fethu ag ystyried cyfleoedd yn y dyfodol i wella cynaliadwyedd a chynyddu nifer y disgyblion dros amser. O ganlyniad, cwestiynodd llawer a oedd cau'r ysgol yn cynrychioli'r ateb ariannol hirdymor mwyaf priodol.

Dadl llawer o'r ymatebwyr hefyd oedd nad oedd dulliau amgen o wella cynaliadwyedd ariannol yr ysgol wedi'u harchwilio'n llawn cyn symud ymlaen tuag at gau'r ysgol. Cyfeiriwyd yn aml at drefniadau ffedereiddio, strwythurau arweinyddiaeth a rennir, darpariaeth gofal plant estynedig, modelau partneriaeth gymunedol, prosiectau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd cyllido allanol a allai gyfrannu at leihau costau gweithredu neu gynhyrchu incwm ychwanegol. Nododd sawl gwrthwynebydd fod cynigion wedi cael eu cyflwyno gan lywodraethwyr, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid lleol a oedd yn ceisio cryfhau hyfywedd hirdymor yr ysgol ac roeddent yn dadlau y dylid rhoi mwy o gyfle i'r mentrau hyn ddangos eu heffeithiolrwydd. Y farn gyffredinol a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd bod yr achos ariannol dros gau'r ysgol yn dal i fod yn anargyhoeddiadol a bod y costau addysgol, cymunedol a chymdeithasol posibl o gau'r ysgol yn debygol o fod yn drech na'r arbedion ariannol cyfyngedig y gellir eu cyflawni. Felly, daeth llawer i'r casgliad na ddylid bwrw ymlaen â chau'r ysgol hyd nes bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol wedi'u gwerthuso a'u dihybyddu'n llawn.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r cyfiawnhad ariannol dros y cynnig ac yn cydnabod bod llawer o'r gwrthwynebwyr yn cwestiynu a yw'r manteision ariannol a ragwelir yn ddigonol i drechu'r effeithiau addysgol, cymdeithasol a chymunedol sy'n gysylltiedig â chau Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r Awdurdod yn derbyn na ddylai penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion fod yn seiliedig ar ystyriaethau ariannol yn unig ac mae'n cadarnhau bod y cynnig wedi'i ddatblygu yn dilyn asesiad o ystod eang o ffactorau, gan gynnwys darpariaeth addysgol, llesiant dysgwyr, effaith gymunedol, addysg cyfrwng Cymraeg, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, capasiti arweinyddiaeth a chynaliadwyedd hirdymor. Mae ystyriaethau ariannol yn ffurfio un agwedd bwysig ar yr asesiad hwn ond nid dyma'r unig sail dros benderfyniad wrth werthuso dyfodol ysgol.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad manwl o sefyllfa ariannol bresennol a rhagamcanol yr ysgol ynghyd â'r pwysau ariannol ehangach sy'n effeithio ar y gyllideb addysg. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n

effeithlon a bod y ddarpariaeth addysgol yn dal i fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er bod yr ymatebwyr wedi dadlau y gall yr arbedion a ragwelir ymddangos yn gyfyngedig o'u hystyried ar wahân, mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried effaith gronol cynnal ysgolion sydd â nifer isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a heriau ariannol cynyddol. Mae'r materion hyn yn effeithio nid yn unig ar ysgolion unigol ond hefyd ar gynaliadwyedd y system addysg ehangach. O ganlyniad, mae'r cynnig wedi'i ystyried yng nghyd-destun Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach y Cyngor a'i ymrwymiad i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon ynghylch costau posibl sy'n deillio o weithredu'r cynnig, gan gynnwys cludiant i ddysgwyr a lle i ddisgyblion mewn ysgolion derbyn. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynnig ac maent yn rhan o'r asesiad ariannol cyffredinol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgolion gynhyrchu costau ychwanegol; ond mae'n rhaid cydbwysu'r rhain mewn perthynas â chostau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth addysgol mewn ysgol sy'n wynebu heriau hyfywedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn arfaethedig ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol a bod unrhyw oblygiadau o ran cludiant wedi'u hystyried yn briodol yn unol â'r polisïau a'r cyfrifoldebau statudol presennol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch newidiadau i wybodaeth ariannol yn ystod y broses ymgynghori ac effaith hynny ar hyder rhanddeiliaid. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir drwy gydol y broses yn gywir, yn dryloyw ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ar y pryd. Lle roedd angen rhoi eglurhad neu wneud diwygiadau, gwnaed y rhain i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae amcanestyniadau ariannol, yn ôl eu natur, yn cael eu hadolygu wrth i'r amgylchiadau newid ac wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y wybodaeth ariannol sy'n cefnogi'r cynnig yn darparu cynrychiolaeth gywir o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol a'r gyllideb addysg ehangach a bod y wybodaeth honno'n ei alluogi i ystyried y cynnig yn wybodus.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y farn y dylid archwilio opsiynau amgen yn llawn cyn ystyried cau'r ysgol, fodd bynnag, nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol bod opsiynau amgen yn cael eu rhoi ar waith. Trwy gydol y broses adolygu, mae amrywiaeth o ddewisiadau amgen wedi'u harchwilio, gan gynnwys trefniadau cydweithio, modelau arweinyddiaeth a mesurau eraill a fwriedir i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan lywodraethwyr, staff, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid lleol i nodi atebion posibl.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion fod yn seiliedig ar asesiad ynghylch a yw dulliau o'r fath yn gallu mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol ar sail gynaliadwy. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys rhagolygon ariannol, amcanestyniadau o nifer y disgyblion ac asesiadau hyfywedd, mae'r Awdurdod yn dal i fod o'r farn bod y cynnig yn cynrychioli'r ateb hirdymor mwyaf priodol a chynaliadwy. Er ei fod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr, mae'r Awdurdod yn fodlon y dylid ystyried yr achos ariannol ochr yn ochr â'r ffactorau addysgol a threfniadaethol ehangach sy'n cefnogi'r cynnig a bod y cynnig yn adlewyrchu dull cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth o sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

6.	Hunaniaeth Gymunedol, Treftadaeth a Chysylltiadau rhwng Cenedlaethau	40	48%
-----------	---	-----------	------------

Cyfeiriodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr at y cysylltiad hirsefydlog rhwng Ysgol Gynradd Meidrim a'r teuluoedd sydd wedi bod yn byw yn y gymuned dros sawl cenhedlaeth. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel rhan bwysig o'u hanes personol a theuluol ac roeddent wedi nodi bod sawl cenhedlaeth o'r un teulu wedi mynychu'r ysgol. Roedd cyfeiriadau at rieni, mam-gu a thad-cu, hen dad-cu a hen fam-gu ac aelodau ehangach o'r teulu yn cael eu haddysg yn Ysgol Gynradd Meidrim wedi ymddangos yn y gwrthwynebiadau a ddaeth i law. Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd bod yr ysgol yn cynrychioli llawer mwy na lle addysg a'i bod yn gwasanaethu fel cysylltiad cyffredin rhwng cenedlaethau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ymhlith teuluoedd lleol. Dywedodd sawl gwrthwynebydd fod hanes yr ysgol wedi'i gysylltu'n agos â hanes y pentref ei hun ac roeddent yn awgrymu y byddai cau'r ysgol yn arwain at golli sefydliad sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth lunio bywyd cymunedol ers degawdau lawer.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hefyd bwysigrwydd yr ysgol wrth gynnal ymdeimlad cyfunol o hunaniaeth o fewn y pentref. Roedd y gwrthwynebiadau yn aml yn cyfeirio at yr ysgol fel symbol o'r gymuned leol a'i bod yn ffynhonnell balchder i'r trigolion. Nododd sawl gwrthwynebydd mai Ysgol Gynradd Meidrim yw un o'r ychydig sefydliadau sy'n weddill sy'n parhau i gysylltu gwahanol genedlaethau a dod â theuluoedd o bob rhan o'r ardal at ei gilydd. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd bod y profiadau cyffredin sy'n cael eu creu trwy fynychu ysgol y pentref yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac ymlyniad at le. Awgrymwyd bod y plant sy'n mynychu'r ysgol yn datblygu cysylltiad dyfnach â'u cymuned, yr hanes lleol a'r bobl o'u cwrpas. Roedd llawer o'r farn bod y ffactorau hyn

yn bwysig wrth gynnal cymuned wledig fywiog ac roeddent yn dadlau y byddai cau'r ysgol yn gwanhau un o'r elfennau allweddol sy'n cyfrannu at hunaniaeth unigryw'r pentref.

Thema dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd y pryder y byddai cau'r ysgol yn tarfu ar y parhad sydd wedi bodoli rhwng cenedlaethau o deuluoedd sydd wedi mynychu Ysgol Gynradd Meidrim. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr dristwch am y posibilrwydd na fyddai plant yng nghenedlaethau'r dyfodol bellach yn cael y cyfle i fynychu'r un ysgol â'u rhieni, eu mam-gu a'u tad-cu ac aelodau eraill o'r teulu. Disgrifiwyd yr ysgol mewn sawl sylw fel lle mae traddodiadau, atgofion a pherthnasoedd wedi cael eu trosglwyddo trwy genedlaethau o deuluoedd. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn cyfeirio at ddigwyddiadau ysgol, cyflawniadau addysgol, dathliadau cymunedol a phrofiadau personol a oedd wedi creu atgofion am oes i deuluoedd lleol. Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd bod y cysylltiadau rhwng y cenedlaethau hyn yn rhan bwysig o wead cymdeithasol y pentref a'u bod yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o gymuned sy'n bodoli heddiw. Roeddent yn awgrymu y byddai cau'r ysgol yn torri cysylltiad pwysig rhwng cenedlaethau ac yn lleihau agwedd werthfawr ar fywyd cymunedol.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod cadw Ysgol Gynradd Meidrim yn bwysig nid yn unig i'r disgyblion presennol ond hefyd i ddiogelu treftadaeth ac etifeddiaeth y gymuned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dadl sawl gwrthwynebydd oedd bod ysgolion gwledig yn chwarae rôl unigryw o ran cadw traddodiadau lleol, straeon cymunedol a chof diwylliannol. Nodwyd yn aml y gall llawer o'r hunaniaeth sy'n gysylltiedig ag ysgol gael ei cholli'n barhaol unwaith y bydd hi'n cau. Mynegodd yr ymatebwyr bryder y gallai cenedlaethau'r dyfodol gael llai o gyfleoedd i ddatblygu'r un ymdeimlad o gysylltiad â'r pentref os yw'r ysgol yn peidio â bodoli. Y farn gyffredin oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn cynrychioli ased hanesyddol a diwylliannol pwysig na ellir mesur ei werth trwy nifer y disgyblion neu ystyriaethau ariannol yn unig. Felly, dadl llawer oedd y dylid rhoi pwys sylweddol i arwyddocâd treftadaeth yr ysgol a'i chyfraniad at hunaniaeth gymunedol wrth ystyried dyfodol yr ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol Ysgol Gynradd Meidrim o fewn y gymuned lleol. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel sefydliad sydd wedi gwasanaethu cenedlaethau o deuluoedd lleol ac roeddent wedi tynnu sylw at ei rôl o ran creu cysylltiadau parhaol rhwng y trigolion ar draws gwahanol grwpiau oedran. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion yn aml yn dod yn rhan bwysig o hunaniaeth a threftadaeth cymunedau gwledig, yn enwedig lle mae cysylltiad

hirsefydlog rhwng yr ysgol a chenedlaethau o deuluoedd lleol. Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn dangos dyfnder yr ymlyniad sy'n bodoli o fewn y gymuned ac maent yn adlewyrchu'r gwerth y mae'r trigolion yn ei roi ar gyfraniad yr ysgol i fywyd y pentref.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y farn y gall presenoldeb mewn ysgol bentref leol gryfhau cysylltiad unigolyn â'i gymuned ac atgyfnerthu ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at rôl yr ysgol o ran creu atgofion, traddodiadau a phrofiadau sy'n cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall y cysylltiadau hyn rhwng cenedlaethau gyfrannu'n gadarnhaol at gydlyniant cymunedol a gall helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith y disgyblion, y teuluoedd a'r trigolion. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion yn aml yn gwasanaethu fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau cymunedol, dathliadau a digwyddiadau sy'n cyfrannu at fywyd cymdeithasol a diwylliannol ardal.

Wrth ystyried y pryderon hyn, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod wahaniaethu rhwng gwerth treftadaeth ysgol a'i gallu i ddarparu addysgol gynaliadwy yn y dyfodol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod arwyddocâd hanesyddol Ysgol Gynradd Meidrim, mae'n ofynnol i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion ystyried ystod o ffactorau statudol, gan gynnwys safonau addysgol, deilliannau dysgwyr, nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth a hyfywedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi'n llwyr fod cyfraniad ysgol at dreftadaeth leol yn ystyriaeth bwysig, ond mae'n rhaid iddo gydbwysu hyn mewn perthynas â'i gyfrifoldeb i sicrhau bod darpariaeth addysgol yn parhau i fod yn gynaliadwy a bod y ddarpariaeth honno'n gallu diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried yn ofalus bryderon y gallai cau'r ysgol leihau cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol gael yr un daith addysgol ag aelodau blaenorol o'r teulu. Er y cydnabyddir y gallai cau ysgol hirsefydlog gynrychioli diwedd pennod bwysig yn hanes y gymuned, mae'r Awdurdod yn nodi bod hunaniaeth gymunedol a threftadaeth leol yn cael eu dylanwadu gan ystod o ffactorau sy'n ymestyn y tu hwnt i un sefydliad. Felly, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig o reidrwydd yn arwain at golli hunaniaeth neu dreftadaeth y gymuned, er ei fod yn cydnabod bod yr ysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r ddwy elfen.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cadw etifeddiaeth yr ysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn ofalus ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a thystiolaeth arall a gasglwyd drwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cytbwys i'r

heriau sy'n wynebu'r ysgol a'r system addysg ehangach. Er ei fod yn cydnabod y cyfraniad hanesyddol a diwylliannol pwysig a wnaed gan Ysgol Gynradd Meidrim, mae'r Awdurdod yn fodlon bod yn rhaid i benderfyniadau ynghylch trefnu darpariaeth addysgol yn y dyfodol gael eu llywio yn y pen draw gan ystyriaethau o ran ansawdd addysgol, cynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor. Felly, mae'r Awdurdod yn hyderus bod y cynnig yn cydbwysu'n briodol werth treftadaeth yr ysgol â'i chyfrifoldeb i sicrhau darpariaeth addysg effeithiol a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

7.	Rhannu Cymuned Bresennol yr Ysgol rhwng Tair Ysgol	39	46%
-----------	---	-----------	------------

Mynegodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr bryder y byddai'r cynnig yn arwain at ddarnio cymuned ysgol sefydledig a chydlynol. Nododd llawer o'r gwrthwynebwyr, yn hytrach na throsglwyddo ar y cyd i un ysgol dderbyn, y byddai'r disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim o bosibl yn cael eu gwasgaru ar draws tair ysgol wahanol. Dadl yr ymatebwyr oedd y byddai hyn yn newid natur cymuned bresennol yr ysgol yn sylfaenol ac yn gwanhau'r berthynas gref sydd wedi datblygu rhwng y disgyblion, y teuluoedd a'r staff dros nifer o flynyddoedd. Pwysleisiodd sawl sylw fod Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd yn ganolbwynt sy'n dod â phlant o'r pentref a'r ardal gyfagos at ei gilydd, gan greu hunaniaeth a rennir a theimlad o berthyn. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml y byddai rhannu'r disgyblion rhwng nifer o ysgolion yn datgymalu'r cysylltiadau sefydledig hyn ac yn arwain at golli cymuned addysgol agos sydd wedi datblygu'n naturiol dros amser.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at yr effaith bosibl ar gyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol. Roedd y gwrthwynebiadau yn aml yn nodi y gallai plant sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd gael eu gwahanu o ganlyniad i'r trefniadau arfaethedig. Mynegodd sawl gwrthwynebydd bryder y gallai cau'r ysgol darfu ar gyfeillgarwch hirsefydlog ac y gallai rhai disgyblion ei chael hi'n anodd sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol newydd mewn amgylcheddau anghyfarwydd. Dadl yr ymatebwyr oedd bod cyfeillgarwch yn chwarae rôl bwysig o ran llesiant emosiynol a hyder plant, a'u mwynhad o fywyd ysgol. Mynegwyd pryder penodol ynglŷn â phlant iau a dysgwyr mwy agored i niwed a allai ei chael hi'n arbennig o heriol ymdopi â gwahanu oddi wrth gyfoedion cyfarwydd. Awgrymodd llawer o'r gwrthwynebwyr y dylid rhoi ystyriaeth bwysig i gryfder perthnasoedd y disgyblion presennol wrth asesu'r cynnig a'i effaith bosibl ar y dysgwyr.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y pryder y byddai rhannu cymuned yr ysgol hefyd yn effeithio ar y berthynas rhwng teuluoedd a'r gymuned ehangach. Nododd llawer o'r ymatebwyr fod cysylltiadau cryf ar hyn o bryd rhwng y rhieni, y gofalwyr ac aelodau o'r teulu estynedig oherwydd eu bod yn ymwneud ar y cyd ag Ysgol Gynradd Meidrim. Dadleuwyd bod

y perthnasoedd hyn yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol a'u bod yn darparu rhwydweithiau cymorth gwerthfawr i deuluoedd. Mynegodd sawl gwrthwynebydd bryder y byddai gwasgaru plant ar draws sawl ysgol yn lleihau cyfleoedd i'r rhieni a'r teuluoedd ryngweithio'n rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai hyn wanhau'r bondiau cymdeithasol sy'n bodoli o fewn y gymuned ar hyn o bryd a lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol cydweithredol. Mewn nifer o sylwadau, disgrifiodd y gwrthwynebwyr y trefniadau arfaethedig fel rhai sydd mewn gwirionedd yn rhannu un gymuned sefydledig yn sawl grŵp ar wahân, gyda goblygiadau hirdymor posibl i hunaniaeth a chyfranogiad cymunedol.

Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd bod effaith rhannu'r gymuned ysgol bresennol yn ymestyn y tu hwnt i ystyriaethau addysgol uniongyrchol a gallai fod goblygiadau ehangach i gydlyniant y pentref ei hun yn y dyfodol. Dywedodd sawl gwrthwynebydd fod yr ysgol ar hyn o bryd yn gweithredu fel undod o fewn y gymuned a'i bod yn darparu ffocws cyffredin lle mae'r teuluoedd yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd. Awgrymwyd y gallai rhannu'r disgyblion rhwng gwahanol ysgolion lleihau'r raddol y profiadau cyffredin sy'n helpu i gynnal hunaniaeth gymunedol a chydlyniant cymdeithasol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yn aml fod cymuned bresennol yr ysgol wedi'i datblygu dros nifer o flynyddoedd ac na ddylid tanbrisio ei gwerth. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y byddai'n well cynnal uniondeb cymuned bresennol yr ysgol na gwasgaru'r disgyblion ar draws nifer o leoliadau ac y dylid ystyried yn ofalus y canlyniadau cymdeithasol a chymunedol o ddarnio wrth benderfynu ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch y posibilrwydd o ddarnio cymuned bresennol yr ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mynegodd llawer o'r gwrthwynebwyr y farn bod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu cymuned addysgol gref a chydlynol lle mae'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff wedi datblygu perthynas agos dros nifer o flynyddoedd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y perthnasoedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau addysgol, llesiant ac ymdeimlad o berthyn disgyblion. Cydnabyddir hefyd fod yr ysgol yn ganolbwynt i lawer o deuluoedd yn y pentref a'r ardal gyfagos, gan helpu i sefydlu cysylltiadau cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned a rennir ymhlith y disgyblion a'r rhieni fel ei gilydd.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried pryderon sy'n ymwneud â'r effaith bosibl ar gyfeillgarwch a pherthnasoedd cyfoedion. Cydnabyddir y gall rhai disgyblion drosglwyddo i wahanol ysgolion ac y gallai hyn arwain at rannu grwpiau cyfeillgarwch presennol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfeillgarwch yn chwarae rôl bwysig o ran llesiant emosiynol a hyder plant a'u hymgysylltiad â bywyd

ysgol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod disgyblion yn profi newidiadau addysgol yn rheolaidd drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol, gan gynnwys pontio i addysg uwchradd, ac mae gan ysgolion brosesau sefydledig ar waith i gefnogi dysgwyr drwy'r newidiadau hyn. Er y derbynnir y gall rhai disgyblion ei chael yn heriol i ddechrau wrth wahanu oddi wrth gyfoedion cyfarwydd, mae'r Awdurdod o'r farn bod plant yn gyffredinol yn wydn a'u bod yn gallu datblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol newydd o fewn amgylcheddau addysgol cefnogol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar y berthynas rhwng teuluoedd a'r gymuned ehangach. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at werth y rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu trwy gymryd rhan ar y cyd yn yr ysgol ac roeddent wedi mynegi pryder y gallai gwasgaru disgyblion rhwng gwahanol ysgolion leihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio rheolaidd rhwng y rhieni a'r gofawyr. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ysgolion gyfrannu'n sylweddol at gydlyniant cymunedol a chyfalaf cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod perthnasoedd cymunedol yn aml yn cael eu cynnal trwy ystod eang o weithgareddau a sefydliadau y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys clybiau chwaraeon, grwpiau cymunedol, gweithgareddau diwylliannol, mannau addoli a digwyddiadau lleol. Er y gall patrymau rhyngweithio esblygu dros amser, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig o reidrwydd yn atal teuluoedd rhag cynnal perthnasoedd sydd eisoes wedi'u sefydlu a chysylltiadau cymunedol.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried gallu'r ysgolion derbyn i gefnogi'r disgyblion yn gymdeithasol yn ogystal ag yn academaidd. Mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog eisoes yn addysgu disgyblion o amrywiaeth o gymunedau ac mae ganddynt drefniadau sefydledig ar waith i hyrwyddo cynhwysiant, llesiant a pherthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu i gefnogi'r disgyblion a'r teuluoedd drwy gydol y broses. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys cyfleoedd i'r dysgwyr ymweld â'u hysgolion newydd, cwrdd â'r staff a'r disgyblion, cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio a dod yn gyfarwydd â'u hamgylcheddau dysgu newydd cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd. Byddai sylw arbennig yn cael ei roi i gefnogi'r dysgwyr a allai fod yn agored i niwed neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod arwyddocâd cymuned bresennol yr ysgol ac yn gwerthfawrogi cryfder y teimlad a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr ynghylch y posibilrwydd o wasgaru'r gymuned honno. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn ofalus ochr yn ochr â'r ffactorau addysgol, ariannol, demograffig a threfniadaethol ehangach sy'n berthnasol i'r cynnig. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod

y gall newidiadau ddigwydd i grwpiau cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymunedol sefydledig, mae'n fodlon y gellir gweithredu mecanweithiau cymorth priodol i leihau tarfu a hyrwyddo pontio llwyddiannus. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn dal i fod o'r farn y gellir parhau i ddiwallu'n effeithiol anghenion addysgol a llesiant y disgyblion yn yr ysgolion derbyn arfaethedig a bod y cynnig yn cynrychioli dull cynaliadwy o drefnu darpariaeth addysg yn yr ardal yn y dyfodol.

8.	ADY, Anabledd ac Anghenion Meddygol	35	42%
-----------	--	-----------	------------

Mynegodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr bryderon ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), anableddau a chyflyrau meddygol parhaus. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr Ysgol Gynradd Meidrim fel un sy'n darparu amgylchedd cefnogol iawn lle mae anghenion unigol yn cael eu cydnabod a'u deall. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at allu'r ysgol i gynnig cymorth personol, gan dynnu sylw at y wybodaeth gref sydd gan y staff am ddisgyblion unigol, eu proffiliau dysgu a'u gofynion penodol. Oherwydd bod yr ysgol yn fach, dadl y gwrthwynebwyr yn aml oedd bod hyn yn galluogi'r staff i nodi pryderon yn gyflym ac ymateb yn briodol, gan sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth wedi'i deilwra mewn amgylchedd cyfarwydd. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y gallai'r lefel hon o ddealltwriaeth a pharhad fod yn anodd mewn lleoliadau addysgol mwy o faint.

Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau'n cyfeirio'n benodol at blant â chyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth, anawsterau prosesu synhwyraidd, amhariadau ar y clyw, anghenion datblygiadol ac anghenion dysgu ychwanegol eraill. Roedd y rhieni'n aml yn disgrifio sut roedd eu plant wedi elwa ar amgylchedd tawel a meithringar yr ysgol a'u dadl oedd bod y ddarpariaeth bresennol wedi eu galluogi i ffynnu yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Nododd sawl ymatebydd fod plant ag anghenion ychwanegol yn aml yn dibynnu'n helaeth ar arferion cyfarwydd, cymorth cyson a pherthynas ddibynadwy â staff. Mynegwyd pryderon y gallai trosglwyddo i amgylchedd mwy o faint neu anghyfarwydd gynyddu pryder a chreu rhwystrau ychwanegol i ddysgu. Dywedodd y gwrthwynebwyr dro ar ôl tro na ellir asesu profiad addysgol plant ag ADY yn unig yn nhermau'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgol amgen ac roeddent yn dadlau bod yn rhaid ystyried ansawdd y cymorth, pa mor gyfarwydd yw'r amgylchedd a pharhad y ddarpariaeth.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd y perthnasoedd sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng y disgyblion, y staff a'r teuluoedd. Disgrifiodd llawer o'r rhieni sefyllfaoedd lle mae'r staff yn meddu ar wybodaeth fanwl am anghenion eu plant a'u bod yn gallu adnabod arwyddion o drallod,

anhawster i reoli emosiynau neu bryderon meddygol yn gynnar. Roedd sawl sylw yn cyfeirio at blant â chyflyrau meddygol cymhleth ac anableddau ac roedd eu rhieni'n teimlo'u dawel eu meddyliau oherwydd dealltwriaeth yr ysgol o'u hamgylchiadau. Dadl y gwrthwynebwyr yn aml oedd bod y wybodaeth hon wedi'i chronni dros nifer o flynyddoedd ac mae'n ffurfio rhan sylweddol o'r cymorth a ddarperir i'r disgyblion ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon y byddai trosglwyddo plant i ysgolion newydd yn gofyn am ailfeithrin y perthnasoedd hynny o'r dechrau ac y gallai'r cyfnod pontio hwn darfu ar y disgyblion. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ystyried y canlyniadau emosiynol ac addysgol wrth golli rhwydweithiau cymorth sefydledig.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai trefniadau pontio ffurfiol a Chynlluniau Datblygu Unigol fod ar gael i ddisgyblion sy'n symud i leoliadau amgen. Fodd bynnag, dadl gyson y gwrthwynebwyr oedd efallai na fydd mesurau o'r fath yn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau sy'n wynebu plant ag anghenion ychwanegol. Dywedodd sawl rhiant fod addysg lwyddiannus i blant ag ADY yn dibynnu nid yn unig ar strwythurau cymorth ffurfiol ond hefyd ar ymddiriedaeth, cyfarwyddineb, trefn ac ymdeimlad cryf o ddiogelwch yn eu hamgylchedd addysgol. Mynegodd yr ymatebwyr bryder yn aml ynghylch efallai na fydd ysgolion mwy o faint yn gallu darparu'r un lefel o sylw a hyblygrwydd personol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Meidrim. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod yr ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ag anableddau, anghenion meddygol ac anghenion dysgu ychwanegol ac y gallai cau'r ysgol gael effaith anghymesur ar rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng nghymuned yr ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), anableddau a chyflyrau meddygol. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at yr amgylchedd cefnogol a ddarperir gan Ysgol Gynradd Meidrim ac roeddent yn pwysleisio'r manteision o gael perthynas waith agos rhwng y staff, y disgyblion a'r teuluoedd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus, cysondeb a pherthnasoedd cadarnhaol ar blant ag ADY ac anghenion meddygol yn aml, a hynny i'w galluogi i gael mynediad at addysg yn llwyddiannus. Cydnabyddir hefyd y gallai fod gan y rhieni a'r gofalwyr bryderon ynghylch sut y gallai newidiadau i'r ddarpariaeth addysgol effeithio ar ddysgwyr agored i niwed a'r cynnydd y maent wedi'i wneud mewn amgylchedd ysgol cyfarwydd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y farn bod y ffaith bod yr ysgol yn fach yn galluogi'r staff i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o ddysgwyr unigol a'u hanghenion penodol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at allu'r staff i nodi pryderon yn gyflym, gweithredu cymorth wedi'i dargedu a meithrin perthnasoedd

dibynadwy â disgyblion a theuluoedd dros amser. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth y perthnasoedd hyn ac yn cydnabod ymroddiad staff wrth gefnogi dysgwyr ag ystod eang o anghenion addysgol, datblygiadol a meddygol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod o'r farn bod cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY yn dibynnu ar faint ysgol yn unig. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae gan bob ysgol a gynhelir gyfrifoldeb statudol i nodi, asesu a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac i sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i theilwra'n briodol i amgylchiadau unigol.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried gallu'r ysgolion derbyn arfaethedig i ddiwallu anghenion y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Mae gan Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog brofiad o gefnogi dysgwyr gydag ystod o anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt systemau sefydledig ar waith ar gyfer nodi anghenion, gweithredu strategaethau cymorth a gweithio ar y cyd â gwasanaethau arbenigol. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn strwythurau staffio priodol, trefniadau bugeiliol a mynediad at wasanaethau cymorth proffesiynol i ddiwallu anghenion addysgol, cymdeithasol, emosiynol a meddygol disgyblion. Yn ogystal, gall mynediad at grwpiau cyfoedion ehangach, adnoddau arbenigol a gwell capasiti staffio ddarparu cyfleoedd pellach i gefnogi'r dysgwyr a sicrhau bod eu hanghenion yn parhau i gael eu diwallu'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl pontio ar ddysgwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai a allai ddibynnu ar arferion cyfarwydd, perthnasoedd sydd eisoes wedi'u sefydlu ac amgylcheddau rhagweladwy. Cydnabyddir y gall unrhyw newid mewn lleoliad addysgol greu pryder i rai disgyblion a theuluoedd. Am y rheswm hwn, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cynllunio pontio manwl yn digwydd ar gyfer pob disgybl, gyda phwyslais arbennig ar gefnogi dysgwyr ag ADY, anabledau neu anghenion meddygol. Byddai hyn yn cynnwys cydweithio rhwng ysgolion, teuluoedd, Cydlynwyr ADY, gweithwyr proffesiynol perthnasol a gwasanaethau cymorth arbenigol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol a bod trefniadau cymorth priodol yn cael eu sefydlu cyn i'r trosglwyddo ddigwydd. Byddai Cynlluniau Datblygu Unigol (IDPs), cynlluniau gofal meddygol a dogfennau perthnasol eraill yn dal i lywio'r cymorth a ddarperir i'r dysgwyr drwy gydol y broses bontio a thu hwnt.

Mae'r Awdurdod yn derbyn bod cymorth llwyddiannus i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i weithdrefnau ffurfiol ac yn dibynnu ar berthnasoedd cadarnhaol, cyfathrebu effeithiol a diwylliant ysgol cynhwysol. Felly, mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o asesiad yr ysgolion derbyn. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn fodlon

bod gan y ddwy ysgol dderbyn y gallu i ddarparu amgylcheddau dysgu diogel, cynhwysol a chefnogol lle gall disgyblion ag ADY, anableddau ac anghenion meddygol barhau i ffynnu. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr, nid yw o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at effaith niweidiol ar ddysgwyr ag anghenion ychwanegol ac mae'n hyderus y gellir cynnal cymorth, parhad a threfniadau diogelu priodol drwy gydol y cyfnod pontio a thu hwnt.

9.	Diwylliant Cymru a Hunaniaeth Gymreig	34	41%
-----------	--	-----------	------------

Cyfeiriodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr nid yn unig at bwysigrwydd y Gymraeg, ond hefyd at y rôl ddiwylliannol ehangach y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae yn y gymuned. Disgrifiodd llawer o'r gwrthwynebwyr yr ysgol fel sefydliad pwysig ar gyfer cadw a hyrwyddo diwylliant, traddodiadau a hunaniaeth Gymreig mewn ardal wledig Gymraeg ei hiaith. Dadl sawl ymatebydd oedd bod cyfraniad yr ysgol yn ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol a'i fod yn cynnwys helpu pobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth o'u treftadaeth leol, gwerthoedd cymunedol a thraddodiadau diwylliannol. Roedd cyn-ddisgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned yn aml yn cyfeirio at yr ysgol fel rhan annatod o gymuned sy'n amlwg Gymreig ac roeddent yn mynegi pryder y gallai ei chau wanhau'r cysylltiadau diwylliannol sydd wedi datblygu dros sawl cenhedlaeth. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml fod ysgolion pentref cyfrwng Cymraeg yn chwarae rôl unigryw o ran sicrhau bod traddodiadau diwylliannol yn parhau i fod yn weladwy ac yn berthnasol o fewn bywyd cymunedol bob dydd.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y rôl y mae'r ysgol yn ei chwarae o ran trosglwyddo diwylliant Cymreig rhwng cenedlaethau. Cyfeiriwyd yn aml at hanesion teuluol sy'n gysylltiedig â'r ysgol ac at bwysigrwydd plant yn dysgu mewn amgylchedd lle mae diwylliant Cymru wedi'i ymgorffori mewn gweithgareddau bob dydd. Disgrifiodd sawl gwrthwynebydd sut y gwnaeth presenoldeb yn yr ysgol helpu i gryfhau dealltwriaeth plant o dreftadaeth Gymreig a'u hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a gweithgareddau cymunedol. Esboniodd y rhieni'n aml fod yr ysgol yn cefnogi ymdeimlad o falchder mewn hunaniaeth Gymreig a'i bod yn creu cyfleoedd i blant ymgysylltu â hanes, traddodiadau ac arferion lleol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod dylanwad diwylliannol yr ysgol yn ymestyn i fywyd teuluol a chymunedol, gan helpu i gynnal traddodiadau a gwerthoedd sy'n bwysig i gymeriad yr ardal.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd y byddai cau Ysgol Gynradd Meidrim yn cyfrannu at erydu bywyd diwylliannol Cymraeg o fewn y gymuned yn raddol. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd bod ysgolion yn ganolog i gynnal diwylliant lleol ac y gallai colli ysgol bentref cyfrwng

Cymraeg wanhau'r cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol ymgysylltu â'u treftadaeth ddiwylliannol. Cyfeiriodd sawl sylw at bryderon ehangach ynglŷn â dirywiad cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith, ac roedd y sylwadau'n awgrymu y byddai cau'r ysgol yn gwaredu angor diwylliannol pwysig o'r ardal. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn gweld yr ysgol fel un o'r sefydliadau allweddol lle mae hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei chynnal ac roeddent yn mynegi pryder y gallai gwasgaru'r disgyblion i wahanol ysgolion leihau cryfder y cysylltiadau diwylliannol sy'n bodoli o fewn y gymuned ar hyn o bryd. Dadl llawer oedd y dylid rhoi ystyriaeth bwysig i gadw parhad diwylliannol wrth benderfynu ynghylch dyfodol yr ysgol.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr na ellir mesur gwerth Ysgol Gynradd Meidrim trwy nifer y disgyblion, cyllid neu ddeilliannau addysgol yn unig. Yn hytrach, dadl y gwrthwynebwyr oedd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at gadw diwylliant a hunaniaeth Gymreig fyw sy'n parhau i fod wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned. Dywedodd sawl ymatebydd fod ysgolion pentref yn darparu cyfleoedd i blant brofi diwylliant Cymru yn naturiol fel rhan o fywyd bob dydd yn hytrach na thrwy wersi ffurfiol yn unig. Mynegwyd pryderon y gallai cau'r ysgol danseilio cynaliadwyedd hirdymor hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig yn yr ardal a lleihau cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol ddatblygu'r un ymdeimlad o gysylltiad â'u cymuned a'u treftadaeth. Barn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn sefydliad diwylliannol pwysig y dylid cydnabod ei gyfraniad at hunaniaeth Gymreig ochr yn ochr â'i swyddogaethau addysgol a chymunedol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r cyfraniad y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei wneud o ran hyrwyddo a chadw diwylliant a hunaniaeth Gymreig o fewn y gymuned leol. Pwysleisiodd llawer o'r gwrthwynebwyr fod rôl yr ysgol yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu addysg ac mae'n cynnwys cefnogi dealltwriaeth disgyblion o'u treftadaeth, eu hiaith, eu traddodiadau a'u cysylltiad â lle. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion, yn enwedig ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau gwledig, yn aml yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol a darparu cyfleoedd i blant ymgysylltu â thraddodiadau, hanes a gwerthoedd Cymru. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn dangos y pwys y mae llawer o aelodau o'r gymuned yn ei roi ar gyfraniad diwylliannol yr ysgol ac maent wedi ystyried y safbwyntiau hyn yn ofalus fel rhan o'r asesiad cyffredinol o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y farn bod Ysgol Gynradd Meidrim yn helpu i gryfhau hunaniaeth Gymreig drwy ddarparu amgylchedd dysgu lle mae diwylliant Cymru yn rhan naturiol o fywyd ysgol bob dydd. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at rôl yr ysgol wrth annog cyfranogiad mewn

gweithgareddau diwylliannol a meithrin ymdeimlad o falchder mewn treftadaeth Gymreig ymhlith y disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y profiadau hyn ac yn derbyn y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ysgolion a'r gymuned gael dylanwad cadarnhaol ar hunaniaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod hyrwyddo diwylliant Cymru yn nodwedd gyffredinol o addysg cyfrwng Cymraeg ac nad yw'n unigryw i un ysgol. Mae profiadau diwylliannol Cymru, dathliadau a chyfleoedd i ymgysylltu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bywyd ehangach ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled y sir.

Wrth ystyried y cynnig, mae'r Awdurdod wedi asesu'n ofalus a fyddai disgyblion yn dal i gael cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith a hunaniaeth Cymru o fewn yr ysgolion derbyn arfaethedig. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn mynd ati i hyrwyddo diwylliant Cymru drwy eu cwricwlwm, gweithgareddau cyfoethogi, cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a bywyd ysgol o ddydd i ddydd. Byddai'r dysgwyr sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig yn dal i gael eu haddysgu mewn amgylcheddau lle mae'r iaith a threftadaeth a thraddodiadau Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog.

Ar ben hynny, mae'r ddwy ysgol yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn y Maes hwn yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r sgiliau i ddysgwyr, fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog, ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill mewn cyd-destun lluosieithog. Mae'r Cwricwlwm hefyd yn cydnabod bod profiadau ystyrlon wrth ddysgu iaith yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain a hunaniaeth eraill, gan feithrin ymdeimlad o berthyn, balchder yng Nghymru a gwerthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Trwy gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac ymrwymiad ehangach yr ysgolion i hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg, byddai'r dysgwyr yn dal i gael cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o hunaniaeth Gymreig, cymryd rhan mewn profiadau diwylliannol Gymreig a chryfhau eu cysylltiad â'u treftadaeth leol a chenedlaethol. Felly, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at y disgyblion yn colli mynediad at gyfleoedd sy'n cefnogi datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol Gymraeg, hunaniaeth neu ymdeimlad o berthyn o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon y gallai cau ysgol bentref cyfrwng Cymraeg gael ei ystyried fel colled i fywyd diwylliannol y gymuned ac mae'n derbyn y gall ysgolion weithredu fel canolfannau pwysig o gyfranogiad diwylliannol a hunaniaeth leol. Mynegodd yr ymatebwyr bryder y gallai cau'r ysgol wanhau cysylltiadau rhwng diwylliant, y gymuned a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r pryderon

hyn wedi'u hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddiweddarau a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddarau. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod arwyddocâd symbolaidd a diwylliannol yr ysgol yn yr ardal, mae'n rhaid iddo hefyd ystyried a yw'r ddarpariaeth addysgol yn dal i fod yn gynaliadwy a'i bod yn gallu diwallu anghenion yn y dyfodol. Mae asesiad yr Awdurdod wedi dod i'r casgliad y byddai cyfleoedd diwylliannol Cymru a chyfleoedd ieithyddol o ran y Gymraeg yn dal i fod ar gael i ddisgyblion drwy ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos a thrwy'r rhwydwaith ehangach o weithgareddau diwylliannol a chymunedol sy'n bodoli ar draws yr ardal.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llawn y pwysigrwydd o ddiogelu a hyrwyddo diwylliant Cymru a hunaniaeth Gymreig fel rhan o'i gyfrifoldebau ehangach. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion gydbwysu ystyriaethau diwylliannol mewn perthynas ag ystod o ffactorau eraill, gan gynnwys safonau addysgol, deilliannau dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth, amcanestyniadau o nifer y disgyblion a defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn dal i fod yn fodlon na fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar allu dysgwyr i ymgysylltu â diwylliant Cymru neu ddatblygu hunaniaeth Gymreig gref. Mae'r Awdurdod yn hyderus y gellir parhau i gynnal a chefnogi'r manteision diwylliannol pwysig hyn o fewn yr ysgolion derbyn arfaethedig gan sicrhau bod darpariaeth addysgol yn dal i fod yn gynaliadwy, yn wydn a'i bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

10.	Y Broses Ymgynghori a Phryderon am Wneud Penderfyniadau	33	41%
------------	--	-----------	------------

Mynegodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r broses ymgynghori a'r modd yr oedd y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno. Dywedodd llawer o'r gwrthwynebwyr nad oeddent yn teimlo bod eu barn wedi'u hystyried yn llawn yn ystod gwahanol gamau'r broses ac roeddent yn cwestiynu a oedd yr ymgynghoriad wir yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar y canlyniad. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod cyfleoedd ar gael i gyflwyno ymatebion ond roeddent yn dadlau bod y broses yn ymddangos fel petai'n canolbwyntio ar symud tuag at gau'r ysgol yn hytrach nag archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael. Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro oedd nad oedd ymgysylltu â'r gymuned wedi arwain at unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnig er gwaethaf nifer y gwrthwynebiadau a ddaeth i law a'r awgrymiadau amgen a gyflwynwyd gan

randdeiliaid. Felly, mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch i ba raddau y byddai ymatebion i'r ymgynghoriad yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

Mae llawer o'r gwrthwynebwyr yn cyfeirio'n benodol at yr hyn yr oeddent yn ei weld fel dull rhagosodedig o ran gwneud penderfyniadau. Dywedodd sawl ymatebydd eu bod yn teimlo bod cau'r ysgol wedi'i nodi fel y canlyniad a ffeirir o gam cynnar yn y broses a bod y gweithgareddau ymgynghori dilynol wedi'u cyfeirio at gyfiawnhau'r casgliad hwnnw. Mynegwyd pryderon nad oedd digon o bwys wedi'i roi ar farn rhieni, llywodraethwyr, sefydliadau cymunedol a thrigolion lleol o gymharu ag ystyriaethau ariannol a threfniadaethol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd y cynigion amgen a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu a'r gymuned ehangach wedi cael yr un lefel o ystyriaeth â'r cynnig ei hun o gau'r ysgol. O ganlyniad, mynegodd nifer o'r gwrthwynebwyr rwystredigaeth ei bod hi'n ymddangos bod ymdrechion sylweddol a wnaed gan randdeiliaid i nodi atebion amgen wedi cael effaith gyfyngedig ar gynnydd y cynnig.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro o fewn y gwrthwynebiadau oedd yr awydd am fwy o dryloywder ac ymgysylltu drwy gydol y broses. Nododd sawl ymatebydd anawsterau o ran deall sut roedd casgliadau penodol wedi'u cyrraedd ac roeddent wedi mynegi pryder ynghylch newidiadau a wnaed i agweddau ar y cynnig yn ystod yr ymgynghoriad a chyfnod yr hysbysiad statudol. Cwestiynodd eraill a oedd esboniad digonol wedi'i ddarparu ynglŷn â'r asesiad o ddewisiadau amgen a gyflwynwyd gan lywodraethwyr a chynrychiolwyr cymunedol. Nododd rhai rhieni a llywodraethwyr nad oedd ceisiadau am wybodaeth bob amser wedi cael ymatebion amserol ac roeddent yn dadlau bod hyn wedi cyfrannu at ansicrwydd a llai o hyder yn y broses. Awgrymodd y gwrthwynebwyr yn aml y gallai cydweithio agosach rhwng y Cyngor, y Corff Llywodraethu a rhanddeiliaid cymunedol fod wedi arwain at ystyriaeth fwy adeiladol o ddulliau amgen o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Daeth llawer o'r ymatebwyr i'r casgliad fod hyder yn y broses o ran gwneud penderfyniadau wedi'i wanhau gan gyfuniad o anghysondebau ymddangosiadol, ymgysylltiad cyfyngedig ynghylch cynigion amgen ac ansicrwydd ynghylch sut roedd gwrthwynebiadau'n cael eu gwerthuso. Y ddadl mewn sawl sylw oedd y dylid rhoi ystyriaeth arbennig o ofalus i benderfyniadau sy'n ymwneud ag ysgolion gwledig oherwydd eu heffaith hirdymor bosibl ar gymunedau, plant a'r Gymraeg. Nododd yr ymatebwyr yn aml nad oeddent yn gwrthwynebu craffu ar ddyfodol yr ysgol ond eu bod yn dymuno gweld proses a oedd yn dangos tystiolaeth glir fod yr holl ddewisiadau amgen hyfyw wedi'u harchwilio'n llawn cyn ystyried cau'r ysgol. Y farn gyffredinol a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr oedd y byddai mwy o dryloywder, ymgysylltu a chydweithio yn cryfhau hyder yn y broses ac yn helpu i

sicrhau bod unrhyw benderfyniad terfynol yn adlewyrchu asesiad cytbwys o ystyriaethau addysgol, cymunedol, ieithyddol ac ariannol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn deall y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r broses ymgynghori a datblygu'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall cynigion o'r natur hon ennyn barn gref a diddordeb sylweddol ymhlith y cyhoedd, yn enwedig lle mae'r ysgolion yn chwarae rôl bwysig yn eu cymunedau lleol. Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Trwy gydol y broses, mae'r Awdurdod wedi ceisio sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â'r cynnig, cael gwybodaeth, gofyn cwestiynau a chyflwyno eu barn i'w hystyried. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law wedi'u hadolygu'n ofalus fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac maent wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Ymgynghori a'r Adroddiad Gwrthwynebu.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch y cynnig ymlaen llaw neu fod cau'r ysgol wedi'i nodi'n gynnar fel y canlyniad a ffefrir. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn dymuno pwysleisio nad pwrpas y broses ymgynghori yw sicrhau cefnogaeth i benderfyniad sydd wedi cael ei wneud ymlaen llaw, ond casglu tystiolaeth, barn a gwybodaeth a all gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i asesu rhinweddau ac effeithiau posibl y cynnig. Mae nodi'r opsiwn a ffefrir ar ddechrau'r ymgynghoriad yn nodwedd safonol o brosesau trefniadaeth ysgolion statudol ac mae'n adlewyrchu asesiad rhagarweiniol yr Awdurdod o'r dystiolaeth sydd ar gael.

Byddai'r Awdurdod hefyd yn pwysleisio bod y Cod Trefniadaeth Ysgolion a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol ei hun yn sefydlu fframwaith hir a chadarn ar gyfer ystyried cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Mae'r broses yn cynnwys nifer o gamau, gan gynnwys datblygu dogfen ymgynghori, cyfnod ymgynghori ffurfiol, cyhoeddi adroddiad ymgynghori, ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, cyhoeddi hysbysiad statudol, cyfnod gwrthwynebu a, lle bo'n berthnasol, ystyried gwrthwynebiadau ymhellach cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Mae'r camau hyn wedi'u cynllunio'n benodol i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu eu barn, herio rhagdybiaethau, nodi effeithiau posibl a darparu tystiolaeth ychwanegol i'w hystyried.

Felly, mae'r prosesau ymgynghori a gwrthwynebu'n rhan sylfaenol o'r fframwaith penderfyniadau yn hytrach nag yn faterion gweithdrefnol ffurfiol. Gall gwybodaeth sy'n dod i law drwy gydol y camau hyn ddylanwadu ar asesiad yr Awdurdod o gynnig ac mae'n galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried y goblygiadau addysgol, cymunedol, ieithyddol, ariannol ac economaidd-gymdeithasol yn fanwl cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae'r holl sylwadau sy'n dod i law yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a gyflwynir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac maent yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol arall a gesglir drwy gydol y broses.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon ynghylch ystyried dewisiadau amgen yn lle cau'r ysgol. Trwy gydol y broses adolygu, mae amrywiaeth o opsiynau a sylwadau a gyflwynwyd gan lywodraethwyr, rhieni, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid eraill wedi'u hystyried ochr yn ochr â'r cynnig ei hun. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymrwymiad a'r ymdrech a ddangoswyd gan y rhai sy'n ceisio nodi dulliau amgen o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Fel y nodwyd o'r blaen, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried ystod o opsiynau amgen wrth adolygu darpariaeth ysgolion a datblygu cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Bwriad y gofyniad yw rhoi ystyriaeth briodol i ddewisiadau amgen rhesymol ac asesu eu rhinweddau posibl, yn hytrach na gweithredu unrhyw opsiwn amgen penodol. O ganlyniad, mae'r holl ddewisiadau amgen a gyflwynwyd yn ystod y broses adolygu wedi'u harchwilio a'u hasesu mewn perthynas â'r un sylfaen dystiolaeth a'r meini prawf gwerthuso a gymhwyswyd i'r cynnig a ffefrir gan yr Awdurdod.

Wrth ystyried y dewisiadau amgen hyn, mae'r Awdurdod wedi asesu ffactorau gan gynnwys cynaliadwyedd addysgol, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, hyfywedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth, yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, goblygiadau cymunedol a gwydnwch hirdymor y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Er bod yr awgrymiadau amgen wedi cyfrannu at ddealltwriaeth yr Awdurdod o safbwyntiau ac amgylchiadau lleol, mae'n rhaid iddynt hefyd allu mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a nodwyd drwy'r broses adolygu.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y dewisiadau amgen a gyflwynwyd wedi'u hystyried a'u gwerthuso'n briodol fel rhan o'r broses statudol. Cafodd y penderfyniad i symud y cynnig i'r cam ymgynghori ei lywio gan asesiad cytbwys o'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys barn rhanddeiliaid a'r manteision a'r anfanteision posibl sy'n gysylltiedig ag opsiynau amgen. Mae'r camau dilynol o ran ymgynghori, cyflwyno hysbysiad statudol a gwrthwynebu wedi darparu cyfleoedd ychwanegol i randdeiliaid herio asesiad yr Awdurdod, cyflwyno tystiolaeth bellach a chodi materion sydd angen eu hystyried ymhellach cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch tryloywder, cyfathrebu a darparu gwybodaeth yn ystod y cyfnodau ymgynghori a chyflwyno hysbysiad statudol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod gan randdeiliaid fynediad at wybodaeth gywir a chyfredol drwy gydol y broses. Lle roedd angen gwneud diwygiadau neu roi eglurhad ynghylch gwybodaeth, gwnaed y rhain i wella cywirdeb a chefnogi ymgysylltu gwybodus. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ymarferion ymgynghori godi materion cymhleth ac efallai na fydd rhanddeiliaid bob amser yn cytuno â'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Fodd bynnag, mae'n parhau i ymrwymo i gynnal y broses yn agored ac yn dryloyw, gan sicrhau bod adroddiadau, dogfennau ategol ac ymatebion i faterion allweddol ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd ehangach.

Mae'r Awdurdod yn derbyn bod hyder ym mhrosesau trefniadaeth ysgolion yn hanfodol, yn enwedig lle mae gan gynigion y potensial i effeithio ar ddisgyblion, teuluoedd a chymunedau yn y tymor hir. Am y rheswm hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r broses ei hun. Er y gall fod gan yr ymatebwyr safbwyntiau gwahanol ynglŷn â rhinweddau'r cynnig, mae'r Awdurdod yn fodlon bod y gweithdrefnau o ran ymgynghori a chyflwyno hysbysiad statudol wedi'u cynnal yn unol â gofynion deddfwriaethol a bod yr holl sylwadau wedi'u hystyried yn briodol.

Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth ehangach, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig wedi'i ddatblygu a'i asesu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gallu penderfynu ar y cynnig yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth sydd ar gael.

Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth ehangach, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig wedi'i ddatblygu a'i asesu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'i bod yn briodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau benderfynu ar y cynnig yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth sydd ar gael.

Serch hynny, mae'r Awdurdod yn defnyddio dull parhaus o ran gwersi a ddysgwyd ac mae wedi ymrwymo i fireinio a chryfhau ei gweithdrefnau. Bydd unrhyw adborth a ddarparwyd drwy'r broses hon yn cael ei ystyried yn ofalus a, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ddefnyddio i lywio gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori yn y dyfodol.

11.	Safonau Addysgol a Pherfformiad yr Ysgol	33	41%
<p>Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at ansawdd yr addysg a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Meidrim ac roeddent yn dadlau y dylid ystyried perfformiad addysgol yr ysgol fel ffactor arwyddocaol wrth ystyried ei dyfodol. Roedd rhieni, mam-gu a thad-cu, cyn-ddisgyblion ac aelodau o'r gymuned yn aml yn cyfeirio at brofiadau addysgol cadarnhaol a deilliannau sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Nododd sawl gwrthwynebydd fod y disgyblion yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a sgiliau cyfathrebu cryf a'u bod yn symud ymlaen yn llwyddiannus trwy eu haddysg gynradd. Disgrifiodd yr ymatebwyr yr ysgol yn aml fel man lle mae'r plant yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial a lle mae'r dysgu'n digwydd mewn amgylchedd cefnogol a meithringar. Roedd llawer yn dadlau bod ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu yn dangos bod yr ysgol yn dal i fod yn lleoliad addysgol llwyddiannus er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu fel ysgol wledig fach.</p> <p>Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y cynnydd a wnaed gan yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y gwelliannau a gyflawnwyd gan y staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion ac roeddent wedi tynnu sylw at daith llwyddiannus yr ysgol allan o fesurau arbennig Estyn. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr yn aml at y cyflawniad hwn fel tystiolaeth o allu'r ysgol i ymateb yn gadarnhaol i heriau a pharhau i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mynegodd llawer bryder bod cau'r ysgol yn cael ei gynnig ar adeg pan oedd yr ysgol wedi dangos tystiolaeth glir o welliant a sefydlogrwydd cynyddol. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cydnabod y cynnydd a gyflawnwyd ac adeiladu ar hyn yn hytrach na tharfu ar hyn drwy gau'r ysgol. Nododd nifer o'r sylwadau hefyd fod y staff a'r llywodraethwyr wedi dangos gwydnwch ac ymrwymiad drwy gydol cyfnod o ansicrwydd sylweddol ac roeddent yn dadlau y dylai hyn gryfhau hyder yn rhagolygon yr ysgol yn y dyfodol.</p> <p>Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hefyd y manteision addysgol ehangach y mae'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn eu cael. Roedd y rhieni yn aml yn disgrifio bod y plant yn cael llwyddiant academaidd ar yr un pryd â datblygu hyder, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol cadarnhaol. Myfyriodd nifer o'r cyn-ddisgyblion ynghylch eu profiadau eu hunain, gan ddweud bod yr addysg a gawsant yn Ysgol Gynradd Meidrim wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer astudio, cyflogaeth a datblygiad personol yn y dyfodol. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at enghreifftiau o'r disgyblion sy'n symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg uwchradd a thu hwnt, gan gynnwys llwyddiannau mewn addysg uwch a gyrfaedd proffesiynol. Dadleuwyd bod y deilliannau hyn yn dangos effeithiolrwydd dull yr ysgol a'u bod yn herio rhagdybiaethau nad yw ysgolion mwy o faint o reidrwydd yn darparu cyfleoedd addysgol gwell. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn taeru y dylid</p>			

asesu ansawdd addysg trwy gyflawniadau a datblygiad disgyblion yn hytrach nag yn ôl maint ysgol yn unig.

Dadl sawl ymatebydd oedd y dylid ystyried safonau addysgol ochr yn ochr â phrofiadau addysgol ehangach a'r cyfleoedd sydd ar gael i blant. Roedd y gwrthwynebiadau'n aml yn cyfeirio at y berthynas gref rhwng y staff a'r disgyblion, y dulliau dysgu wedi'u personoli a gallu'r ysgol i gefnogi plant â galluoedd ac anghenion amrywiol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu bod y ffactorau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at lwyddiant addysgol a'u bod yn helpu i esbonio'r deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan y disgyblion. Barn gyffredin a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd nad yw Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol sy'n methu y mae angen ei chau ond yn hytrach yn ysgol lwyddiannus sy'n parhau i ddarparu deilliannau addysgol cadarnhaol i'w disgyblion. Felly, dadl yr ymatebwyr oedd y dylid cydnabod ansawdd y ddarpariaeth addysgol sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd fel un o gryfderau pwysig yr ysgol ac y dylid rhoi pwys sylweddol ar hyn wrth benderfynu ynghylch ei dyfodol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn y safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag ansawdd yr addysg a ddarperir yn Ysgol Gynradd Meidrim ac mae'n cydnabod y profiadau cadarnhaol a ddisgrifiwyd gan y rhieni, y cyn-ddisgyblion, y llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at gyflawniadau'r ysgol o ran cefnogi cynnydd academiaidd, datblygiad personol a llesiant y disgyblion. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y rhanddeiliaid yn ymfalchïo'n fawr yn llwyddiannau'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad a ddangosir gan y staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae cyflawniadau addysgol y dysgwyr, ynghyd â'r profiadau yr adroddwyd amdanynt gan yr ymatebwyr, wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r asesiad o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â heriau blaenorol a gwella'r ddarpariaeth addysgol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at daith lwyddiannus yr ysgol allan o fesurau arbennig Estyn gan dynnu sylw at hyn fel tystiolaeth o allu'r ysgol i wella. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymdrechion sylweddol a wnaed gan arweinwyr yr ysgol, y staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion i gyflawni'r gwelliannau hyn ac mae'n derbyn bod y cynnydd hwn yn dangos ymrwymiad cryf i godi safonau a gwella deilliannau i ddysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i thynnu o fesurau arbennig Estyn ym mis Rhagfyr 2025 ac yn cydnabod bod hyn yn gyflawniad sylweddol i'r ysgol, ei staff, ei llywodraethwyr a'i dysgwyr. Mae'r Awdurdod yn derbyn bod hyn yn dangos cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn flaenorol gan Estyn ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan gymuned yr ysgol. Fodd bynnag, er bod y gwelliant hwn yn cael ei groesawu a'i ystyried yn llawn fel rhan o'r broses adolygu, nid yw'n newid y ffactorau ehangach a lywiodd y cynnig. Mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sy'n ymwneud â niferoedd isel o ddisgyblion, lefel uchel o leodd dros ben, cynaliadwyedd ariannol a gwytnwch arweinyddiaeth. O ganlyniad, er bod dileu mesurau arbennig yn ddatblygiad cadarnhaol pwysig, mae'r pryderon ehangach ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor yr ysgol yn parhau.

Fodd bynnag, er bod safonau addysgol yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw gynnig ynghylch trefniadaeth ysgol, nid dyma'r unig ffactor y mae'n rhaid ei ystyried wrth benderfynu ar ddyfodol hirdymor ysgol. Mae'r fframwaith statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, lleoedd gwag, gwytnwch arweinyddiaeth, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfywedd hirdymor y ddarpariaeth addysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn digwydd oherwydd ei bod yn ysgol sy'n methu. Yn hytrach, mae'r cynnig wedi deillio o heriau ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a chyfrifoldeb yr Awdurdod i sicrhau bod darpariaeth addysgol ar draws y sir yn dal i fod yn wydn a'i bod yn gallu diwallu anghenion yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n rhaid ystyried y cryfderau addysgol a nodwyd gan yr ymatebwyr ochr yn ochr ag ystod ehangach o ffactorau trefniadaethol a strategol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod barn yr ymatebwyr y gellir cyflawni deilliannau addysgol cadarnhaol mewn ysgolion bach ac na ddylid barnu effeithiolrwydd ysgolion ar sail maint yn unig. Mae'r Awdurdod yn cytuno nad yw maint ysgol yn unig yn ddangosydd dibynadwy o ansawdd addysgol. Mae tystiolaeth gan Estyn yn dangos yn gyson mai'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar ddeilliannau dysgwyr yw ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r cymorth a ddarperir o fewn ysgol. Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod felly wedi archwilio gallu'r ysgolion derbyn i gynnal safonau addysgol uchel a darparu cyfleoedd addysgu a dysgu effeithiol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn arfaethedig drefniadau arweinyddiaeth, darpariaeth addysgol a strwythurau staffio priodol ar waith i gefnogi cynnydd a chyflawniad parhaus y dysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llawer o'r ymatebwyr yn credu y dylid rhoi pwys sylweddol ar welliannau diweddar yr ysgol o fewn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn ofalus ochr yn ochr â'r holl dystiolaeth arall a gasglwyd drwy gydol y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod yn llawn y ddarpariaeth addysgol gadarnhaol a gynigir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Meidrim a chyflawniadau ei disgyblion, mae'n rhaid iddo hefyd edrych ar ystyriaethau o ran cynaliadwyedd tymor hwy. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, mae'r Awdurdod yn dal i fod yn fodlon y gellir parhau i ddiwallu'n effeithiol anghenion addysgol y dysgwyr drwy'r ysgolion derbyn arfaethedig a bod y cynnig yn cynrychioli dull cytbwys o sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y genedlaethol bresennol o ddisgyblion ynghyd â chenedlaethau'r dyfodol.

12.	Nifer y Disgyblion yn y Dyfodol, Twf Tai a Chynaliadwyedd	32	38%
------------	--	-----------	------------

Cwestiynodd llawer o'r ymatebwyr y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i asesu hyfywedd Ysgol Gynradd Meidrim yn y dyfodol ac roeddent wedi mynegi pryder efallai nad yw amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn y dyfodol yn adlewyrchu'n llawn yr amgylchiadau lleol sy'n newid. Dadl y gwrthwynebwyr yn aml oedd bod y ffigurau cofrestru presennol yn darparu cipolwg yn unig ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r galw hirdymor am leoedd ysgol yn yr ardal. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y plant ifanc sydd eisoes yn byw yn y dalgylch nad oeddent wedi cyrraedd oedran ysgol eto, ynghyd â brodyr a chwiorydd iau'r disgyblion presennol y byddai disgwyl iddynt fynychu'r ysgol yn y blynyddoedd i ddod. Awgrymodd llawer o'r gwrthwynebwyr fod y ffactorau hyn yn dangos galw parhaus am ddarpariaeth addysgol leol ac roeddent yn dadlau y dylid asesu cynaliadwyedd yn y dyfodol dros gyfnod hwy yn hytrach na bod y galw yn seiliedig yn bennaf ar nifer y disgyblion ar hyn o bryd. Mynegodd yr ymatebwyr yn aml y farn bod rhagolygon yr ysgol yn y dyfodol yn gryfach nag yr hyn a bortreadir yn nogfennau'r cynnig.

Roedd nifer sylweddol o'r gwrthwynebiadau'n cyfeirio'n benodol at ddatblygiadau tai arfaethedig a phosibl ym Meidrim a'r cymunedau cyfagos. Dadl yr ymatebwyr oedd bod tai ychwanegol yn debygol o arwain at fwy o deuluoedd yn symud i'r ardal, gan greu galw ychwanegol am le yn yr ysgol. Cwestiynodd sawl gwrthwynebydd a oedd effaith lawn y datblygiad preswyl yn y dyfodol wedi'i adlewyrchu'n ddigonol o fewn yr amcanestyniadau o nifer y disgyblion ac roeddent wedi amlygu enghreifftiau o ddatblygiadau a fyddai, yn eu barn nhw, yn gallu arwain at ddisgyblion ychwanegol ar y gofrestr dros amser. Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd fod mynediad i ysgol leol

yn aml yn dylanwadu ar ddewisiadau tai ac roeddent yn dadlau y gallai presenoldeb parhaus Ysgol Gynradd Meidrim helpu i ddenu a chadw teuluoedd ifanc yn yr ardal. Mynegwyd pryderon y gallai cau'r ysgol danseilio cyfleoedd ar gyfer twf yn y dyfodol trwy wneud y pentref yn llai deniadol i ddarpar drigolion.

Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr hefyd y gallai ansicrwydd ynghylch y cynnig ei hun i gau'r ysgol fod wedi dylanwadu ar batrymau cofrestru a phenderfyniadau rhieni. Dadl sawl gwrthwynebydd oedd y gallai rhai teuluoedd fod wedi dewis peidio â chofrestru eu plant yn Ysgol Gynradd Meidrim oherwydd pryderon am ddyfodol yr ysgol, er gwaethaf awydd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg leol. Awgrymwyd y gall ansicrwydd dros gyfnod hir effeithio ar hyder rhieni a chreu anawsterau wrth recriwtio disgyblion yn y dyfodol. Felly, dadleuodd rhai ymatebwyr efallai nad yw'r ffigurau cofrestru presennol yn darparu dangosydd cwbl ddibynadwy o'r galw yn y dyfodol, yn enwedig os yw ansicrwydd ynghylch y cynnig eisoes wedi dylanwadu ar ddewisiadau a wnaed gan rieni. Awgrymodd sawl sylw, pe bai dyfodol yr ysgol yn cael ei sicrhau, y gallai'r lefelau cofrestru wella wrth i hyder ynghylch argaeledd hirdymor y ddarpariaeth gynyddu.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, y farn dro ar ôl tro oedd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer twf a chynaliadwyedd yn hytrach na chanolbwyntio ar yr heriau cyfredol yn unig. Dadleuodd llawer o'r ymatebwyr fod yr ysgol yn parhau i fod yn ased cymunedol pwysig sy'n gallu addasu a datblygu mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Cyfeiriwyd at y cynigion sy'n ymwneud â defnydd cymunedol estynedig, darpariaeth gofal plant, gweithio mewn partneriaeth a mentrau eraill sydd â'r bwriad o gryfhau hyfywedd hirdymor yr ysgol. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml y dylid asesu ysgolion gwledig nid yn unig o ran y niferoedd presennol ond hefyd o ran eu cyfraniad posibl i gynaliadwyedd cymunedol, cadw poblogaeth ac adfywio lleol yn y dyfodol. Y farn gyffredinol a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd bod gan Ysgol Gynradd Meidrim gyfleoedd realistig ar gyfer twf yn y dyfodol ac y gallai cau'r ysgol ar y cam hwn gael gwared ar ased pwysig cyn i'r cyfleoedd hynny gael eu gwireddu neu eu gwerthuso'n llawn.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch nifer y disgyblion yn y dyfodol a chynaliadwyedd hirdymor Ysgol Gynradd Meidrim. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr wedi cwestiynu a yw'r ffigurau cofrestru presennol yn darparu darlun cyflawn o'r galw am leoedd yn yr ysgol yn y dyfodol ac roeddent wedi tynnu sylw at y plant iau yn y dalgylch a allai fynychu'r ysgol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall nifer y disgyblion amrywio dros amser a bod rhywfaint o ansicrwydd wrth ragweld nifer y disgyblion a fydd yn cofrestru

yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, nid yw asesiad yr Awdurdod wedi'i seilio ar nifer gyfredol y disgyblion yn unig, ond mae hefyd wedi ystyried tueddiadau demograffig, data cyfradd genedigaethau, patrymau hanesyddol o ran nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ac amcanestyniadau o nifer y disgyblion dros nifer o flynyddoedd. Ystyriwyd bod y ffactorau hyn yn darparu'r asesiad mwyaf cadarn posibl sy'n seiliedig ar dystiolaeth o hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y datblygiadau tai arfaethedig a phosibl ym Meidrim a'r ardal gyfagos. Dadl yr ymatebwyr oedd y gallai tai ychwanegol gynyddu nifer y teuluoedd sy'n byw yn lleol a chynhyrchu galw am leoedd yn yr ysgol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ddatblygiad preswyl y potensial i ddylanwadu ar nifer y disgyblion a, lle mae gwybodaeth berthnasol ar gael, ystyrir datblygiadau o'r fath fel rhan o fethodolegau rhagamcanu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod seilio ei asesiad ar dystiolaeth sy'n ddigon sicr a mesuradwy. Er y gall datblygiadau arfaethedig gyfrannu at dwf poblogaeth yn y dyfodol, gall fod cryn ansicrwydd ynghylch amseru, graddfa, cyfradd meddiannu a phroffil demograffig cynlluniau tai newydd. O ganlyniad, ni all cynllunio lleoedd i ddisgyblion ddibynnu yn unig ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol lle na ellir pennu maint eu heffaith ar addysg yn hyderus.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried pryderon y gallai ansicrwydd ynghylch y cynnig fod wedi dylanwadu ar ddewis rhieni a phatrymau cofrestru. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai teuluoedd fod wedi dewis ysgolion amgen oherwydd pryderon ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim ac roeddent yn dadlau y gallai nifer y disgyblion gynyddu pe bai'r sicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol yn cael ei adfer. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y safbwyntiau hyn ac yn adnabod y gall ystod o ffactorau ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o nifer y disgyblion a phatrymau derbyn yn dangos bod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol wedi datblygu dros gyfnod ac na ellir eu priodoli i'r cynnig presennol yn unig. Mae tueddiadau hirdymor sy'n ymwneud â chofrestru, newid demograffig a lleoedd gwag wedi bod yn rhan allweddol o'r asesiad ac maent wedi cael eu harchwilio ochr yn ochr â datblygiadau mwy diweddar.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol i gryfhau cynaliadwyedd yr ysgol. Trwy gydol y broses ymgynghori ac adolygu, daeth sylwadau i law oedd yn ymwneud â mentrau cymunedol, darpariaeth gofal plant, gweithio mewn partneriaeth, mwy o ddefnydd cymunedol a mesurau eraill i gefnogi twf yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y llywodraethwyr, y rhieni a'r rhanddeiliaid cymunedol wrth geisio sicrhau dyfodol yr ysgol ac mae wedi ystyried y cynigion hyn yn ofalus fel rhan o'r broses adolygu ehangach. Fodd bynnag, wrth werthuso cynaliadwyedd yn y

dyfodol, mae angen asesu nid yn unig fanteision posibl mentrau o'r fath ond hefyd i ba raddau y maent yn debygol o fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol a hyfywedd hirdymor.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai fod cyfleoedd ar gyfer twf yn y gymuned yn y dyfodol, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch yr amgylchiadau presennol a'r rhagamcanion yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus wybodaeth ddemograffig, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, data sy'n gysylltiedig â thai a sylwadau a ddaeth i law yn ystod y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu. Ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth berthnasol, mae'r Awdurdod yn dal i fod yn fodlon bod y cynnig yn adlewyrchu asesiad cytbwys o gynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir a'i rhagolygon yn y dyfodol. Er ei fod yn cydnabod yr optimistiaeth a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr ynghylch twf posibl, mae'r Awdurdod o'r farn nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn darparu digon o sicrwydd y byddai unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol yn newid yn sylweddol yr heriau hirdymor sy'n wynebu'r ysgol. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb priodol a chynaliadwy i'r ystyriaethau addysgol, sefydliadol ac ariannol a nodwyd drwy'r broses adolygu.

13.	Cludiant, Teithio a Hygyrchedd	31	37%
------------	---------------------------------------	-----------	------------

Cododd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r pellteroedd teithio cynyddol a fyddai'n deillio o gau Ysgol Gynradd Meidrim a'r gofyniad i ddisgyblion fynychu ysgolion amgen y tu allan i'w cymuned. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml mai un o brif fanteision y trefniant presennol yw y gall y plant fynychu ysgol sydd wedi'i lleoli o fewn y pentref y maent yn byw ynddo, neu yn y cyffiniau. Dadl sawl ymatebydd oedd bod mynychu ysgol leol yn galluogi'r plant i gynnal cysylltiad cryf â'u cymuned gan leihau'r angen am deithiau dyddiol hir. Mynegwyd pryderon y gallai'r disgyblion iau, yn arbennig, weld teithiau hwy yn flinedig ac yn drafferthus, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf neu gyfnodau o dywydd garw. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn gweld argaeledd darpariaeth addysgol gerllaw fel mantais bwysig i blant a theuluoedd ac roeddent yn dadlau y dylid ystyried hyn yn ofalus wrth werthuso'r cynnig.

Mater oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd diogelwch ffyrdd a'r heriau sy'n gysylltiedig â theithio ar lwybrau gwledig. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at natur y ffyrdd lleol, gan gynnwys lonydd cul, mannau pasio cyfyngedig, amodau tywydd gwael a llifogydd tymhorol. Mynegodd sawl gwrthwynebydd bryderon y gallai teithiau hwy amlygu plant a theuluoedd i risgiau uwch, yn enwedig yn ystod cyfnodau o law trwm, rhew neu stormydd. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr

sylw at anawsterau penodol a brofwyd wrth deithio mewn ardaloedd gwledig ac roeddent yn cwestiynu a oedd amseroedd teithio a materion hygyrchedd wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y cynnig. Dadleuwyd bod y realiti ymarferol o deithio mewn amgylchedd gwledig yn aml yn wahanol i'r hyn a brofir mewn lleoliadau mwy trefol ac y dylai'r ystyriaethau hyn fod yn rhan bwysig o'r broses asesu.

Roedd llawer o'r rhieni a'r gofalwyr hefyd wedi tynnu sylw at y goblygiadau ymarferol y byddai mwy o deithio yn ei gael ar fywyd teuluol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at yr effaith ar arferion dyddiol, trefniadau gofal plant ac ymrwymadau gwaith. Esboniodd sawl gwrthwynebydd fod cael ysgol leol yn galluogi teuluoedd i reoli'n fwy effeithlon yr adegau pan fyddant yn hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno a bod hyn yn darparu mwy o hyblygrwydd wrth gydbwyso cyfrifoldebau o ran cyflogaeth a gofal. Mynegwyd pryderon y gallai cludo plant i ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd gynyddu costau teithio, ymestyn amseroedd cymudo a rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd sy'n gweithio. Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd fod mynychu ysgol leol yn hwyluso'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, digwyddiadau cymunedol a chyfleoedd cymdeithasol a allai ddod yn anoddach os bydd yn ofynnol i blant deithio ymhellach bob dydd. Felly, roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn gweld hygyrchedd fel ffactor pwysig sy'n effeithio ar gyfranogiad addysgol a llesiant teuluol ehangach.

Dadl sawl ymatebydd oedd y gallai'r cynnig hefyd gael goblygiadau ehangach i gysylltiad y disgyblion â'u cymuned. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml fod mynychu ysgol yn y pentref yn galluogi'r plant i ddatblygu cyfeillgarwch â chyfoedion o'r ardal leol, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a datblygu ymdeimlad cryfach o berthyn. Codwyd pryderon y gallai teithio i ysgolion y tu allan i'r gymuned leihau cyfleoedd i'r plant ymgysylltu â bywyd y pentref a gwanhau rhwydweithiau cymdeithasol lleol dros amser. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod cysylltiad agos rhwng hygyrchedd, cyfranogiad cymunedol a phrofiad addysgol ac roeddent yn dadlau bod y manteision o gael ysgol leol yn ymestyn y tu hwnt i drefniadau cludiant yn unig. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod pellteroedd teithio hwy, pryderon diogelwch posibl a'r effaith ymarferol ar deuluoedd yn ystyriaethau pwysig y dylid eu hystyried wrth asesu dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y cynnig ar drefniadau teithio, hygyrchedd a theithiau disgyblion i'r ysgol. Pwysleisiodd llawer o'r gwrthwynebwyr y manteision o gael ysgol o fewn y gymuned leol ac roeddent yn amlygu'r cyfleustra y mae hyn yn ei ddarparu i'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall mynediad

at ddarpariaeth addysgol leol gyfrannu'n gadarnhaol at arferion teuluol, cyfranogiad cymunedol ac ymdeimlad disgyblion o gysylltiad â'u hamgylchedd. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn ofalus drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig ac maent yn rhan o'r asesiad ehangach o ran ei effaith bosibl ar y dysgwyr a'r teuluoedd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn â phellteroedd teithio ac amseroedd teithio hwy pe bai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill. Fel rhan o broses y cynnig, mae ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i leoliad ysgolion derbyn posibl, pellteroedd teithio amcangyfrifedig, amseroedd teithio a chymhwysedd ar gyfer cymorth o ran cludiant ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall unrhyw gynnydd mewn amser teithio gynrychioli newid sylweddol i rai disgyblion a theuluoedd. Fodd bynnag, nodir hefyd fod teithio i'r ysgol yn nodwedd o'r ddarpariaeth addysg i lawer o ddysgwyr ar draws cymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin, lle mae disgyblion yn mynd i ysgolion y tu allan i'w pentrefi agos yn rheolaidd. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen addas ar gael o fewn pellteroedd teithio rhesymol ac y byddai'r dysgwyr cymwys yn parhau i gael cymorth cludiant yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch ffyrdd a'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â theithio ar ffyrdd gwledig. Tynnodd y gwrthwynebwyr sylw at faterion gan gynnwys ffyrdd cul, tywydd garw, llifogydd ac anawsterau teithio tymhorol. Deallir y pryderon hyn ac maent wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu. Mae'r Awdurdod yn rhoi pwys sylweddol ar ddiogelwch dysgwyr a byddai'n sicrhau bod unrhyw drefniadau cludiant a ddarperir yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, gofynion diogelwch a safonau cytundebol. Mae'r llwybrau cludiant presennol ar draws ardaloedd gwledig y sir eisoes yn gweithredu o dan amodau tebyg, ac mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda darparwyr cludiant i sicrhau bod llwybrau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rheoli'n briodol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod yr heriau penodol a all godi mewn ardaloedd gwledig, mae'n fodlon y gallir rheoli'r materion hyn yn briodol trwy drefniadau a gweithdrefnau cludiant sefydledig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynghylch effaith bosibl mwy o deithio ar fywyd teuluol, trefniadau gofal plant a chyfranogiad ehangach mewn gweithgareddau ysgol. Roedd llawer o'r rhieni wedi tynnu sylw at y rôl y mae ysgol leol yn ei chwarae ar hyn o bryd wrth gefnogi arferion dyddiol a hwyluso cyfranogiad mewn digwyddiadau addysgol a chymunedol. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gallai newidiadau i leoliadau ysgolion ei gwneud yn ofynnol i rai teuluoedd addasu trefniadau sefydledig. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried y byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd addysgol, allgyrsiol a llesiant o fewn yr ysgolion

derbyn. Mae'r Awdurdod yn hyderus y byddai cynllunio pontio priodol a chyfathrebu â'r teuluoedd yn helpu i gefnogi'r disgyblion a'r rhieni drwy unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y farn bod mynychu ysgol bentref leol yn gallu cryfhau cysylltiad plant â'u cymuned a chefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau lleol a chyfeillgarwch. Mae'r ystyriaethau cymdeithasol ehangach hyn wedi'u harchwilio drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac wedi llywio'r gwerthusiad cyffredinol o'r cynnig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion gydbwysu ystyriaethau hygyrchedd mewn perthynas â ffactorau pwysig eraill, gan gynnwys ansawdd addysgol, nifer y disgyblion, capasiti arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a hyfywedd hirdymor y ddarpariaeth. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon y byddai'r disgyblion yn dal i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg addas mewn amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch cludiant a hygyrchedd, nid yw o'r farn bod yr effeithiau hyn o'r fath faint fel eu bod yn gorbwysu'r ystyriaethau addysgol a threfniadaethol ehangach sy'n cefnogi'r cynnig.

14.	Cynigion Amgen heb eu Harchwilio'n Llawn	29	35%
------------	---	-----------	------------

Dadl nifer sylweddol o'r ymatebwyr oedd na ddylid cau'r ysgol gan fod ystod o opsiynau amgen wedi'u nodi nad ydynt, yn eu barn nhw, wedi cael eu harchwilio na'u datblygu'n ddigonol cyn i'r cynnig gael ei symud ymlaen. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml fod y drafodaeth wedi canolbwyntio ar gau'r ysgol fel y prif ateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, yn hytrach na rhoi ystyriaeth gyfartal i fesurau a allai gefnogi ei chynaliadwyedd yn y dyfodol. Roedd sawl ymatebydd yn cydnabod y pwysau ariannol a threfniadaethol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg ond roeddent yn dadlau nad oedd yr heriau hyn yn gofyn am gau'r ysgol yn barhaol yn awtomatig. Roedd llawer o'r farn y dylid gwneud gwaith pellach i ymchwilio i opsiynau sy'n gallu cynnal darpariaeth addysgol yn y pentref wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch nifer y disgyblion, trefniadau arweinyddiaeth a hyfywedd ariannol. Y farn dro ar ôl tro oedd y dylid ystyried cau'r ysgol dim ond ar ôl i'r holl ddewisiadau amgen realistig gael eu harchwilio'n drylwyr ac ar ôl dangos eu bod yn anymarferol.

Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau'n cyfeirio'n benodol at gynigion a ddatblygwyd gan y Corff Llywodraethu, cynrychiolwyr cymunedol a sefydliadau lleol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at awgrymiadau sy'n ymwneud â threfniadau ffedereiddio, modelau arweinyddiaeth a rennir a mwy o gydweithrediad ag ysgolion cyfagos. Dadl sawl gwrthwynebydd oedd bod y dulliau hyn wedi'u gweithredu'n llwyddiannus mewn mannau eraill a gallent o bosibl leihau costau gan gadw

darpariaeth addysgol leol. Awgrymwyd hefyd y gallai trefniadau partneriaeth ddarparu cyfleoedd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, gwella effeithlonrwydd a rhannu adnoddau'n fwy effeithiol ar draws ysgolion. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr siom nad oedd yr opsiynau hyn wedi symud ymlaen ymhellach ac roeddent yn dadlau nad oedd eu manteision posibl wedi'u hasesu'n llawn cyn i'r cynnig i gau'r ysgol symud ymlaen i'r cam statudol.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y gred bod gan yr ysgol gyfleoedd i ddatblygu yn y dyfodol a allai gyfrannu at ei chynaliadwyedd hirdymor. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at gynigion sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant estynedig, gwasanaethau cofleidol, gweithgareddau blynyddoedd cynnar a defnydd cymunedol ehangach o gyfleusterau'r ysgol. Roedd sawl sylw hefyd wedi tynnu sylw at gynigion sy'n gysylltiedig â mentrau ynni adnewyddadwy, partneriaethau cymunedol a chyfleoedd cyllido allanol a dadleuwyd y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol neu leihau costau gweithredol. Awgrymodd y gwrthwynebwyr y gallai'r mentrau hyn gynyddu rôl yr ysgol o fewn y gymuned gan gefnogi recriwtio disgyblion a chynaliadwyedd ariannol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai'r cyfuniad o'r mesurau hyn greu model cryfach a mwy gwydn ar gyfer y dyfodol ac roeddent yn cwestiynu a oedd digon o amser wedi'i ganiatáu i'w potensial gael ei archwilio'n llawn.

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr y farn bod y gymuned wedi dangos parodrwydd cryf i weithio ar y cyd i ddatblygu atebion i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Cyfeiriodd sawl gwrthwynebydd at yr ymdrechion sylweddol a wnaed gan lywodraethwyr, rhieni, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid lleol i nodi a chyflwyno dewisiadau amgen adeiladol. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd bod y lefel hon o ymrwymiad yn adlewyrchu'r gwerth a roddir ar yr ysgol a dylid ei hystyried fel sylfaen gadarnhaol y gellid adeiladu cynlluniau yn y dyfodol arni. Mynegwyd pryderon bod symud yn uniongyrchol tuag at gau'r ysgol yn golygu bod perygl bod cyfleoedd i arloesi, datblygu partneriaeth a chreu datblygiadau dan arweiniad y gymuned yn cael eu hanwybyddu. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy'r gwrthwynebiadau oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn parhau i fod yn ased cymunedol hyfyw a gwerthfawr ac y dylid ystyried ystod ehangach o opsiynau amgen yn llawn cyn i unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch cau'r ysgol gael ei wneud.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr ynghylch ystyried dewisiadau amgen yn lle cau'r ysgol ac mae'n cydnabod yr ymdrechion sylweddol a wnaed gan lywodraethwyr, rhieni, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid lleol i nodi atebion posibl ar gyfer dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim. Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad a ddangoswyd drwy gydol y

broses ymgynghori a gwrthwynebu ac mae'n cydnabod yr awydd cryf o fewn y gymuned i gadw'r ddarpariaeth addysgol yn y pentref. Mae'r cynigion amgen a gyflwynwyd wedi cael eu hadolygu'n ofalus ac maent wedi bod wedi bod yn rhan bwysig wrth i'r Awdurdod asesu dyfodol yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod yr ymatebwyr yn dymuno sicrhau mai dim ond ar ôl i'r holl ddewisiadau amgen realistig a hyfyw gael eu gwerthuso'n llawn y caiff cau'r ysgol ei ystyried. Fel y nodwyd o'r blaen, nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i opsiynau amgen gael eu gweithredu.

Mae'r Awdurdod yn dymuno pwysleisio bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i ddatblygu yn dilyn proses adolygu fanwl lle ystyriwyd ystod o opsiynau. Wrth asesu opsiynau amgen, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried nid yn unig eu manteision posibl ond hefyd eu gallu i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, gwydnwch arweinyddiaeth a hyfywedd hirdymor. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall rhai dewisiadau amgen gynnig manteision tymor byr neu liniaru pwysau penodol; fodd bynnag, yr ystyriaeth allweddol yw a yw mesurau o'r fath yn darparu ateb hirdymor realistig a chynaliadwy.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y cynigion penodol a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â threfniadau ffedereiddio, modelau arweinyddiaeth a rennir a mwy o gydweithredu ag ysgolion cyfagos. Mae'r dulliau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu ac maent yn cael eu cydnabod fel trefniadau sydd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus mewn rhai amgylchiadau mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn nodi bod Ysgol Gynradd Meidrim eisoes wedi gweithredu o fewn trefniadau arweinyddiaeth gydweithredol ac nad yw'r mesurau hyn wedi gwrthdroi'r heriau tymor hwy sy'n ymwneud â nifer y disgyblion a chynaliadwyedd ariannol. Er y gall gydweithredu gryfhau gwydnwch a chefnogi effeithiolrwydd gweithredol, nid yw'n gwarantu hyfywedd hirdymor lle mae tueddiadau demograffig a chofrestru sylfaenol heb newid. Felly, mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried a yw strwythurau llywodraethu neu arweinyddiaeth amgen yn gallu sicrhau darpariaeth gynaliadwy dros y tymor hwy.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y cynigion sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant estynedig, gwasanaethau cofleidiol, mwy o ddefnydd cymunedol o gyfleusterau, mentrau ynni adnewyddadwy a chyffleoedd i sicrhau cyllid allanol. Mae'r awgrymiadau hyn yn dangos ymrwymiad cadarnhaol a rhagweithiol gan y gymuned i gryfhau rhagolygon yr ysgol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall mentrau o'r fath ddarparu manteision ychwanegol i'r ysgol a'r gymuned ehangach ac mae wedi ystyried y cynigion hyn yn ofalus. Fodd bynnag, mae angen gwahaniaethu rhwng

mesurau a allai gynhyrchu gweithgarwch ychwanegol neu refeniw cyfyngedig a'r rhai sy'n gallu mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol a nodwyd drwy'r broses adolygu. Er y gall rhai cynigion gyfrannu'n gadarnhaol at weithrediad yr ysgol, nid yw'r Awdurdod wedi nodi digon o dystiolaeth y byddai effaith gronnol y mentrau hyn yn newid yr asesiad cynaliadwyedd hirdymor yn sylfaenol neu'n darparu sicrwydd ynghylch twf yn nifer y disgyblion yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi'n fawr yr ymgysylltiad adeiladol a ddangosir gan randdeiliaid drwy gydol y broses ac mae'n cydnabod cryfder y gefnogaeth gymunedol i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn ac asesiad realistig o hyfywedd yn y dyfodol. Ar ôl ystyried y cynigion amgen a gyflwynwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu, ochr yn ochr â rhagolygon demograffig, gwybodaeth ariannol, ystyriaethau addysgol a ffactorau trefniadaethol, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod yr opsiynau a gyflwynwyd wedi'u gwerthuso'n briodol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod dyheadau ac ymrwymiad y gymuned, mae'n parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn cynrychioli'r ateb hirdymor mwyaf cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer darpariaeth addysgol yn yr ardal. Mae'r Awdurdod felly yn fodlon bod dewisiadau amgen rhesymol wedi'u hystyried a bod y cynnig wedi'i ddatblygu ar ôl asesiad cytbwys o'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae rhagor o fanylion ynghylch y cynigion amgen i'w cael yn Adran 8 yr adroddiad hwn.

15.	Canolfan Gymunedol a Defnydd Cymunedol Ehangach	29	34%
------------	--	-----------	------------

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod Ysgol Gynradd Meidrim yn cyflawni swyddogaeth sy'n ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i ddarparu addysg ac mae'n gwasanaethu fel canolfan gymunedol bwysig i drigolion y pentref a'r ardal gyfagos. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn disgrifio'r ysgol fel canolbwynt ar gyfer ystod eang o weithgareddau sy'n dod â phobl ynghyd ac yn cryfhau bywyd cymunedol. Cyfeiriwyd at gyngherddau ysgol, digwyddiadau codi arian, cyfarfodydd cymdeithasol, gweithgareddau chwaraeon a dathliadau cymunedol sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn ac yn annog cyfranogiad gan bobl o bob oedran. Dadl sawl ymatebydd oedd bod yr ysgol yn darparu un o'r ychydig leoliadau sy'n weddill lle gall aelodau o'r gymuned ddod at ei gilydd yn rheolaidd a chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Mynegodd llawer o'r gwrthwynebwyr bryder y byddai cau'r ysgol nid yn unig yn gwaredu darpariaeth addysgol o'r pentref ond byddai hefyd yn arwain at golli adnodd cymunedol gwerthfawr sy'n cefnogi rhyngweithio ac ymgysylltu cymdeithasol.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd rôl yr ysgol o ran cefnogi teuluoedd y tu hwnt i'r diwrnod ysgol swyddogol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ystod o weithgareddau

a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys grwpiau rhieni a phlant bach, darpariaeth blynnyddoedd cynnar, digwyddiadau i deuluoedd a mentrau eraill sy'n helpu i gryfhau perthnasoedd rhwng teuluoedd a chefnogi plant ifanc cyn iddynt fynd i addysg statudol. Nododd sawl gwrthwynebydd fod y gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd pwysig i rieni gyfarfod, rhannu profiadau a sefydlu rhwydweithiau cymorth o fewn y gymuned. Dadleuwyd bod rôl yr ysgol o ran cefnogi teuluoedd yn dechrau ymhell cyn i blant gofrestru ac yn parhau drwy gydol eu taith addysgol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gweld y manteision ehangach hyn fel elfen bwysig o gyfraniad yr ysgol i fywyd y pentref ac roeddent wedi mynegi pryder y gallai cau'r ysgol leihau cyfleoedd i deuluoedd gael mynediad at gymorth lleol a gweithgareddau cymunedol.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr hefyd at gynigion a fyddai'n datblygu rôl yr ysgol ymhellach fel ased cymunedol. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn tynnu sylw at y syniadau a gyflwynwyd gan lywodraethwyr, rhieni a sefydliadau cymunedol i ehangu'r defnydd o gyfleusterau ysgol a chynyddu ymgysylltiad cymunedol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys mwy o integreiddio gwasanaethau gofal plant, rhaglenni cymunedol ychwanegol, mentrau llesiant, cyfleoedd dysgu oedolion a phartneriaethau gwell gyda sefydliadau lleol. Dadl sawl ymatebydd oedd bod cyfleusterau'r ysgol yn adnodd gwerthfawr y gellid gwneud defnydd mwy helaeth ohonynt i ddiwallu anghenion lleol a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol a'r gymuned ehangach. Awgrymwyd bod gan y cyfleoedd hyn y potensial i gryfhau hyfywedd yr ysgol gan ddarparu manteision cymdeithasol ychwanegol i drigolion.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, pwysleisiodd yr ymatebwyr yn gyson na ddylid asesu gwerth Ysgol Gynradd Meidrim yn ôl nifer y disgyblion neu ddeilliannau addysgol yn unig. Dadl llawer oedd bod yr ysgol yn gweithredu fel ased cymunedol pwysig sy'n cyfrannu at lesiant cymdeithasol, cydlyniant cymunedol a gwydnwch lleol. Mynegodd sawl gwrthwynebydd bryder y byddai cau'r ysgol yn gwaredu man ymgynnull canolog o'r pentref ac yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol a chydweithio. Dywedwyd yn aml ei bod hi'n anodd disodli cyfleusterau o'r fath ar ôl eu colli ac y gellir teimlo'r effeithiau cymdeithasol ehangach ymhell ar ôl i'r ddarpariaeth addysgol gael ei throsglwyddo i rywle arall. Y farn gyffredinol a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn cyflawni swyddogaeth gymunedol bwysig sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg ac y dylid cydnabod y cyfraniad hwn yn llawn wrth ystyried dyfodol yr ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â rôl ehangach Ysgol Gynradd Meidrim fel canolfan gymunedol ac mae'n cydnabod bod llawer o

randdeiliaid yn ystyried yr ysgol fel canolbwynt pwysig i fywyd y pentref. Tynnodd y gwrthwynebwyr sylw at gyfraniad yr ysgol i ystod o weithgareddau sy'n ymestyn y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau codi arian, perfformiadau, dathliadau a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion mewn cymunedau gwledig yn aml yn gwasanaethu dibenion y tu hwnt i ddarparu addysg a gallant chwarae rhan bwysig wrth feithrin cyfranogiad cymunedol, cryfhau cysylltiadau cymdeithasol a chefnogi hunaniaeth leol. Mae'r manteision cymunedol ehangach hyn wedi'u hystyried yn ofalus drwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu ac wedi llywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd fel rhan o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pwys y mae'r ymatebwyr yn ei roi ar rôl yr ysgol wrth gefnogi teuluoedd a darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ffurfiol. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at weithgareddau sy'n cynnwys y plant, y rhieni a'r teuluoedd sy'n cyfrannu at lesiant cymdeithasol ac yn helpu i greu rhwydweithiau cymorth o fewn y gymuned leol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth y cyfleoedd hyn ac yn derbyn y gall ysgolion ddarparu amgylchedd pwysig lle mae perthnasoedd yn cael eu sefydlu a'u cynnal. Mae defnydd cymunedol yn ystyriaeth bwysig, ond mae'n rhaid cydbwyso hyn ochr yn ochr â ffactorau addysgol, ariannol a threfniadaethol.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried sylwadau'n ofalus ynghylch cyfleoedd i ehangu rôl yr ysgol fel ased cymunedol trwy fwy o ddefnydd cymunedol, darpariaeth gofal plant, gwasanaethau i deuluoedd, mentrau llesiant a phartneriaethau â sefydliadau lleol. Mae'r Awdurdod yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y llywodraethwyr, y rhieni a'r rhanddeiliaid cymunedol wrth nodi dulliau arloesol o gefnogi'r ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r cynigion hyn wedi'u hadolygu fel rhan o'r ystyriaeth ehangach o ddewisiadau amgen yn lle cau'r ysgol. Wrth gydnabod y manteision posibl y gall mwy o ddefnydd cymunedol eu cynnig, mae'n rhaid i'r Awdurdod asesu a yw mentrau o'r fath yn debygol o fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, lleoedd gwag a hyfywedd hirdymor. Nid yw'r Awdurdod wedi nodi digon o dystiolaeth i ddangos y byddai mwy o ddefnydd cymunedol yn unig yn newid yn sylfaenol sefyllfa'r ysgol o ran cynaliadwyedd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymwybodol bod cymuned Meidrim ar hyn o bryd yn elwa o Neuadd leuenctid a ddefnyddir yn dda, sy'n darparu lleoliad ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol. Wrth ystyried sylwadau ynghylch rôl gymunedol yr ysgol yn y dyfodol, mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried maint y ddarpariaeth gymunedol bresennol yn y pentref. Er y

gall gweithgareddau ychwanegol yn yr ysgol ddarparu cyfleoedd pellach i ymgysylltu, gallai unrhyw ehangu darpariaeth y tu allan i oriau ysgol gael goblygiadau i ddefnydd a chynaliadwyedd cyfleusterau cymunedol presennol. Felly, mae'n bwysig ystyried yr effaith bosibl y gall dyblygu cyfleusterau a gweithgareddau ei chael ar leoliadau cymunedol sefydledig. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth asesu goblygiadau cymunedol y cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pryderon y gallai cau'r ysgol arwain at golli lleoliad pwysig ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol o fewn y pentref. Mynegodd yr ymatebwyr y farn bod yr ysgol yn darparu un o'r ychydig leoliadau sy'n weddill lle mae'r trigolion yn dod at ei gilydd yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd. Mae'r Awdurdod yn deall y pryderon hyn ac yn derbyn y gallai unrhyw gynnydd i gau'r ysgol bentref gael goblygiadau ehangach i fywyd cymunedol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y byddai'r defnydd o safle'r ysgol yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar wahân pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Yn unol â pholisïau'r Cyngor sy'n ymwneud ag adeiladau segur, byddai unrhyw gyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol neu fudd cymunedol amgen yn cael eu harchwilio o fewn amserlen benodol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol y safle.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud fel cyfleuster cymunedol ac yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegir gan y rhai sy'n gwerthfawrogi ei rôl ehangach ym mywyd y pentref. Serch hynny, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion ystyried ystod o ystyriaethau statudol a sicrhau bod darpariaeth addysgol yn dal i fod yn gynaliadwy ac yn wydn a'i bod yn gallu diwallu anghenion y dysgwyr presennol a'r dysgwyr yn y dyfodol. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r prosesau ymgynghori a gwrthwynebu, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon, er bod yr ysgol yn darparu buddion cymunedol pwysig, fod yn rhaid cydbwysu'r rhain mewn perthynas â heriau addysgol a threfniadaethol ehangach. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cymesur a chynaliadwy i'r heriau hynny wrth gydnabod ac ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar y gymuned leol.

16.	Rhannu Grwpiau Cyfeillgarwch a Pherthnasoedd sydd eisoes wedi'u Sefydlu	26	31%
------------	--	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch yr effaith bosibl y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar gyfeillgarwch a'r perthnasoedd y mae'r disgyblion wedi'u datblygu yn ystod eu hamser yn Ysgol Gynradd Meidrim. Nododd y gwrthwynebwyr yn aml fod y plant yn treulio cyfran sylweddol o'u blynyddoedd ffurfiannol yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol cryf â'u cyfoedion a bod y

perthnasoedd hyn yn chwarae rhan bwysig yn eu profiad addysgol a'u llesiant personol. Dywedodd nifer o'r rhieni fod eu plant wedi datblygu cyfeillgarwch agos trwy fynychu'r ysgol ac roeddent wedi mynegi pryder y gallai cau'r ysgol arwain at wahanu'r grwpiau hyn. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd bod rhwydweithiau cyfeillgarwch yn darparu cefnogaeth emosiynol, sefydlogrwydd ac ymdeimlad o berthyn ac felly dylid eu hystyried yn ffactor pwysig wrth asesu canlyniadau'r cynnig. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn teimlo bod gwerth y perthnasoedd hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a'u bod yn ffurfio rhan sylweddol o fywydau beunyddiol y plant.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd yr effaith emosiynol bosibl o amharu ar grwpiau cyfoedion sefydledig. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y gallai cael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau achosi pryder ac ansicrwydd, yn enwedig i ddisgyblion iau a'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid. Tynnodd sawl rhiant sylw at y ffaith bod plant yn aml yn magu hyder wrth gael eu hamgylchynu gan gyfoedion cyfarwydd ac roeddent yn dadlau y gallai symud i ysgol newydd heb grwpiau cyfeillgarwch sefydledig effeithio ar eu gallu i ymgartrefu'n llwyddiannus. Nododd y gwrthwynebwyr yn aml fod cyfeillgarwch a ddatblygwyd yn yr ysgol yn darparu cymorth yn ystod cyfnodau heriol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at hunan-barch a llesiant plant. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder y gallai'r disgyblion deimlo unigrwydd neu arwahanrwydd os bydd angen iddynt integreiddio i grwpiau cymdeithasol anghyfarwydd ar ôl cau'r ysgol.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw hefyd at yr amgylchedd cymdeithasol unigryw sy'n bodoli o fewn Ysgol Gynradd Meidrim a'r perthnasoedd cryf sy'n datblygu rhwng y disgyblion ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr yn aml at natur glòs cymuned yr ysgol ac roeddent yn esbonio bod y disgyblion yn aml yn rhyngweithio â phlant o wahanol oedrannau o fewn gweithgareddau dysgu ffurfiol a'r tu allan iddynt. Y ddadl mewn sawl sylw oedd bod hyn yn creu amgylchedd arbennig o gefnogol lle mae'r plant iau yn dysgu gan y disgyblion hŷn a'r disgyblion hŷn yn datblygu sgiliau arwain a mentora. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai tarfu ar y rhwydweithiau cyfeillgarwch ehangach hyn gael goblygiadau y tu hwnt i berthnasoedd cyfoedion unigol a gallai effeithio ar yr ymdeimlad ehangach o gymuned a chydgefnogaeth sydd ymhlith y disgyblion ar hyn o bryd. Roedd llawer yn gweld y perthnasoedd hyn fel nodwedd ddiffiniol o'r ysgol ac yn gyfrannwr pwysig at ddatblygiad cymdeithasol y plant.

Pwysleisiodd sawl ymatebydd na ddylid ystyried yr effaith o wahanu grwpiau cyfeillgarwch fel mater pontio dros dro yn unig. Dadl llawer o'r gwrthwynebwyr oedd bod cyfeillgarwch a sefydlir yn ystod addysg gynradd yn aml yn ffurfio sylfaen ar gyfer perthnasoedd cymdeithasol tymor hwy ac yn cyfrannu'n sylweddol at hyder a gwydnwch emosiynol plant. Nododd y rhieni'n aml fod cynnal

rhwydweithiau cyfoedion sefydledig yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau o newid ac ansicrwydd. Mynegwyd pryderon y gallai'r trefniadau arfaethedig arwain at y plant yn dilyn gwahanol lwybrau addysgol ac yn cael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau, sef y plant y maent wedi rhannu blynyddoedd lawer o ddysgu a datblygiad â nhw. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd bod y cyfeillgarwch a'r perthnasoedd a sefydlwyd yn Ysgol Gynradd Meidrim yn cynrychioli agwedd bwysig ar brofiad addysgol a llesiant y disgyblion, ac y dylid ystyried yn ofalus y posibilrwydd o amharu ar y rhwydweithiau hyn wrth werthuso'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn deall y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar gyfeillgarwch a'r perthnasoedd y mae'r disgyblion wedi'u sefydlu yn ystod eu hamser yn Ysgol Gynradd Meidrim. Pwysleisiodd llawer o'r gwrthwynebwyr bwysigrwydd perthynas â chyfoedion o ran cefnogi llesiant, hyder a mwynhad y plant o fywyd ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall cyfeillgarwch cryf chwarae rhan sylweddol yn natblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion a bod rhwydweithiau cyfoedion sefydledig yn aml yn darparu ffynonellau pwysig o anogaeth, diogelwch a pherthyn. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan y rhieni, y gofawyr ac aelodau o'r gymuned ynghylch gwerth y perthnasoedd hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r asesiad o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon y gallai cau'r ysgol arwain at rai o'r disgyblion yn cael eu gwahanu oddi wrth grwpiau cyfeillgarwch sydd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd. Cydnabyddir y gall symud i ysgol wahanol fod yn newid sylweddol i blant ac y gall rhai o'r disgyblion deimlo ansicrwydd neu bryder i ddechrau ynghylch addasu i amgylchedd newydd. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall pontio fod yn arbennig o heriol i'r dysgwyr iau ac i'r rhai sy'n teimlo'n hyderus o ganlyniad i arferion cyfarwydd a rhwydweithiau cymdeithasol sefydledig. Am y rheswm hwn, mae'r effaith bosibl ar lesiant a pherthnasoedd cymdeithasol y disgyblion wedi ffurfio elfen bwysig o ystyriaeth yr Awdurdod o'r cynnig.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon hyn, mae hefyd yn nodi bod pontio addysgol yn rhan arferol o daith addysgol dysgwr. Mae disgyblion yn pontio rhwng dosbarthiadau, ysgolion a chyfnodau addysgol yn rheolaidd, gan gynnwys symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae ysgolion yn brofiadol o ran cefnogi plant trwy gyfnodau o newid ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i helpu dysgwyr i ddatblygu cyfeillgarwch newydd, magu hyder ac integreiddio'n llwyddiannus i leoliadau newydd. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn arfaethedig drefniadau bugeiliol cadarn, diwylliannau ysgolion cynhwysol a staff profiadol sydd mewn sefyllfa

dda i gefnogi'r disgyblion drwy gydol y broses bontio a'u helpu i sefydlu perthynas gadarnhaol â'u grwpiau cyfoedion newydd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod sylwadau'r ymatebwyr ynglŷn â natur glòs cymuned bresennol yr ysgol a'r berthynas sy'n bodoli rhwng disgyblion o wahanol oedrannau. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at fanteision rhyngweithiadau oedran cymysg a'r cyfleoedd y mae'r rhain yn eu darparu ar gyfer mentora, arweinyddiaeth a chydgefnogaeth. Mae'r arsylwadau hyn yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mae'r ddwy ysgol dderbyn arfaethedig hefyd yn gweithredu o fewn cyd-destunau cymunedol gwledig ac yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu cyfeillgarwch ar draws grwpiau blwyddyn, cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd a chyfrannu'n gadarnhaol at fywyd ysgol. Yn ogystal, gall grwpiau cyfoedion mwy o faint ddarparu cyfleoedd i blant ehangu eu cylchoedd cymdeithasol, rhyngweithio ag ystod ehangach o ddisgyblion a datblygu cyfeillgarwch newydd a all gefnogi eu datblygiad cymdeithasol parhaus.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu i gefnogi'r disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt drosglwyddo. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion ymweld â'u hysgolion newydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio, cwrdd â'r staff a chyfoedion, a dod yn gyfarwydd â'u hamgylcheddau dysgu newydd. Byddai ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i'r disgyblion a allai fod yn agored i niwed, yn bryderus neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall rhywfaint o darfu ddigwydd ar grwpiau cyfeillgarwch sy'n bodoli eisoes; ond mae'n fodlon y gall mesurau cymorth priodol leihau effeithiau andwyol a helpu'r disgyblion i sefydlu perthnasoedd newydd yn llwyddiannus. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn nad yw'r effaith bosibl ar gyfeillgarwch, er ei fod yn bwysig, yn gorbwyso'r ystyriaethau addysgol, trefniadaethol a chynaliadwyedd ehangach sydd wedi llywio'r cynnig.

17.	Effaith yr Ansicrwydd ar y Plant	24	28%
------------	---	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder bod yr ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim eisoes wedi cael effaith negyddol ar y plant sy'n mynychu'r ysgol. Nododd y rhieni'n aml fod y disgyblion wedi dod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai'r ysgol gau a'u bod wedi dechrau gofyn cwestiynau am beth allai ddigwydd yn y dyfodol iddyn nhw, eu ffrindiau a'u hathrawon. Dywedodd sawl gwrthwynebydd fod y plant wedi cael teimladau o orbryder, dryswch a phryder o ganlyniad i'r trafodaethau parhaus ynglŷn â'r cynnig. Dadl yr ymatebwyr oedd na ddylid gofyn i blant oedran cynradd ymdopi ag ansicrwydd am gyfnodau hir am eu dyfodol addysgol ac roeddent yn awgrymu

bod y broses wedi creu straen diangen i rai o'r disgyblion. Nododd llawer fod plant yn arbennig o sensitif i newidiadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd ac efallai y byddant yn cael trafferth deall yn llwyr y rhesymau dros y penderfyniadau sydd â chanlyniadau sylweddol iddynt.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y pryder y gall ansicrwydd effeithio ar lesiant emosiynol ac ymdeimlad o ddiogelwch y plant. Esboniodd llawer o'r ymatebwyr fod y disgyblion yn gwerthfawrogi trefn, cyfarwyddineb a rhagweladwyedd, yn enwedig yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol gynradd. Nododd sawl rhiant fod y trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gau'r ysgol wedi tarfu ar yr ymdeimlad hwn o sefydlogrwydd ac wedi golygu bod y plant yn ansicr ynghylch a fyddent yn aros yn eu hamgylchedd ysgol presennol. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml fod rhai o'r disgyblion wedi mynegi pryderon am golli cysylltiad â ffrindiau, symud i ysgol anghyfarwydd neu adael aelodau staff y maent yn ymddiried ynddynt. Dadleuwyd y gallai'r ansicrwydd hwn effeithio ar hyder plant, eu gallu i ganolbwyntio a'u mwynhad o fywyd yr ysgol. Felly, roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod parhad y broses ei hun effeithio ar y disgyblion, waeth beth fo'r canlyniad yn y pen draw.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw hefyd at yr effaith arbennig y gall ansicrwydd ei chael ar y plant iau a'r rhai a allai fod eisoes yn bryderus neu fod eisoes angen anghenion cymorth ychwanegol arnynt. Roedd y rhieni'n aml yn cyfeirio at y plant sy'n elwa ar arferion clir ac amgylcheddau cyfarwydd ac roeddent yn mynegi pryder y gall ansicrwydd am gyfnod hir fod yn arbennig o heriol i'r dysgwyr hyn. Dywedodd rhai o'r gwrthwynebwyr y gallai ansicrwydd ynghylch trefniadau addysgol yn y dyfodol fod yn anoddach i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd ag anhwylder sbectwm awtistiaeth neu blant sy'n agored i niwed yn emosiynol. Dadl yr ymatebwyr oedd, lle mae'r disgyblion yn dibynnu ar gysondeb a sefydlogrwydd i deimlo'n ddiogel, y gall ansicrwydd parhaus greu pwysau ychwanegol a allai effeithio ar eu llesiant a'u gallu i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Felly, pwysleisiodd llawer bwysigrwydd sicrhau bod cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl a darparu eglurder lle bynnag y bo modd.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, pwysleisiodd yr ymatebwyr yn gyson y pwysigrwydd o ddod i ddatrysiad clir mewn modd sy'n blaenoriaethu anghenion plant. Dadl llawer o'r gwrthwynebwyr oedd y dylid rhoi ystyriaeth sylweddol i ansicrwydd wrth werthuso'r cynnig, yn enwedig lle mae'r drafodaeth hir ynghylch dyfodol eu hysgol eisoes wedi effeithio ar y plant. Mynegodd sawl ymatebydd y farn bod yr effeithiau emosiynol o ansicrwydd yn aml yn llai gweladwy na ffactorau ariannol neu drefniadaethol ond gallant gael effaith ystyrlon ar ddisgyblion a theuluoedd. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd bod y cyfnod estynedig o ansicrwydd wedi rhoi pwysau yr oedd modd

ei osgoi ar rai plant ac y dylid ystyried pwysigrwydd sefydlogrwydd, sicrwydd a pharhad yn ofalus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol addysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch yr effaith y gallai ansicrwydd yn ymwneud â'r cynnig fod wedi'i chael ar y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at bwysigrwydd sefydlogrwydd, trefn a rhagweladwyedd ym mywydau'r plant ac roeddent wedi mynegi pryder y gallai'r trafodaethau parhaus ynghylch dyfodol yr ysgol fod wedi achosi gorbryder neu bryder i rai o'r dysgwyr. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion fod yn annifyr i ddisgyblion, teuluoedd a staff, yn enwedig lle mae ansicrwydd ynghylch trefniadau addysgol yn y dyfodol. Mae llesiant y dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth bwysig drwy gydol y broses ymgynghori a chyflwyno hysbysiad statudol, ac mae'r Awdurdod yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhieni ynghylch yr effaith emosiynol y gall ansicrwydd ei chael ar y plant.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall plant ddod yn ymwybodol o drafodaethau sy'n ymwneud â dyfodol eu hysgol ac y gallant gael pryderon am newidiadau posibl i'w trefn ddyddiol, eu cyfeillgarwch, eu hamgylchedd dysgu a'u perthnasoedd â staff. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddisgyblion yn mynegi pryderon am adael amgylchedd cyfarwydd, addasu i ysgolion newydd neu gael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau. Mae'r Awdurdod yn derbyn bod pryderon o'r fath yn ddealladwy ac y gall cyfnodau o ansicrwydd greu heriau i rai dysgwyr, yn enwedig pan fyddant yn clywed safbwyntiau gwahanol a thrafodaethau ynghylch y cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ansicrwydd fod yn arbennig o anodd i blant iau ac i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr ag anhwylder sbectwm awtistiaeth, dysgwyr sy'n agored i niwed yn emosiynol neu amgylchiadau eraill sy'n golygu bod newid yn fwy heriol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod rhai o'r disgyblion yn dibynnu'n helaeth ar arferion cyfarwydd, perthnasoedd dibynadwy ac amgylcheddau cyson i gefnogi eu llesiant ac wrth iddynt ymgysylltu â dysgu. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y ffactorau hyn yn llawn ac yn derbyn y gall dysgwyr unigol brofi ansicrwydd ac ymateb iddo mewn gwahanol ffyrdd. Felly, fel rhan o'r broses gynllunio, mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i'r cymorth y byddai ei angen ar ddysgwyr agored i niwed pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gan gynnwys trefniadau pontio personol ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Mae'r Awdurdod yn nodi bod y broses statudol ei hun wedi'i chynllunio i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth

gywir ac sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Er bod hyn yn anochel yn cynnwys cyfnodau o ymgynghori, craffu ac ystyriaeth, mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw ansicrwydd dros gyfnod hir yn ddymunol i ddisgyblion, teuluoedd na staff. O ganlyniad, pwrpas y broses ymgynghori a gwrthwynebu yw galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddod i gasgliad clir a gwybodus yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu drwy gydol y broses, a darperir gwybodaeth a chymorth clir ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud i helpu i leihau ansicrwydd a chefnogi'r gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cytuno y dylai llesiant plant barhau i fod yn ystyriaeth ganolog mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu haddysg. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo hefyd ystyried ansicrwydd ochr yn ochr ag ystod ehangach o ffactorau addysgol, trefniadaethol, ariannol a chymunedol. Ar ôl ystyried yn ofalus y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai ansicrwydd fod wedi effeithio ar rai o'r disgyblion yn ystod y broses adolygu. Serch hynny, mae'n credu y byddai penderfyniad clir ynghylch dyfodol yr ysgol, ynghyd â threfniadau pontio a chymorth cadarn lle bo angen, yn darparu sicrwydd ac yn galluogi'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff i gynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon y gellir rheoli a chefnogi unrhyw effeithiau posibl sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd yn briodol ac nad yw'r rhain yn gorbwyso'r ystyriaethau ehangach sy'n sail i'r cynnig.

18.	Addasrwydd a Chapasiti'r Ysgolion Derbyn	23	27%
------------	---	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch addasrwydd yr ysgolion a nodwyd i dderbyn y disgyblion pe bai Ysgol Gynradd Meidrim yn cau. Er bod rhai o'r gwrthwynebwyr yn cydnabod bod ysgolion amgen ar gael o fewn ardal ddaearyddol resymol, roedd llawer yn cwestiynu a fyddai'r ysgolion hynny'n gallu efelychu'r manteision addysgol, bugeiliol a chymunedol a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Meidrim. Dadl sawl ymatebydd oedd bod y cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar y lleoedd sydd ar gael yn hytrach nag ystyried yn llawn y gwahaniaethau ansoddol rhwng yr ysgolion. Roedd y rhieni'n aml yn dweud eu bod wedi dewis Ysgol Gynradd Meidrim yn fwriadol oherwydd ei maint, ei hethos, ei hamgylchedd cyfrwng Cymraeg neu ei ffocws cymunedol cryf ac roeddent wedi mynegi pryder ynghylch efallai na fydd y nodweddion hyn ar gael i'r un graddau mewn mannau eraill. Felly, roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn cwestiynu a allai'r ysgolion derbyn arfaethedig gynnig profiad addysgol gwirioneddol debyg i bob disgybl.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro oedd gallu'r ysgolion derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol heb effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth. Roedd sawl ymatebydd wedi gofyn am

sicrwydd y byddai digon o le mewn ystafelloedd dosbarth a digon o lefelau staffio ac adnoddau ar gael i gefnogi mwy o ddisgyblion. Cwestiynodd y gwrthwynebwyr sut y gallai derbyn disgyblion ychwanegol effeithio ar faint dosbarthiadau ac a fyddai'r cyfleusterau presennol yn gallu bodloni'r galw yn y dyfodol, yn enwedig os bydd datblygiadau tai a thwf poblogaeth yn arwain at bwysau cofrestru cynyddol dros amser. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai ysgolion sydd â lleoedd gwag ar hyn o bryd wynebu heriau os derbynnir nifer sylweddol o ddisgyblion ychwanegol. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y goblygiadau tymor hwy i strwythurau staffio, amgylcheddau dysgu a'r profiad addysgol cyffredinol sydd ar gael i'r plant ar ôl trosglwyddo.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at bwysigrwydd deall anghenion unigol disgyblion a allai fod yn ofynnol iddynt symud ysgolion. Mynegwyd pryderon penodol ynglŷn â phlant sy'n elwa ar yr amgylchedd maint bach a phersonol a gynigir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Meidrim. Cwestiynodd nifer o'r rhieni a fyddai ysgolion mwy o faint yn gallu darparu'r un lefel o sylw unigol, parhad y cymorth a chyfarwyddineb ag y mae eu plant yn ei gael ar hyn o bryd. Cyfeiriwyd yn aml at y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anableddau, cyflyrau meddygol a'r rhai a allai fod yn bryderus ynghylch newid. Dadl y gwrthwynebwyr oedd, er y gallai fod gan yr ysgolion derbyn bolisiâu a systemau cymorth priodol ar waith, y gallai'r broses o addasu i amgylchedd newydd fod yn heriol i rai plant o hyd. Felly, roedd llawer yn teimlo bod angen asesiad manylach o sut y byddai anghenion unigol yn cael eu diwallu ar ôl trosglwyddo.

Mynegodd sawl ymatebydd pryderon hefyd ynghylch yr effaith y gall trosglwyddo i wahanol ysgolion ei chael ar barhad dysgu, perthnasoedd cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol. Dadl y gwrthwynebwyr oedd na ddylid mesur addasrwydd trwy gapasiti ffisegol neu'r lleoedd sydd ar gael yn unig ond dylid hefyd ystyried profiadau addysgol a chymdeithasol ehangach disgyblion. Nododd llawer fod gan yr ysgolion derbyn eu diwylliannau, eu polisiâu a'u grwpiau disgyblion sefydledig eu hunain, ac roeddent wedi mynegi pryder y gallai fod angen cymorth sylweddol ar blant o Ysgol Gynradd Meidrim i integreiddio'n llwyddiannus. Dywedodd yr ymatebwyr yn aml y byddai llwyddiant unrhyw broses bontio yn dibynnu ar gynllunio gofalus a chymorth parhaus cyn ac ar ôl trosglwyddo. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y dylid ystyried ymhellach addasrwydd ysgolion derbyn a'u gallu i ddiwallu anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol amrywiol y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag addasrwydd yr ysgolion derbyn arfaethedig ac maent yn cydnabod bod llawer o'r rhieni wedi dewis Ysgol Gynradd

Meidrim yn benodol oherwydd ei maint, ei hethos, ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i hamgylchedd cymunedol glòs. Cwestiynodd y gwrthwynebwyr a fyddai'r ysgolion amgen yn gallu efelychu'r manteision addysgol, bugeiliol a chymdeithasol y mae'r disgyblion yn eu cael ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y rhieni'n rhoi gwerth sylweddol ar nodweddion ysgol eu plentyn ac mae'n deall pam mae'r rhanddeiliaid yn dymuno cael eu hargyhoeddi y byddai unrhyw ddarpariaeth amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol. Am y rheswm hwn, mae addasrwydd yr ysgolion derbyn posibl wedi bod yn ystyriaeth allweddol drwy gydol datblygiad y cynnig.

Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi cynnal gwerthusiad manwl o'r ysgolion derbyn arfaethedig, gan gynnwys ystyried safonau addysgol, trefniadau arweinyddiaeth, darpariaeth llesiant, addysg cyfrwng Cymraeg, capasiti staffio, yr adeiladau a chymorth i ddysgwyr. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn gallu darparu darpariaeth addysgol briodol i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu mewn lleoliadau gwledig, mae ganddynt brofiad o gefnogi dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ac maent yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cefnogi datblygiad academiaidd, cymdeithasol a phersonol disgyblion. Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod darpariaeth addysgol amgen addas ar gael pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch gallu'r ysgolion derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol heb effeithio'n andwyol ar ansawdd yr addysg neu brofiad y disgyblion. Ceisiodd yr ymatebwyr sicrwydd ynghylch yr ystafelloedd dosbarth, lefelau staffio, adnoddau a'r effaith bosibl ar faint dosbarthiadau. Mae'r materion hyn wedi'u hasesu'n ofalus fel rhan o'r broses o werthuso'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim a bod y strwythurau staffio a'r cyfleusterau presennol yn gallu cefnogi dysgwyr ychwanegol. Mae asesiadau capasiti hefyd wedi ystyried amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn y dyfodol i sicrhau bod yr ysgolion derbyn dal yn gallu darparu amgylcheddau addysgol priodol dros y tymor hwy.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ymhellach bryderon sy'n ymwneud â disgyblion a allai fod angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anableddau, cyflyrau meddygol neu'r rhai a allai fod yn bryderus iawn am newid. Mynegodd yr ymatebwyr bryderon bod rhai o'r plant yn elwa'n sylweddol ar yr amgylchedd personol sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Meidrim ac roeddent yn cwestiynu a ellid efelychu'r cymorth hwn mewn mannau eraill. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y materion hyn yn ofalus ac mae'n fodlon bod gan yr ysgolion derbyn systemau, adnoddau ac arbenigedd proffesiynol priodol ar waith i gefnogi dysgwyr

ag ystod eang o anghenion. Ar ben hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cynllunio pontio manwl yn cael ei gynnal i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n effeithiol a bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i'r disgyblion hynny a allai fod angen cymorth ychwanegol yn ystod y broses drosglwyddo.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y farn y dylid ystyried addasrwydd mewn modd ehangach na chapasiti ffisegol yn unig a dylai gynnwys profiadau addysgol, llesiant, integreiddio cymdeithasol a pharhad dysgu. Mae'r Awdurdod yn cytuno bod y ffactorau hyn yn bwysig ac felly mae wedi asesu'r ysgolion derbyn mewn modd cyfannol. Byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu i helpu'r disgyblion i sefydlu perthynas â staff a chyfoedion, dod yn gyfarwydd â'u hamgylcheddau dysgu newydd a chynnal cynnydd addysgol drwy gydol y cyfnod pontio. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod gan yr ysgolion derbyn arfaethedig y capasiti, yr adnoddau a'r trefniadau trefniadaethol angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr, mae'n hyderus y gall cymorth a chynllunio priodol sicrhau proses bontio lwyddiannus a deilliannau cadarnhaol i'r dysgwyr pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

19.	Cau ar Ganol Blwyddyn Academaidd a Threfniadau Pontio	20	24%
------------	--	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder ynghylch amseriad arfaethedig cau'r ysgol ac roeddent yn dadlau y byddai gweithredu newid mor sylweddol hanner ffordd trwy flwyddyn academaidd yn creu aflonyddwch diangen i'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff. Nododd y gwrthwynebwyr yn aml fod pontio rhwng ysgolion yn gyffredinol yn tarfu llai ar blant pan fydd yn digwydd ar ddiwedd blwyddyn academaidd, gan ganiatáu iddynt gwblhau blwyddyn lawn o astudio cyn symud i leoliad newydd. Cwestiynodd sawl ymatebydd y rhesymeg dros ddewis dyddiad cau yn ystod y flwyddyn academaidd ac roeddent yn awgrymu y byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y disgyblion gan y byddai'n ofynnol iddynt addasu i amgylchedd newydd, arferion newydd a pherthnasoedd newydd ar adeg pan fo disgyblion eraill yn yr ysgolion derbyn eisoes wedi sefydlu'r rhain. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr yn teimlo y byddai amseru'r cynnig yn gwneud y broses bontio, sydd eisoes yn heriol, yn llawer anoddach i'r rhai yr effeithir arnynt.

Pryder oedd yn codi dro ar ôl tro yn y gwrthwynebiadau oedd effaith bosibl trosglwyddo yng nghanol blwyddyn ar barhad addysgol y plant. Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd y gallai trosglwyddo ysgolion

ar ôl i'r flwyddyn academiaidd ddechrau amharu ar ddysgu, y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a threfniadau asesu. Mynegodd sawl rhiant bryder y gallai'r disgyblion ymuno â dosbarthiadau sefydledig lle mae grwpiau cyfeillgarwch, arferion addysgu a rhaglenni dysgu eisoes ar waith, gan gynyddu'r her o ymgartrefu mewn amgylchedd newydd. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr yn aml at yr effaith bosibl ar hyder plant a'u hymgysylltu â dysgu yn ystod y cyfnod pontio. Cwestiynodd rhai o'r ymatebwyr hefyd a fyddai'r disgyblion yn profi tarfu ar brosiectau, gweithgareddau neu brofiadau dysgu penodol a oedd eisoes ar y gweill yn Ysgol Gynradd Meidrim. O ganlyniad, petai'r ysgol yn cael ei chau, dadl llawer oedd y dylai'r trefniadau geisio lleihau'r tarfu ar eu haddysg lle bynnag y bo modd.

Mynegwyd pryder penodol ynglŷn ag effaith trosglwyddo yng nghanol blwyddyn academiaidd ar ddisgyblion Blwyddyn 6. Nododd llawer o'r ymatebwyr fod y disgyblion hyn eisoes yn agosáu at gyfnod pontio addysgol sylweddol wrth iddynt baratoi i symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Dadl y gwrthwynebwyr yn aml oedd y byddai gofyn i ddisgyblion Blwyddyn 6 symud i ysgol gynradd wahanol am gyfnod cymharol fyr cyn symud i'r ysgol uwchradd sy'n golygu y byddai dau gyfnod pontio mawr yn digwydd o fewn cyfnod byr. Awgrymodd sawl rhiant y gallai hyn roi pwysau emosiynol ac addysgol diangen ar y disgyblion ar gam pwysig o'u datblygiad. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anableddau neu anawsterau sy'n gysylltiedig â gorbryder, ac roedd yr ymatebwyr yn dadlau y gallai newidiadau dro ar ôl tro yn yr amgylchedd addysgol fod yn arbennig o heriol i'r dysgwyr hyn. Roedd llawer o'r farn y dylid ystyried amgylchiadau penodol disgyblion Blwyddyn 6 yn ofalus wrth benderfynu ynghylch trefniadau pontio.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y byddai mesurau cymorth a chynlluniau pontio yn debygol o gael eu gweithredu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, pwysleisiodd y gwrthwynebwyr yn gyson na fyddai cynllunio gofalus ar ei ben ei hun yn gwaredu'r anawsterau sy'n gysylltiedig â symud yng nghanol blwyddyn. Dadl sawl sylw oedd y dylid ystyried amseriad y cau fel mater gwahanol ar wahân i'r egwyddor o gau ei hun ac roeddent yn awgrymu y dylid cynllunio unrhyw bontio i darfu cyn lleied â phosibl ar y disgyblion a'r teuluoedd. Dywedodd yr ymatebwyr yn aml nad oedd yr effeithiau addysgol, emosiynol a chymdeithasol o drosglwyddo plant yn ystod y flwyddyn academiaidd wedi'u hystyried yn llawn yn y cynnig. Y farn gyffredinol a fynegwyd drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y byddai cau yng nghanol blwyddyn academiaidd yn creu heriau diangen i'r disgyblion ac y dylai trefniadau pontio flaenoriaethu sefydlogrwydd, parhad a llesiant dysgwyr yr effeithir arnynt petai unrhyw drefniadau ad-drefnu'n mynd rhagddynt.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag amseriad arfaethedig cau'r ysgol a'r effaith bosibl o drosglwyddo i ysgol arall yn ystod blwyddyn academiaidd. Mynegodd llawer o'r gwrthwynebwyr y farn bod pontio addysgol yn gyffredinol yn haws i blant pan fyddant yn digwydd ar ddiwedd blwyddyn academiaidd, gan ganiatáu i'r disgyblion gwblhau blwyddyn lawn o ddysgu cyn symud i leoliad newydd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall newid ysgol fod yn fater sylweddol i ddysgwyr a'u teuluoedd, yn enwedig lle effeithir ar arferion, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth sefydledig. Felly, mae goblygiadau posibl y dyddiad cau yn y cynnig wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o asesiad cyffredinol y cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon sy'n ymwneud â pharhad dysgu a chyflawni'r cwricwlwm. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y posibilrwydd y gallai'r disgyblion sy'n trosglwyddo hanner ffordd trwy flwyddyn academiaidd orfod addasu i wahanol arferion dosbarthiadau, dulliau addysgu a rhaglenni dysgu. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall yr addasiadau hyn fod yn heriol i rai dysgwyr. Fodd bynnag, mae ysgolion yn rheolaidd yn rheoli'r trefniadau o dderbyn disgyblion drwy gydol y flwyddyn academiaidd ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gefnogi parhad addysgol. Mae gan yr ysgolion derbyn arfaethedig brofiad o groesawu dysgwyr o wahanol leoliadau a byddent yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Meidrim i sicrhau bod gwybodaeth am gynnydd y disgyblion, eu hanghenion dysgu a'u profiadau o'r cwricwlwm yn cael ei rhannu'n briodol. Byddai hyn yn helpu i darfu cyn lleied â phosibl ar ddysgu ac yn helpu'r disgyblion i integreiddio'n llwyddiannus i'w hysgol newydd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch llesiant emosiynol y disgyblion yn ystod y broses bontio. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y gallai symud yng nghanol blwyddyn gynyddu pryder i blant y mae gofyn iddynt addasu i amgylchedd anghyfarwydd, meithrin cyfeillgarwch newydd a sefydlu perthynas ag aelodau newydd o staff. Mae'r pryderon hyn yn cael eu cydnabod, ac mae'r Awdurdod yn derbyn bod cynllunio pontio effeithiol yn hanfodol i leihau ansicrwydd a chefnogi llesiant dysgwyr. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu, gan gynnwys cyfleoedd i'r disgyblion ymweld â'u hysgolion derbyn, cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio, cwrdd â'r staff a'u cyfoedion, a dod yn gyfarwydd â'u hamgylcheddau dysgu newydd cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd. Byddai cymorth bugeiliol priodol hefyd ar gael yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio i sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses.

Mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth arbennig i amgylchiadau disgyblion Blwyddyn 6, gan gydnabod bod y dysgwyr hyn eisoes yn paratoi ar gyfer pontio i addysg uwchradd. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon y gallai trosglwyddo i ysgol gynradd arall ychydig cyn symud i'r ysgol uwchradd arwain at ddau gyfnod pontio pwysig o fewn cyfnod cymharol fyr. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon hyn a byddai'n sicrhau bod anghenion penodol disgyblion Blwyddyn 6 yn cael eu hystyried o fewn unrhyw gynlluniau pontio. Byddai hyn yn cynnwys cydweithio agos rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd i gefnogi parhad, sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl a darparu arweiniad a sicrwydd priodol i'r dysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer cam nesaf eu haddysg. Byddai ystyriaeth debyg yn cael ei rhoi i'r disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anabledau neu gyflyrau meddygol, a byddai eu hamgylchiadau unigol yn cael eu hasesu'n ofalus i sicrhau bod trefniadau cymorth addas ar waith.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod amseru cau'r ysgol yn fater pwysig i lawer o'r ymatebwyr ac mae'n derbyn nad oes amser pontio sy'n gwbl ddi-her. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried ffactorau ymarferol, trefniadaethol ac ariannol wrth benderfynu ynghylch trefniadau gweithredu. Ar ôl ystyried y pryderon a fynegwyd drwy'r broses wrthwynebu, mae'r Awdurdod yn fodlon y gall cynlluniau pontio cadarn, cyfathrebu effeithiol a chymorth wedi'i dargedu liniaru'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yng nghanol blwyddyn academiaidd. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr, mae'n parhau i fod yn hyderus, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, y gellir gweithredu trefniadau priodol i gefnogi'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff a sicrhau bod y dysgwyr yn dal i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn amgylcheddau dysgu cefnogol a chynhwysol.

20.	Hyder ym Mlaenoriaethau Gwario'r Cyngor	18	22%
------------	--	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r cyd-destun ehangach lle roedd y cynnig wedi'i ddatblygu ac roeddent yn cwestiynu a oedd cau Ysgol Gynradd Meidrim yn cynrychioli'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau Cyngor a'i bwerau o ran gwneud penderfyniadau. Er bod rhai o'r gwrthwynebwyr yn cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, maent yn dadlau bod y cynnig i gau wedi ysgogi cwestiynau ehangach am flaenoriaethau gwario a dyrannu arian cyhoeddus cyfyngedig. Dywedodd sawl ymatebydd eu bod yn ei chael hi'n anodd cysoni'r cynnig i gau ased cymunedol gwerthfawr â gwariant a wnaed mewn meysydd eraill o weithgarwch y Cyngor. O ganlyniad, roedd llawer o'r gwrthwynebiadau yn mynd y tu hwnt i herio'r achos ariannol penodol dros gau'r ysgol ac yn hytrach roeddent yn canolbwyntio ar ofyn a oedd cynnal darpariaeth addysgol

leol a chymunedau gwledig yn cael digon o flaenoriaeth. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd y dylid ystyried ysgolion fel buddsoddiadau hirdymor mewn plant, teuluoedd a chymunedau yn hytrach nag fel ymrwymïadau cyllidebol yn unig.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y canfyddiad y gallai cyfleoedd amgen ar gyfer arbedion effeithlonrwydd fodoli mewn mannau eraill o fewn gweithrediadau'r Cyngor. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at gostau gweinyddol, strwythurau rheoli a meysydd gwariant eraill y dylid, yn eu barn nhw, eu hadolygu cyn ystyried cau ysgol bentref. Awgrymodd rhai o'r gwrthwynebwyr y dylid diogelu gwasanaethau addysgol, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi plant iau a chymunedau gwledig, lle bynnag y bo modd, ac roeddent yn dadlau y dylid ceisio gostyngiadau mewn meysydd gwariant llai critigol. Er bod yr ymatebwyr yn aml yn darparu enghreifftiau gwahanol, roedd y pryder sylfaenol yn gyson: Roedd llawer yn cwestiynu a oedd pob dewis amgen rhesymol yn lle cau'r ysgol wedi cael ei archwilio cyn symud ymlaen i gynnig a fyddai'n gwaredu'r ddarpariaeth addysgol o'r pentref yn barhaol.

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder hefyd efallai na fyddai gwerth Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i gydnabod yn llawn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau ariannol. Dadl y gwrthwynebwyr yn aml oedd nad yw asesiadau ariannol traddodiadol yn cyfleu'n ddigonol y manteision ehangach a gynhyrchir gan ysgol wledig, gan gynnwys cyfraniadau o ran cydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd y Gymraeg, llesiant plant a hunaniaeth leol. Awgrymwyd mewn sawl sylw fod perygl bod penderfyniadau sy'n seiliedig yn bennaf ar fetrigau ariannol yn anwybyddu'r effeithiau cymdeithasol a chymunedol sylweddol a allai fod yn anodd eu meintoli ond sydd o werth sylweddol, serch hynny. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn honni bod yr ysgol yn darparu manteision sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn cwestiynu a oedd digon o bwys wedi cael ei roi ar y deilliannau ehangach hyn wrth gydbwyso costau mewn perthynas ag arbedion.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd cynnal hyder y cyhoedd yn y ffordd y dyrannir adnoddau ac y gwneir penderfyniadau. Dywedodd sawl gwrthwynebydd fod cynigion i gau ysgolion sy'n effeithio ar ysgolion a chymunedau yn debygol o ddenu craffu uwch oherwydd eu goblygiadau hirdymor a'r effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd y dylai penderfyniadau o'r natur hon ddangos yn glir bod yr holl ddewisiadau amgen wedi'u hystyried a bod manteision cymunedol ehangach wedi'u hasesu'n llawn ochr yn ochr ag ystyriaethau ariannol. Y farn gyffredinol a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr hyn oedd y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i ddiogelu'r ddarpariaeth addysgol leol a chefnogi cymunedau

gwledig, ac na ddylid mynd ar drywydd cau Ysgol Gynradd Meidrim oni bai y gellir dangos yn glir nad oes dewisiadau amgen mwy priodol yn bodoli a bod y cynnig yn well i fudd ehangach y cyhoedd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r cyd-destun ehangach y mae'r cynnig wedi'i ddatblygu ynddo ac mae'n cydnabod bod llawer o'r gwrthwynebwyr yn cwestiynu a yw cau Ysgol Gynradd Meidrim yn cynrychioli'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau cyhoeddus. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon ehangach yn ymwneud â blaenoriaethau gwario ac roeddent wedi'i mynegi'r farn y dylid ystyried ysgolion lleol, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig, fel buddsoddiadau hirdymor mewn plant, teuluoedd a chynaliadwyedd cymunedau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cryfder y teimladau sy'n gysylltiedig â'r pryderon hyn ac mae'n derbyn bod cynigion sy'n effeithio ar ysgolion yn aml yn cael eu hystyried nid yn unig trwy lens addysgol ond hefyd yng nghyd-destun darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ehangach a llesiant cymunedol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ceisio sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan asesiad cytbwys o ystyriaethau addysgol, ariannol, cymunedol a threfniadaethol yn hytrach nag ystyriaethau ariannol yn unig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai o'r ymatebwyr wedi cwestiynu a oedd digon o gyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd wedi'u harchwilio mewn mannau eraill o fewn y Cyngor cyn bwrw ymlaen â chynnig i gau ysgol bentref. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd dangos bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n gyfrifol a bod yr holl wasanaethau'n destun craffu ac adolygiad priodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr heriau ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg yn rhai sylweddol ac yn rhan o bwysau ehangach sy'n effeithio ar gyllid llywodraeth leol yn genedlaethol. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn parhau i fod yn gynaliadwy a bod adnoddau a ddyrennir i ysgolion yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi addysg o ansawdd uchel i ddysgwyr ledled y sir. O ganlyniad, mae'n rhaid ystyried cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion ochr yn ochr â mesurau ehangach sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith ar draws gwasanaethau'r Cyngor i reoli pwysau ariannol a gwella effeithlonrwydd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi bod y cynnig yn rhan o gyd-destun ehangach Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor, sydd wedi'i datblygu mewn ymateb i heriau demograffig, ariannol a sefydliadol sylweddol sy'n effeithio ar addysg ledled Sir Gaerfyrddin a Chymru. Mae gostyngiad mewn cyfraddau geni a gostyngiad yn nifer y disgyblion wedi arwain at lefelau cynyddol o gapasiti dros ben ar draws ystâd yr ysgol, gan roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgolion a chynaliadwyedd

hirdymor y ddarpariaeth addysgol. Mae'r heriau hyn wedi cyfrannu at nifer cynyddol o ysgolion sy'n gweithredu mewn diffyg ariannol ac wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y rhwydwaith ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael ei gynghori gan gyrff rheoleiddio allanol, gan gynnwys Estyn a'r Panel Asesu Perfformiad, er bod ei strategaeth moderneiddio ysgolion yn gredadwy, mae cynnydd wrth weithredu newid wedi bod yn rhy araf o ystyried graddfa'r pwysau demograffig ac ariannol sy'n wynebu'r system addysg. Mae'r ffactorau ehangach hyn wedi llywio datblygiad y cynnig ac yn parhau i gefnogi'r angen am benderfyniadau trefnu ysgolion amserol i sicrhau system addysg gynaliadwy, gwydn ac effeithiol i ddysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon efallai na fydd y manteision cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol ehangach a ddarperir gan Ysgol Gynradd Meidrim yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn asesiadau ariannol. Dadl yr ymatebwyr oedd na ellir meintio'r cyfraniad a wnaed gan yr ysgol i gydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd y Gymraeg, llesiant a hunaniaeth leol yn hawdd trwy fetrigau ariannol yn unig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryder hwn ac yn dymuno pwysleisio bod asesiad y cynnig wedi ymestyn y tu hwnt i ystyriaethau ariannol. Mae'r effeithiau ar y gymuned, y goblygiadau o ran y Gymraeg, llesiant dysgwyr, safonau addysgol a barn y rhanddeiliaid i gyd wedi'u harchwilio drwy'r broses ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall ysgolion gynhyrchu gwerth cymdeithasol sylweddol ac y dylid ystyried y manteision hyn yn ofalus ochr yn ochr â ffactorau addysgol ac ariannol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal hyder y cyhoedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig lle mae gan gynigion y potensial i effeithio ar y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am dryloywder a sicrwydd bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol wedi'u harchwilio'n llawn cyn i gynnig ynghylch cau'r ysgol gael ei roi ar waith. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y disgwyliadau hyn ac mae'n cadarnhau bod ystod o opsiynau wedi'u hystyried drwy gydol y broses adolygu. Mae'r rhain wedi cynnwys ystyried trefniadau trefniadaethol amgen, cyfleoedd i gydweithio a chynigion a gyflwynwyd gan y llywodraethwyr, y rhieni a'r rhanddeiliaid cymunedol. Mae'r Awdurdod wedi ceisio gwerthuso'r holl opsiynau yn gyson mewn perthynas â'r meini prawf allweddol, gan gynnwys cynaliadwyedd addysgol, hyfywedd ariannol, y galw gan ddisgyblion, capasiti arweinyddiaeth a gwydnwch hirdymor.

Mae'r Awdurdod yn deall yn llwyr pam mae'r rhanddeiliaid yn dymuno sicrhau bod darpariaeth addysgol leol yn cael blaenoriaeth uchel o fewn penderfyniadau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo hefyd gydbwyso'r amcan hwn yn erbyn ei gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhwydwaith ysgolion cyffredinol yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn effeithiol a'i fod yn gallu diwallu anghenion addysgol yn y dyfodol. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys y pryderon a fynegwyd ynghylch blaenoriaethau gwario, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig wedi'i ddatblygu yn dilyn asesiad cynhwysfawr o ffactorau addysgol, ariannol, cymunedol a strategol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai'r ymatebwyr anghytuno â'r casgliadau y daethpwyd iddynt, mae'n credu bod y cynnig yn adlewyrchu dull cyfrifol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o reoli adnoddau cyhoeddus, gan geisio sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel i ddysgwyr ledled y sir ar yr un pryd.

21.	Hawliau Plant a Gwneud Penderfyniadau sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn	15	18%
------------	---	-----------	------------

Dadl llawer o'r ymatebwyr oedd y dylai penderfyniadau ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim gael eu llywio'n bennaf gan anghenion, diddordebau a llesiant plant yn hytrach nag ystyriaethau ariannol neu drefniadaethol. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml y dylai'r plant aros yn ganolog i'r broses benderfynu ac y dylai unrhyw asesiad o'r cynnig ddechrau trwy ystyried yr effaith debygol ar y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol. Mynegodd sawl rhiant bryder bod trafodaethau wedi canolbwyntio ar gyllidebau, nifer y disgyblion a threfniadaeth yr ysgol ac nad oedd digon o sylw wedi'i roi i brofiadau'r plant a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig i gau'r ysgol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn pwysleisio bod addysg gynradd yn cynrychioli cam ffurfiannol ym mywydau plant ac roeddent yn dadlau y dylai penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hamgylchedd dysgu roi pwys sylweddol ar eu hanghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Mae llawer o'r sylwadau'n adlewyrchu cred mai buddiannau plant ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf drwy gydol y broses.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro o fewn y gwrthwynebiadau oedd pwysigrwydd cydnabod safbwyntiau a phrofiadau'r plant eu hunain. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at sgysiau â disgyblion a oedd wedi mynegi pryderon am adael eu hysgol, colli cysylltiad â ffrindiau neu symud i amgylchedd anghyfarwydd. Dywedodd y rhieni a'r gofawyr yn aml fod y plant wedi datblygu cysylltiadau cryf â'u hysgol, eu hathrawon a'u cymuned ehangach yr ysgol ac roeddent yn dadlau na ddylid anwybyddu'r perthnasoedd hyn wrth ystyried ad-drefnu addysgol. Tynnodd rhai o'r gwrthwynebwyr sylw at

bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif, yn enwedig lle mae gan benderfyniadau y potensial i effeithio ar eu bywydau bob dydd a'u profiadau addysgol yn y dyfodol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw'r plant yn unigolion sy'n derbyn gwasanaethau addysgol yn unig ond eu bod yn unigolion y dylai eu safbwyntiau lywio penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau hefyd yn canolbwyntio ar yr egwyddor ehangach y dylai penderfyniadau addysgol geisio hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd y dylid asesu llwyddiant ysgol nid yn unig trwy effeithlonrwydd ariannol ond hefyd trwy ei gallu i gefnogi datblygiad, llesiant a chyflawniad plant. Tynnodd sawl gwrthwynebydd sylw at y profiadau cadarnhaol y mae'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn eu mwynhau ar hyn o bryd ac roeddent yn cwestiynu a fyddai trefniadau amgen yn darparu'r un lefel o gymorth, ymdeimlad o berthyn a thwf personol. Awgrymwyd, lle mae plant yn ffynnu mewn lleoliad addysgol, y dylid gofyn am gyfiawnhad cryf cyn gwneud newidiadau a allai amharu ar eu cynnydd. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn dadlau bod cadw amgylchedd dysgu sefydlog a chefnogol yn gyson â hyrwyddo buddiannau gorau plant ac felly dylid rhoi pwys sylweddol i hyn o fewn y broses o wneud penderfyniadau.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, mynegodd llawer o'r ymatebwyr y farn y byddai dull sydd wirioneddol yn canolbwyntio ar y plentyn yn cynnwys cydbwysu ystyriaethau ariannol a threfniadaethol yn erbyn yr effaith bosibl ar fywydau'r plant. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau addysg ond roeddent yn honni na ddylai heriau o'r fath orbwysu pwysigrwydd diogelu llesiant plant, parhad addysgol ac ymdeimlad o ddiogelwch. Cyfeiriodd sawl sylw at y canlyniadau hirdymor y gall penderfyniadau addysgol eu cael ar hyder, datblygiad emosiynol a chyfleoedd yn y dyfodol. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd y dylai plant aros wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac y dylai unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim ddangos yn glir sut mae diddordebau, profiadau a llesiant y dysgwyr wedi cael eu hystyried a'u blaenoriaethu ochr yn ochr â'r holl ffactorau eraill.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd gosod plant a phobl ifanc yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim. Pwysleisiodd llawer o'r gwrthwynebwyr y dylai penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarpariaeth addysgol gael eu harwain gan anghenion, profiadau a llesiant dysgwyr ac roeddent yn dadlau y dylai buddiannau plant fod yn brif ystyriaeth drwy gydol y broses. Mae

anghenion addysgol, emosiynol, cymdeithasol a llesiant y dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol wedi bod yn ystyriaeth allweddol drwy gydol camau'r broses o ran ymgynghori, cyflwyno hysbysiad statudol a gwrthwynebu.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y pwysigrwydd o wrando ar safbwyntiau'r plant eu hunain a rhoi ystyriaeth iddynt. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y pryderon bod y disgyblion wedi datblygu cysylltiadau cryf â'u hysgol, eu hathrawon, eu ffrindiau a chymuned ehangach yr ysgol ac efallai fod ganddynt bryderon am newidiadau posibl i'w hamgylchedd addysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan y plant hawl i fynegi eu barn ynghylch materion sy'n effeithio arnynt ac y dylid ystyried y safbwyntiau hynny'n briodol o fewn prosesau gwneud penderfyniadau. Fel rhan o'r broses trefniadaeth ysgolion, mae cyfleoedd wedi'u darparu i gasglu ac ystyried barn sy'n ymwneud ag effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai'r disgyblion brofi ansicrwydd neu bryder ynghylch newid ac mae wedi ystyried y materion hyn yn ofalus fel rhan o'i asesiad o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y farn y dylai penderfyniadau addysgol hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Tynnodd y gwrthwynebwyr sylw at y profiadau cadarnhaol y mae'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn eu mwynhau ar hyn o bryd ac roeddent yn cwestiynu a fyddai trefniadau amgen yn darparu'r un lefel o gymorth, parhad ac ymdeimlad o berthyn. Wrth asesu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus allu'r ysgolion derbyn arfaethedig i ddiwallu anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr. Mae'r asesiad hwn wedi cynnwys ystyriaeth o safonau addysgol, darpariaeth llesiant, trefniadau diogelu, cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, addysg cyfrwng Cymraeg a chynlluniau pontio. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr ysgolion derbyn yn gallu darparu profiadau addysgol o ansawdd uchel a chymorth priodol i'r disgyblion sy'n trosglwyddo o ganlyniad i'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod na ellir ystyried buddiannau gorau plant ar wahân i'r ffactorau ehangach sy'n cyfrannu at ddarpariaeth addysgol gynaliadwy ac effeithiol. Er bod llesiant disgyblion a deilliannau addysgol yn parhau i fod yn ystyriaethau canolog, mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried materion fel capasiti arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, lleoedd gwag a hyfywedd hirdymor rhwydwaith yr ysgolion. Amcan y broses trefniadaeth ysgolion yw sicrhau bod y plant nid yn unig yn cael profiad addysgol cadarnhaol heddiw ond eu bod yn parhau i elwa ar ddarpariaeth addysgol wydn, gynaliadwy ac o ansawdd uchel yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Awdurdod gydbwyso ystyriaethau nawr a rhai hirdymor wrth benderfynu pa drefniadau sy'n cefnogi buddiannau dysgwyr orau.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod hawliau a llesiant plant yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghori, cyflwyno gwrthwynebiadau, asesiadau effaith a dogfennau ategol, mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr effeithiau posibl ar ddysgwyr wedi'u gwerthuso'n ofalus a bod pwys sylweddol wedi'i roi arnynt. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr, mae'n parhau i fod o'r farn bod y cynnig wedi'i ddatblygu yn unol â'i gyfrifoldeb i hyrwyddo buddiannau addysgol, llesiant a chyfleoedd dysgwyr yn y dyfodol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trefniadau pontio a chymorth cynhwysfawr yn cael eu gweithredu i sicrhau bod y plant yn parhau wrth wraidd y cynllunio a bod eu hanghenion addysgol ac emosiynol a'u llesiant yn parhau i gael eu cefnogi'n effeithiol drwy gydol y broses bontio.

22.	Cywirdeb Dogfennau a Newidiadau i'r Cynnig	14	17%
------------	---	-----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch cywirdeb a chysondeb gwybodaeth a'r modd y cyflwynir hi drwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu statudol. Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml ei bod yn bwysig i'r rhanddeiliaid gael mynediad at wybodaeth glir, ddibynadwy a chynhwysfawr wrth ystyried cynnig sydd â goblygiadau sylweddol i'r disgyblion, y teuluoedd a'r gymuned ehangach. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at achosion lle roedd gwybodaeth wedi'i diwygio, ei hegluro neu ei chywiro yn ystod y broses ac roeddent yn dadlau bod hyn wedi creu ansicrwydd ynghylch y dystiolaeth sy'n sail i'r cynnig. Er bod rhai o'r gwrthwynebwyr yn cydnabod bod cyhoeddi cywiriadau yn briodol lle mae gwallau yn cael eu nodi, mynegodd llawer bryderon bod newidiadau o'r fath wedi effeithio ar eu hyder yng nghryfder y dogfennau a'r casgliadau a wnaethpwyd yn seiliedig arnynt. Y farn dro ar ôl tro oedd y dylai'r holl wybodaeth ategol fod yn gwbl gywir ac yn gyson o'r cychwyn cyntaf i alluogi ymgynghori ystyrion a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau'n cyfeirio'n benodol at newidiadau a wnaed i wybodaeth ariannol yn ystod y broses. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at ddiwygiadau i ffigurau sy'n ymwneud â chostau a gwariant ysgolion ac roeddent yn cwestiynu i ba raddau y gallai'r diwygiadau hyn fod wedi dylanwadu ar yr achos busnes cyffredinol dros gau'r ysgol. Awgrymodd sawl gwrthwynebydd fod diwygiadau i ddata rhifiadol yn ei gwneud hi'n anodd asesu cryfder y ddadl ariannol sy'n cael ei chyflwyno. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch sut y cyfathrebwyd gwybodaeth a gafodd ei chywiro i'r rhanddeiliaid ac a oedd gan yr holl bartïon â diddordeb ddigon o gyfle i adolygu ac ystyried y ffigurau diwygiedig. Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr, pan fo data ariannol yn rhan allweddol o'r

cyfiawnhad dros y cynnig, mae angen esboniad a chraffu gofalus ar unrhyw ddiwygiadau i'r wybodaeth honno i gynnal hyder yn y broses.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr hefyd at newidiadau sy'n ymwneud â threfniadau derbyn ysgolion, ystyriaethau o ran dalgylch ac agweddau gweithredol eraill ar y cynnig. Awgrymodd y gwrthwynebwyr fod newidiadau a gyflwynwyd ar wahanol gamau o'r broses wedi creu ansicrwydd ar brydiau ynghylch y goblygiadau llawn o gau'r ysgol. Dadl sawl ymatebydd oedd bod newidiadau i elfennau pwysig o'r cynnig yn ei gwneud hi'n anoddach i'r rhanddeiliaid ddeall yn union beth oedd yn cael ei gynnis ac i ba raddau y byddai hyn yn effeithio ar y disgyblion a'r teuluoedd. Mynegodd rhai o'r gwrthwynebwyr y farn y dylai newidiadau sylweddol sbarduno cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu a thrafod, yn enwedig lle gofynnir i gymunedau asesu goblygiadau addysgol, logistaidd a chymunedol cymhleth. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod sicrhau eglurder drwy gydol y broses yn hanfodol i sicrhau cyfranogiad ystyrlon.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, roedd yr ymatebwyr yn aml yn cysylltu pryderon ynghylch cywirdeb dogfennau â materion ehangach o ran ymddiriedaeth a hyder yn y broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd llawer o'r gwrthwynebwyr fod hyder y cyhoedd yn cael ei gryfhau pan fydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n dryloyw, yn gyson ac mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall. Dadl sawl ymatebydd oedd bod cywirdeb yn arbennig o bwysig mewn cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion oherwydd yr effeithiau hirdymor y mae penderfyniadau o'r fath yn eu cael ar blant a chymunedau. Er mai ychydig o'r gwrthwynebwyr oedd yn awgrymu bod y gwallau neu'r gwelliannau yn fwriadol, pwysleisiodd llawer fod anghysondebau wedi cyfrannu at ansicrwydd ac roeddent wedi codi cwestiynau ynghylch dibynadwyedd rhai agweddau ar y dystiolaeth ategol. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd y dylai'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cynnig fod yn gywir, yn dryloyw ac yn gyson, ac y dylid cyfathrebu'n glir ynghylch unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan yn llawn ac yn hyderus yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr ynghylch cywirdeb a chysondeb gwybodaeth a'r modd y cyflwynwyd hi drwy gydol y broses ymgynghori a hysbysu statudol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth glir, gywir a thryloyw wrth ystyried cynigion a allai fod â goblygiadau sylweddol i ddysgwyr, teuluoedd, staff a chymunedau. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch y newidiadau a wnaed a'r eglurhad a roddwyd ynghylch rhai agweddau ar y dogfennau ategol ac roeddent wedi mynegi'r farn y gallai unrhyw newidiadau i wybodaeth effeithio ar hyder yn y broses.

Mae'r Awdurdod yn derbyn bod cynnal hyder y cyhoedd yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth mor gywir â phosibl ac y dylid rhoi gwybod yn agored i'r rhanddeiliaid pan fo angen gwneud cywiriadau neu ddiweddariadau.

Mae'r Awdurdod yn dymuno pwysleisio mai pwrpas darparu eglurhad neu wybodaeth ddiwygiedig yn ystod ymgynghoriad neu broses statudol yw gwella cywirdeb a sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhanddeiliaid fynediad at y dystiolaeth fwyaf dibynadwy sydd ar gael. Mewn cynigion cymhleth ynghylch trefniadaeth ysgolion, efallai y bydd angen diwygio gwybodaeth o bryd i'w gilydd ar ôl gwirio pellach, derbyn data ychwanegol neu nodi gwallau anfwriadol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn hanfodol bod cywiriadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw yn hytrach na chaniatáu i wallau aros o fewn y dogfennau cyhoeddedig. Nid yw'r Awdurdod o'r farn bod yr angen am eglurhad yn tanseilio uniondeb cyffredinol y broses; yn hytrach, mae'n adlewyrchu ymrwymiad i fod yn agored, yn gywir ac i adolygu'n barhaus y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon penodol a fynegwyd ynghylch y newidiadau i wybodaeth ariannol yn ystod y broses. Mae data ariannol yn elfen bwysig o asesiadau o drefniadaeth ysgolion ac felly mae'n ddealladwy y gall diwygiadau i ffigurau ddenu sylw a chraffu. Mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod unrhyw newidiadau a wnaed i wybodaeth ariannol wedi'u gwneud i sicrhau cywirdeb y data sydd ar gael i'r rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Pan nodwyd ffigurau diwygiedig, gwnaed ymdrechion i gyfathrebu'r newidiadau hyn yn agored ac i esbonio eu harwyddocâd yng nghyd-destun cyffredinol y cynnig. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y wybodaeth ariannol, wrth ei hystyried yn ei chyfanrwydd, yn darparu cynrychiolaeth gywir o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol a bod y wybodaeth honno'n cefnogi ystyriaeth wybodus o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch y newidiadau neu'r eglurhad mewn perthynas â threfniadau derbyn ysgolion ac agweddau gweithredol eraill ar y cynnig. Trwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu, mae gwybodaeth wedi parhau i ddatblygu wrth i dystiolaeth bellach gael ei chasglu, wrth i adborth gan y rhanddeiliaid gael ei ystyried ac wrth i asesiadau technegol gael eu cwblhau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall datblygiadau achosi ansicrwydd i rai rhanddeiliaid; fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y broses yn parhau i fod yn ddigon hyblyg i ystyried gwybodaeth newydd ac ymateb yn briodol i faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r Awdurdod yn credu bod prosesau ymgysylltu yn cael eu cryfhau pan fydd adborth yn arwain at ddadansoddi, egluro a mireinio cynigion ymhellach lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Awdurdod yn cytuno bod tryloywder ac atebolrwydd yn elfennau hanfodol o wneud penderfyniadau yn effeithiol ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd o gynnal hyder y cyhoedd drwy gydol y broses. Am y rheswm hwn, mae ymatebion i'r ymgynghoriad, gwrthwynebiadau, tystiolaeth ategol ac asesiadau effaith i gyd wedi'u hystyried fel rhan o'r broses statudol a byddant ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Ar ôl adolygu'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y broses ymgynghori a hysbysu statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion deddfwriaethol a bod y rhanddeiliaid wedi cael cyfleoedd priodol i gael gafael ar wybodaeth, ceisio eglurhad a mynegi eu barn. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch dogfennau a newidiadau, mae'r Awdurdod yn hyderus bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn a bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynediad at ddigon o wybodaeth i ddod i gasgliad gwybodus a chytbwys.

23.	Rhagdybiaeth yn erbyn Cau Ysgolion Gwledig	13	15%
------------	---	-----------	------------

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr yn uniongyrchol at statws gwledig Ysgol Gynradd Meidrim ac roeddent yn dadlau y dylai hyn fod yn ystyriaeth sylweddol wrth asesu'r cynnig. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac roeddent wedi mynegi'r farn bod hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth o'r rôl unigryw y mae ysgolion o'r fath yn ei chwarae yn eu cymunedau. Dywedodd sawl ymatebydd na ddylid asesu ysgolion gwledig ar sail nifer y disgyblion, lefelau capasiti neu ystyriaethau ariannol yn unig, gan fod eu cyfraniad yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol. Dadl llawer oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol sy'n arbennig o bwysig mewn lleoliad gwledig ac y dylid rhoi pwys sylweddol ar y cyfraniadau ehangach hyn o fewn y broses o wneud penderfyniadau. Mynegodd yr ymatebwyr bryder yn aml nad oedd y cynnig yn cydnabod statws arbennig ysgolion gwledig na'r rhesymau pam mae amddiffyniadau ychwanegol yn bodoli o fewn canllawiau cenedlaethol.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y gred y dylid ystyried cau'r ysgol dim ond ar ôl i'r holl ddewisiadau amgen realistig gael eu harchwilio yn drylwyr a dangos eu bod yn anhyfyw. Dadl llawer o'r gwrthwynebwyr oedd bod y rhagdybiaeth yn erbyn cau'r ysgol yn rhoi cyfrifoldeb ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried pob opsiwn rhesymol sy'n gallu cynnal darpariaeth addysgol o fewn y gymuned. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at gynigion amgen a gyflwynwyd gan y llywodraethwyr, y rhieni a sefydliadau cymunedol ac roeddent yn awgrymu bod yr opsiynau hyn yn haeddu cael eu harchwilio ymhellach cyn symud ymlaen tuag at gau parhaol.

Dywedodd y gwrthwynebwyr yn aml fod bodolaeth dewisiadau amgen posibl yn cryfhau'r ddadl dros gadw'r ysgol ac roeddent yn cwestiynu a oedd y trothwy sy'n ofynnol i gyfiawnhau ei chau wedi'i fodloni. Felly, roedd llawer o'r ymatebwyr yn honni y dylid ystyried cau fel dewis olaf yn hytrach nag ateb a ffefrir.

Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd wedi cysylltu'r rhagdybiaeth yn erbyn cau'r ysgol â'r effaith ehangach y mae ysgolion gwledig yn ei chael ar gynaliadwyedd cymunedol. Roedd y gwrthwynebiadau yn aml yn dadlau bod ysgolion pentref yn cefnogi cadw poblogaeth, yn annog teuluoedd ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gydlyniant a gwydnwch cymunedol. Awgrymodd sawl gwrthwynebydd fod y rhesymeg sy'n sail i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau yn cydnabod pwysigrwydd cynnal seilwaith gwledig ac amddiffyn cymunedau rhag dirywiad pellach. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at effaith gronol colli gwasanaethau lleol ac roeddent yn dadlau y gallai fod gan ysgolion gwledig rôl anghymesur o bwysig o gymharu ag ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn trefi mwy o faint ac ardaloedd trefol. Awgrymwyd yn aml fod y canlyniadau posibl o gau'r ysgol yn ymestyn y tu hwnt i addysg a'u bod yn gallu effeithio ar hyfywedd a hunaniaeth hirdymor cymunedau gwledig fel Meidrim.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, dadl yr ymatebwyr yn gyson oedd y dylai unrhyw benderfyniad i gau ysgol wledig gael ei gefnogi gan dystiolaeth glir a chymhellol sy'n dangos bod cau yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf priodol sydd ar gael. Mynegodd llawer o'r gwrthwynebwyr y farn bod y manteision a ddarperir gan Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol wledig yn gorbwyso'r heriau a nodwyd yn y cynnig. Pwysleisiodd sawl ymatebydd y gall colli ysgol wledig gael canlyniadau parhaol i genedlaethau'r dyfodol a gall fod yn anodd iawn i wrthdroi hyn ar ôl gwaredu'r ddarpariaeth addysgol o gymuned. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd bod y rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau yn bodoli am reswm ac y dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn ofalus iawn wrth ystyried cynigion sy'n effeithio ar ysgolion gwledig. Felly, dadl yr ymatebwyr oedd y dylai statws gwledig Ysgol Gynradd Meidrim a'i manteision cymunedol cysylltiedig barhau i fod yn ystyriaeth ganolog wrth benderfynu ynghylch dyfodol yr ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â statws gwledig Ysgol Gynradd Meidrim ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd a roddir ar y rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Tynnodd y gwrthwynebwyr sylw at y ffaith bod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn i ystyriaeth arbennig gael ei rhoi i gynigion sy'n effeithio ar ysgolion gwledig ac roeddent yn dadlau bod ysgolion o'r fath yn aml yn gwneud cyfraniadau sy'n ymestyn y

tu hwnt i'r ddarpariaeth addysg yn unig. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall ysgolion gwledig chwarae rôl bwysig o ran cefnogi cydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd y Gymraeg, hunaniaeth leol a mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r ystyriaethau ehangach hyn wedi'u cydnabod a'u hasesu'n ofalus drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynnig ac maent wedi llywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd fel rhan o'r broses statudol.

Mae'r Awdurdod yn dymuno pwysleisio nad yw'r rhagdybiaeth yn erbyn cau'r ysgol yn atal cau ysgol wledig lle mae achos cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros newid. Yn hytrach, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau penodol yr ysgol wledig, yr effaith y byddai'r cau yn debygol o'i chael, ac argaeledd dewisiadau amgen rhesymol. Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, mae'r Awdurdod wedi ceisio cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn drwy gynnal asesiad manwl o ystyriaethau addysgol, demograffig, ariannol, cymunedol ac ieithyddol. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i seilio ar nifer t disgyblion neu ffactorau ariannol yn unig, ond ar werthusiad cynhwysfawr o gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol a'i gallu i barhau i ddiwallu anghenion y dysgwyr presennol a'r dysgwyr yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch yr opsiynau amgen a'r farn y dylid ystyried cau'r ysgol dim ond ar ôl i'r holl ddewisiadau amgen realistig gael eu harchwilio'n drylwyr. Trwy gydol y broses adolygu, mae ystod o opsiynau wedi'u harchwilio, gan gynnwys parhau â'r trefniadau presennol, dulliau cydweithredol, modelau arweinyddiaeth a chynigion a gyflwynwyd gan y llywodraethwyr, y rhieni a'r rhanddeiliaid cymunedol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymrwymiad a'r ymdrech a fuddsoddwyd gan y rhai sy'n ceisio nodi dewisiadau amgen sy'n gallu cynnal darpariaeth addysgol o fewn y pentref. Fodd bynnag, wrth asesu'r opsiynau hyn, mae angen penderfynu a fyddent yn darparu ateb hirdymor cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys nifer y disgyblion sy'n gostwng, lleoedd gwag, pwysau ariannol a phryderon hyfywedd parhaus. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y dewisiadau amgen hyn wedi'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod barn yr ymatebwyr ynghylch y rôl ehangach y gall ysgolion gwledig ei chwarae o ran cefnogi cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol. Mae ysgolion yn aml yn cael eu hystyried fel asedau cymunedol pwysig a gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gadw poblogaeth, rhyngweithio cymdeithasol a hunaniaeth gymunedol. Am y rheswm hwn, mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus yr effaith bosibl y gall cau'r ysgol ei chael ar yr ardal leol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau darpariaeth addysgol effeithiol a

chynaliadwy ar draws y sir ehangach. Er bod pwysigrwydd cynnal gwasanaethau o fewn cymunedau gwledig yn cael ei gydnabod, mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion gydbwyso ystyriaethau lleol yn erbyn realiti addysgol, demograffig ac ariannol ehangach. Nid yw'r Awdurdod o'r farn y gall statws gwledig ysgol yn unig orbwyso'r holl ffactorau perthnasol eraill lle mae heriau cynaliadwyedd sylweddol wedi'u nodi.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen ystyried penderfyniadau ynghylch ysgolion gwledig yn arbennig o ofalus oherwydd y canlyniadau a allai fod yn rhai hirdymor i gymunedau a chenedlaethau'r dyfodol. Am y rheswm hwn, mae'r cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth, asesiadau effaith manwl a chraffu statudol. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon ei fod wedi rhoi sylw llawn i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac amgylchiadau penodol Ysgol Gynradd Meidrim. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gwerth yr ysgol i'r gymuned, mae'n parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cymesur, cytbwys a chynaliadwy i'r heriau a nodwyd ac y gellir parhau i ddiwallu anghenion addysgol y dysgwyr yn effeithiol drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen.

24.	Gwydnwch Cymunedol a Chymorth Brys	10	12%
------------	---	-----------	------------

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel ased cymunedol pwysig sy'n cyfrannu at wydnwch y pentref y tu hwnt i'w brif swyddogaeth addysgol. Roedd y gwrthwynebwyr yn aml yn dadlau bod ysgolion gwledig yn cael eu defnyddio at ddibenion lluosog yn eu cymunedau a gallant chwarae rhan bwysig yn ystod cyfnodau o darfu neu argyfwng. Nododd sawl ymatebydd fod yr ysgol yn darparu cyfleuster canolog sy'n gyfarwydd ac yn hygyrch i'r trigolion lleol ac mae'n gallu cefnogi gweithgareddau cymunedol pan fo angen. Awgrymwyd bod ysgolion yn aml yn dod yn elfennau allweddol o'r seilwaith lleol mewn ardaloedd gwledig, lle gall adeiladau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol fod yn gyfyngedig. Mynegodd llawer o'r gwrthwynebwyr bryder y byddai cau Ysgol Gynradd Meidrim yn lleihau'r ystod o gyfleusterau sydd ar gael i gefnogi'r gymuned ac yn gwanhau adnodd lleol pwysig sy'n cyfrannu at wydnwch cyffredinol y pentref.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr yn benodol at yr heriau y gall cymunedau gwledig eu hwynebu yn ystod cyfnodau o dywydd garw, llifogydd, stormydd a digwyddiadau annisgwyl eraill. Dadl y gwrthwynebwyr oedd y gall cyfleusterau cymunedol fel ysgolion ddarparu canolbwynt pwysig yn ystod amgylchiadau anodd a gallant helpu i gynnal cyfathrebu, cydlynu a chefnogaeth mewn ardal wledig. Cyfeiriodd sawl ymateb at achlysuron blaenorol pan oedd angen cydweithredu cymunedol

ac roeddent yn awgrymu bod argaeledd cyfleusterau lleol yn gwella gallu cymuned i ymateb yn effeithiol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gweld yr ysgol fel rhan o rwydwaith ehangach o asedau sy'n helpu i gefnogi pobl leol ar adegau o angen ac roeddent yn dadlau y byddai ei chau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i'r gymuned mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae llawer o'r gwrthwynebiadau hefyd yn cysylltu gwydnwch cymunedol â chryfder y perthnasoedd lleol a'r rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu trwy'r ysgol. Dadl yr ymatebwyr yn aml oedd bod yr ysgol yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o gymuned trwy ddod â theuluoedd, gwirfoddolwyr, sefydliadau lleol a thrigolion ynghyd trwy ystod o weithgareddau addysgol a chymunedol. Nododd sawl gwrthwynebydd y gall y perthnasoedd hyn ddod yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau heriol, gan fod cymunedau â chysylltiadau cymdeithasol cryf yn aml yn gallu cefnogi unigolion agored i niwed ac ymateb ar y cyd i anawsterau. Awgrymwyd bod cyfraniad yr ysgol at ddatblygu a chynnal y rhwydweithiau hyn yn cynrychioli agwedd bwysig ar ei gwerth ehangach. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gwydnwch cymunedol yn gysylltiedig yn agos â chydlyniant cymunedol ac roeddent yn dadlau bod cynnal ysgol leol gref yn helpu i gryfhau'r ddwy elfen.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, dywedodd yr ymatebwyr yn aml y dylid ystyried cau Ysgol Gynradd Meidrim nid yn unig o ran y ddarpariaeth addysgol ond hefyd mewn perthynas â'r rôl ehangach y mae'r ysgol yn ei chwarae o fewn y pentref. Dadl sawl gwrthwynebydd oedd bod angen ystod o sefydliadau lleol ar gymunedau gwledig er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy, yn addasadwy ac yn wydn wrth wynebu heriau'r dyfodol. Mynegodd yr ymatebwyr bryder yn aml y gall y golled gronol o wasanaethau a chyfleusterau leihau gallu cymuned i weithredu'n effeithiol ac ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd bod Ysgol Gynradd Meidrim yn cyfrannu'n gadarnhaol at seilwaith cymdeithasol a gwydnwch y pentref ac y dylid cydnabod y posibilrwydd o golli'r rôl hon fel rhan o unrhyw asesiad o'r cynnig.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â rôl ehangach Ysgol Gynradd Meidrim o ran cefnogi gwydnwch cymunedol ac mae'n cydnabod bod llawer o'r gwrthwynebwyr yn ystyried yr ysgol fel ased lleol y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at rôl yr ysgol fel cyfleuster cymunedol cyfarwydd a hygyrch ac roeddent yn dadlau ei bod yn cyfrannu at allu'r pentref i ymateb i heriau lleol ac amgylchiadau newidiol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion mewn cymunedau gwledig yn aml yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, ymgysylltu â'r gymuned a chydlynu lleol, ac y gall y swyddogaethau

ehangach hyn gyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch a llesiant cyffredinol ardal. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad o'r cynnig a thrwy broses yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch colli cyfleuster lleol posibl y gellir ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau o darfu, tywydd garw neu sefyllfaoedd brys eraill. Nododd yr ymatebwyr y gall cymunedau gwledig wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig â llifogydd, amodau tywydd garw a chyfyngiadau ar argaeledd cyfleusterau cyhoeddus. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall adeiladau cymunedol ddarparu cymorth gwerthfawr yn ystod amgylchiadau o'r fath ac mae'n deall pam mae'r rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at gyfraniad yr ysgol fel rhan o'r seilwaith lleol. Fodd bynnag, prif bwrpas yr ysgol yw darparu addysg, ac mae'n rhaid asesu penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn bennaf ar sail darpariaeth addysgol a chynaliadwyedd hirdymor, gan hefyd ystyried effeithiau cymunedol ehangach.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ymhellach y farn bod yr ysgol yn cyfrannu at wydnwch cymunedol drwy'r perthnasoedd a'r rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu ymhlith y disgyblion, y teuluoedd a'r trigolion. Pwysleisiodd y gwrthwynebwyr y gall cysylltiadau cymunedol cryf gefnogi datrys problemau ar y cyd, cymorth cymdeithasol a llesiant cymunedol, yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth feithrin y perthnasoedd hyn a bod cyfalaf cymdeithasol yn cynrychioli agwedd werthfawr ar fywyd cymunedol. Serch hynny, mae gwydnwch cymunedol yn cael ei ddylanwadu gan ystod eang o ffactorau a sefydliadau, gan gynnwys grwpiau cymunedol, cyfleusterau lleol, mudiadau gwirfoddol, trefniadau cynlluniau argyfwng a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach. Er bod yr ysgol yn cyfrannu at y rhwydweithiau hyn, nid dyma'r unig fecanwaith ar gyfer sefydlu neu gynnal gwydnwch cymunedol.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried pryderon yn ofalus ynghylch effaith gronol colli gwasanaethau a chyfleusterau mewn cymunedau gwledig. Cydnabyddir bod y rhanddeiliaid yn pryderu am gynaliadwyedd hirdymor seilwaith lleol a'r goblygiadau posibl i allu'r gymuned i addasu i heriau'r dyfodol. Am y rheswm hwn, mae'r Awdurdod wedi ystyried y cynnig nid yn unig o ran y ddarpariaeth addysgol ond hefyd drwy ei Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, sy'n archwilio'r goblygiadau ehangach i fywyd cymunedol, y cyfleusterau lleol a chydlyniant cymdeithasol. Mae'r Awdurdod yn parhau i ymrwmo i sicrhau bod yr ystyriaethau ehangach hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau addysgol, sefydliadol ac ariannol wrth werthuso'r cynnig.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei wneud i wead cymdeithasol a gwydnwch y gymuned, mae'n rhaid iddo gydbwyso'r ystyriaethau hyn yn erbyn

ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy ac effeithiol. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig wedi ystyried yr effaith bosibl ar wydnwch cymunedol yn briodol a bod anghenion ehangach y gymuned wedi'u hasesu'n ofalus. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod yr ysgol yn darparu manteision y tu hwnt i addysg, mae'n parhau i fod o'r farn bod yn rhaid pwysu a mesur yr ystyriaethau hyn ochr yn ochr â'r heriau hirdymor sy'n ymwneud â nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, lleoedd gwag a hyfywedd addysgol. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig yn cynrychioli ymateb cytbwys a chymesur i'r materion a nodwyd drwy'r broses adolygu.

25.	Effeithiau ar yr Amgylchedd a'r Hinsawdd	9	11%
------------	---	----------	------------

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y byddai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn cael canlyniadau amgylcheddol andwyol o ganlyniad i ofynion teithio cynyddol i'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff. Nododd y gwrthwynebwyr yn aml mai un o fanteision cynnal ysgol bentref leol yw bod hyn yn lleihau'r angen am gludiant dros bellter mawr ac mae'n galluogi rhai o'r plant i deithio pellteroedd byrrach neu aros yn eu cymuned leol. Dadl sawl ymatebydd y byddai cau'r ysgol yn anochel yn cynyddu nifer y teithiau a wneir gan gerbydau preifat, gwasanaethau cludiant ysgol a theuluoedd sy'n teithio i ysgolion amgen ac oddi yno. Awgrymwyd y byddai'r teithiau ychwanegol hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o danwydd ac allyriadau carbon uwch, sy'n gwrthdaro ag amcanion amgylcheddol ehangach ac ymdrechion i hyrwyddo cynaliadwyedd. Roedd llawer o'r gwrthwynebwyr o'r farn bod gan y cynnig oblygiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol ac roeddent yn teimlo y dylid asesu'r effaith amgylcheddol ochr yn ochr ag ystyriaethau ariannol a threfniadaethol.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y gwrthwynebiadau oedd y berthynas rhwng penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion ac ymrwymadau newid hinsawdd ehangach. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at uchelgeisiau cenedlaethol a lleol i leihau allyriadau carbon a hyrwyddo ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw. Cwestiynodd sawl gwrthwynebydd a oedd cynyddu'r pellter a deithiwyd gan ddisgyblion bob dydd yn gyson â'r amcanion hyn. Mynegwyd pryderon y byddai cau ysgol leol yn cynyddu dibyniaeth ar drafnidiaeth fodur ar adeg pan fo sefydliadau a chymunedau'n cael eu hannog i leihau teithiau diangen lle bynnag y bo'n bosibl. Dadl rhai o'r ymatebwyr oedd bod cynnal darpariaeth addysgol o fewn cymunedau lleol yn ffordd ymarferol o gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau'r ôl troed carbon cyffredinol sy'n gysylltiedig â theithio bob dydd. Felly, roedd llawer yn ystyried yr effeithiau amgylcheddol o gau'r ysgol fel ystyriaeth bwysig y dylid rhoi mwy o sylw iddi o fewn y broses asesu.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw hefyd at yr effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar gyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Nododd y gwrthwynebwyr yn aml y gallai disgyblion sy'n mynychu ysgol bentref leol gerdded, beicio neu deithio pellteroedd byr gydag aelodau o'r teulu, lle gallai fod angen mwy o ddibyniaeth ar gerbydau neu wasanaethau cludiant trefnedig ar drefniadau amgen. Dadl sawl ymatebydd oedd bod annog teithio llesol yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant plant ac mae hefyd yn cefnogi amcanion amgylcheddol. Mynegwyd pryderon y gallai trosglwyddo disgyblion i ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd leihau'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a chynyddu dibyniaeth ar geir a bysiau. Awgrymodd rhai o'r gwrthwynebwyr y dylid ystyried felly y manteision o gadw ysgol leol nid yn unig yn nhermau cyfleustra cymunedol ond hefyd mewn perthynas ag ymdrechion ehangach i hyrwyddo arferion teithio iachach a mwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Trwy gydol y gwrthwynebiadau, dadl yr ymatebwyr yn aml oedd y dylai ystyriaethau amgylcheddol fod yn rhan o asesiad cyfannol o'r cynnig. Roedd llawer yn cydnabod efallai na fydd yr effaith amgylcheddol yn unig yn pennu canlyniad y penderfyniad, ond roeddent yn honni ei fod yn parhau i fod yn ffactor perthnasol wrth ystyried yr effeithiau cronus o gau'r ysgol. Awgrymodd sawl gwrthwynebydd y byddai mwy o ofynion o ran cludiant, llai o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol ac allyriadau carbon uwch yn creu canlyniadau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun addysgol uniongyrchol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn cysylltu pryderon am yr amgylchedd â themâu ehangach o ran cynaliadwyedd cymunedol, gwydnwch gwledig a chynllunio hirdymor, gan ddadlau y gall sefydliadau lleol fel ysgolion pentref gyfrannu'n gadarnhaol at gymunedau mwy cynaliadwy. Y farn gyffredinol a fynegwyd oedd y dylid ystyried goblygiadau amgylcheddol a hinsawdd posibl y cynnig yn ofalus a'u pwysu a mesur ochr yn ochr â ffactorau addysgol, ariannol, ieithyddol a chymunedol wrth benderfynu ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch goblygiadau amgylcheddol posibl y cynnig, yn enwedig mewn perthynas â mwy o bellteroedd teithio i'r disgyblion, y teuluoedd a'r staff. Tynnodd llawer o'r gwrthwynebwyr sylw at fanteision cynnal darpariaeth addysgol o fewn cymuned leol ac roeddent yn dadlau y gall ysgolion pentref helpu i leihau'r angen am deithio trwy ganiatáu i blant fynychu'r ysgol yn agosach at y cartref. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol yn ystyriaethau pwysig mewn polisi cyhoeddus ac mae'n derbyn y gall cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion gael goblygiadau ar batrymau teithio ac allyriadau carbon cysylltiedig. Am y rheswm hwn, mae effeithiau amgylcheddol wedi'u hystyried ochr yn ochr ag ystod o ffactorau eraill wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch y cynnydd posibl mewn teithiau a wneir mewn cerbydau yn sgil trosglwyddo'r disgyblion i ysgolion amgen. Dadl yr ymatebwyr oedd y gall teithiau hwy arwain at ddefnydd uwch o danwydd a mwy o allyriadau carbon. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod allyriadau sy'n gysylltiedig â chludiant yn ystyriaeth bwysig ac felly mae wedi ystyried trefniadau cludiant, pellteroedd teithio a hygyrchedd wrth asesu'r cynnig. Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried effeithiau amgylcheddol o fewn y cyd-destun ehangach o gynnal ystad ysgolion gynaliadwy. Mae penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn gofyn am ystyried hyfywedd hirdymor a defnydd effeithlon o gyfleusterau addysgol, gan gynnwys y goblygiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal a chadw adeiladau a allai fod â lefelau sylweddol o leoedd gwag.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y sylwadau sy'n ymwneud ag ymrwymadau cenedlaethol a lleol i fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei bolisiâu a'i benderfyniadau yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion amgylcheddol ehangach lle bo hynny'n bosibl. Serch hynny, mae cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn gofyn am gydbwysu ystyriaethau amgylcheddol mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol eraill, gan gynnwys darparu addysg o ansawdd uchel, cynaliadwyedd ariannol, llesiant dysgwyr a defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Mae ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o'r asesiad hwn ond ni ellir eu hystyried ar wahân i'r cyd-destun addysgol a threfniadaethol ehangach.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon ynghylch y gostyngiad posibl mewn cyfleoedd ar gyfer teithio llesol pe bai'r disgyblion yn mynychu ysgolion sydd wedi'u lleoli ymhellach o'u cartrefi. Nododd y gwrthwynebwyr y gall ysgolion lleol gefnogi cerdded a beicio a gallant helpu i leihau dibyniaeth ar drafnidiaeth fodur. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall teithio llesol ddarparu manteision i lesiant dysgwyr a chynaliadwyedd amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer teithio llesol yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, gan gynnwys pellter, diogelwch llwybrau a daearyddiaeth wledig. Mae'r Awdurdod yn fodlon y byddai unrhyw drefniadau cludiant sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu gweithredu yn unol â pholisiâu perthnasol a gofynion statudol ac y byddai'n parhau i ystyried hyrwyddo opsiynau teithio diogel a phriodol lle bynnag y bo modd.

Mae'r Awdurdod yn cytuno y dylai effeithiau amgylcheddol fod yn rhan o asesiad cyfannol o'r cynnig ac mae wedi ystyried y materion hyn ochr yn ochr â ffactorau addysgol, cymunedol, ieithyddol, demograffig ac ariannol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch mwy o

amser yn teithio ac allyriadau carbon posibl, nid yw o'r farn bod yr effeithiau amgylcheddol a nodwyd o'r fath faint fel eu bod yn gorbwyso'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynnig. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig yn adlewyrchu dull cytbwys o gynllunio trefniadaeth ysgolion a bod ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu gyffredinol.

7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

Sylwadau Cefnogol a Godwyd

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
1.	Cynaliadwyedd ariannol a defnyddio adnoddau'n effeithlon	2	66.7%

Thema amlwg yn yr ymatebion cefnogol oedd pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol hirdymor Ysgol Gynradd Meidrim. Mynegodd yr ymatebwyr a gefnogodd y cynnig y farn bod gweithrediad parhaus yr ysgol yn dod yn fwyfwy anodd ei gyfiawnhau o ystyried ei hamgylchiadau presennol. Mae'r sylwadau'n awgrymu bod heriau sy'n ymwneud â hyfywedd yr ysgol wedi bod yn amlwg ers cyfnod sylweddol a bod penderfyniad ynghylch ei dyfodol yn cael ei ystyried yn anochel gan rai aelodau o'r gymuned. Roedd cefnogwyr y cynnig o'r farn ei bod yn bwysig bod penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud pan nad yw'r ddarpariaeth addysgol bellach yn cael ei hystyried yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl. Yng nghyd-destun pwysau ariannol cynyddol ar draws y sector addysg, nododd yr ymgynghoreion y dylid cyfeirio adnoddau at ddarpariaeth sy'n gallu gweithredu'n

effeithiol ac yn gynaliadwy. Roedd cynnal ysgolion â nifer isel iawn o ddisgyblion yn cael ei ystyried gan rai fel defnydd cynyddol heriol o adnoddau cyfyngedig, yn enwedig lle mae darpariaeth addysgol amgen yn bodoli gerllaw. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod ystyriaethau ariannol yn agwedd ddilys ac angenrheidiol ar gynllunio trefniadaeth ysgolion.

Roedd sawl sylw yn adlewyrchu safbwynt ehangach o gynllunio addysgol ar draws y sir. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at yr angen i resymoli darpariaeth ysgolion er mwyn gwella effeithlonrwydd ledled y system addysg. Er eu bod yn cydnabod bod cau ysgolion yn gallu bod yn anodd i gymunedau lleol, awgrymodd y rhai sy'n cefnogi'r cynnig efallai na fydd modd cyflawni rhwydwaith helaeth o ysgolion yn wyneb pwysau demograffig ac ariannol yn y tymor hwy. Dadleuodd yr ymatebwyr y gallai ad-drefnu strategol helpu i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau addysgol ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion cefnogol yn fframio'r cynnig fel ymateb pragmatig i heriau ariannol a demograffig parhaus. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i gydbwysu ystyriaethau lleol â'r cyfrifoldeb ehangach i reoli adnoddau cyhoeddus yn effeithiol ac i sicrhau bod darpariaeth addysgol yn parhau i fod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O'r safbwynt hwn, ystyriwyd y cynnig fel ffordd synhwyrol a chyfrifol o weithredu er gwaethaf arwyddocâd cydnabyddedig y penderfyniad i'r gymuned leol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol a'r defnydd cyfrifol o adnoddau cyhoeddus wrth ystyried cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cynnal system addysg gynaliadwy yn gofyn am ystyried yn ofalus sut mae cyllid cyfyngedig yn cael ei ddyrannu ar draws ystad ysgolion, yn enwedig mewn cyfnod o bwysau ariannol sylweddol, tueddiadau demograffig sy'n newid a gostyngiad yn nifer y disgyblion. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch hyfywedd hirdymor ysgolion bach iawn a'r angen i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyflawni'r budd addysgol mwyaf i ddysgwyr. Mae'r ystyriaethau hyn wedi bod yn rhan bwysig wrth i'r Awdurdod asesu'r cynnig.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi ystyried sefyllfa ariannol bresennol a rhagamcanol Ysgol Gynradd Meidrim ochr yn ochr â'r heriau ehangach sy'n wynebu'r gyllideb addysg. Mae cyllid ysgolion yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan nifer y disgyblion ac, wrth i nifer y disgyblion sy'n cofrestru ostwng, mae'n dod yn fwyfwy anodd cynnal costau sy'n gysylltiedig â chynnal staffio,

trefniadau arweinyddiaeth, safleoedd a darpariaeth addysgol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod ymroddiad ac ymrwymiad y staff a'r llywodraethwyr i geisio cynnal darpariaeth, mae'n rhaid iddo hefyd ystyried a yw gweithrediad parhaus yr ysgol yn cynrychioli defnydd cymesur a chynaliadwy o gyllid cyhoeddus yn y tymor hwy.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod sylwadau'r ymatebwyr bod heriau sy'n gysylltiedig â hyfywedd yr ysgol wedi bod yn amlwg ers peth amser. Mae tueddiadau hanesyddol o ran nifer y disgyblion, rhagolygon demograffig a lefelau'r lleoedd gwag i gyd wedi'u harchwilio fel rhan o'r broses i ddatblygu'r cynnig. Mae penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn gofyn am ystyried nid yn unig yr amgylchiadau presennol ond hefyd y cynaliadwyedd yn y dyfodol. Fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i'r Awdurdod gymryd golwg strategol ar ddarpariaeth addysgol ar draws y sir ac ystyried a yw'r trefniadau presennol dal yn gallu diwallu anghenion yn y dyfodol yn effeithiol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi bod y cynnig yn rhan o gyd-destun ehangach Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor, sydd wedi'i datblygu mewn ymateb i heriau demograffig, ariannol a sefydliadol sylweddol sy'n effeithio ar addysg ledled Sir Gaerfyrddin a Chymru. Mae gostyngiad mewn cyfraddau geni a gostyngiad yn nifer y disgyblion wedi arwain at lefelau cynyddol o gapasiti dros ben ar draws ystâd yr ysgol, gan roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgolion a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysgol. Mae'r heriau hyn wedi cyfrannu at nifer cynyddol o ysgolion sy'n gweithredu mewn diffyg ariannol ac wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y rhwydwaith ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael ei gynghori gan gyrff rheoleiddio allanol, gan gynnwys Estyn a'r Panel Asesu Perfformiad, er bod ei strategaeth moderneiddio ysgolion yn gredadwy, mae cynnydd wrth weithredu newid wedi bod yn rhy araf o ystyried graddfa'r pwysau demograffig ac ariannol sy'n wynebu'r system addysg. Mae'r ffactorau ehangach hyn wedi llywio datblygiad y cynnig ac yn parhau i gefnogi'r angen am benderfyniadau trefnu ysgolion amserol i sicrhau system addysg gynaliadwy, gwydn ac effeithiol i ddysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at faterion ehangach sy'n ymwneud â rhesymoli darpariaeth ysgolion a'r angen i reoli adnoddau'n effeithlon ar draws y system addysg. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion gydbwyso ystyriaethau lleol yn erbyn yr angen i gynnal rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac effeithiol ar draws y sir gyfan. Yn y cyd-destun hwn, mae lleihau capasiti dros ben a sicrhau y gellir cyfeirio adnoddau addysgol at addysgu, dysgu, gwasanaethau cymorth ychwanegol a mentrau gwella ysgolion yn parhau i fod yn amcanion pwysig Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor.

Ar ôl ystyried y materion hyn, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod cynaliadwyedd ariannol yn ystyriaeth berthnasol a sylweddol yn y cynnig. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd yr ysgol i'w chymuned, mae o'r farn bod ganddo gyfrifoldeb i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac yn cael ei gyfeirio at ddarpariaeth addysgol a all barhau i fod yn hyfyw, yn wydn ac yn gynaliadwy dros y tymor hir. Mae'r cynnig felly yn rhan o ddull strategol ehangach o sicrhau system addysg o ansawdd uchel a chynaliadwy yn ariannol ar gyfer dysgwyr y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

2.	Argaeledd darpariaeth leol amgen a rhesymoli ysgolion	1	33.3%
-----------	--	----------	--------------

Yn ôl yr ymatebion cefnogol, roedd argaeledd darpariaeth addysgol amgen yn ffactor pwysig wrth gefnogi'r cynnig. Nododd yr ymatebwyr y byddai'r disgyblion y byddai'r cau yn effeithio arnynt yn parhau i gael mynediad i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg o fewn pellter teithio rhesymol i'r pentref. Ystyriwyd bod bodolaeth ysgolion amgen yn helpu i leihau effaith bosibl y cynnig ar y disgyblion a'r teuluoedd ac fe'i hystyriwyd yn ystyriaeth bwysig wrth asesu rhinweddau cyffredinol y cynllun.

Cyfeiriodd un ymatebydd yn benodol at Ysgol Griffith Jones fel dewis arall ymarferol i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod lleoliad yr ysgol yn weddol hygyrch i'r teuluoedd yn y pentref ac roedd yn ei ystyried yr ysgol fel opsiwn addas i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u symud. Er bod yr ysgolion amgen yn cael eu cydnabod, gwahaniaethwyd rhwng ymarferoldeb cymharol ysgolion derbyn gwahanol, a mynegwyd pryderon ynghylch y pellteroedd teithio i rai lleoliadau.

Roedd yr ymgylgoreion cefnogol hefyd yn cysylltu argaeledd darpariaeth amgen ag ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â chynllunio ac effeithlonrwydd addysgol. Ystyriwyd bod cyfuno disgyblion i ysgolion cyfagos yn golygu bod posibilrwydd i gryfhau hyfywedd a chynaliadwyedd yr ysgolion hynny wrth leihau aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth ar draws sawl safle. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai crynhoi adnoddau o fewn nifer llai o ysgolion gefnogi darparu addysg fwy effeithiol a gwydnwch hirdymor.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a fynegodd y farn hon yn ystyried bod y cynnig yn cynrychioli dull ymarferol o reoli darpariaeth addysgol yn yr ardal. Rhoddodd presenoldeb ysgolion amgen hygyrch sicrwydd y byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg o fewn cymunedau lleol

gan ganiatáu i'r Awdurdod Lleol gymryd dull mwy strategol a chynaliadwy o drefnu lleoedd ysgol ar draws yr ardal ehangach.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn y safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn ag argaeledd darpariaeth addysgol amgen o fewn pellter teithio rhesymol i Ysgol Gynradd Meidrim. Dywedodd yr ymatebwyr fod bodolaeth ysgolion cyfagos yn cefnogi'r rhesymeg dros y cynnig ac yn lleihau'r effaith bosibl ar y disgyblion a'r teuluoedd yr effeithir arnynt. Mae argaeledd, addasrwydd a gallu darpariaeth amgen wedi bod yn ystyriaeth sylfaenol drwy gydol yr asesiad o'r cynnig.

Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Awdurdod wedi cynnal gwerthusiad manwl o'r ysgolion derbyn posibl, gan gynnwys ystyried capasiti, safonau addysgol, trefniadau arweinyddiaeth, llesiant disgyblion, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a goblygiadau cludiant. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod gan Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y disgyblion pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Ar ben hynny, mae'r ysgolion yn darparu parhad o addysg cyfrwng Cymraeg ac maent yn gallu cefnogi datblygiad academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr drwy gydol unrhyw broses bontio.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod hygyrchedd yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig i'r teuluoedd. O ganlyniad, mae'r asesiad wedi ystyried pellteroedd teithio a threfniadau cludiant ochr yn ochr â ffactorau addysgol. Er y gall dewisiadau unigol amrywio ynghylch ysgolion derbyn, mae'r Awdurdod yn fodlon bod darpariaeth amgen addas yn bodoli ac y bydd y disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg o safon o fewn pellteroedd teithio rhesymol. Bydd trefniadau cludiant priodol i'r dysgwyr yn cael eu darparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor lle bodlonir y meini prawf cymhwysedd.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cysylltu'r cynnig ag ystyriaethau ehangach ynghylch rhesymoli darpariaeth ysgolion. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cynnal rhwydwaith ysgolion cynaliadwy yn gofyn am werthusiad parhaus o ddosbarthiad lleoedd mewn ysgolion ar draws y sir. Mae newidiadau demograffig a gostyngiad yn nifer y disgyblion wedi arwain at lefelau cynyddol o leoedd gwag mewn rhannau o'r ystad ysgolion, gan greu heriau i gynllunio addysgol a chynaliadwyedd ariannol. Yn y cyd-destun hwn, mae cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod darpariaeth addysgol yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn gallu bodloni'r galw yn y dyfodol.

Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod argaeledd darpariaeth amgen briodol yn lliniaru effaith bosibl y cynnig. Mae bodolaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos sydd â digon o gapasiti, trefniadau arweinyddiaeth sefydledig a safonau addysgol boddhaol yn rhoi sicrwydd y bydd y disgyblion yn parhau i gael addysg briodol mewn amgylcheddau dysgu cefnogol. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cefnogi barn yr Awdurdod y gellir parhau i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol yn effeithiol ac yn gynaliadwy pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

3.	Cydnabod cyfraniad cadarnhaol yr ysgol mewn perthynas â'r disgyblion a'r gymuned	1	33.3%
-----------	---	----------	--------------

Er bod un ymatebydd yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, manteisiodd ar y cyfle i gydnabod y cyfraniad cadarnhaol a wnaed gan Ysgol Gynradd Meidrim i'w disgyblion ac i'r gymuned ehangach. Disgrifiodd yr ymateb yr ysgol fel sefydliad gwerthfawr sydd wedi bod o fudd i'r plant sy'n ei mynychu ac fel un sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y pentref. Mae hyn yn adlewyrchu gwerthfawrogiad o gyflawniadau'r ysgol a'r cyfraniad y mae wedi'i wneud drwy gydol ei hanes.

Mae'r sylw yn tynnu sylw at y ffaith na ddylid dehongli cefnogaeth i'r cynnig o reidrwydd fel beirniadaeth o'r ysgol ei hun. Yn hytrach, roedd yr ymatebydd yn cydnabod bod yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol gan hefyd dderbyn y dadleuon o blaid y cynnig. Mae'r gwahaniaeth hwn yn dangos y gall rhai ymgylchoreion ar yr un pryd werthfawrogi'r ysgol a deall y ffactorau sy'n arwain at y cynnig i'w chau.

Mae'r ymateb hefyd yn dangos natur gymhleth penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle mae gan ysgolion yn aml arwyddocâd y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol. Er bod yr ymatebydd yn cydnabod y manteision y mae'r ysgol yn eu rhoi i'r disgyblion a'r trigolion lleol, roedd serch hynny wedi cefnogi'r cynnig, gan awgrymu ei fod yn derbyn y gallai ystyriaethau strategol, demograffig neu ariannol ehangach gael blaenoriaeth yn y pen draw.

Ar y cyfan, mae'r thema hon yn dangos nad oedd cefnogaeth i'r cynnig yn cael ei hysgogi gan bryderon ynghylch hyfywedd neu effeithlonrwydd yn unig. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth y gall ysgolion fod yn asedau cymunedol gwerthfawr iawn sydd dal yn gallu cael eu heffeithio gan heriau ehangach sy'n dylanwadu ar gynaliadwyedd tymor hir. Roedd yr ymateb yn cydnabod cryfderau Ysgol Gynradd Meidrim a natur anodd y penderfyniad sy'n wynebu'r Awdurdod Lleol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r sylw cefnogol sy'n cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud i'w disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llwyr fod yr ysgol wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y pentref a'i bod wedi darparu cyfleoedd addysgol i genedlaethau o blant lleol. Trwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu, mae llawer o'r rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at werth yr ysgol fel lleoliad addysgol a chanolbwynt o fewn y gymuned.

Mae'r Awdurdod yn dymuno pwysleisio nad yw'r cynnig yn deillio o bryderon ynghylch ymrwymiad, proffesiynoldeb nac ymdrechion y staff, y llywodraethwyr neu ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol wedi parhau i ddarparu addysg a chymorth i'w dysgwyr er gwaethaf heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â niferoedd llai o ddisgyblion ar y gofrestr a chynaliadwyedd ariannol. Ni ddylid dehongli'r cynnig felly fel adlewyrchiad o ansawdd y gwaith a wneir yn yr ysgol, nac fel beirniadaeth o'r cyfraniad y mae wedi'i wneud i'r ardal leol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig, yn aml yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig. Gallant gyfrannu at hunaniaeth gymunedol, cydlyniant cymdeithasol a chyfranogiad lleol mewn ystod o weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r effeithiau hyn ar y gymuned ehangach wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses ac wedi ffurfio elfen allweddol o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod unrhyw gynnig i gau ysgol yn debygol o greu pryderon ynghylch bywiogrwydd a chynaliadwyedd y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, mae'r fframwaith statudol sy'n llywodraethu trefniadaeth ysgolion yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod gydbwyso ystyriaethau cymunedol mewn perthynas ag ystod o ffactorau eraill, gan gynnwys safonau addysgol, deilliannau dysgwyr, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol, a defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Er bod gwerth cymunedol yn ystyriaeth bwysig, ni ellir ei ystyried ar wahân i'r cyfrifoldeb ehangach o ran sicrhau bod darpariaeth addysgol yn dal i fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod yn dal i fod yn fodlon bod y cynnig yn cynrychioli ymateb cytbwys i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ac yn parchu'r cyfraniad cadarnhaol y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud i'w disgyblion a'r gymuned ehangach. Serch hynny, mae o'r farn y gellir parhau i ddiwallu anghenion addysgol y

dysgwyr drwy ddarpariaeth amgen a bod y cynnig yn adlewyrchu dull strategol o sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ar draws y sir yn y dyfodol.

8. OPSIYNAU ERAILL

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Meidrim ddogfen wrthwynebu fanwl mewn ymateb i'r cynnig i gau'r ysgol. Mae'r ddogfen yn amlinellu gwrthwynebiad y Corff Llywodraethu i'r cynnig ac yn cyflwyno ystod o opsiynau a mesurau amgen a allai, yn ei farn ef, fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chapasiti arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol, recriwtio disgyblion, gwydnwch addysgol a hyfywedd hirdymor yr ysgol. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am drafodaethau ynghylch ffedereiddio, cynigion ar gyfer partneriaeth gymunedol, gwelliannau addysgol, cyfleoedd cyllido allanol posibl ac effaith ganfyddedig y cynnig ar y gymuned leol a'r ddarpariaeth Gymraeg.

Er mwyn cydnabod natur fanwl y sylw ac er mwyn sicrhau bod pob cynnig amgen wedi cael ystyriaeth lawn, deg a chydwybodol, cynhaliwyd dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) ar gyfer pob un o'r opsiynau amgen a nodwyd o fewn gwrthwynebiad y Corff Llywodraethu. Pwrpas yr asesiad hwn yw gwerthuso'r goblygiadau addysgol, ariannol, gweithredol a chymunedol posibl ar gyfer pob opsiwn, ynghyd â'i allu i fynd i'r afael â'r rhesymau a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol. Mae'r dadansoddiad hefyd yn ystyried effaith debygol pob opsiwn ar safonau addysgol, cynaliadwyedd cymunedol a threfniadau teithio dysgwyr, ynghyd â'r rhesymau pam mae'r Awdurdod Lleol o'r farn nad yw'r dewisiadau amgen ar hyn o bryd yn cynrychioli opsiwn amgen sy'n ffafriol neu'n ddigon cadarn yn lle'r cynnig i roi'r gorau i'r ysgol. Er cyflawnrwydd a thryloywder, mae copi llawn o Ddogfen Gwrthwynebu'r Corff Llywodraethu wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Opsiwn 1 – Ffedereiddio gyda Ffederasiwn Ysgol Bancyfelin ac Ysgol Llangain	
Cryfderau	Gwendidau
Mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon yr Awdurdod Lleol ynghylch gallu arwain a chynllunio olyniaeth.	Nid oes unrhyw warant y byddai cynnig ffederasiwn yn cael ei gefnogi gan yr holl gorff llywodraethu neu ei gymeradwyo.
Yn darparu mynediad at arweinyddiaeth weithredol brofiadol.	Mae'r cynnig yn parhau i fod yn gwbl ddibynol ar gytundeb ac ymrwymiad parhaus corff llywodraethu arall.
Yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu staff, datblygu cwricwlwm a rhannu arbenigedd arbenigol ar draws ysgolion.	Ni fyddai'r Ffederasiwn yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o ostyngiad yn nifer y disgyblion, sydd wedi gostwng ymhellach i 24 o ddisgyblion ar 9 Medi 2026 .
Gwella gwytnwch staff a chynllunio olyniaeth.	Byddai pryderon cynaliadwyedd ariannol yn parhau, gan fod cyllid yn cael ei yrru i raddau helaeth gan niferoedd disgyblion yn hytrach na threfniadau llywodraethu.
Gallai leihau rhai costau rheoli ac arweinyddiaeth dros amser trwy drefniadau arweinyddiaeth a rennir.	Nid yw'r Ffederasiwn yn mynd i'r afael â gallu cyfyngedig yr ysgol i ddarparu grwpiau cyfoedion sy'n briodol i'w hoedran ar draws pob grŵp blwyddyn.
Gall gryfhau hyder rhieni trwy ddangos dull rhagweithiol o sicrhau dyfodol yr ysgol.	Gall trawsnewid llywodraethu fod yn hir ac yn gymhleth.

	Nid yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â dyheadau Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin.
Cyfleoedd	Bygythiadau
Mynediad at gronfa ehangach o arbenigedd addysgu, staff cymorth a chyfleoedd dysgu proffesiynol. Potensial ar gyfer defnyddio staffio ac adnoddau yn fwy effeithlon ar draws y ffederasiwn.	Byddai cyhoeddi a gweithredu'r cynnig cau yn dod â thrafodaethau ffederasiwn i ben.
Gwell gwytnwch addysgol trwy gydweithio, cynllunio a rennir a chymedroli.	Gallai unrhyw partner ffederasiwn posibl dynnu diddordeb yn ôl ar unrhyw gam o'r broses.
Cyfle i ddatblygu modelau arweinyddiaeth a chwricwlwm arloesol a rennir sy'n cefnogi gwella ysgolion.	Gallai ansicrwydd parhaus a heriau ariannol / nifer disgyblion parhaus oedi cynnydd a gwneud ffederasiwn yn llai deniadol i Gorff Llywodraethu arall.
Mwy o hyder rhieni.	Hyd yn oed o fewn ffederasiwn, gallai gostyngiad yn y pen draw arwain at ystyried ad-drefnu ysgolion o'r newydd.
Platfform posibl ar gyfer twf disgyblion hir dymor.	Mae nifer y disgyblion wedi gostwng ymhellach ac ym mis Medi 2026, nifer y disgyblion yw 24.
Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Mae gan Ffederasiwn y potensial i gryfhau gallu arwain a gwytnwch addysgol trwy ddarparu mynediad at strwythur arweinyddiaeth weithredol sefydledig, arbenigedd proffesiynol ehangach a mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu ar draws ysgolion. Gallai model ffederal wella gallu gwella ysgolion trwy	

hunanwerthuso a rennir, cynllunio cwricwlwm, dysgu proffesiynol a phrosesau sicrhau ansawdd. Gall hefyd gryfhau cynllunio olyniaeth a lleihau'r bregusrwydd sy'n gysylltiedig â throsiant arweinyddiaeth mewn ysgol fach iawn.

Gallai dysgwyr a staff elwa o fynediad at rwydwaith ehangach o gydweithwyr, cyfleoedd cyfoethogi cwricwlwm ehangach a mwy o gyfleoedd i rannu ymarfer effeithiol. Dros amser, gallai'r trefniadau hyn gefnogi gwelliannau mewn addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth trwy leihau ynysu proffesiynol a chynyddu gwynwch sefydliadol.

Fodd bynnag, ni fyddai manteision addysgol ffederasiwn yn digwydd ar unwaith ac ni ellir eu gwarantu. Byddai unrhyw welliant yn dibynnu ar gwblhau trafodaethau ffederasiwn yn llwyddiannus, cytundeb gan yr holl gyrrff llywodraethu, cymeradwyo'r prosesau statudol angenrheidiol a sefydlu trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar y cyd effeithiol. Ar ben hynny, er y gall ffederasiwn helpu i fynd i'r afael â phryderon gallu arweinyddiaeth, ni fyddai ynddo'i hun yn datrys cofrestriad gostyngedig yr ysgol, sydd wedi gostwng ymhellach i 24 o ddisgyblion ar 9 Medi 2026. O ganlyniad, byddai heriau sy'n ymwneud ag ehangder y cwricwlwm, grwpiau cyfoedion dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol a hyfywedd hirdymor yn parhau.

O ganlyniad, er y gallai ffederasiwn ddarparu fframwaith arweinyddiaeth a llywodraethu cryfach a gall gyfrannu'n gadarnhaol at safonau addysgol dros amser, nid yw'n darparu ateb digon sicr neu gynhwysfawr i'r materion sylfaenol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol. Ar hyn o bryd, mae ffederasiwn yn parhau i fod yn opsiwn posibl yn hytrach na chanlyniad wedi'i gadarnhau.

Effaith debygol ar y gymuned

Byddai parhad yr ysgol trwy ffederasiwn yn caniatáu i'r ysgol aros o fewn y gymuned tra'n elwa o strwythur arweinyddiaeth mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, gall rhywfaint o golli ymreolaeth leol ddigwydd trwy drefniadau llywodraethu a rennir ar draws ffederasiwn.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni fyddai unrhyw newid ar unwaith i'r trefniadau teithio oherwydd byddai'r disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Meidrim.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Er bod ffederasiwn yn cynrychioli datblygiad posibl cadarnhaol, mae'n parhau i fod ar gam archwiliadol, ac nid oes unrhyw drafodaeth ffurfiol wedi'i chynnal gan yr ysgolion partner posibl. Byddai'r ffederasiwn yn mynd i'r afael yn bennaf â gwytnwch arweinyddiaeth ond ni fyddai'n datrys pryderon ynghylch niferoedd isel o ddisgyblion, capasiti dros ben, cynaliadwyedd ariannol hirdymor neu ddefnydd effeithlon o adnoddau addysgol. Mae llwyddiant yr opsiwn hwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar ffactorau y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ac ni ellir ei warantu o fewn amserlen y cynnig statudol. Felly, er y gallai ffederasiwn fod yn rhan o ateb yn y dyfodol, nid yw'n darparu digon o sicrwydd ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r seiliau dros y cynnig cau.

Opsiwn 2 – Model Partneriaeth Cyngor-Cymuned

Cryfderau	Gwendidau
Yn cadw darpariaeth addysgol yn y pentref.	Model heb ei brofi i raddau helaeth yn y cyd-destun hwn.
Cynnal cyfrifoldeb y Cyngor am ddarpariaeth a safonau addysg..	Mae manylion sylweddol heb eu datblygu yn y cynnig cyfredol.
Annog cyfranogiad cymunedol a pherchnogaeth leol.	Ar hyn o bryd nid yw buddion ariannol wedi'u meintoli ac mae tystiolaeth gyfyngedig ynghylch graddfa cynilion neu gynhyrchu incwm y gellid ei gyflawni'n realistig.

Mae ganddo'r potensial i gynhyrchu incwm ychwanegol trwy ddefnydd cymunedol, cyfleusterau a rennir neu fentrau a arweinir gan y gymuned.	Yn gofyn am ymrwymiad sylweddol a pharhaus gan wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a phartneriaid allanol dros y tymor hir.
Wedi'i gefnogi gan drafodaethau gyda sefydliadau allanol.	Byddai angen llywodraethu, atebolrwydd a threfniadau gweithredol cymhleth a allai gynyddu'r risg sefydliadol.
	Nid yw'n datrys yr heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol o niferoedd isel o ddisgyblion a phwysau ariannol.
	Yn dibynnu'n bennaf ar gyllid grant sy'n aml yn anrhagweladwy, o natur untro ac na all warantu cynaliadwyedd hirdymor. Mae dibyniaeth ar gyllid grant yn creu ansicrwydd, gan fod llawer o ffrydiau cyllido yn gyfyngedig mewn amser, yn gystadleuol ac wedi'u bwriadu ar gyfer prosiectau penodol yn hytrach na chostau refeniw parhaus.
Cyfleoedd	Bygythiadau
Mynediad posibl at grantiau allanol a ffrydiau cyllid i gefnogi mentrau cymunedol ac addysgol.	Efallai na fydd cyfleoedd cyllido yn digwydd neu efallai nad ydynt yn ddigonol i fynd i'r afael â heriau ariannol sylfaenol yr ysgol.
Datblygu'r ysgol fel ased cymunedol ehangach a chanolfan ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau lleol.	Gall capasiti cymunedol, argaeledd gwirfoddolwyr ac ymrwymiad

	rhanddeiliaid leihau dros amser, gan effeithio ar gynaliadwyedd.
Mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgol y tu allan i oriau'r cwricwlwm, gan gynhyrchu budd cymunedol ychwanegol ac incwm ychwanegol o bosibl.	Mae dibyniaeth ar bartneriaid allanol yn cyflwyno ansicrwydd. Annhebygol y byddai unrhyw ymrwymiad hirdymor neu gytundebol.
Gwell cydlyniant cymunedol.	Nid oes unrhyw warant y bydd incwm yn ddigonol i dalu costau gweithredu'r ysgol.
Gostyngiad posibl mewn costau gweithredu trwy weithio mewn partneriaeth.	Gall y model greu beichiau gweinyddol a llywodraethu ychwanegol heb fynd i'r afael â sbardunau sylfaenol y cynnig statudol.

Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae gan y Model Partneriaeth Cyngor-Gymuned y potensial i gryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach, cynyddu mynediad at adnoddau ychwanegol a darparu profiadau dysgu cyfoethog trwy ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau allanol. Gallai cyllid ychwanegol, cyfleusterau a chynnwys cymunedol wella agweddau ar brofiadau addysgol disgyblion a chefnogi gweithgareddau lles, diwylliannol a chymraeg ehangach.

Fodd bynnag, mae effaith addysgol y cynnig yn parhau i fod yn ansicr. Ar hyn o bryd mae tystiolaeth gyfyngedig sy'n dangos sut y byddai'r model yn arwain at welliannau mesuradwy mewn addysgu a dysgu, canlyniadau disgyblion, gallu arweinyddiaeth neu drefniadau gwella ysgolion. Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon sy'n ymwneud â gwytnwch arweinyddiaeth, cynaliadwyedd addysgol na'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu addysg mewn ysgol fach iawn. Ar ben hynny, nid oes unrhyw gynllun gweithredu manwl neu wella addysgol wedi'i ddarparu i ddangos sut y byddai'r trefniadau arfaethedig yn sicrhau safonau uwch neu'n gwella canlyniadau dysgwyr dros amser.

Er y gall y model ddarparu buddion cymunedol a chyfoethogi ychwanegol, mae'n parhau i fod yn uchelgeisiol i raddau helaeth ac yn ddibynol ar gyllid allanol ac ymgysylltu â phartneriaid. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod digon o dystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos y byddai'r opsiwn hwn yn darparu dewis amgen cadarn, cynaliadwy neu gyflawnadwy sy'n gallu mynd i'r afael â'r heriau addysgol, ariannol a sefydliadol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol.

Effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned trwy gadw'r ysgol fel ased cymunedol allweddol. Mae'r model yn ceisio cryfhau cyfranogiad cymunedol, cynyddu'r defnydd o'r adeilad a chreu cyfleoedd ar gyfer prosiectau a gwasanaethau a arweinir gan y gymuned. Gallai gefnogi cynaliadwyedd cymuned Gymraeg wledig ac o bosibl denu buddsoddiad allanol ychwanegol i'r pentref. Fodd bynnag, mae'r model yn dibynnu'n helaeth ar gyfranogiad cymunedol parhaus ac ymrwymiad partneriaid hirdymor. Nid yw'n glir a fyddai hyn yn gynaliadwy ac felly'n peri risg.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni fyddai unrhyw newidiadau i drefniadau teithio yn codi pe bai'r ysgol yn parhau ar agor. Byddai disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol a byddai teuluoedd yn osgoi amseroedd teithio estynedig sy'n gysylltiedig â phresenoldeb mewn ysgolion amgen. Byddai patrymau trafndiaeth presennol yn aros yn ddigyfnewid.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Er bod y model yn arloesol ac mae ganddo fanteision posibl, mae llawer o elfennau yn parhau i fod heb eu datblygu ac yn dibynnu ar gytundebau yn y dyfodol, sefydliadau allanol a chyfleoedd cyllido a allai fod yn anghynaliadwy os yw cyllid grant yn dibynnu arno. Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i ddangos y byddai'r model yn darparu ateb cynaliadwy i'r heriau ariannol ac addysgol a nodwyd gan y Cyngor. Nid yw'r cynnig yn cynnwys ffrydiau cyllido wedi'u cadarnhau, cytundebau partneriaeth ffurfiol na chanlyniadau ariannol meintiol sy'n gallu dangos hyfywedd hirdymor. O ganlyniad, ni ellir dibynnu ar yr opsiwn ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r pryderon strategol sy'n sail i'r cynnig cau.

Opsiwn 3 – Canolfan Gymunedol Estynedig a Defnydd Cymunedol Ehangach

Cryfderau	Gwendidau
Gwneud gwell defnydd o asedau cyhoeddus presennol.	Mae adeiladau addysgol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer addysgu a dysgu; efallai y bydd angen addasiad sylweddol i oedran, dyluniad a chynllun yr adeilad i ddarparu ar gyfer defnydd cymunedol ehangach.
Cefnogi lles cymunedol.	Mae incwm ychwanegol a gynhyrchir yn debygol o fod yn gymedrol ac nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'n ddigonol i fynd i'r afael â heriau ariannol sylfaenol yr ysgol neu sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.
Cynyddu'r defnydd o gyfleusterau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol a thrwy gydol y flwyddyn.	Byddai gweithgarwch allanol a chymunedol yn creu mwy o ofynion rheoli a gweithredol a allai ychwanegu at lwyth gwaith staff ac arweinyddiaeth y tu hwnt i'w gallu rhesymol.
Gall gynhyrchu incwm ychwanegol. Gall gynhyrchu incwm ychwanegol trwy logi cyfleusterau, gweithgareddau cymunedol a threfniadau partneriaeth.	Bydd angen ystyriaethau diogelu a gweithredol ychwanegol ar gyfer defnydd cymunedol o fewn diwrnod ysgol.
Cefnogi amcanion cynaliadwyedd gwledig.	Nid yw'r cynllun arfaethedig yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • incwm a gwariant a ragwelir;

	<ul style="list-style-type: none"> • rhagolygon llif arian; • Cyllidebau 3-5 mlynedd; • dadansoddiad sensitifrwydd; • arbedion meintiol o fentrau arfaethedig.
	Ni fyddai'n cryfhau gallu arweinyddiaeth, gwytnwch llywodraethu na chynllunio olyniaeth yn uniongyrchol.
Cyfleoedd	Bygythiadau
Datblygu ystod ehangach o weithgareddau a gwasanaethau cymunedol o safle'r ysgol.	Mae sylfaen boblogaeth y gymuned yn fach ac efallai nad oes digon o alw am wasanaethau i'w gwneud yn hyfyw.
Ehangu dysgu oedolion, dysgu teuluol a chyfleoedd dysgu gydol oes.	Gall costau gweithredu, cynnal a chadw a staffio fod yn fwy nag unrhyw incwm a gynhyrchir trwy ddefnydd cymunedol.
Prosiectau iechyd a lles.	Gall y model ddod yn ddibynnol ar wirfoddolwyr a hyrwyddwyr cymunedol y gall eu gallu a'u hargaeledd amrywio dros amser.
Gweithgareddau rhwng cenedlaethau.	Cynaliadwyedd yn dibynnu ar ymgysylltu cymunedol hirdymor.
Mynediad posibl at gyllid grant sy'n gysylltiedig â datblygu cymunedol, hyrwyddo'r Gymraeg, lles a chynaliadwyedd gwledig.	Nid yw cynllun ffisegol adeilad yr ysgol yn ddelfrydol ar gyfer defnydd cymunedol helaeth yn ystod y diwrnod ysgol, gan gyfyngu cyfleoedd o bosibl.

	Gall cyfraddau geni isel a gostyngiad yn nifer y disgyblion barhau i danseilio cynaliadwyedd cyffredinol yr ysgol waeth beth yw mwy o ddefnydd cymunedol.
	Efallai na fydd cyfleoedd cyllido grant yn digwydd neu efallai y byddant yn gyfyngedig ar amser.
	Efallai na fydd yr uchelgais hyn yn gwireddu. Mae llawer o'r buddion arfaethedig yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac nid oes unrhyw warant y bydd galw digonol, cynhyrchu incwm neu drefniadau partneriaeth yn cael eu sicrhau.
<p>Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg</p> <p>Gallai mwy o ddefnydd cymunedol o safle yr ysgol ddarparu cyfleoedd cyfoethogi ychwanegol i ddysgwyr trwy weithgareddau allgyrsiol, prosiectau rhwng cenedlaethau, mentrau iechyd a lles ac ymgysylltu cryfach â theuluoedd a'r gymuned leol. Gall mwy o fynediad at wasanaethau, rhaglenni cymunedol a phartneriaid allanol gyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau ehangach, lles ac ymdeimlad o berthyn disgyblion yn eu cymuned.</p> <p>Fodd bynnag, byddai'r manteision addysgol yn anuniongyrchol i raddau helaeth. Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prif bryderon a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol ynghylch gallu arweinyddiaeth, gwytnwch addysgol, cynllunio olyniaeth, cynaliadwyedd ariannol neu ostyngiad yn nifer y disgyblion. Er y gall mwy o weithgarwch cymunedol wella rôl yr ysgol yn y pentref a darparu cyfleoedd cyfoethogi gwerthfawr, mae tystiolaeth gyfyngedig y byddai'n arwain at welliannau mesuradwy mewn addysgu a dysgu, canlyniadau disgyblion neu effeithiolrwydd arweinyddiaeth.</p>	

Ar ben hynny, gallai mwy o ddefnydd cymunedol roi gofynion gweithredol a rheoli ychwanegol ar staff ac arweinwyr ysgolion, gan ddargyfeirio capasiti oddi wrth flaenoriaethau addysgol craidd. Byddai llwyddiant y model hefyd yn dibynnu ar ymgysylltiad cymunedol parhaus, galw digonol am gyfleusterau ac argaeledd cyllid allanol a phartneriaid.

O ganlyniad, er y gall yr opsiwn hwn gryfhau cysylltiadau cymunedol a chyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi a lles disgyblion, nid yw'n darparu ateb cadarn neu dystiolaeth i'r heriau addysgol, sefydliadol ac ariannol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y manteision addysgol posibl yn debygol o fod yn gyfyngedig ac yn annigonol, ar wahân, i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r effaith gymunedol fod yn gadarnhaol iawn gan y byddai safle'r ysgol yn parhau i weithredu fel canolbwynt i fywyd y pentref. Gallai mwy o ddefnydd o'r cyfleuster gefnogi lles cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol ac ymgysylltu lleol gan helpu i gynnal hyfywedd gwasanaethau o fewn y gymuned. Mae'r opsiwn yn cyd-fynd â'r rôl a chwaraeir yn aml gan ysgolion gwledig fel canolfannau cymunedol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Byddai'r opsiwn yn osgoi'r angen i ddisgyblion deithio i ysgolion amgen a byddai'n caniatáu i weithgareddau addysgol a chymunedol aros ym Meidrim. Byddai mynediad lleol at wasanaethau yn cael ei gynnal i ddisgyblion ac aelodau o'r gymuned.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Er y byddai defnydd cymunedol ehangach yn gwella gwerth y safle fel ased cymunedol, ni fyddai'n datrys yn uniongyrchol y materion craidd a nodwyd yn y cynnig statudol. Nid yw gweithgarwch cymunedol ychwanegol o reidrwydd yn cynhyrchu digon o incwm i sicrhau cynaliadwyedd addysgol hirdymor ac mae dystiolaeth gyfyngedig ynghylch lefelau defnydd disgwylidig neu fudd ariannol.

Felly, mae'r opsiwn yn cynnig buddion cymunedol ond nid yw'n darparu datrysiad addysgol neu ariannol cynhwysfawr.

Opsiwn 4– Gofal Plant, Gofal Cofleidiol a Darpariaeth yn ystod Gwyliau	
Cryfderau	Gwendidau
Ymateb i anghenion gofal plant a gofal cofleidiol a nodwyd yn yr ardal leol.	Nid yw'r galw wedi'i dystiolaeth yn llawn trwy asesiad cadarn o'r farchnad ac mae lefel y defnydd tebygol yn parhau i fod yn ansicr.
Gallai wella hyder rhieni yn yr ysgol a chryfhau ymgysylltiad â theuluoedd presennol a darpar deuluoedd.	Byddai darpariaeth yn gofyn am staff cymwysedig priodol, cydymffurfiaeth reoleiddiol a goruchwyliaeth reoli barhaus.
Gall gefnogi recriwtio disgyblion trwy sefydlu cysylltiadau cryfach â phlant cyn-ysgol a'u teuluoedd.	Ar hyn o bryd mae amcanestyniadau incwm yn ddyfalu ac nid ydynt wedi'u cefnogi gan fodelu hyfywedd manwl.
Creu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm ychwanegol trwy ofal plant, gofal cofleidiol a darpariaeth gwyliau.	Efallai y bydd angen addasiadau llety ychwanegol i sicrhau gwahanu priodol rhwng gofal plant a darpariaeth ysgol brif ffrwd.
Gallai wella trefniadau pontio i addysg statudol trwy ymgysylltu'n gynharach â phlant a theuluoedd.	Byddai angen i ddarpariaeth gofal plant ddangos hyfywedd i sicrhau cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd. Mae'n annhebygol y byddai digon o alw i sicrhau hyn.
	Mae unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion yn ansicr ac yn debygol o

	ddigwydd yn raddol dros gyfnod estynedig, os o gwbl.
	Nid yw'n darparu ateb clir i wydnwch arweinyddiaeth, cynaliadwyedd addysgol na hyfywedd ariannol hirdymor.
Cyfleoedd	Bygythiadau
Potensial i gynyddu recriwtio disgyblion trwy ymgysylltu'n gryfach â theuluoedd ifanc a phlant cyn-ysgol.	Mae'r ddarpariaeth gofal plant presennol eisoes yn gweithredu o fewn ardaloedd cyfagos, gan gynnwys y Cylch Meithrin ym Mancyfelin a darparwyr gofal plant yn ardal Sanclêr, gan greu cystadleuaeth uniongyrchol i nifer cyfyngedig o blant.
Gwell trefniadau pontio rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg statudol.	Gallai galw annigonol danseilio hyfywedd ariannol ac arwain at ofynion cymhorthdal parhaus.
Mwy o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â rhieni a dysgu teuluol.	Heriau recriwtio staffio.
Mynediad posibl at ffrydiau cyllido gofal plant, blynyddoedd cynnar a chymunedol.	Gall costau gweithredu, costau staffio a gofynion rheoleiddiol fod yn fwy na'r incwm a gynhyrchir trwy'r ddarpariaeth.
	Gallai tueddiadau demograffig, gan gynnwys cyfraddau geni isel a phoblogaeth oedran ysgol sy'n dirywio, gyfyngu ar y galw yn y dyfodol.

	Hyd yn oed os yw'n llwyddiannus, efallai na fydd darpariaeth gofal plant yn cynhyrchu twf digonol o ddisgyblion i fynd i'r afael â lleoedd dros ben neu bryderon cynaliadwyedd hirdymor.
--	--

Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai darparu gofal plant, gofal cofleidiol a gweithgareddau gwyliau gyfrannu'n gadarnhaol at les dysgwyr, parodrwydd ysgol ac ymgysylltu â theuluoedd. Gall ymgysylltu cynnar â phlant a theuluoedd gefnogi pontio llyfn i addysg statudol, cryfhau perthynas rhwng cartref ac ysgol a darparu cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad y Gymraeg o oedran cynharach. Dros amser, gall mwy o gyswllt â darpar deuluoedd gyfrannu at well recriwtio a chadw disgyblion.

Fodd bynnag, mae'r manteision addysgol yn debygol o fod yn anuniongyrchol yn hytrach na thrawsnewidiol. Er y gall darpariaeth gofal plant gefnogi parodrwydd plant i ddysgu a gwella ymgysylltiad rhieni, nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion allweddol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol, sef gallu arweinyddiaeth, gwytnwch addysgol, gostyngiad yn nifer y disgyblion a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos y byddai'r cynnig yn arwain at welliannau mesuradwy mewn ansawdd addysgu, canlyniadau dysgwyr neu arweinyddiaeth ysgolion.

Ar ben hynny, mae llwyddiant y cynnig yn dibynnu ar alw digonol, hyfywedd ariannol, recriwtio staff cymwys priodol yn llwyddiannus a chydymffurfiaeth barhaus â rheoliadau gofal plant. Mae unrhyw effaith ar recriwtio disgyblion yn debygol o fod yn raddol ac yn ansicr, yn enwedig o ystyried y sylfaen boblogaeth leol gyfyngedig ac argaeledd darpariaeth gofal plant presennol mewn cymunedau cyfagos.

O ganlyniad, er y gallai gofal plant a darpariaeth cofleidiol ddarparu manteision gwerthfawr i blant, teuluoedd a'r gymuned ehangach, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn ei fod yn cynrychioli mesur ategol yn hytrach nag ateb cynhwysfawr. Efallai y bydd y cynnig yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd cymunedol ac ymgysylltu â theuluoedd, ond nid yw'n darparu digon o dystiolaeth i ddangos y

byddai'n mynd i'r afael â'r heriau addysgol, sefydliadol ac ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.

Effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig ddarparu gwasanaeth pwysig i deuluoedd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gall y ddarpariaeth gofal plant fod yn gyfyngedig. Gall wella cydbwysedd bywyd a gwaith i rieni, cefnogi cyflogaeth leol a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i deuluoedd ifanc. Gall datblygu darpariaeth gofal plant hefyd gynyddu'r defnydd cymunedol o safle yr ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Gallai sefydlu darpariaeth gofal plant yn y pentref leihau'r angen i rai teuluoedd deithio i rywle arall i gael mynediad at wasanaethau gofal plant. Fodd bynnag, nid oes asesiad o ba raddau y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd ac a fyddai rhieni sy'n cael mynediad at ddarpariaeth mewn mannau eraill yn fodlon newid. Pe bai hyn yn digwydd, byddai'n creu risg pellach i'r ddarpariaeth bresennol mewn ardaloedd cyfagos eraill. Byddai trefniadau teithio ar gyfer disgyblion ysgol yn aros yn ddigyfnewid tra'n darparu cyfleustra ychwanegol i rieni lleol.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Er y gall gofal plant cofleidiol gyfrannu'n gadarnhaol tuag at recriwtio disgyblion a chynaliadwyedd cymunedol, mae'r cynnig yn atodol yn hytrach na thrawsnewidiol. Mae darparu gofal plant hyfyw a chynaliadwy yn her mewn llawer o gymunedau llai a gwledig oherwydd y sylfaen boblogaeth isel ac felly diffyg galw. Mae darpariaeth amgen yn bodoli yn ardaloedd Sanclêr a Bancyfelin a byddai unrhyw ddarpariaeth newydd yn debygol iawn o fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r darparwyr hyn ar gyfer yr un plant. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r incwm a ragwelir neu dwf disgyblion yn ddigonol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch lleoedd dros ben, cynaliadwyedd ariannol hirdymor neu wydnwch addysgol. Felly, dim ond fel mesur ategol y gellir ystyried y cynnig yn hytrach nag ateb annibynnol.

Opsiwn 5 – Mentrau Ynni Adnewyddadwy a Chynaliadwyedd	
Cryfderau	Gwendidau
Mae ganddo'r potensial i leihau costau ynni a gweithredu dros y tymor hwy.	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw cyn y gellid gwireddu unrhyw fuddion ariannol.
Yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynaliadwyedd a datgarboneiddio cenedlaethol, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.	Mae arbedion ariannol yn ansicr a byddai'n debygol o gronni'n raddol dros gyfnod estynedig.
	<p>Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r her sylfaenol o ostwng nifer y disgyblion, sydd wedi gostwng ymhellach i 24 o ddisgyblion ar 9 Medi 2026.</p> <p>Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â gallu arweinyddiaeth, gwytnwch addysgol na chynllunio olyniaeth.</p>
Gyda chefnogaeth sefydliadau arbenigol sydd ag arbenigedd mewn ynni adnewyddadwy a phrosiectau cynaliadwyedd cymunedol.	Angen arbenigedd arbenigol.
Gallai ddarparu cyfleoedd cyfoethogi cwriclewm gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, cynaliadwyedd, ymwybyddiaeth amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd.	Nid yw'n ateb uniongyrchol i nifer y disgyblion a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r ysgol.

Gall wella perfformiad amgylcheddol ystâd yr ysgol a lleihau allyriadau carbon.	Angen arbenigedd technegol arbenigol, rheoli prosiect a threfniadau cynnal a chadw parhaus.
	<p>Efallai y bydd angen buddsoddiad cyfalaf ychwanegol sylweddol ar oedran a chyflwr adeilad yr ysgol cyn y gellid gosod technolegau adnewyddadwy.</p> <p>Byddai buddion yn cymryd amser i wireddu ac ni fyddent yn mynd i'r afael â'r pryderon uniongyrchol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol.</p>
Cyfleoedd	Bygythiadau
Mae grantiau a ffrydiau cyllid allanol ar gael i ddatblygu cynlluniau o'r fath.	Nid yw cyllid wedi'i sicrhau a byddai'n gofyn am broses ymgeisio gystadleuol heb unrhyw warant o lwyddiant.
Lleihau defnydd ynni ac allyriadau carbon.	
Mentrau ynni cymunedol posibl a phartneriaethau gyda sefydliadau amgylcheddol.	Gall cyfnodau ad-dalu hir, o bosibl yn ymestyn i 10 mlynedd neu fwy, gyfyngu ar allu'r cynnig i fynd i'r afael â phwysau ariannol tymor byr neu ganolog.
Gwell proffil cymunedol a chyhoedduswydd cadarnhaol trwy gymryd rhan mewn prosiectau cynaliadwyedd.	Efallai na fydd buddion yn cael eu gwireddu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael â phryderon ynghylch hyfywedd presennol yr ysgol.

<p>Cyfle i ddatblygu prosiectau cwricwlwm arloesol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, gwyddoniaeth, technoleg a stiwardiaeth amgylcheddol</p>	<p>Gall arbedion a gyflawnwyd fod yn is na'r disgwyl oherwydd amrywiadau mewn marchnadoedd ynni, costau cynnal a chadw neu berfformiad technegol.</p> <p>Hyd yn oed os caiff ei weithredu'n llawn, mae arbedion ynni yn unig yn annhebygol o wrthbwysu'r heriau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol gyda nifer isel iawn o ddisgyblion.</p> <p>Gallai gostyngiadau parhaus mewn cofrestru disgyblion danseilio cynaliadwyedd cyffredinol yr ysgol waeth beth fo'r gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni.</p> <p>Gallai buddsoddiad cyfalaf ddargyfeirio adnoddau cyfyngedig o flaenoriaethau addysgol eraill.</p>
<p>Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg</p> <p>Gallai mentrau ynni adnewyddadwy a chynaliadwyedd wella profiadau dysgu trwy ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymgysylltu â chynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd, gwyddoniaeth, technoleg ac addysg amgylcheddol mewn cyd-destunau ymarferol a pherthnasol. Gall mentrau o'r fath gefnogi cyfoethogi cwricwlwm, cryfhau ymgysylltiad dysgwyr a chyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth disgyblion o gyfrifoldeb amgylcheddol a datblygu cynaliadwy.</p> <p>Gallai'r cynnig hefyd greu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol a galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn prosiectau go iawn sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar draws ystod o feysydd cwricwlwm.</p>	

Fodd bynnag, byddai unrhyw fanteision addysgol yn eilradd i'r prif amcan o leihau costau gweithredu a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol. Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r pryderon allweddol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â gallu arweinyddiaeth, gwytnwch addysgol, gostyngiad yn nifer y disgyblion neu gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Er y gall prosiectau cynaliadwyedd wella agweddau ar y cwricwlwm, mae tystiolaeth gyfyngedig y byddent yn arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau addysgol, canlyniadau dysgwyr neu hyfywedd hirdymor yr ysgol.

Ar ben hynny, mae unrhyw fuddion ariannol sy'n deillio o costau ynni llai yn debygol o ddod i'r amlwg dros gyfnod estynedig a byddai'n dibynnu ar sicrhau cyllid, goresgyn heriau technegol a gweithredu'r gwelliannau seilwaith angenrheidiol yn llwyddiannus.

O ganlyniad, er y gallai mentrau ynni adnewyddadwy ddarparu buddion amgylcheddol, addysgol a chymunedol gwerth chweil, nid ydynt yn cynnig ateb uniongyrchol neu gynhwysfawr i'r materion a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol.

Effaith debygol ar y gymuned

Gallai fod manteision cymunedol cadarnhaol trwy fwy o gyfranogiad lleol mewn mentrau amgylcheddol, gostyngiadau posibl mewn costau ynni a mwy o falchder cymunedol mewn prosiectau cynaliadwyedd. Gall buddsoddiad allanol a chyfleoedd partneriaeth hefyd gryfhau ymgysylltiad cymunedol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni fyddai unrhyw effaith ar drefniadau teithio disgyblion yn cael ei ddisgwyl gan y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn parhau o fewn y gymuned. Byddai'r trefniadau teithio presennol yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Er y gall prosiectau ynni adnewyddadwy ddarparu arbedion gweithredol yn yr hirdymor, maent yn annhebygol o gynhyrchu arbedion o raddfa ddigonol i fynd i'r afael â'r materion strategol ehangach sy'n wynebu'r ysgol. Mae cyllid yn parhau i fod yn ansicr, byddai gweithredu yn gofyn am amser arweiniol sylweddol, ac ni

fyddai'r manteision yn datrys yn uniongyrchol bryderon ynghylch niferoedd disgyblion, gwytnwch addysgol neu gapasiti dros ben. O ganlyniad, mae'r cynnig yn darparu effeithlonrwydd posibl ond nid ateb cyflawn.

Opsiwn 6 – Gohirio Cau'r ysgol a chaniatáu Cyfnod Datblygu Diffiniedig (Dewis Amgen a Ffefrir gan y Corff Llywodraethu)

Cryfderau	Gwendidau
Yn rhoi cyfle i drafodaethau ffederasiwn ddod i gasgliad ffurfiol.	Oedi datrys y pryderon a arweiniodd at y cynnig statudol ac yn ymestyn cyfnod o ansicrwydd parhaus. Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau sylfaenol o ostyngiad yn nifer y disgyblion, sydd wedi gostwng ymhellach i 24 o ddisgyblion ar 9 Medi 2026.
Galluogi profi trefniadau partneriaeth.	Byddai pwysau ariannol a'r gofyniad am gymhorthdal parhaus yn parhau trwy gydol y cyfnod datblygu.
Caniatáu i geisiadau cyllid allanol symud ymlaen.	Nid oes unrhyw warant y bydd trafodaethau ffederasiwn, ceisiadau am gyllid neu gynigion partneriaeth yn llwyddiannus yn y pen draw.
Yn cadw opsiynau ar gyfer y dyfodol.	Yn ymestyn cyfnod o ansefydlogrwydd.
Gallai penderfyniad fod yn seiliedig ar dystiolaeth fwy cyflawn.	Nid oes gan y cynnig feini prawf llwyddiant, cerrig milltir a phwyntiau ymyrraeth wedi'u diffinio'n glir y gellid

	<p>mesur cynnydd yn wrthrychol yn eu herbyn.</p> <p>Gall ymestyn ansefydlogrwydd i ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach.</p> <p>Gall ansicrwydd parhaus effeithio'n andwyol ar ddewis rhieni, recriwtio disgyblion a recriwtio staff.</p> <p>Nid yw'n darparu ateb ar unwaith i bryderon ynghylch gwytnwch addysgol a hyfywedd hirdymor.</p> <p>Risg o ohirio penderfyniad anodd heb newid y sefyllfa sylfaenol yn sylweddol.</p>
Cyfleoedd	Bygythiadau
Sefydlogi neu dwf posibl yn niferoedd disgyblion os bydd hyder yn nyfodol yr ysgol yn gwella.	Gall nifer y disgyblion barhau i ostwng yn ystod y cyfnod gohirio, gan wanhau hyfywedd hirdymor ymhellach.
Galluogi trafodaeth bellach ar ddatblygu trefniadau arweinyddiaeth gynaliadwy.	Efallai na fydd trafodaethau ffederasiwn yn arwain at gynnig y cytunwyd arno.
Cyflawni mentrau partneriaeth.	Gall ceisiadau am gyllid fod yn aflwyddiannus neu'n annigonol i fynd i'r afael â heriau ariannol yr ysgol.
Gall ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.	Mae ansicrwydd parhaus yn atal cofrestru.

	<p>Efallai y bydd mentrau cymunedol a phartneriaeth yn methu â chynhyrchu buddion neu incwm disgwylidig</p> <p>Gallai heriau recriwtio a chadw ddod yn anoddach yn ystod cyfnod estynedig o ansicrwydd.</p> <p>Gallai gostyngiadau pellach mewn cofrestru, rhagamcanion demograffig neu berfformiad ariannol adael llai o opsiynau ar gael yn y dyfodol nag sydd ar gael ar hyn o bryd.</p>
<p>Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg</p> <p>Byddai cyfnod diffiniedig o weithrediad parhaus yn rhoi cyfle i drafodaethau ffederasiwn, cynigion partneriaeth, mentrau cyllido ac atebion a arweinir gan y gymuned gael eu datblygu a'u gwerthuso'n llawn. Byddai'r ysgol yn cael y cyfle i adeiladu ar welliannau diweddar mewn perfformiad addysgol ac arweinyddiaeth, gan gynnwys ei ymadawiad llwyddiannus o fesurau arbennig, wrth barhau i weithredu ei blaenoriaethau gwella.</p> <p>Gall gohirio hefyd greu cyfleoedd i gryfhau trefniadau arweinyddiaeth, cynyddu cydweithredu ag ysgolion cyfagos a phrofi a all dulliau amgen wella cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Gall amser ychwanegol alluogi'r ysgol i ddangos a yw gwelliannau diweddar yn y ddarpariaeth addysgol yn trosi at fwy o hyder rhieni a recriwtio disgyblion.</p> <p>Fodd bynnag, ni ellir tybio buddion addysgol a byddai'n dibynnu ar gynnydd amlwg yn ystod y cyfnod y cytunwyd arno. Gall ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol yr ysgol effeithio ar forâl staff, recriwtio, cadw a chynllunio hirdymor. Ar ben hynny, er bod gohirio yn creu amser i archwilio atebion amgen, nid yw'n mynd i'r afael â'r pryderon craidd a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol ynghylch gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynaliadwyedd ariannol a gwytnwch addysgol.</p> <p>Byddai'r effaith ar ansawdd a safonau felly yn dibynnu i raddau helaeth ar a yw'r cyfnod ychwanegol wedi arwain at welliannau mesuradwy a chynaliadwy yn erbyn</p>	

meini prawf llwyddiant wedi'u diffinio'n glir. Yn absenoldeb cynnydd o'r fath, mae risg o hyd y byddai'r un heriau yn parhau ar ddiwedd y cyfnod adolygu.

Effaith debygol ar y gymuned

Byddai gohirio yn cael ei groesawu gan lawer o fewn y gymuned leol gan y byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysgol ac yn caniatáu cyfleoedd pellach i fentrau a arweinir gan y gymuned ddatblygu. Gall wella hyder ymhlith teuluoedd lleol a chefnogi ymgysylltu cymunedol parhaus. I'r gwrthwyneb, gall ymestyn y broses ymestyn ansicrwydd i ddisgyblion, teuluoedd a staff ac oedi datrysiad terfynol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni fyddai unrhyw newidiadau ar unwaith i'r trefniadau teithio gan y byddai disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Meidrim. Byddai'r trefniadau trafnidiaeth presennol yn parhau i fod ar waith a byddai goblygiadau trafnidiaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad y cyfnod adolygu.

Y rheswm dros ddiystyru / ffafrio'r opsiwn hwn

Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad bod digon o amser eisoes wedi'i ddarparu i archwilio dewisiadau amgen drwy gydol yr ymgynghoriad, yr enillion cyfreithiol a'r camau gwrthwynebu. Er y gall datblygiad pellach gynhyrchu gwybodaeth ychwanegol, nid oes sicrwydd o hyd y byddai'r cynigion yn y pen draw yn datrys pryderon ynghylch nifer disgyblion, cynaliadwyedd ariannol a gwynwch addysgol. Gall gohirio hefyd ymestyn ansicrwydd i ddisgyblion a theuluoedd heb newid y sefyllfa sylfaenol yn sylweddol. O ganlyniad, gall Aelodau benderfynu bod y dystiolaeth sydd ar gael yn ddigonol i wneud penderfyniad ar y cam hwn.

Casgliad Cyffredinol

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Meidrim wedi cyflwyno ystod gynhwysfawr o gynigion amgen a mesurau lliniaru yn ystod y cyfnod gwrthwynebu sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys symud ymlaen i drafodaethau ffederasiwn gydag ysgolion cyfagos, datblygu model Partneriaeth Cyngor-Gymuned, ehangu'r defnydd cymunedol o safle yr ysgol, sefydlu gofal plant, darpariaeth wyliau a gwyliau, archwilio mentrau ynni adnewyddadwy a

chynaliadwyedd, a gohirio gweithredu'r cynnig i ganiatáu datblygu'r trefniadau hyn ymhellach. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ymdrechion sylweddol y Corff Llywodraethu, staff, rhieni a chynrychiolwyr cymunedol wrth archwilio dewisiadau amgen posibl ac yn cydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd wrth geisio sicrhau dyfodol yr ysgol. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod yr ysgol wedi cael ei dynnu o fesurau arbennig Estyn yn llwyddiannus a'r ymgysylltiad rhagweithiol sydd wedi digwydd gydag ystod o sefydliadau allanol i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Wrth ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol werthuso'r dewisiadau amgen arfaethedig yn erbyn ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau statudol, gan gynnwys darparu addysg gynaliadwy o ansawdd uchel, hyrwyddo arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol, defnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon, a chynaliadwyedd hirdymor trefniadaeth ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Wrth wneud hynny, mae angen asesu nid yn unig manteision posibl y dewisiadau amgen a gynigir, ond hefyd eu cyflawnadwyedd, lefel sicrwydd, galluoedd ehangu a'u gallu i fynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod nifer o'r cynigion amgen yn deilwng ac, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd cymunedol, ymgysylltu â'r gymuned a gwella gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, mae llawer yn parhau i fod yn ddibynnol ar drafodaethau yn y dyfodol, cytundeb trydydd parti, sicrhau cyllid allanol yn llwyddiannus, argaeledd arbenigedd arbenigol, parodrwydd gwirfoddolwyr a sefydliadau partner i gymryd rhan, a rhagdybiaethau ynghylch twf disgyblion a chynhyrchu incwm yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r ffactorau hyn yn parhau i fod yn ansicr neu heb eu cadarnhau, ac mae tystiolaeth gyfyngedig wedi'i darparu i ddangos y byddai'r manteision disgwylledig yn cael eu gwireddu i'r graddau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Mae ystyriaeth arbennig wedi'i roi i'r cynnig ffederasiwn, y mae'r Corff Llywodraethol yn ei nodi fel mecanwaith allweddol ar gyfer cryfhau gwytnwch arweinyddiaeth a sicrhau mwy o gynaliadwyedd addysgol. Er bod gan ffederasiwn y potensial i wella gallu arweinyddiaeth, cynyddu cydweithredu proffesiynol a gwella gwytnwch sefydliadol, mae trafodaethau yn parhau ac nid oes cytundeb ffurfiol wedi'i gyrraedd. Ar ben hynny, er y gall ffederasiwn fynd i'r afael â rhai pryderon sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth, ni fyddai ynddo'i hun yn datrys gostyngiad cofrestru, capasiti gwarged

sylweddol neu heriau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. O ganlyniad, rhaid i'r Awdurdod Lleol asesu'r cynnig ar sail y dystiolaeth bresennol sydd ar gael yn hytrach nag ar y disgwyliad y gellir sicrhau trefniant ffederasiwn yn y dyfodol.

Yn yr un modd, er y gall y model arfaethedig Partneriaeth Cyngor-Gymuned, trefniadau canolfannau cymunedol estynedig, darpariaeth gofal plant a mentrau cynaliadwyedd ddarparu manteision ehangach i'r ysgol a'r gymuned, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos y byddai'r cynigion hyn yn cynhyrchu lefel arbedion ariannol, incwm ychwanegol, twf disgyblion neu wydnwch sefydliadol sydd eu hangen i sicrhau hyfywedd hirdymor yr ysgol. Mae llawer o agweddau ar y cynigion hyn yn parhau i fod yn ddatblygiadol a byddai angen cynllunio, buddsoddiad, trefniadau llywodraethu a chefnogaeth allanol sylweddol cyn y gellid asesu'n llawn eu heffeithiolrwydd a'u cynaliadwyedd. Er y gall y mentrau hyn ategu darpariaeth addysgol a chyfrannu'n gadarnhaol at les cymunedol, ni ellir eu hystyried ar hyn o bryd fel dewisiadau amgen digon cadarn i'r cynnig statudol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried yn ofalus yr opsiwn a ffefrir gan y Corff Llywodraethu o ohirio gweithredu'r cynnig er mwyn caniatáu amser ychwanegol i drefniadau amgen ddatblygu. Cydnabyddir y gall mwy o amser alluogi trafodaethau ffederasiwn, ceisiadau am gyllid a mentrau partneriaeth i symud ymlaen ymhellach. Fodd bynnag, rhaid i Aelodau gydbwysu manteision posibl archwilio ychwanegol yn erbyn yr angen i ddarparu sicrwydd a sefydlogrwydd i ddysgwyr, rhieni, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r materion a nodwyd drwy'r broses adolygu, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion, lleoedd dros ben sylweddol, gwytnwch arweinyddiaeth a chynaliadwyedd ariannol hirdymor, wedi bod yn hysbys ers cyfnod sylweddol ac wedi llywio'r broses ymgynghori a'r cynnig statudol. Er y gall gwaith pellach ddarparu gwybodaeth ychwanegol, nid oes sicrwydd y byddai'r mesurau amgen a gynigir yn cyflawni canlyniadau sy'n gallu mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a arweiniodd at y cynnig.

Ar ôl ystyried pob un o'r cynigion amgen yn unigol ac ar y cyd, mae'r Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad nad yw'r un ohonynt ar hyn o bryd yn cynrychioli datrysiad digonol, cyflawnadwy neu gynaliadwy sy'n gallu mynd i'r afael â'r heriau addysgol, sefydliadol ac ariannol sy'n wynebu'r ysgol. Er bod y cynigion yn dangos ymrwymiad lleol sylweddol, uchelgais gymunedol ac awydd clir i gadw'r ddarpariaeth addysgol yn y pentref, nid ydynt yn darparu'r lefel o sicrwydd sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd

hirdymor Ysgol Gynradd Meidrim. Yn benodol, nid ydynt yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion, a oedd yn 24 o ddisgyblion ar 9 Medi 2026, ac nid ydynt yn darparu llwybr clir a thystiolaeth i gyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor, gwytnwch addysgol a hyfywedd sefydliadol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad y dylid diystyru'r opsiynau amgen ar y sail nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol, yn dibynnu ar ffactorau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod, yn dibynnu ar ganlyniadau na ellir eu gwarantu, neu'n methu mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a arweiniodd at gyhoeddi'r cynnig statudol. Felly, ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ofalus a'r dewisiadau amgen a gyflwynwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer sicrhau darpariaeth addysgol o ansawdd uchel a sicrhau defnydd effeithiol a theg o adnoddau addysgol yn yr ardal.

9. AILASESIAD AR ÔL Y CYFNOD GWRTHWYNEBU MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal adolygiad pellach o'r cynnig ar ôl i'r cyfnod hysbysiad statudol ddod i ben. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i statws Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol wledig a'r gofyniad yn y Cod na ddylai ysgolion gwledig gau oni bai bod rhesymau cryf dros wneud hynny. Mae'r ailasesiad hwn wedi ystyried yn llawn yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gan gynnwys y materion a godwyd gan wrthwynebwyr ynghylch effaith addysgol, cymunedol, ieithyddol a chymdeithasol y cynnig.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ail-archwilio'r cynnig a'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn flaenorol yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys cadw'r ysgol yn ei ffurf bresennol, trefniadau ffedereiddio, newidiadau i ystod oedran yr ysgol, gwell defnydd cymunedol o'r safle, a mesurau eraill sydd â'r bwriad o gryfhau hyfywedd hirdymor yr ysgol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried y wybodaeth a'r dadleuon ychwanegol a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr ac wedi asesu a ydynt yn newid y casgliadau y daethpwyd iddynt yn ystod y cam ymgynghori.

Roedd y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned leol, ei chyfraniad i'r Gymraeg, pryderon ynghylch teithio gan ddysgwyr, a'r effaith bosibl ar gydlyniant cymunedol. Mae'r materion hyn wedi cael eu hadolygu'n

ofalus ochr yn ochr â gwybodaeth wedi'i diweddarau yn ymwneud â niferoedd disgyblion, capasiti'r ysgol, cynaliadwyedd ariannol a threfniadau arweinyddiaeth.

Ar ôl ystyried yr holl wrthwynebiadau ac ymgymryd â'r craffu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar ysgolion gwledig, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod o'r farn bod yr heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd isel parhaus o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag, pwysau ariannol ac anawsterau parhaus wrth sicrhau trefniadau arweinyddiaeth barhaol. Nid yw'r Awdurdod wedi nodi unrhyw dystiolaeth newydd drwy'r broses wrthwynebu a fyddai'n darparu dewis amgen cynaliadwy sy'n gallu mynd i'r afael â'r materion hyn wrth gynnal darpariaeth addysgol o ansawdd uchel.

Mae'r Awdurdod Lleol felly yn parhau i fod yn fodlon mai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Awdurdod wedi cydbwysu'n ofalus yr effaith ar ddysgwyr, teuluoedd, y gymuned leol a'r Gymraeg yn erbyn yr angen i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy, effeithiol ac o ansawdd uchel i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r ailasesiad hwn yn cadarnhau barn yr Awdurdod bod rhesymau cryf dros fwrw ymlaen â'r cynnig er gwaethaf statws gwledig yr ysgol, a bod gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion wedi'u bodloni'n llawn.

10. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R CYFNOD GWRTHWYNEBU

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol, gan gynnwys pryderon a godwyd am effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr, teuluoedd, staff, y gymuned leol a'r Gymraeg. Mae'r Awdurdod hefyd wedi adolygu'r awgrymiadau amgen a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr ac wedi ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r cynnig o ganlyniad i'r materion a godwyd.

Er bod y cyfnod gwrthwynebu wedi rhoi cyfle i randdeiliaid fynegi eu barn yn ffurfiol ac wedi llywio dealltwriaeth yr Awdurdod o effeithiau posibl y cynnig ymhellach, nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi'i chyflwyno a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim.

Mae'r ffactorau allweddol a lywiodd y cynnig gwreiddiol yn parhau i fod yn ddigyfnewid. Er bod Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i dileu o fesurau arbennig Estyn ym mis Rhagfyr

2025, mae'r ysgol yn parhau i wynebu heriau sy'n ymwneud â niferoedd isel o ddisgyblion, cynaliadwyedd ariannol, capasiti dros ben a gwytnwch arweinyddiaeth. Ym mis Medi 2026, roedd 24 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol, ac mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynnig yn parhau i fod yn ddilys. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y ffactorau hyn yn parhau i gefnogi'r cynnig a gyhoeddwyd. O ganlyniad, ni chynhigir unrhyw newidiadau i'r cynnig a gyhoeddwyd.

Fodd bynnag, mae'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gan gynnwys trefniadau pontio dysgwyr, cludiant, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, gofal plant a gofal cofleidiol, llesiant staff a'r effaith ehangach ar y gymuned, wedi'u nodi a byddant yn parhau i lywio cynllunio gweithredu pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Bydd yr ystyriaethau hyn yn helpu i sicrhau bod mesurau cymorth a lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar ddysgwyr, teuluoedd a staff.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod y cynnig a gyhoeddwyd yn yr hysbysiad statudol yn parhau i fod yn briodol ac nad oes angen unrhyw ddiwygiadau o ganlyniad i'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

11. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim wedi parhau i ennyn diddordeb a phryder sylweddol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn adlewyrchu cryfder y teimladau yn y gymuned leol ac yn dangos y pwysigrwydd y mae llawer o randdeiliaid yn ei roi i rôl yr ysgol wrth gefnogi dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Roedd y gwrthwynebiadau yn codi nifer o bryderon, gan gynnwys yr effaith bosibl ar gydlyniant cymunedol a chynaliadwyedd y pentref, cyfraniad yr ysgol i'r Gymraeg, llesiant dysgwyr a gwydnwch emosiynol, trefniadau teithio, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig ag ysgolion gwledig bach. Cwestiynodd gwrthwynebwyr hefyd a allai opsiynau amgen sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i'r ysgol a'i chymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ofalus ac wedi adolygu'r materion a godwyd ochr yn ochr â'r wybodaeth a gasglwyd yn flaenorol yn ystod y broses ymgynghori. Wrth ffurfio'i safbwynt, mae'r Awdurdod wedi ystyried ei gyfrifoldebau statudol, gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), statws

gwledig yr ysgol, safonau addysgol, nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, gallu arwain a hyfywedd hirdymor y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall cau ysgol wledig gael effaith sylweddol ar ei chymuned ac yn cydnabod y rôl werthfawr y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae ym mywyd y pentref ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y berthynas gadarnhaol, yr amgylchedd dysgu cefnogol a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae'r ysgol yn eu cynnig. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol yn sylweddol ac yn annhebygol o gael eu datrys drwy'r opsiynau amgen a gynigir.

Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi'i chyflwyno yn ystod y cyfnod gwrthwynebu sy'n newid asesiad yr Awdurdod o'r cynnig neu'n dangos dewis amgen hyfyw a chynaliadwy sy'n gallu mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Er bod y pryderon a godwyd gan wrthwynebwyr yn cael eu deall a'u cydnabod, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn fodlon bod y cynnig yn cynrychioli'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy, effeithiol ac o ansawdd uchel i ddysgwyr yn yr ardal.

Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod y broses wrthwynebu statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), a bod gwrthwynebwyr wedi cael cyfle llawn i fynegi eu barn, a bod yr holl wrthwynebiadau wedi'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Ar ôl ystyried cynnwys y gwrthwynebiadau, ynghyd â'r holl ffactorau addysgol, ariannol, cymunedol a statudol perthnasol, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad nad oes sail ar gyfer newid y cynnig neu ei dynnu'n ôl. Felly, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn y dylai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 fynd rhagddo i'w benderfynu gan y Cyngor Sir.

12. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd â chanfyddiadau'r broses ymgynghori, yr asesiadau statudol a gynhaliwyd, a'r adolygiad pellach sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod Lleol yn argymhell bod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 yn mynd rhagddo fel y cyhoeddir yn yr hysbysiad statudol.

Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau:

- Mae'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol wedi'u hystyried yn llawn ac wedi cael pwys priodol fel rhan o'r broses benderfynu.
- Mae'r materion a godwyd gan wrthwynebwyr, gan gynnwys pryderon sy'n ymwneud ag effaith ar y gymuned, addysg cyfrwng Cymraeg, llesiant dysgwyr, darpariaeth ADY, trefniadau teithio a goblygiadau cau ysgol wledig, wedi'u hystyried yn ofalus.
- Mae ailasesiad o'r cynnig ar ôl y cyfnod gwrthwynebu, gan gynnwys y gofynion ychwanegol sy'n ymwneud ag ysgolion gwledig, wedi'i gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).
- Mae opsiynau amgen wedi'u hadolygu a'u hailystyried; ond nid oes unrhyw ddewis amgen cynaliadwy wedi'i nodi a fyddai'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau addysgol, sefydliadol ac ariannol sy'n wynebu'r ysgol.
- Bydd mesurau lliniaru priodol, gan gynnwys trefniadau pontio, parhad cymorth ADY, cynnal darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a threfniadau teithio gan ddysgwyr, yn cael eu gweithredu os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo.
- Mae'r cynnig yn cefnogi cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ar draws y sir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y cynnig hwn wedi achosi pryder sylweddol ac yn cydnabod cryfder y teimladau sydd wedi'u mynegi drwy'r broses ymgynghori a'r broses wrthwynebu. Mae hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae yn ei chymuned leol a'r gwerth a roddir i'r ysgol gan ddisgyblion, rhieni, staff a thrigolion.

Fodd bynnag, ar ôl cydbwysu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn erbyn yr ystyriaethau addysgol, ariannol, sefydliadol a strategol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn fodlon mai cau Ysgol Gynradd Meidrim yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu. Felly, mae'r Awdurdod yn argymhell bod y cynnig yn mynd rhagddo i'w benderfynu gan y Cabinet.

13. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu a'r holl ddogfennaeth gysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried. Bydd y Cabinet yn penderfynu a ddylid argymhell i'r Cyngor Sir llawn fod y cynnig yn mynd rhagddo. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu, ynghyd â'r holl ddogfennaeth gysylltiedig, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w penderfynu. Bydd y Cyngor Sir wedyn yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o fewn saith niwrnod i'r penderfyniad gael ei wneud. Bydd copïau o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais, a bydd yr holl ymgylgoreion rhagnodedig yn cael eu hysbysu ei fod wedi'i gyhoeddi a'i fod ar gael.

**ATODIAD A – DOGFEN WRTHWYNEBU – CORFF LLYWODRAETHU
YSGOL GYNRADD MEIDRIM**

Dyfodol Cynaliadwy i Ysgol Meidrim

Dewis Amgen Ymarferol yn Lle Cau

Cynrychiolaeth y Corff Llywodraethu mewn Ymateb i'r Hysbysiad Statudol



Cyflwynwyd gan

Gorff Llywodraethu Ysgol Meidrim

Gorffennaf 2026

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Pam Mae'r Adroddiad Hwn Wedi'i Baratoi
3. Beth Sydd Wedi Newid Ers yr Ymgynghoriad
4. Arweinyddiaeth
5. Cynaliadwyedd Ariannol
6. Y Gymraeg a'r Gymuned
7. Deilliannau Addysgol
8. Pam y Dylid Gohirio Cau
9. Argymhellion



Crynodeb Gweithredol

Cipolwg....

Pryder y Cyngor	Sefyllfa Heddiw
Arweinyddiaeth	Trafodaethau ffedereiddio yn mynd rhagddo
Cyllid	Model partneriaeth wedi'i ddatblygu
Nifer y Disgyblion	Cynigion Tai a Gofal Plant yn Dod i'r Amlwg
Safonau Addysgol	Ysgol wedi'i dynnu o'r categori Mesurau Arbennig
Y Gymraeg	Risgiau a nodwyd yn y trefniadau arfaethedig
Y Gymuned	Cynnig partneriaeth gymunedol gref

Ein Hargymhelliad

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn yn barchus i'r Aelodau ganiatáu cyfnod penodol i'r cynnig cryfach gael ei werthuso'n llawn cyn gwneud penderfyniad na ellir eu dadwneud i gau Ysgol Meidrim.

Pam y Dylai Aelodau Ddarllen yr Adroddiad Hwn

BETH YW'R ADRODDIAD HWN	BETH NAD YW'R ADRODDIAD HWN	BETH RYDYM YN GOFYN I'R AELODAU EI WNEUD
Seiliedig ar dystiolaeth	Nid apêl emosiynol	Adolygu'r dystiolaeth wedi'i diweddarau
Canolbwyntio ar atebion	Nid gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu	Asesu'r cynnig fel y mae'n bodoli heddiw

BETH YW'R ADRODDIAD HWN	BETH NAD YW'R ADRODDIAD HWN	BETH RYDYM YN GOFYN I'R AELODAU EI WNEUD
Dewis amgen ymarferol	Nid beirniadaeth o swyddogion	Ystyried a ellir mynd i'r afael â phryderon y Cyngor nawr
Dull cydweithredol	Nid cais i anwybyddu pwysau ariannol	Penderfynu a yw cau yn parhau i fod yn angenrheidiol
Canolbwyntio gynaliadwyedd hirdymor	Dim cais i oedi am gyfnod amhenodol	Ystyried a fyddai cyfnod byr o ddatblygiad parhaus yn galluogi penderfyniad mwy gwybodus

1. Cyflwyniad a Chefnidir

Gwrthwynebiad ffurfiol y Corff Llywodraethu yw'r Sylw hwn i'r Hysbysiad Statudol o dan y broses wrthwynebu statudol. Fodd bynnag, er ei fod yn cyflawni'r diben cyfreithiol hwnnw, mae'n cael ei gyflwyno'n fwriadol nid fel 'gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu', ond fel gwahoddiad adeiladol i barhau i weithio ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ysgol Meidrim. Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod cydweithredu, yn hytrach na chau, bellach yn cynnig y cyfle gorau i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Cyflwynir y Sylwadau hyn gan Gorff Llywodraethu Ysgol Meidrim mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol sy'n cynnig cau'r ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a phenderfyniadau anodd wrth sicrhau bod addysg ar draws y Sir yn parhau i fod yn gynaliadwy. Rydym yn cydnabod cyfrifoldeb y Cyngor i gynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol addysg ac yn deall yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal ysgolion gwledig bach.

Fodd bynnag, rydym yn credu bod y cynnig i gau Ysgol Meidrim yn gynamserol ac yn ddiangen ar hyn o bryd.

Ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, ac yn enwedig yn dilyn yr Adolygiad Barnwrol, mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i ddatblygu dewis amgen credadwy a chynyddol gadarn yn lle cau. Nid yw'r gwaith hwnnw wedi sefyll yn llonydd. Mae partneriaethau newydd wedi'u harchwilio, mae cyfleoedd ariannol wedi dod i'r amlwg, mae trafodaethau ffedereiddio wedi symud ymlaen ac mae'r cynnig wedi esblygu'n sylweddol y tu hwnt i'r hyn a ystyriwyd yn wreiddiol yn ystod yr ymgynghoriad.

Felly, nid yw'r Sylwadau hyn yn ailadrodd gwrthwynebiadau cynharach yn unig. Yn hytrach, mae'n cyflwyno gwybodaeth wedi'i diweddarau, tystiolaeth newydd a datblygiadau ymarferol i'r Cyngor sy'n dangos bod cyfle realistig o hyd i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ysgol Meidrim.

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn bod heriau'n bodoli. Mae gwydnwch arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a niferoedd disgyblion yn gofyn am sylw parhaus. Nid ydym yn ceisio lleihau'r materion hynny. Yn hytrach, rydym yn ceisio dangos bod pob un o'r heriau hyn bellach yn gallu cael eu datrys trwy gyfuniad o weithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth a rennir, buddsoddiad allanol a chydweithrediad cymunedol.

Yn bwysig, nid yw ein cynnig bellach yn canolbwyntio ar y cysyniad o berchnogaeth gymunedol o'r ysgol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno cymhlethdodau cyfreithiol ac ymarferol. Yn hytrach, rydym wedi datblygu model sy'n seiliedig ar Bartneriaeth Cyngor-Cymunedol, lle byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i gadw cyfrifoldeb am addysg wrth weithio ochr yn ochr â'r Corff Llywodraethu, sefydliadau cymunedol a phartneriaid allanol i gryfhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod y dull hwn yn cyd-fynd yn agosach ag amcanion strategol y Cyngor. Mae'n ceisio lleihau pwysau ariannol, cynyddu gwydnwch addysgol, denu buddsoddiad allanol na fyddai ar gael i'r Awdurdod fel arall a gwneud y defnydd mwyaf o ased cyhoeddus pwysig er budd disgyblion a'r gymuned ehangach.

Mae'r rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn cydnabod bod ysgolion yn fwy na mannau addysg. Maent yn rhan annatod o gynaliadwyedd cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol cymunedau gwledig. Mae Ysgol Meidrim yn cyflawni pob un

o'r swyddogaethau hyn. Mae'r cynnig gerbron y Cyngor felly yn ymestyn y tu hwnt i ddyfodol un ysgol; mae'n ymwneud â chynaliadwyedd cymuned wledig gyfan yn y dyfodol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau ystyried y Sylwadau hyn nid yn unig fel gwrthwynebiad i gau, ond fel tystiolaeth bod dewis amgen credadwy yn parhau i ddod i'r amlwg. Rydym yn credu bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers yr ymgynghoriad, bod cynnydd mesuradwy pellach yn parhau i fod yn gyraeddadwy, ac y byddai cau ar y cam hwn yn dileu'r cyfle i archwilio atebion sydd bellach o fewn cyrraedd.

Pe bai'r Aelodau'n dod i'r casgliad bod gwaith cydweithredol pellach wedi'i gyfiawnhau, byddai'r Corff Llywodraethu yn croesawu cyfnod penodol, a bennir gan y Cyngor ac wedi'i gefnogi gan gerrig milltir y cytunwyd arnynt, i ddangos cyflawni'r cynnig cryfach cyn gwneud unrhyw benderfyniad na ellir ei dadwneud.

2. Pam mae cau yn gynamserol

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod Cyngor Sir Caerfyrddin, ar yr adeg y dechreuodd yr ymgynghoriad statudol, o'r farn bod pryderon sylweddol ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor Ysgol Meidrim. Roedd y pryderon hynny'n canolbwyntio ar wydnwch arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a gostyngiad yn nifer y disgyblion.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn dadlau bod y rhain yn faterion cyfreithlon sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus. Fodd bynnag, ni ddylid asesu'r cynnig gerbron yr Aelodau ar sail yr amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddechrau'r broses ymgynghori yn unig.

Mae llawer iawn wedi newid.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod yr Aelodau bellach yn ystyried cynnig sylweddol wahanol i'r hyn a oedd yn bodoli pan ddechreuodd yr ymgynghoriad. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda sefydliadau allanol, ysgolion cyfagos a phartneriaid cymunedol i ddatblygu atebion ymarferol i'r pryderon a nodwyd gan y Cyngor. Y cwestiwn gerbron yr Aelodau felly yw nid yn unig a oedd y cynnig gwreiddiol yn gynaliadwy, ond a yw'r cynnig cryfach bellach yn haeddu datblygiad cydweithredol pellach cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud.

Ers i'r ymgynghoriad ddechrau, mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i weithio'n rhagweithiol ac yn adeiladol i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan y Cyngor. Nid yw hon wedi bod yn ymgyrch i wrthwynebu cau'r ysgol yn unig. Mae wedi bod yn

ymdrech barhaus i ddatblygu atebion realistig y gellir eu cyflawni sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r materion a godwyd.

Yn bwysig, mae'r cynnig wedi esblygu'n sylweddol ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf. Mae cyfleoedd newydd wedi dod i'r amlwg, mae trafodaethau gyda phartneriaid posibl wedi datblygu, ac mae dulliau amgen o arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a phartneriaeth gymunedol wedi'u harchwilio yn llawer mwy manwl.

Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys:

- cynnydd tuag at ffederasiwn posibl gydag ysgolion cyfagos
- cytundeb gan Gorff Llywodraethu Ysgol Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan i ystyried ffederasiwn yn ffurfiol yng nghyfarfod llawn nesaf y Corff Llywodraethu
- ymgysylltu parhaus â sefydliadau gan gynnwys Cwmpas, Busnes Cymdeithasol Cymru, Ynni Teg, Ynni Sir Gâr, Perthyn a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol
- datblygu model Partneriaeth Cyngor-Cymuned sy'n canolbwyntio ar gefnogi cyfrifoldeb y Cyngor am addysg yn hytrach na chymryd lle hynny
- archwilio cyfleoedd incwm ychwanegol trwy ddefnydd cymunedol ehangach, darpariaeth gofal plant a mentrau cynaliadwyedd
- tystiolaeth bellach yn ymwneud â thwf tai arfaethedig, niferoedd disgyblion a ragwelir a'r galw cynyddol am leoedd ysgol ar draws yr ardal ehangach.

Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn cydnabod bod gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol nid yn unig i reoli lleoedd gwag ond hefyd i sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gael i ateb y galw yn y dyfodol. Mae datblygiad tai sylweddol yn parhau ar hyd coridor yr A40 ac mae Ysgol Bancyfelin eisoes yn gweithredu yn unol â'i chapasiti cyhoeddedig neu'n uwch na hynny. O dan yr amgylchiadau hynny, gall y capasiti sydd ar gael yn Ysgol Meidrim ddod yn ased strategol pwysig, gan ddarparu dull cost-effeithiol i'r Cyngor o ateb y galw yn y dyfodol heb yr angen am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol mewn mannau eraill.

Nid dyheadau damcaniaethol yw'r rhain. Maent yn cynrychioli cynnydd diriaethol sydd wedi digwydd yn ystod y broses ymgynghori ac yn dangos bod y cynnig yn parhau i ddatblygu.

Ni wnaeth yr Adolygiad Barnwrol atal y broses statudol. Fodd bynnag, atgyfnerthodd egwyddor bwysig: y dylai opsiynau amgen yn lle cau'r ysgol gael

ystyriaeth ddilys a chydwybodol. Mae'r Corff Llywodraethu wedi cymryd y neges honno o ddifrif. Yn hytrach nag ailadrodd dadleuon blaenorol yn unig, mae wedi parhau i gryfhau ei gynnig mewn ymateb uniongyrchol i'r pryderon sydd wedi'u codi.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod y cynnig sydd gerbron yr Aelodau yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa a oedd yn bodoli pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

Mae cau yn benderfyniad na ellir ei ddadwneud. Ar ôl i ysgol wledig gael ei chau, nid oes ffordd hawdd o ail-greu ei rôl addysgol, ei chyfraniad i'r Gymraeg, a'i lle yng nghanol y gymuned.

I'r gwrthwyneb, ni fyddai caniatáu cyfnod diffiniedig o ddatblygiad cydweithredol parhaus, gyda cherrig milltir cytunedig a bennir gan y Cyngor, yn dileu unrhyw opsiynau yn y dyfodol. Yn syml, byddai'n caniatáu i'r Aelodau wneud eu penderfyniadau terfynol ar sail yr holl dystiolaeth bosibl.

Nid cais i oedi penderfyniadau anodd am gyfnod amhenodol yw hyn.

Mae'n gais i gydnabod bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud, bod cynnydd mesuradwy pellach yn gyraeddadwy, a bod y dystiolaeth sydd ar gael bellach yn cyfiawnhau caniatáu i'r cynnydd hwnnw barhau cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud.

Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn nad yw'r cwestiwn sydd gerbron yr Aelodau bellach ond yn ymwneud ag a oedd Ysgol Meidrim yn wynebu heriau pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud ag Ysgol Meidrim wedi datblygu'n sylweddol ers dechrau'r ymgynghoriad. Mae partneriaethau newydd wedi dod i'r amlwg, mae trafodaethau ffedereiddio wedi symud ymlaen, mae cyfleoedd ariannol wedi ehangu ac mae tystiolaeth bellach wedi dod i'r amlwg.

Mae cau'r ysgol yn benderfyniad na ellir ei ddadwneud. Nid yw hynny'n wir yn achos cydweithio.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn yn barchus i'r Aelodau ystyried a yw'n rhesymol caniatáu cyfnod penodol o ddatblygiad cydweithredol parhaus cyn penderfynu a yw cau'n barhaol yn parhau i fod yn angenrheidiol.

Rydym o'r farn, yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael bellach, fod dull o'r fath yn cynrychioli'r ffordd fwyaf cymesur, adeiladol a chyfrifol o weithredu.

3. Amcanion y Cyngor ac Ymateb y Corff Llywodraethu

Drwy gydol y broses ymgynghori, mae'r Corff Llywodraethu wedi gwrandao'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Yn hytrach na gwrthwynebu'r cynnig yn unig, rydym wedi ceisio deall y rhesymau sylfaenol ac i ddatblygu atebion ymarferol sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r pryderon hynny.

Felly, nid ailddatgan ein cynnig gwreiddiol yn unig y mae'r Sylwadau hyn. Mae'n ganlyniad misoedd lawer o waith parhaus, ymgysylltu â sefydliadau allanol, a datblygu syniadau newydd sydd wedi'u cynllunio i gryfhau cynaliadwyedd hirdymor Ysgol Meidrim.

Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn ei bod yn bwysig bod Aelodau yn asesu'r cynnig fel y mae'n bodoli heddiw, yn hytrach na fel yr oedd yn bodoli pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

Mae'r tabl isod yn crynhoi prif bryderon y Cyngor, y gwaith a wnaed gan y Corff Llywodraethu ers dechrau'r ymgynghoriad, a pham ein bod yn credu bod y datblygiadau hynny bellach yn haeddu ystyried ymhellach.

Pryder y Cyngor	Cynnydd ers yr ymgynghoriad	Pam bod hyn yn bwysig
Gwydnwch arweinyddiaeth	Mae trafodaethau ffedereiddio wedi parhau. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan wedi cytuno i ystyried ffedereiddio yn ffurfiol yng nghyfarfod llawn nesaf y Corff Llywodraethu. Mae trefniadau arweinyddiaeth a rennir yn parhau i gael eu harchwilio.	Nid yw gwydnwch arweinyddiaeth bellach yn fater heb atebion posibl. Mae llwybr realistig bellach yn bodoli i gryfhau arweinyddiaeth trwy gydweithredu.

Pryder y Cyngor	Cynnydd ers yr ymgynghoriad	Pam bod hyn yn bwysig
Cynaliadwyedd ariannol	Mae'r cynnig wedi esblygu o un sy'n seiliedig yn bennaf ar berchnogaeth gymunedol i fodel Partneriaeth Cyngor-Cymunedol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Cwmpas, Busnes Cymdeithasol Cymru, Ynni Teg, Ynni Sir Gâr, Perthyn a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol. Mae prisiad y Cyngor ei hun o'r safle (tua £150,000) hefyd wedi dangos bod opsiynau partneriaeth yn y dyfodol yn llawer mwy cyrraeddadwy na'r disgwyl yn wreiddiol.	Dylid asesu cynaliadwyedd ariannol nawr yn erbyn y cynnig fel y mae'n bodoli ar hyn o bryd, yn hytrach nag yn erbyn y sefyllfa pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.
Nifer y disgyblion	Mae datblygiad tai yn y pentref yn parhau. Mae cyfleoedd ar gyfer gofal plant cofleidiol, darpariaeth gwyliau a defnydd cymunedol ehangach o'r safle wedi dod i'r amlwg. Yn ogystal, nid yw'r ysgol yn destun mesurau arbennig mwyach, gan ei gwneud yn fwy deniadol i deuluoedd.	Dylai cynaliadwyedd yn y dyfodol ystyried potensial yr ysgol ar gyfer twf yn ogystal â'i sefyllfa bresennol.
Gwydnwch addysgol	Mae trafodaethau ffedereiddio, cyfleoedd arweinyddiaeth a rennir a gweithio mewn partneriaeth ehangach wedi symud ymlaen yn sylweddol.	Dylid asesu gwydnwch addysgol ar sail capasiti yn y dyfodol yn ogystal ag amgylchiadau presennol.
Cynaliadwyedd cymunedol	Mae'r cynnig wedi datblygu'n Bartneriaeth Cynaliadwyedd Ysgolion Gwledig ehangach, gan ddod ag addysg, cynaliadwyedd, gofal plant, defnydd	Mae gan yr ysgol y potensial i ddod yn ased sy'n darparu manteision ehangach i'r Cyngor a'r gymuned leol.

Pryder y Cyngor	Cynnydd ers yr ymgynghoriad	Pam bod hyn yn bwysig
	cymunedol a buddsoddiad allanol at ei gilydd.	
Y Gymraeg a chymunedau gwledig	Mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i ddatblygu cynigion sy'n cryfhau rôl Ysgol Meidrim fel canolfan ar gyfer y Gymraeg, gweithgarwch cymunedol ac ymgysylltu rhwng cenedlaethau.	Mae cadw'r ysgol yn cefnogi nid yn unig addysg, ond hefyd cynaliadwyedd diwylliannol ac ieithyddol hirdymor y gymuned.

Yn hytrach, rydym yn credu bod modd datrys pob un o brif bryderon y Cyngor bellach trwy gyfuniad o weithio mewn partneriaeth, cydweithredu a datblygiad parhaus.

Nid pwrpas y Sylwadau hyn felly yw dadlau bod newid yn ddiangen.

Mae'n dangos y gellir cyflawni newid trwy gydweithredu yn hytrach na chau.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymateb yn adeiladol i'r pryderon a nodwyd gan y Cyngor. Mae'r cynnig wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y broses ymgynghori ac mae bellach yn cyflwyno cyfleoedd credadwy i fynd i'r afael ag arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol, gwydnwch addysgol a chynaliadwyedd cymunedol. Felly, gwahoddir yr Aelodau i asesu'r cynnig fel y mae'n bodoli heddiw, yn hytrach na fel yr oedd yn bodoli pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

4. Arweinyddiaeth – Her sydd bellach yn gallu cael ei datrys

Mae gwydnwch arweinyddiaeth wedi cael ei nodi'n gyson gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel un o'r prif resymau dros y cynnig i gau Ysgol Meidrim.

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn yn llawn bod arweinyddiaeth sefydlog ac effeithiol yn hanfodol i lwyddiant hirdymor unrhyw ysgol. Nid ydym yn tanamcangyfrif pwysigrwydd y mater hwn, ac nid ydym yn ceisio lleihau'r heriau sydd wedi codi.

Fodd bynnag, rydym yn credu y dylid ystyried y sefyllfa arweinyddiaeth yng nghydestun y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud ers i'r ymgynghoriad ddechrau.

Nid yw'r sefyllfa arweinyddiaeth bresennol wedi codi oherwydd diffyg ymrwymiad gan y Corff Llywodraethu neu gymuned yr ysgol.

Yn dilyn newidiadau i drefniadau arweinyddiaeth yr ysgol, mae'r ysgol wedi profi cyfnod estynedig o ansicrwydd. Er gwaethaf hyn, mae'r staff wedi parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel ac, yn bwysig, mae'r ysgol wedi llwyddo i adael categori mesurau arbennig Estyn.

Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Corff Llywodraethu wedi gweithio'n adeiladol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau trefniadau arweinyddiaeth priodol ac wedi parhau i archwilio atebion tymor hwy.

Cynnydd ers yr ymgynghoriad

Ers i'r cynnig gwreiddiol gael ei gyhoeddi, mae'r sefyllfa wedi esblygu'n sylweddol.

Ar ôl tynnu cymorth arweinyddiaeth dros dro yn ôl o Ffederasiwn Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan, gweithredodd Cyngor Sir Caerfyrddin yn brydlon i sicrhau trefniadau eraill ar gyfer arweinyddiaeth weithredol dros dro. Croesawodd y Corff Llywodraethu yr ymateb hwn, gan ei fod yn dangos y gellir rheoli heriau arweinyddiaeth ar y cyd tra bod atebion tymor hwy yn parhau i ddatblygu.

Mae cymorth arweinyddiaeth dros dro wedi'i sicrhau er mwyn rhoi parhad i ddisgyblion a staff tra bod trefniadau tymor hwy yn parhau i ddatblygu.

Parhad i ddisgyblion yn ystod cyfnod o ansicrwydd

Ers mis Mawrth 2026, mae'r ysgol hefyd wedi bod heb ei phennaeth parhaol, ac mae trefniadau arweinyddiaeth dros dro yn sicrhau parhad i ddisgyblion a staff.

Mae'r Corff Llywodraethu yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad am broffesiynoldeb, gwydnwch ac ymrwymiad staff yn ystod y cyfnod hwn.

Ar yr un pryd, mae disgyblion a rhieni wedi profi ansicrwydd am gyfnod hir, nid yn unig ynghylch dyfodol yr ysgol ond hefyd yn ystod cyfnod o drefniadau arweinyddiaeth newidiol.

Er bod trefniadau dros dro wedi cynnal darpariaeth addysgol, mae ansicrwydd hirdymor yn anochel yn effeithio ar hyder ymhlith teuluoedd sy'n ystyried penderfyniadau cofrestru ac yn creu pryder ychwanegol i ddisgyblion presennol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylid cydnabod yr amgylchiadau eithriadol hyn wrth asesu niferoedd presennol y disgyblion a chynaliadwyedd hirdymor.

Ar yr un pryd, mae trafodaethau ffedereiddio wedi parhau.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi honni'n gyson mai ffedereiddio yw'r ateb hirdymor mwyaf cynaliadwy i Ysgol Meidrim, gan ddarparu'r canlynol:

- gwydnwch arweinyddiaeth gryfach
- mwy o gydweithrediad proffesiynol
- cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygu staff
- gwell gwydnwch addysgol
- a gwell cynaliadwyedd tymor hir.

Yn fwyaf arwyddocaol, mae Corff Llywodraethu Ysgol Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan bellach wedi cytuno i ystyried ffedereiddio yn ffurfiol yng nghyfarfod llawn nesaf y Corff Llywodraethu.

Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen.

Er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto, mae'n dangos bod trafodaethau ystyrllon yn digwydd ac nad yw ffedereiddio bellach yn opsiwn damcaniaethol yn unig.

Y Rhwystr Presennol

Mae'r Corff Llywodraethu yn deall bod ysgolion cyfagos yn bryderus ynglŷn â mynd i drafodaethau ffurfiol ar gyfer ffedereiddio tra bod dyfodol Ysgol Meidrim yn parhau i fod yn ansicr.

Mae hyn yn gwbl ddealladwy.

Mae ffedereiddio yn gofyn am sefydlogrwydd, cynllunio hirdymor a hyder bod pob partner yn buddsoddi mewn dyfodol cynaliadwy.

Mae'r cynnig presennol i gau'r ysgol yn anochel yn creu ansicrwydd, gan ei gwneud hi'n anodd i bartneriaid posibl ymrwymo'n llawn tra bod dyfodol yr ysgol yn parhau i fod heb ei benderfynu.

Mae'r Corff Llywodraethu felly yn credu bod yr ansicrwydd presennol ei hun wedi dod yn un o'r prif rwystrau i ddatrys y mater arweinyddiaeth.

Llwybr Realistig

Yn bwysig, nid yw arweinyddiaeth bellach yn broblem heb ateb.

Mae yna lwybr credadwy erbyn hyn a allai gryfhau gwydnwch arweinyddiaeth trwy:

- ffedereiddio
- arweinyddiaeth weithredol a rennir
- cydweithio rhwng ysgolion cyfagos
- cefnogaeth barhaus gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn gofyn i Aelodau gymryd yn ganiataol y bydd y trefniadau hyn yn llwyddo'n awtomatig.

Yn hytrach, gofynnwn i'r Aelodau gydnabod bod modd mynd i'r afael â'r mater erbyn hyn.

Llywodraethu wrth Drawsnewidiad i Ffederasiwn

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod y byddai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ysgol Meidrim yn trosglwyddo, maes o law, i Gorff Llywodraethu Ffederal sydd newydd ei sefydlu yn unol â'r broses ffedereiddio statudol.

Yn ystod unrhyw gyfnod pontio, byddai Corff Llywodraethu presennol Ysgol Meidrim yn parhau i weithio ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu'r Bartneriaeth arfaethedig rhwng y Cyngor a'r Gymuned a'r trefniadau cysylltiedig â'r Hwb Cymunedol.

Ar ôl sefydlu'r ffederasiwn, byddai'r cyfrifoldeb am lywodraethu addysgol Ysgol Meidrim yn naturiol yn trosglwyddo i'r Corff Llywodraethu Ffederal. Gallai unrhyw fentrau cymunedol ehangach barhau wedyn drwy Bwyllgor Hwb Cymunedol Meidrim â chyfansoddiad priodol, neu gorff cymunedol tebyg, gan weithio mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethu Ffederal a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn ceisio rhagnodi'r trefniadau llywodraethu manwl ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym yn cydnabod y dylid datblygu'r rhain ar y cyd â'r Cyngor a chyrff llywodraethu cyfagos wrth i drafodaethau ffedereiddio fynd rhagddo. Ein bwriad yn syml yw dangos bod lwybr llywodraethu clir a realistig sy'n gallu cefnogi ffederasiwn a'r Bartneriaeth Cyngor-Cymuned arfaethedig.

Rôl y Cyngor

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Cyngor weithio gyda ni i hwyluso'r trafodaethau hyn.

Mae dull cydweithredol rhwng y Cyngor, cyrff llywodraethu cyfagos a Chorff Llywodraethu Ysgol Meidrim yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth hirdymor.

Byddai cau'r ysgol yn dileu'r cyfle hwnnw cyn iddo gael ei archwilio'n llawn.

Mae arweinyddiaeth wedi'i nodi trwy gydol y broses hon fel un o'r prif resymau dros gau.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael bellach yn dangos bod y sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r ymgynghoriad.

Mae yna ateb realistig a datblygol erbyn hyn.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn credu na ddylid ystyried arweinyddiaeth bellach fel rhwystr anorchfygol i gynaliadwyedd Ysgol Meidrim yn y dyfodol.

Mae arweinyddiaeth yn parhau i fod yn her bwysig, ond nid yw bellach yn her heb ateb. Mae trafodaethau ffedereiddio yn mynd rhagddo, mae trefniadau arweinyddiaeth dros dro ar waith, ac mae llwybr credadwy bellach yn bodoli i gryfhau gwydnwch arweinyddiaeth. Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod modd datrys y mater hwn trwy barhau i weithio mewn partneriaeth yn hytrach na chau.

5. Cynaliadwyedd Ariannol – Cynnig sydd wedi esblygu

Fel y gellir deall, mae cynaliadwyedd ariannol wedi bod yn un o brif bryderon y Cyngor trwy gydol y broses hon.

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn bod Ysgol Meidrim, fel llawer o ysgolion gwledig bach, yn wynebu heriau ariannol. Nid ydym yn dadlau bod angen gwella'r sefyllfa ariannol bresennol, ac nid ydym yn awgrymu y gellir cyflawni cynnydd ystyrion dros nos.

Fodd bynnag, rydym yn credu nad yw'r achos ariannol a gafodd ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad bellach yn adlewyrchu'r cynnig sydd gerbron yr Aelodau.

Cynnig sydd wedi newid

Ers i'r ymgynghoriad ddechrau, mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i ddatblygu model ariannol mwy cadarn a chynaliadwy.

Mae'r cynnig wedi esblygu o un sy'n canolbwyntio'n bennaf ar berchnogaeth gymunedol i un sy'n seiliedig ar Bartneriaeth Cyngor-Cymuned, lle mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r cyfrifoldeb am addysg wrth weithio ochr yn ochr â'r Corff Llywodraethu, y gymuned leol a sefydliadau allanol i gryfhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Bwriad y dull hwn yw ategu buddsoddiad y Cyngor mewn addysg yn hytrach na chymryd ei le.

Cynnydd Sylweddol Ers yr Ymgynghoriad

Ers cyflwyno'r cynnig gwreiddiol, mae trafodaethau wedi digwydd gydag ystod o sefydliadau sy'n arbenigo mewn datblygu cymunedol, cynaliadwyedd a chyllid allanol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwmpas
- Busnes Cymdeithasol Cymru
- Ynni Teg
- Ynni Sir Gâr
- Perthyn
- Cronfa Treftadaeth Bensaernïol

Nid pwrpas y trafodaethau hyn oedd cymryd lle'r Cyngor ym maes addysg, ond nodi cyfleoedd i gryfhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor Ysgol Meidrim drwy weithio mewn partneriaeth a buddsoddiad allanol.

Prisiad y Cyngor

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol ers i'r cynnig gwreiddiol gael ei baratoi yw prisiad y Cyngor ei hun o safle'r ysgol.

Prisiad y safle erbyn hyn yw oddeutu £150,000, tua hanner y ffigur a ragwelwyd yn wreiddiol gan y Corff Llywodraethu.

Mae hyn wedi newid y dirwedd ariannol yn sylweddol.

Er nad yw'r Corff Llywodraethu bellach yn hyrwyddo perchnogaeth gymunedol fel yr ateb yn syth, mae'r prisiad yn dangos bod cyfleoedd partneriaeth yn y dyfodol yn llawer mwy cyraeddadwy nag a feddyliwyd yn flaenorol.

Mae hefyd yn dangos, os bydd trefniadau partneriaeth yn datblygu ymhellach dros amser, bod lefel y buddsoddiad cymunedol sydd ei angen yn realistig ac yn gymesur.

Mae'r arbediad net a nodwyd gan y Cyngor yn sgil cau Ysgol Meidrim yn gymharol fach yng nghyd-destun yr effaith hirdymor bosibl ar addysg, cynaliadwyedd cymunedol a'r Gymraeg. Mae'r Corff Llywodraethu yn credu, lle mae dewis amgen credadwy yn parhau i ddatblygu, ei bod yn briodol archwilio a ellir cyflawni'r arbedion cymedrol hynny trwy bartneriaeth, arloesi a buddsoddiad allanol yn hytrach na thrwy gau'r ysgol.

Cydbwyso Cost a Gwerth

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod y Cyngor wedi nodi arbedion ariannol drwy'r cynnig i gau Ysgol Meidrim. Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ac yn deall ei gyfrifoldeb i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Fodd bynnag, nid y cwestiwn sydd gerbron yr Aelodau yw a ellir cyflawni arbedion. Maent yn ystyried ai cau'r ysgol yw'r unig ffordd resymol o gyflawni arbedion.

Mae'r arbedion ariannol net a ragwelir yn sgil cau Ysgol Meidrim yn gymharol fach (£13,000) o ystyried canlyniadau addysgol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach colli ysgol cyfrwng Cymraeg wledig yn barhaol.

Ers i'r ymgynghoriad ddechrau, mae'r Corff Llywodraethu wedi datblygu ystod o gynigion nad oeddent ar gael, neu nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol, pan gynhaliwyd yr asesiad ariannol gwreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth, cyllid grant allanol, cyfleoedd ynni adnewyddadwy, defnydd cymunedol ehangach o'r safle, darpariaeth gofal plant a threfniadau arweinyddiaeth a rennir.

Gyda'i gilydd, mae gan y mentrau hyn y potensial i wella cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol wrth leihau pwysau ariannol ar y Cyngor.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylai Aelodau ystyried nid yn unig y gost o gadw Ysgol Meidrim, ond hefyd y gwerth y mae'r ysgol yn ei roi i'r gymuned ac a ellir cyflawni'r un amcanion ariannol drwy bartneriaeth ac arloesi yn hytrach na chau'r ysgol yn barhaol.

Cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud, rydym yn credu ei bod yn rhesymol gofyn a yw'r cyfleoedd hyn wedi'u harchwilio a'u gwerthuso'n briodol.

Cyfleoedd Ariannol Ehangach

Mae'r cynnig bellach yn ymestyn y tu hwnt i'r cyllid traddodiadol sydd ar gael i ysgolion.

Mae'n cynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- denu cyllid grant nad yw ar gael i'r Cyngor
- archwilio prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n lleihau costau gweithredu hirdymor
- cynyddu defnydd priodol cymunedol o'r safle y tu allan i oriau ysgol
- datblygu gofal plant cofleidiol a darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf
- creu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol.

Yn unigol, nid oes unrhyw un o'r mentrau hyn yn datrys pob her ariannol.

Gyda'i gilydd, maent yn creu model mwy gwydn ac amrywiol na'r hyn a gafodd ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad.

Asesu'r cynnig fel y mae'n bodoli heddiw

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau ystyried a yw'r asesiad ariannol a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn parhau i adlewyrchu'r cynnig presennol.

Mae'r cynnig wedi newid yn sylweddol.

Mae bellach yn cynnwys trefniadau partneriaeth, cyfleoedd cyllido allanol a mentrau cynaliadwyedd ehangach nad oeddent ar gael neu nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol ar adeg yr ymgynghoriad.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn credu y dylid ailystyried yr achos ariannol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd bellach ar gael.

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn bod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn her.

Fodd bynnag, mae'r cynnig wedi esblygu'n sylweddol ers dechrau'r ymgynghoriad.

Mae bellach yn cyflwyno model cydweithredol Partneriaeth Cyngor-Cymuned gyda chefnogaeth arbenigedd allanol, cyfleoedd cyllido ychwanegol a strategaeth ehangach ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor.

Felly, gwahoddir yr Aelodau i asesu hyfywedd ariannol y cynnig fel y mae'n bodoli heddiw, yn hytrach nag ar sail y sefyllfa a oedd yn bodoli pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

6. Y Gymraeg, Cydlyniant Cymunedol a Chynaliadwyedd Gwledig

Un o nodweddion diffiniol Ysgol Meidrim yw ei bod yn fwy na lleoliad addysg.

Mae'n galon addysgol, ddiwylliannol a chymdeithasol cymuned Gymraeg wledig.

Mae'r rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn cydnabod bod ysgolion yn cyfrannu nid yn unig at ddeilliannau addysgol ond hefyd at gynaliadwyedd hirdymor y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mewn cymunedau gwledig, mae ysgolion yn chwarae rôl unigryw wrth gefnogi'r Gymraeg, annog cyfranogiad cymunedol, denu teuluoedd ifanc a chynnal gwead cymdeithasol bywyd y pentref.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod yr ystyriaethau ehangach hyn yn haeddu pwysau sylweddol wrth benderfynu ar ddyfodol Ysgol Meidrim.

Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn gofyn i'r Aelodau ystyried pwysigrwydd sefydlogrwydd i blant yn eu cymuned eu hunain. I lawer o ddisgyblion, Ysgol Meidrim yw'r unig ysgol maent wedi'i hadnabod. Yn ystod y broses statudol maent wedi profi ansicrwydd hir ynghylch a fyddant yn aros gyda'u cyd-ddisgyblion, eu hathrawon a chymuned ehangach yr ysgol. Er bod angen gwneud penderfyniadau anodd weithiau, mae effaith ansicrwydd parhaus ar blant ifanc yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu amseriad unrhyw benderfyniad.

Yr Ysgol a'r Gymuned

Nid yn unig plant o'r ardal gyfagos sy'n mynychu Ysgol Meidrim.

Mae'n darparu canolbwynt i'r gymuned drwy addysg, gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau chwaraeon, ymgysylltu â'r teulu a'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg.

Felly mae'r cynnig i gau'r ysgol yn cael canlyniadau sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg y disgyblion presennol.

Mae'n newid yn sylfaenol y berthynas rhwng addysg a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Rhaniad y Dalgylch

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y broses hon oedd egluro'r trefniadau dalgylch ar gyfer y dyfodol.

Yn hytrach na throsglwyddo cymuned Meidrim i un ysgol dderbyn, byddai'r dalgylch presennol yn cael ei rannu rhwng tair ysgol ar wahân.

Byddai pentref Meidrim ei hun yn dod yn rhan o ddalgylch Ysgol Griffith Jones.

Byddai rhannau eraill o'r dalgylch presennol yn trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog ac Ysgol Bancyfelin.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod hyn yn cynrychioli llawer mwy na newid ffiniau gweinyddol.

Mae'n rhannu un gymuned ysgol sefydledig yn dair cymuned addysgol ar wahân gyda gwahanol ddalgylchoedd, gwahanol drefniadau cludiant a gwahanol lwybrau addysgol.

Nid yw'r cynnig felly yn adleoli disgyblion yn unig.

Mae'n ailddosbarthu cymuned gyfan.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Cyngor wedi datgan bod Ysgol Griffith Jones yn symud ymlaen tuag at ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg llawn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn croesawu'r uchelgais honno.

Fodd bynnag, bydd y newid hwn yn cymryd amser.

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd rhai grwpiau blwyddyn yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Mae hyn yn creu risg rhagweladwy y gall rhai teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n teithio tuag at Gaerfyrddin ar gyfer gwaith neu ofal plant, ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall yn hytrach nag addysg cyfrwng Cymraeg.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn awgrymu bod y canlyniad hwn yn anochel.

Fodd bynnag, mae'n bosiblwydd realistig sy'n haeddu ystyriaeth ofalus gan y gall arwain at ganlyniad sy'n groes i amcanion y Cyngor ei hun o ran y Gymraeg mewn Addysg.

Felly, mae gan y cynnig y potensial i wanhau, yn hytrach na chryfhau, cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod pontio.

Capasiti ac Ysgolion Derbyn

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oes gan Ysgol Bancyfelin ddigon o leoedd ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer pob disgybl o Ysgol Meidrim.

O ganlyniad, ni fyddai pob teulu sy'n dymuno dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bancyfelin yn gallu gwneud hynny.

Ar yr un pryd, mae dogfennau ymgynghori'r Cyngor ei hun yn cynnwys arsylwadau gan Estyn ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol Ysgol Hafodwenog.

Cydnabu Estyn y byddai sefyllfa ariannol yr ysgol yn y dyfodol yn dibynnu ar lefelau trosglwyddo disgyblion a nododd nad oedd trefniadau wrth gefn wedi'u hegluro'n llawn.

Er nad yw hyn yn golygu na all Ysgol Hafodwenog ddarparu addysg ragorol, mae'n dangos nad yw'r trefniadau derbyn eu hunain heb ansicrwydd.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod hyn yn ystyriaeth bwysig wrth asesu a yw cau'r ysgol yn darparu'r ateb hirdymor mwyaf cynaliadwy.

Y Gymuned Ehangach

Mae effaith cau'r ysgol yn ymestyn y tu hwnt i addysg.

Mae cael gwared ar ysgol y pentref yn arwain at risg o leihau pa mor ddeniadol yw Meidrim i deuluoedd ifanc, gwanhau cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol a lleihau'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg yn y pentref.

Mae cynnig datblygu'r Corff Llywodraethu yn ceisio cryfhau'r union ddeilliannau hyn trwy Bartneriaeth Cyngor-Cymuned, defnydd cymunedol ehangach o safle'r ysgol, darpariaeth gofal plant a mwy o ymgysylltiad cymunedol.

Byddai cau'r ysgol yn dileu'r cyfle i'r datblygiadau hyn gael eu harchwilio'n llawn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn yn llawn bod cynaliadwyedd ariannol yn ystyriaeth bwysig.

Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn bodoli oherwydd bod ysgolion yn darparu manteision na ellir eu mesur yn hawdd trwy gyfrifon ariannol yn unig.


Felly, gofynnir i'r Aelodau ystyried nid yn unig y goblygiadau ariannol o gadw Ysgol Meidrim, ond hefyd y deilliannau addysgol, ieithyddol a chymunedol ehangach o wasgaru un gymuned Gymraeg wledig sefydledig yn barhaol ar draws tair ysgol ar wahân.

Nid cau un ysgol wledig yn unig yw'r cynnig sydd gerbron yr Aelodau.

Mae'n newid daearyddiaeth addysgol cymuned Meidrim yn sylfaenol.

Byddai un gymuned ysgol Gymraeg sefydledig yn cael ei rhannu rhwng tair ysgol wahanol, pob un yn wynebu amgylchiadau a chyfleoedd addysgol gwahanol.

Cyn gwneud newid na ellir ei ddadwneud, mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylid deall y canlyniadau hyn yn llawn a'u pwyso'n ofalus ochr yn ochr â'r achos ariannol dros gau.



7. Deilliannau Addysgol a Buddiannau Pennaf Plant

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod mai'r brif ystyriaeth wrth benderfynu ar ddyfodol Ysgol Meidrim yw buddiannau pennaf ei disgyblion.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae'n ofynnol i'r Aelodau roi sylw dyledus i **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**, sy'n ymgorffori egwyddorion **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** wrth wneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae gan blant yr hawl i'w buddiannau pennaf gael eu trin fel prif ystyriaeth, i dderbyn addysg sy'n cefnogi eu datblygiad, ac i ddysgu mewn amgylchedd diogel, sefydlog a chefnogol.

Mae hawliau plant wrth wraidd y penderfyniad hwn

Nid yw'r penderfyniad hwn yn ymwneud â chyllid na threfniadaeth yr ysgol yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â p'un a yw buddiannau pennaf, llesiant ac anghenion addysgol plant Ysgol Meidrim yn cael eu gwasanaethu orau drwy gau'n barhaol, neu drwy ganiatáu i gynnig amgen cryfach gael ei werthuso'n llawn cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud.

Drwy gydol y broses hon, mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar sicrhau bod pob plentyn yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg gofalg, cynhwysol a meithringar.

Gwella Addysgol

Ers i'r ymgynghoriad gwreiddiol ddechrau, mae Ysgol Meidrim wedi parhau i wella.

Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r ysgol wedi llwyddo i gael ei thynnu o gategori mesurau arbennig Estyn, gan ddangos ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwydnwch staff, disgyblion a llywodraethwyr yn ystod cyfnod eithriadol o heriol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod hyn yn dangos bod gan yr ysgol y gallu i wella pan ddarperir sefydlogrwydd, cefnogaeth briodol ac arweinyddiaeth gydweithredol.

Sefydlogrwydd, Llesiant a Hyder

Mae'r broses gau statudol bellach wedi ymestyn dros fisoedd lawer, gan greu cyfnod hir o ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni a staff.

I lawer o blant, mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn llawn ansicrwydd ynghylch a fydd eu hysgol yn aros ar agor, a fyddant yn aros gyda'u ffrindiau a'u hathrawon, a ble y gallant gwblhau eu haddysg gynradd yn y pen draw.

Dylai ysgol gynradd roi diogelwch, trefn, hyder ac ymdeimlad o berthyn i blant. Yn hytrach, mae llawer o ddisgyblion wedi profi cyfnod estynedig o ansicrwydd yn ystod rhai o flynyddoedd pwysicaf eu haddysg.

Mae rhieni wedi rhannu pryderon am yr effaith y mae'r ansicrwydd hwn wedi'i chael ar eu plant, ac mae Llywodraethwyr wedi gweld y pryder dealladwy a brofwyd gan lawer o deuluoedd sy'n ceisio gwneud penderfyniadau pwysig heb eglurder am ddyfodol yr ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod llesiant emosiynol plant yn ystyriaeth addysgol bwysig. Mae hyder, diogelwch a llesiant emosiynol yn hanfodol i ddysgu llwyddiannus a dylent fod yn rhan o asesiad yr Aelodau o'r hyn sydd er buddiannau pennaf y plant sy'n mynychu Ysgol Meidrim ar hyn o bryd.

Dylid cydnabod yr amgylchiadau eithriadol hyn hefyd wrth ystyried niferoedd presennol y disgyblion. Yn naturiol, mae'n bosibl y bydd teuluoedd sy'n gwneud penderfyniadau yn ystod cyfnod hir o ansicrwydd yn oedi cofrestru neu geisio sicrwydd yn rhywle arall. Felly, dylid ystyried y niferoedd presennol yn y cyd-destun hwnnw yn hytrach na fel dangosydd dibynadwy o botensial hirdymor yr ysgol.

Sefydlogrwydd ac anghenion dysgu ychwanegol

Mae plant yn ffynnu lle mae sefydlogrwydd, parhad a pherthnasoedd dibynadwy.

Mae Ysgol Meidrim yn darparu amgylchedd dysgu lle mae staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn gallu ymateb yn gyflym i'w hanghenion addysgol, emosiynol a llesiant unigol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar arferion cyfarwydd, perthnasoedd sefydledig a chefnogaeth bersonol iawn i gyflawni eu potensial.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau ystyried yn ofalus a roddwyd digon o dystiolaeth i ddangos y gellir cynnal lefelau cyfatebol o gefnogaeth, parhad a llesiant wedi'i bersonoli ar ôl cau.

Cyfleoedd Addysgol yn y Dyfodol

Mae'r cynnig cryfach yn ceisio nid yn unig i gadw'r ysgol bresennol, ond i wella'r ddarpariaeth addysgol drwy wneud y canlynol:

- arweinyddiaeth a rennir a ffedereiddio;
- mwy o gydweithio ag ysgolion cyfagos;
- gofal plant a gwell darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf;
- partneriaethau cymunedol cryfach;
- gwell mynediad at gyllid allanol; a
- phrosiectau cynaliadwyedd sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cryfhau ymgysylltiad cymunedol.

Gyda'i gilydd, mae gan y mentrau hyn y potensial i wella deilliannau addysgol wrth gynnal y sylw unigol a'r amgylchedd meithrin sy'n nodweddu ysgol wledig fach lwyddiannus.

Casgliad

Mae gwelliant addysgol yn Ysgol Meidrim wedi parhau er gwaethaf ansicrwydd hir.

Nid yw'r ysgol yn destun mesurau arbennig Estyn mwyach, mae staff wedi parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel, ac mae'r Corff Llywodraethu wedi datblygu cynigion credadwy i gryfhau arweinyddiaeth, cynaliadwyedd ariannol a gwydnwch addysgol hirdymor.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu y byddai buddiannau pennaf plant yn cael eu gwireddu trwy ganiatáu i'r llwybr cadarnhaol hwn barhau tra bod y cynnig cryfach yn cael ei werthuso yn erbyn cerrig milltir clir a mesuradwy.

Byddai cau'r ysgol yn dileu'n barhaol y cyfle i benderfynu a all yr atebion datblygu hyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r ysgol. Byddai caniatáu cyfnod penodol ar gyfer cynnydd parhaus yn cadw opsiynau y Cyngor yn y dyfodol, gan sicrhau bod unrhyw benderfyniad yn y pen draw yn seiliedig ar y dystiolaeth lawnaf sydd ar gael ac, yn anad dim, ar yr hyn sy'n wirioneddol er budd gorau plant Ysgol Meidrim.

8. Pam mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylid gohirio cau'r ysgol

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod yn llawn bod yn rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau anodd wrth gydbwysu safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol a defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus.

Rydym hefyd yn cydnabod na fyddai cynnal y status quo am gyfnod amhenodol yn opsiwn cyfrifol.

Fodd bynnag, rydym yn credu, gyda pharch, nad yw'r Cyngor yn wynebu dewis rhwng cau'r ysgol ar unwaith a gadael pethau heb eu newid yn unig.

Ers i'r ymgynghoriad statudol ddechrau, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r prif bryderon a arweiniodd at y cynnig i gau Ysgol Meidrim.

Mae trafodaethau arweinyddiaeth wedi symud ymlaen.

Mae model Partneriaeth Cyngor-Cymuned cryfach wedi'i ddatblygu.

Mae sefydliadau annibynnol wedi ymgysylltu'n weithredol.

Mae cyfleoedd cyllido allanol wedi'u nodi.

Mae cyfleoedd i gryfhau cynaliadwyedd addysgol ac ariannol hirdymor yn parhau i ddod i'r amlwg.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod y cynnig sydd gerbron yr Aelodau heddiw yn sylweddol wahanol i'r cynnig a ystyriwyd yn wreiddiol yn ystod yr ymgynghoriad.

Felly nid a yw heriau'n bodoli yw'r cwestiwn sydd gerbron yr Aelodau.

Mae'n amlwg eu bod yn bodoli.

Y cwestiwn yw a oes modd credadwy o ddatrys yr heriau hynny.

Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod hynny'n wir.

Dull Mesuredig a Chymesur

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau ohirio penderfyniad anodd am gyfnod amhenodol.

Yn hytrach, rydym yn cynnig cyfnod diffiniedig o weithio parhaus mewn partneriaeth lle gellir trosi'r cynnydd a wnaed eisoes yn ddeilliannau mesuradwy.

Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r gwaith yn parhau i wneud y canlynol:

- cwblhau trafodaethau ffedereiddio a phennu trefniadau arweinyddiaeth hirdymor;
- datblygu'r Bartneriaeth Cyngor-Cymuned arfaethedig yn fframwaith cytunedig ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol;
- symud yn eu blaen geisiadau am gyllid allanol a chynigion ynni adnewyddadwy sydd wedi'u cynllunio i wella cynaliadwyedd ariannol hirdymor;
- datblygu gofal plant cofleidiol, darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf a defnydd cymunedol ehangach o'r ysgol;
- cryfhau'r broses o recriwtio disgyblion trwy well hyder a sicrwydd; ac
- adrodd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt er mwyn galluogi Aelodau i wneud unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ar sail tystiolaeth yn hytrach na rhagdybiaeth.

Mae hyn yn cynrychioli dull ymarferol ac atebol sy'n caniatáu i gynnydd gael ei fesur yn dryloyw gan gadw'r holl opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor yn y dyfodol.

Pam mae gohirio yn cynrychioli'r opsiwn risg is

Mae cau yn benderfyniad na ellir ei ddadwneud.

Ar ôl i ysgol wledig gau, ni ellir ail-greu'r gymuned addysgol y mae'n ei gwasanaethu os bydd amgylchiadau'n gwella yn ddiweddarach.

Byddai'r cyfle i brofi ffedereiddio, denu buddsoddiad allanol, cryfhau partneriaethau cymunedol a gwerthuso twf yn y dyfodol yn cael ei golli yn barhaol.

I'r gwrthwyneb, nid yw caniatáu cyfnod diffiniedig i'r cynnig cryfach ddatblygu yn dileu gallu'r Cyngor i ystyried cau'r ysgol unwaith eto yn y dyfodol.

Pe na bai digon o gynnydd yn cael ei gyflawni, byddai'r Aelodau yn cadw'r gallu i wneud penderfyniad llawn wybodus yn nes ymlaen.

Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn llwyddo, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dangos y gall dull cydweithredol sicrhau dyfodol ysgol cyfrwng Cymraeg wledig wrth fynd i'r afael â'r union bryderon a arweiniodd yn wreiddiol at y cynnig i gau.

Dyma, ym marn y Corff Llywodraethu y ffordd o weithredu sydd â llai o risg ac sy'n fwy cymesur.

9. Argymhellion i Aelodau

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau gydnabod bod y dystiolaeth sydd ar gael heddiw yn sylweddol wahanol i'r dystiolaeth a oedd ar gael pan ddechreuodd yr ymgynghoriad.

Gofynnwn i'r Aelodau asesu'r cynnig ar ei rinweddau presennol yn hytrach nag ar yr amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddechrau'r broses statudol yn unig.

Gofynnwn ymhellach i'r Aelodau ganiatáu cyfnod penodol i'r cynnig cryfach gael ei brofi yn erbyn cerrig milltir clir a mesuradwy cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud i gau Ysgol Meidrim.

Byddai dull o'r fath yn cadw opsiynau'r Cyngor yn y dyfodol, yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn sicrhau bod pob cyfle rhesymol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ysgol Meidrim wedi'i archwilio'n llawn.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn argymhell yn barchus bod Aelodau yn:

1. Cydnabod bod y cynnig wedi esblygu

Cydnabod bod y cynnig amgen sydd gerbron yr Aelodau yn sylweddol wahanol i'r hyn a ystyriwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac felly dylid ei asesu ar ei rinweddau presennol.

2. Cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud

Ystyried:

- gwelliant addysgol ers yr ymgynghoriad
- trefniadau arweinyddiaeth dros dro
- trafodaethau ffedereiddio
- Cynigion Partneriaeth Cyngor-Cymuned
- cyfleoedd cyllido allanol
- cefnogaeth gymunedol ehangach.

3. Cydnabod nad oes modd dadwneud penderfyniad i gau'r ysgol

Cydnabod, ar ôl i Ysgol Meidrim gau, ni fydd cyfle i benderfynu a allai'r cynnig datblygu fod wedi llwyddo.

4. Rhoi mwy o amser

Darparu cyfnod rhesymol lle gall y Cyngor a'r Corff Llywodraethu barhau i weithio ar y cyd i ddatblygu'r cynnig a dangos cynnydd mesuradwy.

5. Cytuno ar amcanion mesuradwy

Os bydd yr Aelodau o'r farn ei fod yn briodol, cytuno ar gyfres o amcanion mesuradwy y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ar y cyd, gan gynnwys:

- gwydnwch arweinyddiaeth
- cynnydd ffedereiddio
- cynaliadwyedd ariannol
- recriwtio disgyblion
- datblygu partneriaeth gymunedol
- darpariaeth addysgol ehangach.

6. Adolygu cyn gwneud penderfyniad terfynol

Ar ôl y cyfnod hwn, adolygu'r dystiolaeth cyn penderfynu a yw cau'r ysgol yn parhau i fod yn angenrheidiol.

Ein Cais

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn gofyn i'r Aelodau ddiystyru'r heriau sy'n wynebu Ysgol Meidrim.

Nid ydym ychwaith yn gofyn i'r Aelodau wneud penderfyniad yn seiliedig ar optimistiaeth yn unig.

Rydym yn gofyn i'r Aelodau gydnabod bod y cynnig sydd o'u blaenau heddiw yn sylweddol gryfach na'r cynnig a ystyriwyd yn wreiddiol a bod tystiolaeth gredadwy bellach yn dangos bod modd mynd i'r afael â heriau'r ysgol.

Yn yr amgylchiadau hynny, rydym yn credu mai'r ffordd fwyaf cymesur o weithredu yw caniatáu i'r atebion hynny gael eu datblygu'n llawn cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud gau'r ysgol.

Risgiau o Gau'r Ysgol Nawr...

Os bydd yr ysgol yn cael ei chau	Os bydd y cynnig yn parhau
Trafodaethau ffedereiddio'n dod i ben	Ffedereiddio wedi'i archwilio

Os bydd yr ysgol yn cael ei chau	Os bydd y cynnig yn parhau
Partneriaeth wedi'i cholli	Partneriaeth wedi'i phrofi
Dim cyllid allanol ar gael	Cyllid allanol wedi'i geisio
Cynigion cymunedol wedi'u diystyru oherwydd bod yr ysgol yn gweithredu fel ffocws i deuluoedd ifanc	Gwasanaethau cymunedol wedi'u datblygu
Ysgol yn cael ei chau'n barhaol	Penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth

10. Casgliad

Drwy gydol y broses hon, mae'r Corff Llywodraethu wedi ceisio ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn adeiladol â Chyngor Sir Caerfyrddin.

Nid ydym erioed wedi ceisio anwybyddu'r heriau sy'n wynebu Ysgol Meidrim. Rydym yn cydnabod y pwysau ariannol sydd ar yr Awdurdod, pwysigrwydd gwydnwch addysgol a'r angen i sicrhau bod pob ysgol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Nid gwrthwynebu yw ein hymateb felly, ond gweithredu.

Ers i'r ymgynghoriad ddechrau, mae'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i adael categori mesurau arbennig Estyn. Mae trefniadau arweinyddiaeth dros dro wedi'u sicrhau. Mae trafodaethau ffedereiddio yn mynd rhagddo. Mae Partneriaeth Cyngor-Cymuned wedi'i datblygu. Mae sefydliadau allanol wedi cynnig arbenigedd a chefnogaeth. Mae cyfleoedd newydd ar gyfer gofal plant, defnydd cymunedol, cynaliadwyedd a buddsoddiad allanol yn parhau i ddod i'r amlwg.

Yn unigol, nid oes unrhyw un o'r datblygiadau hyn yn ateb cyflawn.

Fodd bynnag, gyda'i gilydd maent yn cyflwyno llwybr credadwy a chyrraeddadwy tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy i Ysgol Meidrim.

Nid yw'r Aelodau bellach yn gofyn a yw'r ysgol yn wynebu heriau. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr ysgol yn wynebu heriau.

Y cwestiwn yw a ellir mynd i'r afael â'r heriau hynny erbyn hyn heb gau ysgol gyfrwng Cymraeg wledig sy'n parhau i fod yn ganolog i fywyd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol ei chymuned.

Mae cau'r ysgol yn benderfyniad na ellir ei ddadwneud.

Ar ôl i'r ysgol gael ei chau, bydd y cyfle i ddangos y gallai'r atebion hyn sy'n datblygu lwyddo yn cael ei golli am byth. I'r gwrthwyneb, byddai caniatáu cyfnod rhesymol i'r cynnig cryfach gael ei werthuso'n llawn yn galluogi'r Aelodau i wneud eu penderfyniad terfynol yn seiliedig ar y dystiolaeth lawn a mwyaf diweddar.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn gofyn i Aelodau dderbyn addewidion neu ddyheadau yn unig. Rydym yn gofyn i'r Aelodau gydnabod y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud a'r cyfleoedd realistig sy'n parhau i ddatblygu.

Rydym yn credu bod y cynnig gerbron yr Aelodau heddiw yn sylweddol wahanol i'r cynnig a ystyriwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn credu ei fod yn haeddu cael ei asesu ar ei rinweddau presennol.

Felly, mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn yn barchus i'r Aelodau wneud y canlynol:

- **cydnabod y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud ers yr ymgynghoriad**
- **cydnabod bod atebion credadwy yn parhau i ddod i'r amlwg**
- **caniatáu i'r atebion hynny gael eu datblygu a'u hasesu'n llawn**
- **gohirio unrhyw benderfyniad na ellir ei ddadwneud nes bod y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.**

Mae'r rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn bodoli oherwydd bod ysgolion yn cyfrannu llawer mwy nag addysg yn unig. Maent yn cefnogi cymunedau, yn cynnal y Gymraeg, yn darparu sefydlogrwydd i blant ac yn helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig yn parhau i ffynnu.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod gan Ysgol Meidrim gyfle realistig o hyd i gyflawni'r rôl honno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Felly, gofynnwn yn barchus i'r Aelodau sicrhau bod pob cyfle rhesymol i sicrhau dyfodol Ysgol Meidrim wedi'i archwilio'n llawn cyn gwneud y penderfyniad terfynol i gau'r ysgol sy'n parhau i fod yng nghanol ei chymuned.

Nid y penderfyniad gerbron yr Aelodau yw a yw Ysgol Meidrim wedi wynebu heriau. Y penderfyniad yw a ddylid bellach roi cyfle i'r heriau hynny gael eu datrys cyn cymryd y cam na ellir ei ddadwneud i gau ysgol cyfrwng Cymraeg wledig.

Crynodeb o'n Cais

Mae'r Corff Llywodraethu yn gofyn yn barchus i'r Aelodau wneud y canlynol:

- ***Ystyried y cynnig fel y mae'n bodoli heddiw, nid yn unig fel yr oedd yn bodoli yn ystod yr ymgynghoriad.***
- ***Cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran arweinyddiaeth, gwella addysgol a gweithio mewn partneriaeth.***
- ***Ystyried y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.***
- ***Ystyried a fyddai cyfnod byr o ddatblygiad pellach yn galluogi penderfyniad terfynol mwy gwybodus a chadarn.***
- ***Sicrhau bod pob dewis arall rhesymol wedi'i archwilio'n llawn cyn cymeradwyo'r penderfyniad i gau Ysgol Meidrim yn barhaol.***

Casgliadau Terfynol

Yn y pen draw, nid yw'r penderfyniad hwn yn ymwneud ag adeiladau, cyllidebau neu strwythurau sefydliadol yn unig.

Mae'n ymwneud â'r plant sy'n mynychu Ysgol Meidrim heddiw a'r rhai a allai fynychu'r ysgol yn y dyfodol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod y plant hynny'n haeddu penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth lawnaf bosibl, ar ôl i bob cyfle rhesymol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'w hysgol gael ei archwilio'n briodol.

Felly, rydym yn gofyn yn barchus i'r Aelodau ganiatáu i'r cynnig cryfach hwn gael ei brofi cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud.

ATODIADAU

Atodiad A

Tystiolaeth o'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol

Mynegiannau o Ddiddordeb a Thystiolaeth Ddemograffig sy'n Dod i'r Amlwg

Drwy gydol y cyfnod gwrthwynebu statudol, gwahoddodd y Corff Llywodraethu rieni a darpar rieni i lenwi Ffurflen Mynegi Diddordeb Rhieni i nodi a fyddent yn ystyried gwneud cais am le yn Ysgol Meidrim pe bai'r ysgol yn parhau ar agor.

Nid yw'r ffurflenni hyn yn geisiadau ffurfiol am dderbyn i'r ysgol, ac nid ydynt wedi'u bwriadu i gymryd lle proses dderbyn y Cyngor. Fodd bynnag, maent yn darparu tystiolaeth bwysig o'r galw sy'n dod i'r amlwg ac yn dangos na ellir asesu nifer y disgyblion yn y dyfodol drwy gyfeirio at gofrestr bresennol yr ysgol yn unig.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylid ystyried y mynegiannau o ddiddordeb ochr yn ochr â newidiadau demograffig ehangach o fewn y gymuned wrth asesu cynaliadwyedd hirdymor Ysgol Meidrim.

Crynodeb o'r Mynegiannau o Ddiddordeb a Ddaeth i Law

Tystiolaeth	Nifer
Mynegiannau o Ddiddordeb wedi'u Cwblhau	10
Lleoedd wedi'u nodi i ddarpar ddisgyblion	14
Teuluoedd sy'n bwriadu cofrestru mwy nag un plentyn	4
Teuluoedd presennol sy'n bwriadu i frodyr a chwiorydd iau fynychu	✓
Teuluoedd newydd yn nodi Ysgol Meidrim fel eu dewis ysgol	✓

Pam mae teuluoedd wedi dewis Ysgol Meidrim

Roedd rhieni yn nodi'n gyson y rhesymau canlynol dros ddymuno i'w plant fynychu Ysgol Meidrim:

- Addysg cyfrwng Cymraeg
- Amgylchedd dysgu bach, meithringar
- Ethos cymunedol cryf
- Ardal wledig
- Agosrwydd at gartref

- Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cysylltiadau teuluol presennol â'r ysgol
- Rôl yr ysgol yn y gymuned ehangach

Dywedodd sawl rhiant hefyd am yr hyder yr oedd eu plant wedi'i ddatblygu ers mynychu Ysgol Meidrim a gwerth ymagwedd bersonol yr ysgol at ddysgu a llesiant.

Engbreiffiau o Adborth Rhieni

"Mae Cymraeg ein plentyn saith oed wedi datblygu'n anhygoel ers dechrau yn Ysgol Meidrim. Gan ei bod yn ysgol fach, feithringar, rwy'n credu pe bai angen cymorth meddygol neu addysgol ychwanegol ar y naill neu'r llall o'm plant y byddai'n cael ei nodi a'i datrys yn gyflym."

"Yr ysgol yw canolbwynt y gymuned. Ni ellir ystyried buddsoddiad ariannol yn ein plant fel ymarfer cyllido. Mae plant Meidrim yn haeddu'r cyfle i aros yn eu cymuned eu hunain."

Tystiolaeth Ddemograffig sy'n Dod i'r Amlwg

Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn dymuno tynnu sylw'r Aelodau at dystiolaeth bellach sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Mae hyn yn cynnwys:

- Mae pedwar babi wedi cael eu geni yng nghymuned Meidrim yn ystod y mis diwethaf yn unig.
- Datblygiad preswyl parhaus o fewn ac o amgylch yr ardal leol, gan gynnwys tai newydd y disgwylir iddynt ddenu teuluoedd ifanc ychwanegol.
- Mynegiannau parhaus o ddiddordeb gan deuluoedd sy'n ystyried symud i'r ardal pe bai'r ysgol yn aros ar agor.

Er nad oes unrhyw un o'r ffactorau hyn ar eu pennau eu hunain yn gwarantu cofrestru yn y dyfodol, gyda'i gilydd maent yn dangos bod y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn fwy deinamig nag sy'n cael ei adlewyrchu gan y gofrestr ddisgyblion presennol.

Plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref

Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn nodi bod gan Sir Gaerfyrddin dros 700 o blant y gwyddys eu bod yn derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref ar hyn o bryd.

Er y bydd llawer o'r plant hyn yn parhau i gael eu haddysg yn y cartref, mae hyn yn dangos bod carfan sylweddol o blant oedran ysgol y tu allan i addysg brif ffrwd y gall eu hamgylchiadau newid dros amser.

Gall ysgolion gwledig bach fel Ysgol Meidrim ddarparu opsiwn addysgol deniadol i rai teuluoedd sy'n chwilio am amgylchedd dysgu personol, meithringar a chymunedol.

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn awgrymu y dylid ystyried y plant hyn yn awtomatig fel darpar ddisgyblion. Fodd bynnag, mae eu bodolaeth yn dangos ymhellach na ellir asesu galw am leoedd ysgol yn y dyfodol ar sail cofrestrau presennol yr ysgol yn unig.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol nid yn unig i reoli lleoedd gwag ond hefyd i sicrhau bod digon o leoedd ysgol yn parhau i fod ar gael i ateb y galw yn y dyfodol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu y dylai penderfyniadau ynghylch dyfodol hirdymor Ysgol Meidrim felly ystyried nid yn unig y gofrestr ddisgyblion presennol, ond hefyd:

- mynegiannau o ddiddordeb gan rieni sydd wedi'u cadarnhau
- derbyniadau brodyr a chwiorydd
- cyfraddau geni lleol
- datblygiadau tai sydd wedi'i gynllunio
- patrymau'n newid o ran dewis rhieni
- galw addysgol yn y dyfodol yn yr ardal ehangach.

Yn ei chyfanrwydd, mae'r dystiolaeth hon yn dangos na ddylid ystyried y sefyllfa bresennol yn sefydlog. Yn hytrach, mae'n awgrymu bod potensial realistig o hyd i nifer y disgyblion dyfu dros y blynyddoedd i ddod, yn enwedig os yw'r ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol yn cael ei ddatrys.

Dogfen Ategol B1 - Ffurflenni Mynegi Diddordeb

Dogfen Ategol B2 - Gwybodaeth am dai

ATODIAD C

Cynnydd tuag at Ffedereiddio

Arweinyddiaeth trwy Gydweithredu

Un o'r prif resymau a nodwyd gan y Cyngor dros y cynnig i gau Ysgol Meidrim oedd gwydnwch arweinyddiaeth.

Ers i'r ymgynghoriad statudol ddechrau, mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i archwilio ffedereiddio fel yr ateb hirdymor a ffefrir i gryfhau gallu arweinyddiaeth, gwella gwydnwch addysgol a gwella cynaliadwyedd ariannol.

Mae trafodaethau ystyrlon wedi digwydd gydag ysgolion cyfagos ynglŷn â'r potensial ar gyfer ffedereiddio, ac mae'r trafodaethau hyn wedi symud ymlaen y tu hwnt i'r cam archwilio.

Mae'r Corff Llywodraethu yn deall bod Corff Llywodraethu Ffederasiwn Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan wedi cytuno i ystyried ffederasiwn yn ffurfiol mewn cyfarfod Corff Llywodraethu yn y dyfodol.

Er nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto, mae hyn yn ddatblygiad sylweddol ers ymgynghori ac yn dangos bod ffedereiddio bellach yn opsiwn realistig yn hytrach na chynnig damcaniaethol.

Mae'r ansicrwydd presennol ynglŷn â dyfodol Ysgol Meidrim yn anochel yn ei gwneud hi'n anodd i ysgolion cyfagos wneud ymrwymadau hirdymor. Fodd bynnag, mae'r parodrwydd i ystyried ffedereiddio yn dangos bod atebion cydweithredol yn parhau i fod yn gyraeddadwy os caniateir digon o amser i drafodaethau barhau.

Mae'r Corff Llywodraethu yn credu bod y cynnydd hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag un o brif bryderon y Cyngor ac yn cefnogi'r achos dros ganiatáu datblygiad cydweithredol pellach cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.


Dogfen Ategol C1 - E-bost

ATODIAD D

APPENDIX D

A COUNCIL-COMMUNITY PARTNERSHIP MODEL FOR THE LONG-TERM SUSTAINABILITY OF YSGOL MEIDRIM

Working together to provide education, strengthen our community and secure a sustainable future



Atodiad E – Cymorth Allanol Annibynnol

Sylwadau Arbenigol Annibynnol

Ers i'r ymgynghoriad statudol ddechrau, mae'r Corff Llywodraethu wedi gweithio'n adeiladol gydag ystod o sefydliadau y mae eu harbenigedd yn cyd-fynd â'r cynigion yn y Sylwadau hyn.

Er mwyn sicrhau tryloywder ac annibyniaeth, ni ofynnwyd i'r sefydliadau hyn gyfrannu at Sylwadau'r Corff Llywodraethu. Yn hytrach, maent wedi dewis cyflwyno eu sylwadau annibynnol eu hunain yn uniongyrchol i Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Dylid ystyried y cyflwyniadau hyn ar eu rhinweddau eu hunain a dangos bod y cynnig cryfach wedi denu cefnogaeth gan sefydliadau sydd ag arbenigedd cydnabyddedig mewn datblygu cymunedol, cynaliadwyedd, llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth leol.

Trefniadaeth	Maes Arbenigedd
Ynni Teg	Ynni cymunedol ac ynni adnewyddadwy
Ynni Sir Gâr	Ynni adnewyddadwy a chynaliadwyedd
Cwmpas	Menter a llywodraethu cymunedol
Bluestone National Park Resort	Prif gyflogwr lleol a phartner cymunedol
Get The Boys A Lift	Llesiant cymunedol a thrafnidiaeth

ATODIAD B – CRYNODEB O'R YMATEB A DDAETH I LAW AR ÔL CAU'R ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Daeth gwrthwynebiad i law ar 22 Gorffennaf 2026, ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu statudol ddod i ben ar 17 Gorffennaf 2026. Gan y daeth y cyflwyniad i law y tu allan i'r amserlen ragnodedig, ni ellir ei drin fel gwrthwynebiad ffurfiol at ddibenion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) ac nid yw wedi'i gynnwys yng nghyfanswm nifer y gwrthwynebiadau a ddaeth i law. Serch hynny, er budd tryloywder a chyflawnrwydd, mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r materion a godwyd. Ceir crynodeb o'r materion a nodwyd, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod, isod. Nid yw ystyried y sylw hwn yn effeithio ar y sefyllfa statudol ynghylch nifer y gwrthwynebiadau dilys a ddaeth i law, fel y nodir mewn mannau eraill yn y ddogfen hon.

Thema 1.	Iechyd Meddwl, Llesiant ac Ymarfer Ymwybodol o Drawma
	<p>Thema amlwg trwy gydol y sylw oedd pwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant a'r cyfraniad posibl y gallai'r cynnig ei wneud tuag at wella deiliannau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Tynnodd yr ymatebydd sylw at ymrwymiad y cynnig i greu amgylcheddau meithringar, sy'n ymwybodol o drawma, yn enwedig i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gorbryder a gofynion cymorth ychwanegol eraill. Dadleuwyd bod dulliau o'r fath yn cydnabod pwysigrwydd llesiant emosiynol fel sylfaen ar gyfer dysgu a datblygu ac yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn gallu meithrin perthnasoedd cadarnhaol.</p> <p>Cyfeiriodd y sylw at dystiolaeth sy'n awgrymu y gall ymyrraeth gynnar a dulliau seiliedig ar berthynas gael effaith sylweddol ar wydnwch, hyder a llesiant hirdymor plant. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar fanteision darparu cymorth cyson i blant a allai wynebu rhwystrau i ddysgu o ganlyniad i heriau emosiynol, ymddygiadol neu ddatblygiadol. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod y cynnig yn adlewyrchu dull ataliol sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion yn gynnar yn hytrach nag ymateb dim ond pan fydd anawsterau'n dod yn fwy difrifol.</p> <p>Awgrymodd yr ymatebydd hefyd fod y model arfaethedig yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cydnabod fwyfwy y broses ryngweithio rhwng cyrhaeddiad addysgol a llesiant emosiynol. Ym marn yr ymatebydd, gall buddsoddi mewn amgylcheddau cefnogol wella ymgysylltiad addysgol, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chreu amodau sy'n caniatáu i blant ffynnu yn academiaidd ac yn bersonol. Felly, ystyriwyd bod gan y</p>

cynnig y potensial i gyflawni deilliannau cadarnhaol sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg ac yn cyfrannu at well llesiant ar draws y gymuned.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu cydnabyddiaeth yr ymatebydd o bwysigrwydd hyrwyddo deilliannau iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth dulliau ymwybodol o drawma a dulliau meithringar mewn lleoliadau addysgol ac yn cydnabod y rôl bwysig y mae ysgolion yn ei chwarae wrth gefnogi llesiant emosiynol, gwydnwch a datblygiad personol dysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn cytuno y gall ymyrraeth gynnar a chymorth seiliedig ar berthynas gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant dysgwyr ac ymgysylltu addysgol. Ar draws Sir Gaerfyrddin, anogir ysgolion i ddatblygu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn, ac mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i'r ddarpariaeth addysgol beth bynnag yw maint neu leoliad yr ysgol.

Wrth ystyried y cynnig, mae'r Awdurdod wedi asesu'r effaith debygol ar lesiant dysgwyr ac wedi rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cynllunio pontio yn cael ei wneud i gefnogi dysgwyr drwy'r broses drosglwyddo ac i sicrhau parhad cymorth a darpariaeth. Byddai hyn yn cynnwys cynllunio unigol lle bo hynny'n briodol a chydweithrediad agos rhwng ysgolion, rhieni a gwasanaethau cymorth perthnasol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod pryderon ynghylch llesiant emosiynol wedi'u codi gan nifer o ymgynghoreion a gwrthwynebwyr yn ystod y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu. Mae'r pryderon hyn wedi'u cydbwyso'n ofalus yn erbyn yr heriau addysgol, sefydliadol ac ariannol sy'n wynebu'r ysgol. Er bod manteision amgylcheddau addysgol meithringar yn cael eu cydnabod, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod yn rhaid ystyried cynaliadwyedd hirdymor hefyd wrth benderfynu ar ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr ymatebydd, mae'r Awdurdod yn nodi ei gefnogaeth i'r elfennau sy'n canolbwyntio ar lesiant a ddisgrifir yn y cynnig. Er bod yr arsylwadau hyn yn cael eu croesawu, nid ydynt yn newid asesiad yr Awdurdod o'r cynnig trefniadaeth ysgolion, sy'n parhau i fod yn seiliedig ar ystod eang o ystyriaethau addysgol, ariannol, demograffig a statudol.

Thema 2.	Arwahanrwydd Mewn Ardaloedd Gwledig, Unigrwydd a Chysylltedd Cymunedol
<p>Mae'r sylw yn nodi arwahanrwydd mewn ardaloedd gwledig fel mater sylweddol sy'n effeithio ar lawer o gymunedau ac yn cydnabod rôl bosibl y cynnig wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn. Nododd yr ymatebydd y gall trigolion mewn ardaloedd gwledig wynebu rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau, rhwydweithiau cymorth a chyfleoedd cymdeithasol oherwydd ffactorau fel pellter, cyfyngiadau trafnidiaeth a lleihad graddol yn y cyfleusterau lleol. Awgrymwyd y gall y ffactorau hyn gyfrannu at unigrwydd, allgáu cymdeithasol a deilliannau llesiant gwael i rai unigolion a theuluoedd.</p> <p>Tynnwyd sylw arbennig at uchelgais y cynnig i greu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n annog mwy o ymgysylltiad cymunedol ac yn darparu cyfleoedd i drigolion gysylltu â'i gilydd. Roedd yr ymatebydd o'r farn y gall cynnal adnoddau lleol hygyrch o fewn y gymuned helpu i gryfhau rhwydweithiau cymdeithasol a chreu cyfleoedd i bobl o bob oed barhau i gymryd rhan weithredol mewn bywyd cymunedol.</p> <p>Dadleuodd y sylw ymhellach fod cysylltiadau cymunedol cryf yn ffactor amddiffynnol pwysig wrth gynnal llesiant meddyliol. Yn ôl yr ymatebydd, gall cyfleoedd i drigolion gael mynediad at wasanaethau lleol, cymryd rhan mewn gweithgareddau a cheisio cefnogaeth yn eu cymuned eu hunain leihau teimladau o unigedd a chyfrannu at ymdeimlad cryfach o berthyn. Yn y cyd-destun hwn, ystyriwyd bod y cynnig yn cefnogi nid yn unig llesiant unigol ond hefyd gwead cymdeithasol ehangach y gymuned.</p>	
<p>Ymateb yr Awdurdod Lleol</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr heriau a all effeithio ar gymunedau gwledig, gan gynnwys arwahanrwydd cymdeithasol, llai o fynediad at wasanaethau a phwysigrwydd cynnal cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Awdurdod yn cydnabod sylwadau'r ymatebydd ynghylch y rôl ehangach y gall cyfleusterau lleol hygyrch ei chwarae wrth gefnogi llesiant cymdeithasol a meithrin cysylltiad cymunedol.</p> <p>Drwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu, rhoddwyd pwyslais sylweddol ar rôl Ysgol Gynradd Meidrim o fewn y gymuned leol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegir ynghylch pwysigrwydd yr ysgol i fywyd y pentref ac yn derbyn bod unrhyw gynnig sy'n effeithio ar ysgol wledig yn gofyn am ystyriaeth ofalus o effeithiau cymunedol yn ogystal ag ystyriaethau addysgol.</p>	

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod wedi cynnal asesiadau manwl o effaith y cynnig ar y gymuned a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â chau ysgol wledig. Mae'r Awdurdod wedi ystyried sylwadau sy'n cefnogi ac yn gwrthwynebu'r cynnig yn ofalus ac wedi asesu a allai opsiynau amgen ddarparu ffordd gynaliadwy o gynnal y ddarpariaeth wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Er bod sylwadau'r ymatebydd yn tynnu sylw at fanteision posibl sy'n gysylltiedig â mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned a rhwydweithiau cymorth lleol, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod yr heriau addysgol a gweithredol a nodwyd yn y cynnig yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion, nifer sylweddol o leoedd gwag, pwysau ariannol a phryderon cynaliadwyedd parhaus.

Felly, mae'r Awdurdod yn cydnabod arsylwadau'r ymatebydd ynghylch cysylltedd a llesiant cymunedol ond mae'n parhau i fod yn fodlon mai'r cynnig yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy o hyd ar gyfer darpariaeth addysgol yn yr ardal, gan gydbwyso ystyriaethau cymunedol yn erbyn cyfrifoldebau strategol ehangach.

Thema 3.	Gwydnwch Cymunedol a Chymorth Brys
-----------------	---

Roedd elfen sylweddol o'r cyflwyniad yn canolbwyntio ar yr Hwb Gwydnwch mewn Argyfwng arfaethedig a'r rôl y gallai cyfleuster o'r fath ei chwarae wrth gryfhau gwydnwch lleol. Roedd yr ymatebydd o'r farn y gallai cymunedau gwledig fod yn arbennig o agored i niwed yn ystod cyfnodau o aflonyddwch, gan gynnwys digwyddiadau tywydd garw, methiannau cyfleustodau, anawsterau trafnidiaeth neu argyfyngau eraill. Awgrymwyd y gallai cael cyfleuster lleol sefydledig sy'n gallu cefnogi trigolion yn ystod amgylchiadau o'r fath ddarparu manteision ymarferol ac emosiynol.

Nododd y sylwadau bwysigrwydd cael lleoliadau cymunedol dibynadwy a all wasanaethu fel canolfannau ar gyfer gwybodaeth, cydgysylltu a chefnogaeth yn ystod argyfyngau. Roedd yr ymatebydd o'r farn y gall hybiau lleol chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed yn gallu cael mynediad at gymorth pan fo angen a gallant helpu cymunedau i ymateb yn fwy effeithiol i heriau annisgwyl.

Pwysleisiodd yr ymatebydd hefyd fod gwydnwch yn ymestyn y tu hwnt i ymateb brys ac yn cwmpasu gallu cymuned i addasu i bwysau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol dros amser. Ym marn yr ymatebydd, mae cyfleusterau a gwasanaethau sy'n hyrwyddo cydweithredu, cyd-gefnogaeth ac ymgysylltu lleol yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn. Felly,

ystyriwyd bod y cynnig yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedol hirdymor yn ogystal â darparu cymorth ymarferol ar adegau o angen.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu sylwadau'r ymatebydd ynghylch pwysigrwydd gwydnwch cymunedol ac yn cydnabod gwerth trefniadau lleol sy'n cynorthwyo cymunedau yn ystod cyfnodau o aflonyddwch, argyfyngau neu amgylchiadau sy'n newid. Nodir yr arsylwadau ynghylch rôl bosibl cyfleusterau cymunedol wrth gefnogi trigolion yn ystod adegau o angen.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gwydnwch cymunedol yn cwmpasu amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys seilwaith lleol, partneriaethau a mynediad at wybodaeth, gallu gwirfoddoli a rhwydweithiau cymdeithasol cryf. Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan o gyfrifoldebau cynllunio cymunedol ehangach ac fe'u cydnabyddir yn bwysig wrth gynnal llesiant a gwydnwch cymunedau gwledig.

Wrth ystyried y cynnig, mae'r Awdurdod wedi asesu'n ofalus y gofynion addysgol a'r effeithiau ehangach ar y gymuned leol. Er bod y manteision cymunedol posibl a nodwyd gan yr ymatebydd yn cael eu cydnabod, pwrpas canolog y cynnig yw ad-drefnu darpariaeth addysgol mewn ymateb i heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, gallu arweinyddiaeth, hyfywedd ariannol a niferoedd dysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn nodi ymhellach y gellir cefnogi gwydnwch cymunedol trwy ystod o fecanweithiau ac nid yw'n dibynnu ar weithrediad parhaus ysgol yn unig. Gellir parhau i archwilio cyfleoedd i gryfhau gwydnwch cymunedol trwy drefniadau cynllunio cymunedol ehangach a mentrau cydweithredol sy'n cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid lleol.

Er bod yr Awdurdod yn croesawu cefnogaeth yr ymatebydd i amcanion gwydnwch cymunedol, nid yw ystyried yr arsylwadau hyn yn newid yr asesiad cyffredinol o'r cynnig na'r casgliadau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor Ysgol Gynradd Meidrim.

Thema 4.

Gwasanaethau Cymunedol Integredig ac Ymyrraeth Gynnar

Mynegodd y sylwadau gefnogaeth gref i fwriad y cynnig i ddarparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau integredig o un lleoliad sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Cyfeiriwyd yn benodol at ofal plant, gwasanaethau ieuencid, cyfleoedd dysgu cymunedol a chefnogaeth ehangach i

deuluoedd. Awgrymodd yr ymatebydd y gallai dod â'r gwasanaethau hyn at ei gilydd mewn un lle wella hygyrchedd ac annog mwy o gyfranogiad ar draws gwahanol grwpiau yn y gymuned.

Dadleuwyd y gall gwasanaethau cymorth lleol helpu i nodi ac ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt waethygu i anawsterau mwy sylweddol. Roedd yr ymatebydd yn ystyried hybiau cymunedol fel mecanwaith effeithiol ar gyfer darparu cymorth ataliol, gan alluogi unigolion a theuluoedd i gael mynediad at gyngor, cyfleoedd a chymorth yn gynnar. Ystyriwyd hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig lle gallai fod angen teithio'n bell i gael mynediad at wasanaethau fel arall.

Nododd y sylwadau ymhellach y gall gwasanaethau integredig hwyluso gweithio partneriaeth cryfach rhwng sefydliadau a gwella cydgysylltu rhwng mentrau addysgol, llesiant a chymorth cymunedol. Roedd yr ymatebydd o'r farn y gallai'r dull cydgysylltiedig hwn wneud y mwyaf o fanteision adnoddau cyfyngedig a helpu i greu rhwydwaith cymorth mwy cydlynol i drigolion. O ganlyniad, ystyriwyd bod gan y cynnig y potensial i ddarparu manteision ar draws sawl maes o fywyd cymunedol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cefnogaeth yr ymatebydd i ddarpariaeth gwasanaethau integredig a'r rôl y gall gwasanaethau cymunedol hygyrch ei chwarae wrth gefnogi plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth dulliau ymyrraeth gynnar a'r manteision sy'n gysylltiedig â darparu cymorth cyn i faterion ddod yn fwy cymhleth.

Mae'r Awdurdod yn cytuno y gall gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau wella canlyniadau i unigolion a chymunedau. Ar draws Sir Gaerfyrddin, mae amrywiaeth o wasanaethau eisoes yn gweithio ar y cyd i gefnogi teuluoedd ac unigolion sy'n agored i niwed, ac mae cyfleoedd i gryfhau trefniadau o'r fath yn parhau i gael eu harchwilio drwy gynllunio gwasanaethau parhaus ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r cynnig wedi'i asesu'n bennaf yn erbyn gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod mewn perthynas â darpariaeth addysgol. Serch hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfleusterau addysgol yn aml yn gweithredu fel asedau cymunedol pwysig a bod manteision cymunedol ehangach wedi'u codi drwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu.

Er bod yr ymatebydd yn nodi cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau integredig, rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth

addysgol lle mae niferoedd disgyblion, capasiti arweinyddiaeth a chynaliadwyedd ariannol o dan bwysau sylweddol. Mae'r ffactorau hyn yn parhau i fod yn ganolog i'r rhesymeg dros y cynnig.

Felly, mae'r Awdurdod yn croesawu arsylwadau cadarnhaol yr ymatebydd ynghylch gwasanaethau integredig ac ymyrraeth gynnar ond mae'n parhau i fod yn fodlon nad yw'r materion a nodwyd yn newid yr achos cyffredinol dros y cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Thema 5.	Manteision i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
-----------------	--

Thema amlwg yn y sylwadau oedd effaith gadarnhaol bosibl y cynnig ar blant, pobl ifanc a theuluoedd. Nododd yr ymatebydd y byddai'r ddarpariaeth arfaethedig yn creu cyfleoedd ychwanegol i blant gael mynediad at weithgareddau strwythuredig, perthnasoedd cefnogol a phrofiadau cyfoethogi y tu hwnt i'r diwrnod ysgol traddodiadol.

Awgrymodd y cyflwyniad y gall mynediad at ofal plant a darpariaeth ieuenctid helpu i gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol a phersonol plant. Ystyriwyd bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn cyfrannu at ddatblygu hyder, sgiliau cyfathrebu, annibyniaeth a gwydnwch. Roedd yr ymatebydd hefyd o'r farn y gallai'r cyfleoedd hyn ategu'r ddarpariaeth addysgol trwy gefnogi agweddau ehangach ar ddatblygiad plant.

Ar gyfer teuluoedd, tynnwyd sylw at y manteision ymarferol sy'n gysylltiedig â gofal plant hygyrch a gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn lleol. Awgrymwyd y gall darpariaeth o'r fath helpu i leihau pwysau ar rieni a gofawyr yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i deuluoedd gael mynediad at gymorth yn eu cymuned eu hunain. Roedd yr ymatebydd o'r farn y gallai'r ffactorau hyn gyfrannu at well llesiant teuluoedd a chyfranogiad cymunedol cryfach.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn cydnabod sylwadau'r ymatebydd ynghylch pwysigrwydd darparu cyfleoedd sy'n cefnogi datblygiad a llesiant ehangach plant a phobl ifanc. Cydnabyddir y gall mynediad at amgylcheddau cefnogol, cyfleoedd cyfoethogi a gwasanaethau priodol gyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau dysgwyr a llesiant teuluoedd.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus effaith bosibl y cynnig ar blant a theuluoedd drwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu. Rhoddwyd sylw arbennig i lesiant dysgwyr, parhad y ddarpariaeth addysgol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), trefniadau pontio a mynediad at wasanaethau cymorth. Mae'r materion hyn wedi bod yn rhan bwysig o'r asesiad cyffredinol.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trefniadau pontio manwl yn cael eu datblygu i gefnogi dysgwyr a theuluoedd. Byddai'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn, rhieni, staff a gwasanaethau cymorth perthnasol i leihau aflonyddwch a sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu'n briodol drwy gydol y broses bontio.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod gwasanaethau cymorth ehangach, trefniadau gofal plant a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn ystyriaethau pwysig. Mae'r materion hyn wedi'u codi gan nifer o randdeiliaid a byddant yn parhau i lywio trefniadau cynllunio a gweithredu yn y dyfodol lle bo hynny'n berthnasol.

Er bod yr Awdurdod yn nodi asesiad cadarnhaol yr ymatebodd o'r manteision posibl i blant a theuluoedd, mae'n parhau i fod o'r farn nad yw'r ystyriaethau hyn yn gorbwyso'r heriau addysgol ac ariannol a nodir yn y cynnig.

Thema 6.	Cyfleoedd rhwng Cenedlaethau a Chydlyniant Cymdeithasol
-----------------	--

Nododd yr ymatebydd weithgarwch rhwng cenedlaethau fel agwedd arbennig o gadarnhaol ar y cynnig. Awgrymodd y gallai creu cyfleoedd i bobl o wahanol oedrannau ymgysylltu â'i gilydd gynhyrchu amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, addysgol a llesiant yn ogystal â helpu i gryfhau perthnasoedd cymunedol.

Nododd y sylw y gall gweithgareddau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn hyrwyddo dealltwriaeth rhwng cenedlaethau a'u hannog i rannu profiadau, gwybodaeth a sgiliau. Ystyriwyd bod rhyngweithio o'r fath yn fuddiol i gyfranogwyr iau ac i drigolion hŷn a allai fel arall gael llai o gyfleoedd i ymgysylltu'n gymdeithasol.

Awgrymodd yr ymatebydd ymhellach y gall gweithgareddau rhwng cenedlaethau gryfhau hunaniaeth gymunedol a meithrin mwy o ymdeimlad o bwrpas a rennir. Trwy ddod â gwahanol rannau o'r gymuned at ei gilydd, ystyriwyd bod gan y cynnig y potensial i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, annog gwirfoddoli a chefnogi cydlyniant cymunedol cryfach. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod y canlyniadau hyn yn arbennig o werthfawr mewn cymunedau gwledig lle mae perthnasoedd lleol yn aml yn chwarae rhan bwysig mewn llesiant cymunedol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu sylwadau'r ymatebydd ynghylch gwerth gweithgareddau rhwng cenedlaethau a'r cyfraniad posibl y gall mentrau o'r fath ei wneud tuag at lesiant cymunedol. Mae'r

Awdurdod yn cydnabod y gall cyfleoedd i bobl o wahanol oedrannau ryngweithio hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cyd-ddealltwriaeth a pherthnasoedd cymunedol cryfach.

Mae pwysigrwydd cydlyniant cymunedol wedi bod yn thema amlwg trwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu, ac mae llawer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl y cynnig ar hunaniaeth gymunedol a chyfranogiad lleol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y pryderon hyn yn llawn fel rhan o'i asesiad.

Cydnabyddir arsylwadau'r ymatebydd ynghylch gwerth gweithgareddau cymunedol a rennir a mentrau cydweithredol. Gall gweithgareddau o'r fath gefnogi llesiant, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac annog mwy o ymgysylltu ar draws gwahanol rannau o'r gymuned. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rôl gadarnhaol y gall y cyfleoedd hyn ei chwarae mewn cymunedau gwledig.

Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried a yw gweithrediad parhaus yr ysgol yn ddull cynaliadwy o ddarparu addysg. Er bod cydlyniant cymunedol yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig, rhaid iddo gael ei gydbwyso ochr yn ochr â ffactorau fel niferoedd dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol, trefniadau arweinyddiaeth a gwydnwch addysgol.

Felly, mae'r Awdurdod yn croesawu arsylwadau'r ymatebydd ynghylch cyfleoedd rhwng cenedlaethau yn ogystal â chadw ei farn bod y cynnig yn parhau i fod yn gyfiawn pan ystyrir yr holl ffactorau perthnasol gyda'i gilydd.

Thema 7.	Aliniad ag Amcanion Llesiant a Pholisi Ehangach
-----------------	--

Roedd y sylw hefyd yn ystyried y cynnig yng nghyd-destun amcanion polisi ehangach sy'n ymwneud â llesiant, cynhwysiant, cydraddoldeb ac atal. Mynegodd yr ymatebydd y farn bod y cynnig yn adlewyrchu uchelgeisiau ehangach i greu cymunedau iachach, mwy gwydn a chysylltiedig trwy ymyrraeth gynnar a chymorth cymunedol.

Rhodddwyd pwyslais arbennig ar werth gwasanaethau atal sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cyn iddynt ddatblygu'n faterion mwy arwyddocaol. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod ffocws y cynnig ar lesiant, ymgysylltu cymunedol a hygyrchedd yn cyd-fynd â dulliau sefydledig o hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i unigolion a chymunedau.

Awgrymodd y sylw hefyd fod y cynnig yn adlewyrchu egwyddorion sy'n gysylltiedig â chreu amgylcheddau cynhwysol lle gall unigolion o bob oed a chefnidir gael mynediad at gymorth a

chymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Ystyriwyd yr ymrwymiad hwn i hygyrchedd a chynhwysiant fel elfen bwysig o lesiant cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod yn nodi barn yr ymatebydd bod elfennau o'r cynnig yn cyd-fynd ag egwyddorion ehangach sy'n ymwneud â llesiant, cynhwysiant, atal a grymuso cymunedol. Mae'r amcanion hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn ystod o strategaethau cenedlaethol a lleol ac maent yn ffurfio ystyriaethau pwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd dulliau ataliol ac yn cytuno y gall galluogi unigolion a chymunedau i gael mynediad at gymorth yn gynnar gyfrannu at ddeilliannau hirdymor gwell. Mae ystyried llesiant, cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan o fframwaith gwneud penderfyniadau ehangach yr Awdurdod ac mae wedi llywio asesiadau a gynhaliwyd drwy gydol y broses trefniadaeth ysgolion.

Mae cyfeiriad yr ymatebydd at amcanion polisi ehangach wedi'i nodi a'i ystyried ochr yn ochr â'r asesiadau statudol a gwblhawyd mewn perthynas â'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried effeithiau addysgol, effeithiau cymunedol, goblygiadau ar y Gymraeg, ystyriaethau cydraddoldeb a'r gofynion ychwanegol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gall agweddau ar y cynnig gefnogi amcanion llesiant ehangach, mae'n parhau i fod yn angenrheidiol asesu'r cynnig yn erbyn gofynion penodol y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chynaliadwyedd darpariaeth addysgol. Mae'r Awdurdod yn parhau i gredu mai'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol o hyd i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Yn unol â hynny, er bod arsylwadau'r ymatebydd yn cael eu croesawu a'u nodi, nid ydynt yn darparu tystiolaeth a fyddai'n arwain yr Awdurdod i ddiwygio neu dynnu'r cynnig yn ôl.

Thema 8.

Cefnogaeth mewn Egwyddor i'r Weledigaeth Gyffredinol a'r Cyfeiriad Strategol

Roedd y sefyllfa gyffredinol a nodir yn y sylw yn un o gefnogaeth mewn egwyddor i'r weledigaeth ehangach, yr amcanion a'r deilliannau arfaethedig a ddisgrifir yn y cynnig. Er bod yr ymatebydd wedi nodi'n benodol nad oeddent yn ceisio gwneud sylwadau ar rinweddau'r broses trefniadaeth ysgolion statudol ei hun, nododd fod llawer o agweddau ar y cynnig yn cyd-fynd yn agos â'u hamcanion sefydliadol a'u dealltwriaeth o arfer da wrth hyrwyddo llesiant.

Roedd yr ymatebydd o'r farn bod y cynnig yn cyflwyno gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar, llesiant, gwydnwch cymunedol a chysylltiad cymdeithasol. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod yr amcanion hyn yn gyson â thystiolaeth sy'n ymwneud â deilliannau iechyd meddwl cadarnhaol a datblygiad cymunedol effeithiol. Yn benodol, croesawodd y pwyslais ar gefnogi plant, teuluoedd ac unigolion agored i niwed wrth gryfhau seilwaith cymunedol.

Daeth y sylw i ben trwy fynegi cefnogaeth i uchelgeisiau cyffredinol y cynnig i wella llesiant, lleihau arwahanrwydd a chreu cymuned wledig gryfach a mwy gwydn. Nododd yr ymatebydd hefyd ei fod yn barod i ymgysylltu â'r Awdurdod ar faterion sy'n gysylltiedig â llesiant yn y dyfodol a chydabod potensial y cynnig i gyflawni manteision sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg i lesiant cymunedol ehangach a datblygiad cymdeithasol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu cefnogaeth yr ymatebydd mewn egwyddor i'r amcanion a'r dyheadau ehangach a ddisgrifir yn y cynnig. Mae'r Awdurdod yn nodi bod yr ymatebydd wedi tynnu sylw at y manteision posibl sy'n gysylltiedig â chryfhau strwythurau cymorth cymunedol, hyrwyddo llesiant, lleihau arwahanrwydd a meithrin mwy o wydnwch mewn cymunedau gwledig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod eglurhad yr ymatebydd bod eu sylwadau'n ymwneud yn bennaf â'r weledigaeth a'r amcanion ehangach sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn hytrach na'r broses trefniadaeth ysgolion statudol ei hun. Fodd bynnag, mae'r arsylwadau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r sylwadau a ddaeth i law.

Mae cefnogaeth yr ymatebydd yn adlewyrchu un o nifer o safbwyntiau a fynegwyd trwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu. Er bod llawer o sylwadau yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch y posibilrwydd o gau'r ysgol, nododd rhai ymatebwyr hefyd gyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â modelau amgen o ddarparu gwasanaethau, datblygu cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Awdurdod wedi ceisio ystyried yr holl safbwyntiau a ddaeth i law mewn modd cytbwys a chymesur.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol ar draws yr ardal yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn gallu diwallu anghenion dysgwyr presennol ac yn y dyfodol. Wrth ddod i'w gasgliadau, mae'r Awdurdod wedi cydbwyso ystyriaethau addysgol, ariannol, strategol a chymunedol ynghyd â'r holl sylwadau a ddaeth i law.

Ar ôl ystyried y sylw yn llawn, mae'r Awdurdod yn nodi'r gefnogaeth a fynegwyd dros amcanion cyffredinol y cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r materion a godwyd yn newid asesiad yr Awdurdod o'r cynnig na'i gasgliad y dylai'r cynnig fynd ymlaen i'w benderfynu yn unol â'r broses statudol.

ATODIAD C – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Y Pwnc: Y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddarau yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2026 a'r cyfnod gwrthwynebu a gynhaliwyd rhwng Mehefin a Gorffennaf 2026. Mae'n adleisio'r materion a'r dystiolaeth a godwyd gan ymgynghoreion, a oedd yn cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned, disgyblion a rhanddeiliaid eraill, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018.

1. Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu. Ym mis Medi 2026 roedd 24 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol.

Blwyddyn	Nifer y disgyblion	Yn y dalgylch	Y tu allan i'r dalgylch	Yn y dalgylch mewn ysgolion eraill*
CYBLD 2026	32	25	7	22*
Ysgolion Eraill				
*Bancyfelin, Brynsaron, Griffith Jones, Hafodwenog, Tre Ioan, Model				

2. Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol:

Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Celf a Chrefft bob dydd Mawrth, gan roi cyfle i ddisgyblion feithrin eu creadigrwydd a mwynhau cydweithio ar amrywiaeth o brosiectau. Nid yw'r ysgol yn darparu clwb brecwast ar hyn o bryd.

3. Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu:

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore lau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd.

4. Defnydd arall gan y gymuned o adeilad yr ysgol

Nid yw Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, gan fod y Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau lleol.

5. Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned

Mae'r ysgol yn falch o'u cysylltiadau lleol cryf â'r gymuned sydd wedi'u hymgorffori ar draws ei hymarfer dyddiol a dyluniad cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn perfformio ddwywaith y flwyddyn i'r trigolion oedrannus lleol, a hynny mewn cartrefi gofal ac mewn digwyddiadau cymunedol. Maent yn croesawu ymweliadau misol gan y ficer lleol i arwain addoli ar y cyd ac ymweliadau ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn ymweld ag eglwys y pentref, gan ganiatáu i'r plant archwilio treftadaeth ddiwylliannol. Maent yn gwneud gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref sy'n cael eu cynllunio a'u harwain gan y disgyblion. Maent yn cynnal y Ffair Nadolig a Ffair yr Haf yn y Neuadd Ieuenctid yn ogystal â pherfformio sioeau Nadolig blynyddol yn Neuadd yr Eglwys. Mae'r ysgol yn cynnal teithiau cerdded 'Glanhau' o amgylch y pentref i hyrwyddo gofal am yr amgylchedd a chodi arian ar gyfer llawer o elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae pobl leol yn dod i'r ysgol i siarad am eu diddordebau, busnesau ac ati.

Yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu statudol, tynnodd rhanddeiliaid sylw dro ar ôl tro at gyfraniad yr ysgol i fywyd cymunedol y tu hwnt i'w rôl addysgol ffurfiol. Roedd yr ymatebwyr yn disgrifio Ysgol Gynradd Meidrim fel canolbwynt pwysig ar gyfer rhyngweithio rhwng teuluoedd, sefydliadau lleol a gwahanol genedlaethau o drigolion. Roedd llawer o'r farn bod yr ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin ysbryd cymunedol, cefnogi cyfranogiad lleol a chryfhau perthnasoedd o fewn y pentref. Nodwyd yr ysgol yn aml fel symbol o hunaniaeth a pharhad cymunedol, ac roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio ei chyfraniad at gynnal cysylltiadau cymdeithasol a chefnogi ymdeimlad cryf o berthyn yn yr ardal leol. **(Themâu Gwrthwynebu 1, 6, 9, 15 a 24).**

Thema amlwg drwy gydol y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu oedd y cysylltiad hirsefydlog rhwng Ysgol Gynradd Meidrim a chenedlaethau o deuluoedd lleol. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr yr ysgol fel rhan bwysig o hanes a threftadaeth y pentref, gan nodi bod sawl cenedlaeth o'r un teuluoedd wedi mynychu'r ysgol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod yr ysgol yn cyfrannu at ymdeimlad a rennir o hunaniaeth a pharhad o fewn y gymuned a mynegodd bryder y byddai ei chau yn arwain at golli sefydliad sy'n gysylltiedig yn agos â hanes a chymeriad y pentref. Mae'r Awdurdod yn cydnabod arwyddocâd y sylwadau hyn ac wedi eu hystyried fel rhan o'r asesiad ehangach o'r effaith ar y gymuned.

Mae'n werth nodi, hyd yn oed ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig, fod cydnabyddiaeth o'r cyfraniad pwysig y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Roedd sylwadau cefnogol yn cydnabod amgylchedd addysgol cadarnhaol yr ysgol a'r rôl werthfawr ym mywyd y pentref, gan gydnabod yr heriau o ran cynaliadwyedd tymor hwy sy'n wynebu'r ysgol.

(Thema Gefnogol 3)

6. Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble fyddent yn cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cau?

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore lau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a chael eu gweithredu, gallai'r grŵp Cylch Ti a Fi symud i'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref.

O ran dyfodol adeilad yr ysgol, os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ac na fydd angen Ysgol Gynradd Meidrim mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, ymagwedd gyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben corfforaethol mewnol arall. Os na fydd unrhyw ofyniad o'r fath yn cael ei nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusenol neu fentrau cymdeithasol, megis y Cylch Meithrin, yn amodol ar angen lleol clir gyda thystiolaeth.

7. P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella

neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);

Nid oes unrhyw gynlluniau i wella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu'n ehangach fel rhan o'r cynnig presennol.

8. Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;

Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol gynradd ar gyfer disgyblion 3 -11 oed. Mae gan yr ysgol gyfleusterau ac adnoddau modern. Mae'r dosbarth meithrin yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i blant dan bump oed.

Mae neuadd yr ysgol, ynghyd â llwyfan sefydlog a symudol, yn cefnogi mynegiant creadigol trwy ddrama ac yn ddelfrydol ar gyfer cynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae caeau chwarae eang yn caniatáu i blant fwynhau ystod eang o weithgareddau chwaraeon. Mae'r gampfa fawr, wedi'i chyfarparu'n dda yn cynnig lle ar gyfer gymnasteg, symud, pêl-rwyd, pêl-fasged,awns, athletau a badminton. Ym mis Medi 2022, agorwyd llyfrgell newydd i gefnogi a gwella datblygiad darllen disgyblion.

Mae gan Ysgol Griffith Jones Glwb Brecwast, sy'n gweithredu bob bore o 8:05am tan 8:40am yn neuadd yr ysgol.

Mae Clwb yr Enfys yn rhedeg y clwb ar ôl ysgol o 3:00pm i 5:55pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Am ffi o £10 y sesiwn, cynigir byrbryd iach i blant a chyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored, yn dibynnu ar y tywydd.

Yn ogystal â Chlwb yr Enfys, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o Glybiau Gweithgareddau ar ôl Ysgol yn ystod Tymor yr Hydref. Mae'r rhain yn cynnwys clwb chwaraeon; clwb celf; awnsio gwerin; clwb TGCh; clwb Ffrangeg; clwb coginio; clwb gwyddoniaeth a chlwb drama. Mae Clwb Chwaraeon y Ddraig hefyd yn cynnig amrywiaeth o chwaraeon yn ystod y tymor, gan gynnwys pêl-rwyd; pêl-droed; rygbi; criced ac athletau.

Mae Ysgol Hafodwenog yn ymfalchïo mewn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, ac mae'n cystadlu'n flynyddol mewn cystadlaethau grŵp ac unigol. Eleni, cafodd disgyblion lwyddiant nodedig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam, gan ennill tair gwobr am glocsio, y parti unsain i ysgolion â hyd at 50 o ddisgyblion, a'r

parti dawnsio gwerin i ysgolion â hyd at 100 o ddisgyblion. Hefyd, enillodd y grŵp clocsio y drydedd wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd. Mae'r ysgol hefyd yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd, gan ddangos brwdfrydedd a doniau'r disgyblion y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae cyflawniadau academiaidd a diwylliannol yr ysgol yn cynnwys ennill un o'r prif wobrau yng nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ar gyfer prosiect Hanes Fictoriaidd yn seiliedig ar ardal Trelech a bod ymhlith yr ysgolion cyntaf yn y sir i dderbyn gwobr Aur y Siarter Iaith yn haf 2023. Mae'r disgyblion yn cael budd o addysg gerddorol gyfoethog; cynigir gwersi ffidil i Flynyddoedd 3–6 drwy Wasanaeth Cerdd y Sir ac mae gwersi telyn ar gael i bob disgybl drwy diwtor allanol. Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol hefyd yn cael ei ddathlu, ac mae'r ysgol yn falch o gyflawni ei seithfed Gwobr Blatinwm Eco-ysgolion - cyflawniad eithriadol i ysgol fach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo llais ac arweinyddiaeth disgyblion drwy ei chyngor ysgol gweithredol, '*Hafod Hwylus*'. Mae'r grŵp hwn yn trefnu gweithgareddau elusennol, yn dylanwadu ar bolisiâu'r ysgol, ac yn cyflwyno ei syniadau a'i gynnydd i'r Llywodraethwyr yn rheolaidd. Mae amrywiaeth eang o glybiau yn cyfoethogi bywyd yr ysgol, gan gynnwys Clwb Brecwast dyddiol, '*Clwb Clocsio*' yn ystod tymor y gwanwyn, a '*Clwb Hwyl*' - sef clwb gofal ar ôl ysgol sydd ar gael ar ddydd Mercher a dydd Iau rhwng 3:45pm a 5:30pm.

Mae cyfranogiad cymunedol wrth wraidd ethos yr ysgol. Mae ciniawau cymunedol tymhorol yn dod â disgyblion a phobl leol at ei gilydd, ac yn aml bydd perfformiadau neu weithgareddau ar y cyd fel gemau ar ôl y ciniawau hyn. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn chwarae rôl amhrisiadwy trwy ddarllen gyda disgyblion, cefnogi grwpiau cerddorol a dawns, a hyd yn oed helpu i ddatblygu ardaloedd dysgu yn yr awyr agored—fel gardd synhwyrâu a grëwyd mewn partneriaeth ag *Adam yn yr Ardd* a gwelyau plannu newydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan rieni. Mae cynnyrch sy'n cael ei dyfu yn yr ysgol yn cael ei werthu i rieni ac aelodau o'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr a rhieni hefyd yn helpu gyda hyfforddiant chwaraeon mewn gweithgareddau gan gynnwys rownderi, pêl-rwyd, rygbi a chriced.

Mae Hafod Hwylus yn trefnu digwyddiadau cymunedol rheolaidd fel Prynhawn Coffi Macmillan, Eisteddfod yr Ysgol, gwasanaeth Diolchgarwch, a sesiynau casglu sbwriel o amgylch y pentref. Mae'r ysgol hefyd yn darparu safle ailgylchu dillad i'r gymuned.

Mae cysylltiadau cryf yn cael eu cynnal â Chapel y Graig, lle mae disgyblion yn perfformio'n rheolaidd mewn cymanfaoedd canu a chyngherddau, ac mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y capel. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda â Chylch Meithrin Trelech gan wneud gweithgareddau ar y cyd, gan gynnwys Diwrnod Shwmae Su'mae, sesiynau chwaraeon, a diwrnodau ffotograffiaeth. Mae'r Cylch yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian ac yn cwrdd yn rheolaidd ar gyfer sesiynau Clwb Ti a Fi, a hyd yn oed yn ymuno â'r disgyblion am ginio unwaith y mis.

Mae Aelwyd Hafodwenog yn cwrdd yn wythnosol ar safle'r ysgol, ac mae'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yn weithgar iawn, gan gynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau cymunedol fel noson rownderi sy'n dod â chlybiau ffermwyr ifanc lleol, capeli a grwpiau cymunedol at ei gilydd. Mae rhieni hefyd yn cynnal diwrnod cynnal a chadw blynyddol i helpu i dacluso tiroedd yr ysgol. Mae'r Canon Ann Howells yn ymweld ddwywaith y tymor i arwain gwasanaethau gyda'r disgyblion, ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at fentrau lleol fel '*Hwb Cynnes Trelech*', lle mae disgyblion yn cysylltu â phentrefwyr drwy gemau a pherfformiadau.

Mae safle'r ysgol wedi'i ddynodi fel man cyfarfod addas a hygyrch i'r gymuned mewn argyfwng.

9. Pellter ac amser teithio i ysgol arall yn yr un categori iaith;

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones sydd tua 3.1 milltir o Feidrim neu Ysgol Hafodwenog sydd tua 6.8 milltir o Feidrim. Mae'n cymryd oddeutu 7 munud i deithio i Ysgol Griffith Jones ac oddeutu 12 munud i deithio i Ysgol Hafodwenog. Amcan yw'r amser hwn a gallai'r union amser amrywio yn dibynnu ar y traffig a ffactorau eraill fel amodau gyrru a gwaith ffordd.

10. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig;

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol a gweithredu'r opsiwn a ffeirir yn y pen draw, byddai cymorth yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a'u rhieni fel rhan o'r broses bontio.

Pe bai rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, byddai angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

11. Yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol;

O ganlyniad i'r cynnig arfaethedig i gau'r ysgol, byddai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol sy'n derbyn oherwydd mwy o bellter a phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Gallai hyn leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol, a allai gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant rhai disgyblion. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at effaith bosibl mwy o deithio ar arferion teuluol, trefniadau gofal plant a phatrymau gwaith. Codwyd pryderon y gallai teithiau hirach gynyddu'r ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â phresenoldeb ysgol a lleihau hyblygrwydd i rai teuluoedd. Er ei fod yn cydnabod y gallai fod angen addasiadau pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'r Awdurdod yn nodi y byddai cymorth cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ysgolion sy'n derbyn yn cynnig ystod eang o glybiau chwaraeon fel y nodir uchod, a fyddai'n helpu i liniaru rhai o'r effeithiau posibl trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr hefyd y berthynas rhwng mynychu ysgol bentref leol a chynnal cysylltiad â'r gymuned. Codwyd pryderon y gallai teithio i ysgolion y tu allan i'r pentref leihau cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a datblygu cyfeillgarwch yn eu hardal agos. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon hyn ac yn cydnabod y gall ysgolion gyfrannu at hunaniaeth gymunedol a chyfranogiad lleol. Mae'r effeithiau ehangach hyn wedi'u hystyried drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r broses wrthwynebu statudol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried lle bo'n bosibl a ellid cytuno ar bwynt casglu dynodedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael cludiant, er mwyn galluogi disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i gerdded rhan o'u taith ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

12. Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. effaith ar ddarpariaethau trafndiaeth gyhoeddus, materion ehangach yn ymwneud â diogelwch cymunedol

Nid oes unrhyw effeithiau disgwylidig ar wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n ofynnol yn ôl y polisi cludiant ysgol i ddarparu cludiant am ddim i unrhyw blentyn sy'n byw mwy na dwy filltir o'r ysgol briodol agosaf, felly bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gymwys.

Gallai cau adeilad yr ysgol hefyd arwain at golli lle diogel dynodedig ar gyfer argyfyngau cymunedol, fel lloches neu fan cyfarfod. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r ysgol yn cael ei defnyddio'n weithredol at y diben hwn.

Yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu, cododd ymatebwyr bryderon ynghylch yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â theithio ar rwydweithiau ffyrdd gwledig, gan gynnwys lonydd cul, lleoedd pasio cyfyngedig, llifogydd tymhorol ac amodau tywydd garw. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gall teithio mewn ardaloedd gwledig gyflwyno heriau gwahanol i'r rhai a brofwyd mewn lleoliadau trefol gan fynegi pryderon ynghylch dibynadwyedd a hygyrchedd teithiau yn ystod cyfnodau o dywydd gwael. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi y byddai unrhyw drefniadau cludiant a ddarperir yn destun asesiadau diogelwch priodol ac y byddai'n gweithredu yn unol â gofynion perthnasol o ran cludiant a diogelu.

13. Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys nifer o ystyriaethau eraill sydd hefyd yn debygol o fod yn berthnasol o ran asesu effaith cau ysgol wledig ar y gymuned. Gan fod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei nodi fel ysgol wledig, ystyrir y ffactorau hyn isod.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn benodol at y rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig a gynhwysir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dadleuodd gwrthwynebwyr fod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu buddion addysgol, cymdeithasol, ieithyddol a chymunedol y dylid rhoi pwysau sylweddol iddynt wrth ystyried ei dyfodol. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar gyfraniad yr ysgol at gynaliadwyedd cymunedol, defnydd y Gymraeg, hunaniaeth leol a chadw poblogaeth. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses asesu ochr yn ochr â thystiolaeth sy'n ymwneud â chynaliadwyedd addysgol, amcanestyniadau o nifer y disgyblion, hyfywedd ariannol ac argaeledd darpariaeth amgen.

- **A fyddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd â phlant o oedran ysgol i adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned;**

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n gadael Meidrim heb ysgol leol ac o ganlyniad gallai'r pentref ddod yn llai deniadol i deuluoedd â phlant ifanc, gan gyflymu'r dirywiad demograffig a heneiddio'r boblogaeth. Wrth i deuluoedd o bosibl geisio mynediad haws at wasanaethau ac addysg, gall trosiant eiddo godi, ond gall y galw am dai gan deuluoedd ifanc ostwng.

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr y farn bod presenoldeb mewn ysgol gynradd leol yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd ynghylch ble maent yn dewis byw a magu plant. Dadleuodd sawl gwrthwynebydd y gallai colli'r ysgol wneud Meidrim yn llai deniadol i ddarparu deuluoedd ac o bosibl gyfrannu at newid demograffig dros amser. Codwyd pryderon hefyd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y pentref a'r effaith bosibl ar y galw am dai yn y dyfodol. Er bod y pryderon hyn yn cael eu cydnabod, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ystod eang o ffactorau yn dylanwadu ar dueddiadau'r boblogaeth, gan gynnwys argaeledd tai, cyfleoedd cyflogaeth, mynediad at wasanaethau a phatrymau demograffig ehangach. (*Themâu Amcanion 1,13 a 23*)

- **Pa effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y gymuned;**

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore lau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt ac yn cael eu gweithredu, byddai'n ofynnol i'r grŵp Cylch Ti a Fi symud.

- **A yw'r ysgol yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd a digwyddiadau eraill lle daw pobl at ei gilydd – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n dioddef o gael eu symud i rywle arall;**

Nid yw adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, gan fod y Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau lleol.

Er nad yw adeilad yr ysgol ei hun yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol ehangach, dadleuodd llawer o ymatebwyr fod rôl yr ysgol fel canolfan gymunedol yn ymestyn y tu hwnt i'r defnydd o'r adeilad ffisegol. Trwy gydol y broses wrthwynebu, tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd yr ysgol o ran dod â disgyblion, teuluoedd, trigolion a grwpiau cymunedol ynghyd trwy weithgareddau addysgol a diwylliannol, yn ogystal â gweithgareddau codi arian a gweithgareddau cymdeithasol. Roedd ymatebwyr yn disgrifio'r ysgol yn aml fel sefydliad allweddol yn y pentref gan awgrymu bod ei gwerth yn deillio cymaint o'r perthnasoedd a'r rhwydweithiau cymunedol y mae'n helpu i'w cynnal nag o'r adeilad ei hun. Mae'r swyddogaethau cymunedol ehangach hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad o'r cynnig.

- **A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned;**

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai cau'r ysgol gael effaith ehangach ar sefydlogrwydd economaidd y gymuned leol. Trwy gydol y broses ymgynghori a gwrthwynebu, mynegodd ymatebwyr bryderon y gallai colli'r ysgol leihau dengarwch yr ardal i deuluoedd ifanc, dylanwadu ar y galw am dai yn y dyfodol a chyfrannu at newid demograffig dros amser. Dadleuodd sawl rhanddeiliad fod ysgolion gwledig yn cefnogi cynaliadwyedd lleol trwy helpu i gadw teuluoedd o fewn y gymuned a chefnogi hyfywedd cyfleusterau a gwasanaethau lleol eraill. Er ei bod yn anodd meintoli maint yr effeithiau posibl hyn, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ysgolion gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig ac mae wedi ystyried y sylwadau hyn fel rhan o'r broses asesu gyffredinol.

Cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch effeithiau economaidd anuniongyrchol yn sgil cau'r ysgol. Awgrymwyd y gallai dileu darpariaeth addysgol leol ddylanwadu ar y galw am dai yn y dyfodol, lleihau dengarwch yr ardal i deuluoedd iau a chyfrannu at newidiadau demograffig tymor hwy. Er bod tystiolaeth ynghylch yr effeithiau hyn yn ansicr, mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad cyffredinol o gynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol. (*Themâu Amcanion 1, 20 a 23*)

- **Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn**

enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol ac yn gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw, bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig i ddisgyblion a'u rhieni drwy gydol y cyfnod pontio.

Mynegodd sawl ymatebydd bryder y gallai pellteroedd teithio cynyddol effeithio ar allu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau cymunedol a chyfleoedd cymdeithasol y tu allan i'r diwrnod ysgol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y gweithgareddau hyn wrth gefnogi llesiant, datblygiad cymdeithasol a chyfranogiad cymunedol. Mae'r ddwy ysgol sy'n derbyn yn cynnig ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol ac, fel rhan o gynllunio pontio, byddai cymorth yn cael ei ddarparu i helpu disgyblion a theuluoedd i gael mynediad at y gweithgareddau hyn ac ymgysylltu â nhw ar ôl trosglwyddo.

- **Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol.**

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod yr ysgol yn cau, byddai'n ofynnol i'r ddarpariaeth Cylch Ti a Fi symud i leoliad arall yn y gymuned. Er nad yw adeilad yr ysgol ei hun yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau cymunedol ehangach, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod cyfraniad yr ysgol yn ymestyn y tu hwnt i'r defnydd ffisegol o'r safle. Roedd nifer sylweddol o randdeiliaid wedi disgrifio'r ysgol fel cyfrannwr pwysig at gydlyniant cymunedol, defnydd o'r Gymraeg, hunaniaeth leol, perthnasoedd rhwng cenedlaethau a gwydnwch cymunedol. Codwyd pryderon y gallai cau'r ysgol wanhau rhwydweithiau cymdeithasol sefydledig, lleihau cyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a lleihau sefydliad cymunedol pwysig sydd wedi gwasanaethu cenedlaethau o deuluoedd lleol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ysgolion, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig, yn aml yn cyflawni swyddogaethau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yn ogystal â'u rôl addysgol. Mae'r effeithiau posibl hyn wedi'u hystyried yn ofalus drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Er ei fod yn cydnabod arwyddocâd y pryderon hyn, mae'r Awdurdod wedi eu cydbwyso yn erbyn hyfywedd addysgol hirdymor yr ysgol, cynaliadwyedd ariannol a'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg

amgen addas. Rhwng popeth, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn bod y cynnig yn ymateb cymesur i'r heriau addysgol a sefydliadol sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd.

Nododd y broses wrthwynebu pryderon ehangach ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar gydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd y pentref a hunaniaeth gymunedol. Dadleuodd llawer o ymatebwyr fod arwyddocâd yr ysgol yn deillio nid yn unig o'r defnydd o'r adeilad ffisegol ond hefyd o'i rôl fel sefydliad cymunedol sy'n dod â theuluoedd at ei gilydd, yn cefnogi perthnasoedd lleol ac yn cyfrannu at gymeriad diwylliannol ac ieithyddol yr ardal. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r effaith gronol bosibl o golli gwasanaeth lleol pellach o fewn cymuned wledig a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddengarwch y pentref i deuluoedd ifanc, cynaliadwyedd y boblogaeth yn y dyfodol a gwydnwch cymunedol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y pryderon hyn yn ofalus a'u cydbwysu yn erbyn ystyriaethau addysgol, sefydliadol ac ariannol.

Er bod cyfleusterau cymunedol amgen ar gael yn y pentref, dadleuodd nifer o ymatebwyr nad yw'r cyfleusterau hyn yn efelychu rôl addysgol, gymdeithasol a symbolaidd yr ysgol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid nad yw gwerth canfyddedig Ysgol Gynradd Meidrim yn ymwneud yn unig â'r adeilad sydd ar gael ond hefyd y perthnasoedd, y gweithgareddau a'r rhwydweithiau cymunedol sydd wedi datblygu o amgylch yr ysgol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried wrth asesu goblygiadau cymunedol ehangach y cynnig. (***Themâu Amcanion 1, 6, 9, 15, 20, 23 a 24***)

14. Materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mynegwyd ystod eang o safbwyntiau mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebion yn codi pryderon am yr effaith bosibl ar y gymuned leol. Roedd yr ysgol yn cael ei hystyried yn eang fel ased cymunedol canolog, gan wasanaethu nid yn unig fel man addysg ond hefyd fel canolbwynt i fywyd y pentref ac angor i deuluoedd lleol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gallai gau'r ysgol danseilio cynaliadwyedd y gymuned wledig, gan gyfrannu at ostyngiad yn y boblogaeth a lleihau dengarwch yr ardal i deuluoedd ifanc. Yn ogystal, tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth gefnogi cydlyniant cymunedol a'i gwerth cymdeithasol ehangach fel ystyriaethau allweddol.

Roedd mater amlwg arall yn ymwneud â'r effaith bosibl ar y Gymraeg. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, ystyriwyd Ysgol Meidrim yn rhan annatod o gynnal a hyrwyddo'r

Gymraeg yn yr ardal. Mynegodd yr ymatebwyr bryderon y gallai cau'r ysgol leihau'r defnydd o'r iaith yn lleol a chael effaith niweidiol ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol yr ardal, yn enwedig o fewn cyd-destun gwledig lle mae ysgolion yn aml yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch i ba raddau y mae'r "rhagdybiaeth yn erbyn cau" ysgolion gwledig wedi cael ei rhoi ar waith. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cynnig wedi'i ddatblygu heb archwilio opsiynau amgen yn ddigonol ac na ddangoswyd yn glir mai opsiwn os oedd popeth arall wedi methu oedd cau'r ysgol, fel sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol. Yn y cyd-destun hwn, roedd gwrthgynnig y corff llywodraethu i ddatblygu'r ysgol fel canolfan gymunedol wedi denu sylw, ac roedd galwadau am ymgysylltu a chydweithrediad mwy ystyrlon â'r awdurdod lleol i archwilio opsiynau amgen cynaliadwy yn ystod y broses ymgynghori.

Roedd pryderon ychwanegol yn ymwneud â darpariaeth addysgol a llesiant disgyblion. Nododd yr ymatebion fod yr ysgol yn gwella ac yn darparu amgylchedd cefnogol, gan gynnwys i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd pryderon hefyd ynglŷn ag effaith bosibl cau'r ysgol ar ddisgyblion, gan gynnwys mwy o bellteroedd teithio, tarfu ar addysg, a goblygiadau unrhyw bontio sy'n digwydd yn ystod blwyddyn academiaidd. Cwestiynwyd agweddau ariannol y cynnig yn yr un modd, ac roedd rhai rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod yr arbedion a ragwelir yn gymharol gymedrol wrth gydbwysu costau trafnidiaeth cynyddol a cholli gwerth cymunedol ehangach.

Ochr yn ochr â'r pryderon hyn, mynegodd nifer o ymatebion gefnogaeth i'r cynnig, gan gyfeirio'n bennaf at yr angen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a defnydd effeithlon o adnoddau. Roedd sylwadau cefnogol yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â nifer isel o ddisgyblion a gostyngiad yn nifer y disgyblion, nifer uchel o leoedd gwag, a'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth mewn ysgolion bach. Cydnabuwyd y gall ffactorau o'r fath effeithio ar y gallu i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys a'i bod yn bosibl y bydd yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r rhesymeg strategol dros adolygu'r ddarpariaeth ysgolion, gan nodi pwysigrwydd cyfarwyddo adnoddau'n effeithiol ar draws y system addysg ehangach. O'r safbwynt hwn, ystyriwyd y cynnig fel rhan o ddull ehangach o sicrhau bod addysg yn cael ei darparu mewn lleoliadau cynaliadwy a bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon er budd y nifer fwyaf o

ddisgyblion. Yn ogystal, nodwyd manteision posibl i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion mwy, gan gynnwys grwpiau cyfoedion ehangach, mwy o gyfleoedd allgyrsiol, ac ystod ehangach o arbenigedd a chyfleusterau addysgu.

Ar y cyfan, roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau. Er bod pwyslais cryf ar bwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned, y Gymraeg, a chynaliadwyedd gwledig, roedd cydnabyddiaeth hefyd ymhlith rhai ymatebwyr o'r heriau ariannol, demograffig a strategol sy'n wynebu'r ysgol a'r system addysg ehangach.

Materion a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, roedd pryderon yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar rôl Ysgol Gynradd Meidrim wrth gefnogi cydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd y pentref a hunaniaeth leol. Roedd llawer o ymatebwyr yn disgrifio'r ysgol fel calon y pentref, gan ddadlau y byddai ei chau yn cael effeithiau sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig. Roedd y gwrthwynebiadau yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cynaliadwyedd y gymuned yn y dyfodol, colli cysylltiadau rhwng cenedlaethau, yr effaith ar ddefnydd y Gymraeg a diwylliant Cymru, a'r cyfraniad y mae'r ysgol yn ei wneud at lesiant cymdeithasol a gwydnwch cymunedol. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd arwyddocâd y rhagdybiaeth statudol yn erbyn cau ysgolion gwledig, gan gwestiynu a oedd digon o bwysau wedi'u rhoi i'r effeithiau cymunedol ehangach a nodwyd.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at rôl Ysgol Gynradd Meidrim wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg o fewn y gymuned. Roedd llawer o'r farn bod yr ysgol yn gyfrannwr pwysig at drosglwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru rhwng cenedlaethau, gan godi pryderon ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn fanwl drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac maent wedi llywio gwaith yr Awdurdod o ystyried y cynnig. (***gwybodaeth wrthrychol ychwanegol***)

Roedd ymatebion cefnogol yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi'i wneud i ddisgyblion a'r gymuned ehangach tra hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol, demograffig a sefydliadol sy'n wynebu'r ysgol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried y cynnig fel ymateb pragmatig i faterion cynaliadwyedd

hirdymor ac roeddent o'r farn bod darpariaeth amgen cyfrwng Cymraeg addas yn bodoli yn yr ardal leol. (*gwybodaeth gefnogol ychwanegol*)

15. Casgliad

Cadarnhaodd yr ymgynghoriad fod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr yn y gymuned leol, yn enwedig am ei rôl wrth gefnogi cydlyniant cymunedol, cynnal y Gymraeg, a chyfrannu at wead cymdeithasol cyffredinol yr ardal. Codwyd pryderon am effeithiau negyddol posibl yn sgil cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor y pentref, llesiant disgyblion, a mynediad parhaus at addysg leol.

Fodd bynnag, roedd ymatebion hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y disgyblion, lleoedd gwag, a phwysau ariannol. Ystyriwyd bod darpariaeth amgen addas yn bodoli o fewn pellter rhesymol ac y gall cymorth pontio priodol liniaru'r effaith ar y disgyblion. Rhwng popeth, gan gydnabod yr effeithiau niweidiol posibl ar y gymuned, mae'r rhain wedi'u hystyried yn erbyn yr angen i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy o ansawdd uchel i ddysgwyr yn y dyfodol, ac ystyrir bod y cynnig yn ymateb cymesur i'r heriau hyn.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a dyletswyddau hirdymor y Cyngor, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yr effeithiau cymdeithasol a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig yn erbyn yr angen am ddarpariaeth addysg gynaliadwy o ansawdd uchel.

Dangosodd y prosesau ymgynghori a gwrthwynebu fod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan lawer o aelodau o'r gymuned ac yn cael ei hystyried yn gyfrannwr pwysig i fywyd y pentref, defnydd o'r Gymraeg, hunaniaeth leol a chysylltiadau rhwng cenedlaethau. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod pryderon ynghylch cydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd cymunedol, natur wledig yr ardal? a diwylliant Cymru yn ymestyn y tu hwnt i swyddogaeth addysgol yr ysgol a'i bod yn bosibl y bydd y pryderon hyn yn parhau os bydd y cynnig yn mynd rhagddo. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hystyried yn ofalus drwy gydol proses yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac wedi llywio gwerthusiad yr Awdurdod o'r cynnig.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod bod hyd yn oed yr ymatebwyr hynny sy'n cefnogi'r cynnig yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae'r ysgol yn ei wneud i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Yn gyffredinol, roedd ymatebion cefnogol yn derbyn bod heriau ariannol, demograffig a sefydliadol ehangach wedi creu

pryderon sylweddol o ran cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol er gwaethaf ei gwerth yn y gymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn werth addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol Ysgol Gynradd Meidrim a'r rôl bwysig y mae wedi'i chwarae ym mywyd y pentref. Serch hynny, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y broses adolygu, gan gynnwys y pryderon a'r dyheadau a fynegwyd gan randdeiliaid, mae'r Awdurdod yn fodlon bod y cynnig yn cydbwysu'n briodol ystyriaethau cymunedol yn erbyn ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy ac effeithiol. Felly, mae'r Awdurdod yn dod i'r casgliad, er y gallai'r cynnig arwain at effeithiau dirnadwy ar y gymuned, nad yw'r rhain yn gorbwysu'r ystyriaethau addysgol, sefydliadol ac ariannol hirdymor sy'n cefnogi'r cynnig.

ATODIAD D – YR ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. Cyflwyniad a Phwrrpas

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig i gau Ysgol Meidrim a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r asesiad wedi'i baratoi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Cymru), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn y cyfnodau ymgynghori statudol a gwrthwynebu mewn perthynas â'r cynnig i derfynu Ysgol Gynradd Meidrim. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cyfraniad yr ysgol at addysg cyfrwng Cymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn gymdeithasol, rôl yr ysgol wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned, ac effaith bosibl y cynnig ar weithgareddau Cymraeg a diwylliannol. Mae'r asesiad yn nodi risgiau posibl ynghyd â threfniadau lliniaru a monitro priodol, ac fe'i paratowyd yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018, Safonau'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r asesiad yn cael ei lywio gan y ddogfennaeth ymgynghori statudol sy'n ymwneud â'r cynnig i gau Ysgol Meidrim; Adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Meidrim, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog; Data Cymraeg Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac ardal Meidrim, Sanclêr a Threlech; Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032; a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Mae'r asesiad yn rhoi ystyriaeth fanylach o Ysgol Griffith Jones oherwydd ei llwybrau iaith cymysg Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) a Chategori 2 (Dwy iaith) o Flwyddyn 3 ymlaen, tra bod Ysgol Hafodwenog yn cynnig darpariaeth gyson Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) ar gyfer pob blwyddyn.

3. Y Cyd-destun: Ysgol Meidrim, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Hafodwenog a'r Cynnig

Mae Ysgol Meidrim yn ysgol gynradd gymunedol Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) 4–11 sy'n gwasanaethu cymuned wledig Sir Gaerfyrddin. Mae Ysgol Hafodwenog hefyd yn ysgol Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) 4–11, sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn dalgylch gwledig ehangach.

Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol gynradd 3–11 sy'n cynnig darpariaeth Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) drwy gydol y cyfnod Dysgu Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2), a'r Gymraeg yw'r brif iaith addysgu a dysgu. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae'r ysgol yn cynnig dewis o lwybrau iaith, gan alluogi disgyblion naill ai i barhau yn darpariaeth Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) neu i ddilyn llwybr Categori 2 (Dwy iaith).

Y cynnig yw cau Ysgol Meidrim a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, a thrwy hynny gynnal mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylcheddau dysgu Cymraeg cynaliadwy.

4. Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn benodol y Safonau Llundio Polisi (Safonau 88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a'r Safonau Gweithredu (Safonau 127–135).

Meini Effaith	Prawf	Disgrifiad	Statws yr effaith	Dulliau Lliniaru / Mesurau Posibl i wella'r effaith gadarnhaol	Effaith derfynol (yn dilyn y dulliau lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchion, arwyddion, arferion,		Mae Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Hafodwenog yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu bob dydd. Byddai trosglwyddo disgyblion yn golygu y byddai dysgwyr mewn grŵp cyfoedion	Negyddol	Cyfathrebu clir gyda Rhieni/Gwarcheid waid. Rhannu a hyrwyddo deunydd	Niwtral

<p>cyfathrebu cyffredinol)</p>	<p>Cymraeg mwy gyda threfniadau sefydledig sy'n cefnogi'r defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae Ysgol Griffith Jones hefyd yn darparu darpariaeth Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) o fewn y Cyfnod Dysgu Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2), gan sicrhau mai'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu i ddysgwyr iau. O Flwyddyn 3 ymlaen, gall disgyblion Ysgol Griffith Jones ddilyn naill ai llwybr Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) neu Categori 2 (Dwy iaith), gan alluogi mynediad parhaus at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Diffinnir Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) fel Cymraeg yw prif iaith cyfathrebu mewnol yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.</p> <p>Mewn lleoliad trochi Cymraeg mae'r holl ddysgwyr yn cael eu</p>		<p>ddwyieithog sy'n esbonio manteision addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys manteision gwybyddol, diwylliannol a gyrfaol.</p> <p>Rhannu straeon llwyddiant.</p> <p>Hyrwyddo manteision llwybr Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) i rieni a gwarcheidwaid trwy gyfathrebu clir, digwyddiadau pontio, a sesiynau gwybodaeth.</p> <p>Egluro'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog er mwyn osgoi dryswch.</p> <p>Datblygu gweithgareddau cyfoethogi pellach</p>	
---------------------------------------	--	--	--	--

	<p>haddysgu'n llawn yn Gymraeg, gyda Saesneg</p> <p>yn cael ei ddefnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod cyfnod cynnar y trochi.</p> <p>O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.</p> <p>Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.</p> <p>Diffinnir darpariaeth Categori 2 (Dwy iaith) fel dull lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol o fewn yr ysgol ac wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir a rennir bod cynnal ethos Cymraeg cryf yn hanfodol ac yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at y defnydd o'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol.</p> <p>Disgwylir i ddysgwyr mewn ysgolion o fewn y categori hwn ddatblygu'r gallu i siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao yn y Gymraeg a Saesneg, yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu cryfhau ymhellach drwy ystod gynyddol o gyfleoedd dysgu cwricwlaidd ac</p>	<p>(e.e. drama, chwaraeon, codio) drwy gyfrwng y Gymraeg i atgyfnerthu'r defnydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Rhoi cymorth ieithyddol wedi'i dargedu a chyfleoedd trochi i fagu hyder rhieni a dysgwyr wrth ddewis a chynnal addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Adolygu tueddiadau defnydd a darpariaeth iaith yn rheolaidd drwy oruchwyllo arweinyddiaeth a'r corff llywodraethu, gyda'r gallu i addasu trefniadau os yw mynediad cyfrwng Cymraeg yn cael ei wanhau.</p> <p>Cryfhau dysgu proffesiynol staff i</p>	
--	---	---	--

	<p>allgyrsiol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Gyda chymorth priodol, gall dysgwyr sy'n dilyn llwybr Categori 2 (Dwy iaith) symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol dysgwyr yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae'r Siarter iaith yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau a'i nod yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac mae'n rhan o Ddeilliant 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Mae Ysgol Meidrim wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter iaith ac mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog wedi ennill y Wobr Aur.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd y cynnig hwn yn cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gydag ystod ehangach o gyfoedion.</p> <p>Mae perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy iaith) yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain at ostyngiad</p>		<p>sicrhau addysgeg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ar draws y ddau lwybr.</p> <p>Gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i alinio'r ddarpariaeth iaith â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a llwybrau dilyniant hirdymor i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p>	
--	--	--	---	--

		yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae rhai disgyblion yn ei chael.			
Safonau darpariaeth gyfredol Gymraeg	a y	Ysgol Meidrim <p>Nododd adroddiad arolygu diweddaraf Ysgol Meidrim gan Estyn: "Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i'w siarad a mwynhau eu dysgu. Mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid yn briodol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyder a'u rhuglder yn y Gymraeg yn addas. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar disgyblion. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau darllen yn addas. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ysgrifennu cyfres o frawddegau syml gan gynnwys prif lythrennau ac atalnodi clir yn briodol. Maent yn cael cyfleoedd i ysgrifennu</p>	Niwtral	<p>Cynllunio pontio strwythuredig a chynllunio ymsefydlu i gefnogi parhad mewn dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth sylfaenol a rennir am ddatblygiad iaith Gymraeg disgyblion, hyder llafaredd, a sgiliau llythrennedd rhwng Ysgol Gynradd Meidrim, Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.</p> <p>Cymorth bugeiliol ac ieithyddol wedi'i dargedu yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r</p>	Cadarnhaol

	<p>amrywiaeth berthnasol o destunau ar y cyd â'u cyfoedion. Er hyn, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol, nid yw medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion yn cael eu datblygu'n gydlynus. Ar frig yr ysgol, pan gaiff y disgyblion gyfle i ysgrifennu'n annibynnol, maent yn ysgrifennu mewn modd diddorol gan ddefnyddio atalnodi pwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu'n ymestynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau."</p> <p>Mae bron pob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymfalchïo yn ei waith. Mae bron pob disgybl yn datblygu eu sgiliau llythrennedd yn briodol yn unol â'i oedran a'i allu. Mae bron pob disgybl yn siarad am ei waith ysgrifenedig yn effeithiol ac yn ei ddarllen. Mae rhai yn tueddu i newid i'r Saesneg wrth drafod eu gwaith. Mae craffu ar waith llythrennedd yn dangos bod prosesau ysgrifennu penodol ar waith ym Mlynnyddoedd 3 i 6, a bod camau addysgu yn dilyn dilyniant rhesymegol i godi safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft, testunau enghreifftiol, nodweddion pwrpas,</p>		<p>Gymraeg yn gymdeithasol ac yn academiaidd, yn enwedig o fewn grŵp cyfoedion mwy a lleoliad gallu cymysg.</p> <p>Addysgeg</p> <p>Gymraeg gyson a disgwyliadau ieithyddol diamwys yn yr ysgol, wedi'u hatgyfnerthu drwy arferion clir, modelu Cymraeg llafar o safon uchel, a disgwyliadau pendant ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi ac mewn cyd-destunau anffurfiol.</p> <p>Monitro cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn fanwl er mwyn nodi unrhyw fylchau yn gynnar a sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llafaredd, darllen</p>	
--	---	--	---	--

	<p>blychau, ac MPLL. Mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.</p> <p>Ysgol Griffith Jones</p> <p>Mae adroddiad arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Griffith Jones yn nodi: "Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion a'u gwybodaeth am eu hetifeddiaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn Gymry ac maent yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol gyda balchder. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiwylliant Cymru.</p> <p>Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol mewn ystod dda o weithgareddau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn awyddus i ddatblygu eu syniadau'n llwyddiannus o oed meithrin. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn dewis sain i gynrychioli cymeriadau yn stori Alun yr Arth. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae gan lawer ohonynt y medrau i drafod pynciau</p>		<p>ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn y trosglwyddiad.</p> <p>Mynediad at brofiad cwricwlwm ehangach wedi'i alluogi gan garfanau mwy o ddisgyblion, gan ddarparu cyfleoedd mwy pwrpasol ar gyfer ysgrifennu estynedig, trafodaethau grŵp, dysgu ar y cyd, a defnyddio sgiliau Cymraeg ar draws meysydd dysgu.</p> <p>Dysgu proffesiynol parhaus i staff, lle bo angen, i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyson, gwahaniaethu effeithiol, a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad iaith ar draws pob ystod gallu.</p>	
--	---	--	---	--

	<p>amrywiol yn aeddfed wrth iddynt ddadlau o blaid neu yn erbyn cael bwyty bwyd cyflym enwog yn y pentref. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog medrus. Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o lythrennau a seiniau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda chywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn fwriadus, ac yn dangos hoffter tuag at wahanol fathau o lyfrau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrediad o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith pwrpasol. Yn y ffrwd Categori 2, "Mae ychydig iawn o ddisgyblion o'r ffrwd Saesneg yn darllen nofelau Cymraeg yn fedrus iawn ac yn eu trafod yn y Gymraeg yn hyderus. Er hynny, mae medrau darllen Cymraeg llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn llai datblygedig. Maent yn esbonio'r testun yn syml</p>		<p>Gwell cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, digwyddiadau diwylliannol, a darpariaeth allgyrsiol, i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith y tu hwnt i wersi ffurfiol a chodi hyder a rhuglder disgyblion.</p> <p>Ymgysylltu dwyieithog clir â rhieni a gwarcheidwaid, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyflwyno a sut y gall teuluoedd gefnogi datblygiad y Gymraeg gartref, gan atgyfnerthu</p>	
--	---	--	---	--

	<p>ac yn ynganu geiriau'n gywir wrth ddarllen ar goedd."</p> <p>Ysgol Hafodwenog</p> <p>Mae adroddiad arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Hafodwenog yn nodi bod disgyblion "mynegi eu hunain yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n defnyddio geirfa sy'n berthnasol i bwnc penodol ac mae yna dueddiad i lawer o'r disgyblion ddefnyddio geiriau Saesneg wrth gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac maent yn dechrau creu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddarllenwyr pwrpasol ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr cymedrol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i drefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.</p>		hyder a dealltwriaeth.	
--	---	--	------------------------	--

	<p>Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyng o wahanol ffurfiau. Maent yn ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio geiriau cysylltu sylfaenol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro gallu mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ychydig o ffurfiau wrth iddynt sgriptio stori Priodas Nantgwrtheyrn. Maent yn atalnodi'n addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu'n bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig annibynnol yn ddigon aml ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae safon cyflwyniad gwaith y</p>			
--	---	--	--	--

	disgyblion yn amrywio gormod ar draws yr ysgol.			
Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (Cyfrwng Cymraeg/dwyieit hog)	<p>Ysgol Meidrim</p> <p>Ar hyn o bryd mae Ysgol Meidrim yn darparu cyfleoedd cyfoethogi cyfrwng Cymraeg cyfyngedig y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol.- Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Celf a Chrefft wythnosol, a gynhelir ar ddydd Mawrth, sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu creadigrwydd a chydweithio ar ystod o brosiectau ymarferol.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol anffurfiol drwy'r Gymraeg; ond mae cwrmpas y cynnig cyfoethogi cyffredinol yn gyfyngedig.</p> <p>Nid yw'r ysgol yn gweithredu clwb brecwast, ac nid yw'n darparu rhaglen ehangach o ddarpariaeth ar ôl ysgol neu ofal plant.-</p> <p>Ysgol Griffith Jones</p> <p>Mae Ysgol Griffith Jones yn darparu rhaglen o weithgareddau ar ôl ysgol a gweithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad ehangach disgyblion a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol a chymdeithasol.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth allgyrsiol yn cynnwys amrywiaeth o glybiau fel</p>	Cadarnhaol	<p>Hyrwyddo a chefnogi mynediad at y ddarpariaeth ar ôl ysgol a'r ddarpariaeth cyfoethogi cyfrwng Cymraeg bresennol yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol</p> <p>Hafodwenog, gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, gwersi cerddoriaeth, a chlybiau gofal plant, i annog cyfranogiad gan ddisgyblion sy'n cael eu trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim.</p> <p>Gweithgareddau ymsefydlu ac ymgyfarwyddo wedi'u cynllunio, gan alluogi'r</p>	Cadarnhaol

	<p>Clwb Canu Cŵl, Clwb Eco, Clwb Iechyd, a Chlwb Digidol, pob un yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i wersi ffurfiol.</p> <p>Mae côr yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i ymarfer caneuon Cymraeg i baratoi ar gyfer cystadlaethau a chyngherddau, gan feithrin datblygiad cerddorol, hyder a balchder diwylliannol. Mae'r disgyblion hefyd yn cael hyfforddiant mewn dawns a llefaru fel rhan o'u paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, gan gefnogi ymgysylltu â thraddodiadau diwylliannol Cymru a digwyddiadau cenedlaethol.</p> <p>Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder ieithyddol disgyblion ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ar draws grwpiau blwyddyn.</p> <p>Ysgol Hafodwenog</p> <p>Mae Ysgol Hafodwenog yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys clwb brecwast dyddiol, gofal ar ôl ysgol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon cyfrwng Cymraeg</p>	<p>disgyblion i ymuno â chlybiau yn raddol ac yn hyderus, gyda chefnogaeth staff a chyfoedion, fel eu bod yn parhau i ymgysylltu â gweithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg ar ôl y broses bontio.</p> <p>Cyfathrebu dwyieithog clir gyda rhieni a gwarcheidwaid sy'n amlinellu cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfleoedd cyfoethogi sydd ar gael, gan helpu teuluoedd i ddeall manteision cyfranogiad ac i gefnogi ymgysylltu y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.</p> <p>Defnyddio gweithgareddau cyfoethogi fel cyd-destunau iaith dilyn, gan atgyfnerthu'r</p>	
--	--	--	--

	<p>drwy'r Urdd, hyfforddiant cerddoriaeth, a chyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth disgyblion. Mae trosglwyddo'r disgyblion o Ysgol Meidrim i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn cynnig y potensial i gynyddu mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd cyfoethogi cyfrwng Cymraeg, gan alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd mewn lleoliadau anffurfiol a chymdeithasol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Gall y ddarpariaeth estynedig hon gefnogi mwy o hyder ieithyddol, agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg, ac ymgysylltiad cryfach â bywyd diwylliannol Cymru.</p>		<p>defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol drwy chwaraeon, cerddoriaeth, perfformiad, a rhyngweithio cymdeithasol, a thrwy hynny gryfhau hyder a rhuglder y disgyblion yn ogystal â'u hagweddau cadarnhaol disgyblion tuag at y Gymraeg.</p> <p>Partneriaeth barhaus yn gweithio gyda'r Urdd a sefydliadau Cymraeg lleol, gan sicrhau mynediad parhaus at gyfleoedd diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	
Cyfleoedd cymunedol	Byddai'r newid arfaethedig yn cael effaith niwtral yn bennaf ar	Negyddol	Cynnal cysylltiadau â chymuned	Niwtral

<p>(cymorth i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach)</p>	<p>gyfleoedd cymunedol i rieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach drwy ddarparu mynediad i raglen sefydledig ac eang Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o ymgysylltu â'r gymuned, gwirfoddoli, partneriaethau blynyddoedd cynnar a gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg, a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a chryfhau cydlyniant cymunedol.</p> <p>Fodd bynnag, mae effaith negyddol bosibl mewn perthynas ag adleoli rhai gweithgareddau cymunedol a gynhaliwyd yn flaenorol yng nghymuned Meidrim, a allai effeithio ar gyfleoedd ymgysylltu anffurfiol i rai teuluoedd.</p> <p>Cyfleoedd cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd gan ysgolion:</p> <p>Ysgol Meidrim</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn croesawu Cylch Ti a Fi (Grŵp Rhieni a Phlant Bach) bob bore lau, gan ddarparu lle cynnes a chynhwysol i fabanod, plant 		<p>Meidrim lle bo'n ymarferol trwy weithio mewn partneriaeth.</p> <p>Archwilio cyfleoedd ar gyfer lleoliadau cymunedol amgen yn yr ardal i gynnal gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a gynhaliwyd yn flaenorol yn Ysgol Meidrim, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth.</p> <p>Gweithgareddau pontio ac ymgysylltu wedi'u cynllunio i gyflwyno disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid o gymuned Meidrim i ddigwyddiadau, grwpiau a phartneriaethau cymunedol sefydledig yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, gan gefnogi hyder a</p>	
---	---	--	---	--

	<p>bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd a chysylltu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er nad yw'r ysgol ei hun yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, mae'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol sy'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau lleol. • Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau lleol cryf, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ei harferion dyddiol a dyluniad y cwricwlwm. • Mae'r disgyblion yn perfformio ddwywaith y flwyddyn ar gyfer trigolion oedrannus yn y gymuned, a hynny mewn cartrefi gofal lleol ac mewn digwyddiadau cymunedol. • Mae'r ysgol yn croesawu ymweliadau misol gan y ficer lleol, sy'n arwain addoli ar y cyd ac yn cysylltu â disgyblion trwy ymweliadau ystafell ddosbarth. Mae'r plant hefyd yn ymweld ag eglwys y pentref i archwilio a gwerthfawrogi eu treftadaeth ddiwylliannol. • Mae'r disgyblion yn cymryd yr awenau wrth gynllunio a chyflawni gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref, gan 		<p>pharhad ymgysylltu drwy'r Gymraeg.</p> <p>Parhau â chymorth cymunedol blynyddoedd cynnar, gan gynnwys hwyluso cyfranogiad yng Nghylch Meithrin Trelech a'r ddarpariaeth <i>Ti a Fi</i> yn yr ysgol, gan sicrhau bod cefnogaeth i deuluoedd â phlant iau yn cael ei chynnal.</p> <p>Cyfathrebu dwyieithog clir gyda rhieni a gofalmwyr sy'n amlinellu gweithgareddau cymunedol, cyfleoedd gwirfoddoli a digwyddiadau sydd ar gael drwy'r ysgol, gan alluogi teuluoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â darpariaeth</p>	
--	--	--	---	--

	<p>ddatblygu eu hymdeimlad o gyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn cynnal y Ffair Nadolig a Ffair yr Haf yn y Neuadd Ieuencid ac yn perfformio ei sioeau Nadolig blynyddol yn Neuadd yr Eglwys, gan gryfhau cysylltiadau â'r gymuned ehangach. • Mae teithiau cerdded 'Glanhau' rheolaidd o amgylch y pentref yn helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol, ochr yn ochr ag ymdrechion codi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. • Gwahoddir trigolion lleol i'r ysgol i rannu eu diddordebau, eu profiadau a'u busnesau, gan gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r gymuned o'u cwrpas. <p>Ysgol Griffith Jones</p> <p>Mae safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan Urdd Gobaith Cymru, sy'n llogi'r gampfa i redeg clwb gymnasteg cyfrwng Cymraeg, gan hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy'r Gymraeg.</p>		<p>Gymraeg yn y gymuned.</p> <p>Annog cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli, gan gefnogi rhieni a gwarcheidwaid i gyfrannu at weithgareddau cymunedol yn yr ysgol ac yn ehangach, gan gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a rhwng cenedlaethau.</p> <p>Cynnal cysylltiadau â sefydliadau ffydd, diwylliannol a gwirfoddol, lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn sicrhau parhad gweithgareddau diwylliannol, elusennol a threftadaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cefnogi</p>	
--	--	--	---	--

	<p>Mae'r Urdd hefyd yn cyflwyno clybiau chwaraeon yn ystod gwyliau'r ysgol, gan ddarparu mynediad parhaus i ddisgyblion at brofiadau Cymraeg egnïol y tu hwnt i'r tymor.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol yn defnyddio neuadd yr ysgol i gynnal cyngherddau a nosweithiau gemau, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned wledig ehangach.</p> <p>Ysgol Hafodwenog</p> <p>Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf a gweithredol â'r gymuned leol trwy amrywiaeth eang o fentrau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir Cinio Cymunedol Tymhorol lle gwahoddir aelodau o'r gymuned i fwyta gyda disgyblion. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dilyn yn aml gan berfformiadau o eitemau Eisteddfod, gemau bwrdd, a gweithgareddau eraill. • Mae gwirfoddolwyr wythnosol o'r gymuned, rhai Cymraeg a di-Gymraeg, yn helpu disgyblion i ddarllen. Mae eraill yn helpu'r ysgol i baratoi cerddoriaeth a dawns ar gyfer cystadlaethau ysgol ac Eisteddfod yr Urdd, gan gynnwys Cerdd Dant a 		<p>cydlyniant cymunedol.</p> <p>Gweithio gyda'r awdurdod lleol, Menter Iaith a grwpiau cymunedol i gadw a datblygu gweithgareddau Cymraeg fel blaenoriaeth yn ardal Meidrim.</p> <p>Ymgysylltu'n rhagweithiol â Menter Iaith a'r gymuned i nodi'r galw a chyd-dylunio gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, gan helpu i gynnal y defnydd o'r iaith yn lleol er gwaethaf mynediad llai posibl i adeilad yr ysgol.</p>	
--	---	--	--	--

	<p>chyfeiliant. Datblygodd un gwirfoddolwr ardd synhwyrâu yn ystod haf 2025 gydag "Adam yn yr Ardd" ac mae rhieni wedi creu gwelyau plannu newydd. Mae'r ysgol yn gwerthu llysiau i rieni a'r gymuned ehangach.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darperir cymorth chwaraeon gan wirfoddolwyr a rhieni sy'n helpu i ddysgu chwaraeon fel rownderi, pêl-rwyd, rygbi a chriced. • Mae'r Cyngor Ysgol, sef Hafod Hwylus, yn trefnu digwyddiadau cymunedol rheolaidd gan gynnwys Prynhawn Coffi Macmillan, Eisteddfod yr Ysgol, gwasanaeth Diolchgarwch, a sesiynau casglu sbwriel yn y pentref. Mae man ailgylchu dillad hefyd ar gael wrth fynedfa'r ysgol i'r gymuned ei ddefnyddio. • Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Chapel y Graig, sef capel y pentref, gan ddefnyddio'r safle ar gyfer gwasanaethau a chymmanfaoedd canu, a chymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y capel. • Mae partneriaeth gref gyda Chylch Meithrin Trelech, ac mae disgyblion meithrin yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel 			
--	--	--	--	--

	<p>'Diwrnod Shwmae Su'mae' a sesiynau chwaraeon dan arweiniad Llysgenhadon Chwaraeon. Maent hefyd yn cael eu gwahodd i sesiynau ffotograffau proffesiynol a mabolgampau'r ysgol. Mae'r Cylch yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer digwyddiadau codi arian fel y Ffair Nadolig, "Cawl a Chân", teithiau tractorau, a chyfarfodydd pwyllgorau. Maent hefyd yn rhedeg clwb "Ti a Fi" wythnosol ac yn ymuno â'r ysgol am ginio bob mis.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Aelwyd Hafodwenog, grŵp ieuenctid, yn cwrdd yn wythnosol yn yr ysgol bob nos lau. • Mae Pwyllgor Rhieni ac Athrawon gweithgar a llwyddiannus yn defnyddio'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys nosweithiau rownderi gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc o Ben-y-bont a Chapel Iwan, capeli lleol, a phwyllgorau neuadd bentref. Mae rhieni hefyd yn trefnu diwrnod cynnal a chadw blynyddol i dacluso tiroedd yr ysgol. 			
--	--	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Canon lleol yn arwain gwasanaethau gyda disgyblion ddwywaith bob tymor. • Mae disgyblion wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau cymunedol Hwb Cynnes Trelech, gan ennyn diddordeb trigolion trwy berfformiadau a gemau addysgol. • Man Cyfarfod mewn Argyfwng - Mae safle'r ysgol wedi'i ddynodi ac ar gael fel man cyfarfod cymunedol mewn argyfwng. <p>Gallai cau Ysgol Meidrim arwain at leihau mynediad cymunedol at adeilad yr ysgol, gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol a digwyddiadau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r defnydd o'r iaith yn lleol a chydlyniant cymdeithasol.</p>			
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru (yr Urdd, Mentrau Iaith, eisteddfodau, treftadaeth)	Byddai'r newid arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru drwy alluogi'r disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Meidrim i gael mynediad at gyfranogiad sefydledig Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yng ngweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, eisteddfodau,	Cadarnhaol	Cefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig, gan sicrhau bod y disgyblion sy'n cael eu trosglwyddo o Ysgol Meidrim yn cael eu cyflwyno'n	Cadarnhaol

	<p>prosiectau treftadaeth Gymreig, a digwyddiadau Cymraeg ehangach. Mae'r cyfranogiad ehangach a mwy parhaus hwn yn debygol o gryfhau hyder, ymgysylltiad ac ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig disgyblion drwy gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyddestunau diwylliannol a chymdeithasol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, er y bydd cymorth pontio gofalus yn bwysig i sicrhau bod y disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'r cyfleoedd hyn ar ôl y newid.</p>		<p>weithredol i gyfleoedd o ran yr Urdd, eisteddfodau, cerddoriaeth, dawns a threftadaeth yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, gyda chefnogaeth gan staff a chyfoedion i fagu hyder ac ymgysylltiad.</p> <p>Anogaeth weithredol a chyfranogiad cynhwysol, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg waeth beth fo'i brofiad, ei allu neu ei hyder blaenorol, yn unol â'r disgwyliadau ynghylch tegwch a chynhwysiant.</p> <p>Parhau â phartneriaethau</p>	
--	---	--	--	--

		<p>gyda sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd a rhwydweithiau diwylliannol lleol a'u cryfhau, er mwyn darparu cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Defnyddio gweithgareddau diwylliannol fel cyd- destunau iaith dilys, gan atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg trwy berfformio, cystadlu, dathlu a phrofiadau diwylliannol a rennir y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Cyfathrebu dwyieithog clir gyda rhieni a gwarcheidwaid, sy'n amlinellu'r cyfleoedd diwylliannol sydd ar</p>	
--	--	---	--

			gael a gwerth cyfranogiad, i gefnogi ymgysylltiad parhaus ac atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned ehangach.	
Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru	<p>Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin drwy gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) a chefnogi cynaliadwyedd ac ansawdd addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliad ysgol hyfyw.</p> <p>Fodd bynnag, mae perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy Iaith) o Flwyddyn 3 yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain at ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae rhai disgyblion yn ei chael a gallai gael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliant 3 Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig wrth gefnogi disgyblion i barhau ar hyd llwybr addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	Negyddol	<p>Cyfathrebu clir gyda Rhieni/Gwarcheid waid.</p> <p>Rhannu a hyrwyddo deunydd dwyieithog sy'n esbonio manteision addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys manteision gwybyddol, diwylliannol a gyrfaol.</p> <p>Rhannu straeon llwyddiant.</p> <p>Hyrwyddo manteision llwybr Categori 3 (Cymraeg yn</p>	Niwtral

	<p>Mae'n gyson â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried effaith cynigion ar y Gymraeg ac i sicrhau darpariaeth effeithiol, effeithlon a chynaliadwy. Mae'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol tra'n cefnogi gwell deilliannau addysgol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, heb unrhyw effaith andwyol ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</p>		<p>bennaf) i rieni a gwarcheidwaid trwy gyfathrebu clir, digwyddiadau pontio, a sesiynau gwybodaeth.</p> <p>Egluro'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog er mwyn osgoi dryswch.</p> <p>Datblygu gweithgareddau cyfoethogi pellach (e.e. drama, chwaraeon, codio) drwy gyfrwng y Gymraeg i atgyfnerthu'r defnydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Rhoi cymorth ieithyddol wedi'i dargedu a chyfleoedd trochi i fagu hyder rhieni a dysgwyr wrth ddewis a chynnal</p>	
--	---	--	---	--

			<p>addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Monitro parhaus drwy drefniadau adrodd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan sicrhau bod effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dilyniant disgyblion, a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ar lefel Awdurdod Lleol.</p> <p>Defnyddio hunanwerthuso ysgolion a chynllunio gwella yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog i fonitro safonau'r Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o ieithoedd, yn unol â'r disgwyliadau a blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol</p>	
--	--	--	---	--

			<p>Cymraeg mewn Addysg.</p> <p>Cyfathrebu ac ymgysylltu dwyieithog clir, gan sicrhau bod rhieni, gwarcheidwaid a disgyblion yn cael eu hysbysu a'u cefnogi drwy gydol y broses weithredu, gan atgyfnerthu hyder yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dewis rhieni.</p>	
<p>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n mynnu bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau ar gyfer y cyhoedd ar gael yn y</p>	<p>Byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ei fod yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) ac yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg (Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83). Mae'r holl wasanaethau, deunyddiau ymgynghori a deunyddiau cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg i safon gyfartal, ac mae'r ymatebion ar gael, a</p>	Niwtral	<p>Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83), gan sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus, deunyddiau ymgynghori, gohebiaeth a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael eu</p>	Niwtral

<p>Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal.</p>	<p>byddant yn parhau i fod ar gael, yn y dewis iaith. Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau Cymraeg nac amlygrwydd y Gymraeg ac felly nid yw'n anfantais i'r Gymraeg o gymharu â'r Saesneg.</p>	<p>darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal.</p> <p>Cyfathrebu dwyieithog clir trwy gydol y broses statudol, gan gynnwys y camau ymgynghori, gwneud penderfyniadau a gweithredu, lle gall unigolion gyfathrebu a chael ymatebion yn eu dewis iaith.</p> <p>Cysondeb o ran amlygrwydd y Gymraeg yn yr ysgol sy'n derbyn, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith cyfathrebu, arwyddion, ymgysylltu, a bywyd ysgol bob dydd, gan atgyfnerthu ei statws cyfartal â'r Saesneg.</p>	
--	--	---	--

			<p>Monitro arferion darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw agwedd ar gyfathrebu, ymgysylltu neu ddarpariaeth yn rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg, yn unol â threfniadau cydymffurfio Safonau'r Gymraeg yr Awdurdod.</p> <p>Ymgysylltu hygyrch a chynhwysol, gan sicrhau bod rhieni, gofalwyr, disgyblion ac aelodau o'r gymuned yn gallu cymryd rhan lawn mewn ymgynghori a gweithgareddau ysgol drwy'r Gymraeg, gan gefnogi hyder a normaleiddio</p>	
--	--	--	--	--

			defnyddio'r Gymraeg.	
--	--	--	-------------------------	--

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Lluo Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredu (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	<p>Ydy – effaith gadarnhaol</p> <p>Asesir bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Er bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal, byddai trosglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn eu lleoli mewn amgylchedd Cymraeg mwy o faint a mwy cynaliadwy, gan gynyddu cyfleoedd o ddydd i ddydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol drwy ddysgu ac yn anffurfiol drwy ryngweithio cymdeithasol, gweithgareddau cyfoethogi ac ymgysylltu â'r gymuned.</p>	<p>Dogfen ymgynghori Ysgol Gynradd Meidrim, sy'n nodi'r cynnig i drosglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, yn cadarnhau y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal ac y gall disgyblion barhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylchedd ysgol cynaliadwy.</p> <p>Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi bod yr ysgol sy'n derbyn yn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd anffurfiol, allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg na'r hyn</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol:</p> <p>Mae'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg drwy gael mynediad at grŵp mwy o gyfoedion Cymraeg eu hiaith ac at ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd, allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.</p> <p>Mae cyfranogiad cynyddol yng ngweithgareddau'r Urdd, darpariaeth gyfoethogi ac</p>

	<p>Mae'r ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ysgol dderbyn yn cryfhau ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion a'u teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrion, bywyd go iawn, gan gyd-fynd ag amcanion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.</p>	<p>sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Meidrim.</p> <p>Tystiolaeth arolygu Estyn ar gyfer y ddwy ysgol, sy'n dangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel prif iaith addysgu a chyfathrebu a bod disgyblion yn datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg, gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion a dilyniant ieithyddol mewn cyd-destun ysgol fwy.</p> <p>Gwybodaeth am ddarpariaeth ar ôl ysgol, diwylliannol a chymunedol yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog, gan gynnwys cyfranogiad rheolaidd yng ngweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, mentrau treftadaeth Cymru, darpariaeth gerddorol, ac ymgysylltu â'r gymuned, pob un ohonynt yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>ymgysylltu â'r gymuned yn darparu cyd-destunau mwy mynych a dilys ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn gymdeithasol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gefnogi hyder, rhuglder ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.</p> <p>Effeithiau negyddol:</p> <p>Mae perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy iaith) yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain at ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae rhai disgyblion yn ei chael.</p> <p>Gellir lliniaru unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i amgylchedd ysgol newydd trwy ymsefydlu wedi'i gynllunio, cymorth bugeiliol, a</p>
--	--	---	---

		<p>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–2032, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.</p>	<p>chyfathrebu clir, gan sicrhau parhad o ddefnydd a dilyniant y Gymraeg.</p>
<p>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p>	<p>Ydy – effaith niwtral.</p> <p>Mae'r cynnig yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg ond nid yw'n anfantais i'r Gymraeg o gymharu â'r Saesneg.</p> <p>Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal, a bydd yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau cyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn parhau i fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i safon gyfartal, yn unol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83).</p>	<p>Dogfennaeth ymgynghori statudol Ysgol Gynradd Meidrim, sy'n cadarnhau bod deunyddiau ymgynghori a gweithgarwch ymgysylltu yn cael eu darparu'n ddwyieithog drwy gydol y broses.</p> <p>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg a chynnal addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Trefniadau cydymffurfio'r Awdurdod Lleol â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod cyfathrebu, gohebiaeth ac ymatebion cyhoeddus yn</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol:</p> <p>Mae'r cynnig yn diogelu cydraddoldeb ieithyddol drwy gynnal addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, gan atgyfnerthu statws cyfartal, amlygrwydd ac argaeledd y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg ym mhob gwasanaeth a chyfathrebiad cyhoeddus.</p> <p>Effeithiau negyddol:</p>

		<p>cael eu darparu yn yr iaith ddewisol.</p> <p>Gwybodaeth am gategoreiddio iaith ysgolion, sy'n cadarnhau bod yr ysgolion sy'n derbyn naill ai yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 neu fod ganddynt ffrwd cyfrwng Cymraeg Categori 3 lle mai Cymraeg yw'r brif iaith addysgu, dysgu a chyfathrebu.</p>	<p>Mae perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy iaith) yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain at ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae rhai disgyblion yn ei chael.</p> <p>Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau na chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid yw ychwaith yn rhoi triniaeth ffafriol i'r Saesneg dros y Gymraeg.</p>
<p>Safonau Lluoio</p> <p>Polisiâu</p> <p>ystyriaeth</p> <p>ddyledus</p> <p>Gymraeg</p>	<p>Ydy – effaith gadarnhaol.</p> <p>Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau Lluoio Polisiâu (Safonau 88–93) gan ei fod yn gofyn am ystyriaeth benodol o'r effeithiau ar y Gymraeg.</p> <p>Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal yng nghyfnod y cynnig, sy'n dangos sylw dyledus i'r Gymraeg drwy nodi</p>	<p>Y ddogfen ymgynghori statudol ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim, sy'n cynnwys asesiad penodol o effaith y cynnig ar addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg.</p> <p>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n gwerthuso'n systematig yr effeithiau ar ddefnydd o'r Gymraeg, y ddarpariaeth Gymraeg a'r ymgysylltiad â'r gymuned.</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol:</p> <p>Mae'r cynnig yn dangos ystyriaeth briodol i'r Gymraeg drwy integreiddio ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg drwy gydol y prosesau o ddatblygu polisi, ymgynghori a gwneud penderfyniadau.</p>

	<p>effeithiau posibl, asesu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi mesurau lliniaru lle bo hynny'n briodol.</p>	<p>Gwybodaeth am gategoreiddio'r Gymraeg yn cadarnhau bod yr ysgol sy'n cau a'r ysgol sy'n derbyn yn gweithredu fel ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3.</p> <p>Cydnherthedd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 Sir Gaerfyrddin, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig.</p> <p>Cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Cymru), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion.</p>	<p>Mae'r cynnig yn diogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg, ac yn cydfynd ag amcanion polisiau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.</p> <p>Effeithiau negyddol:</p> <p>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi mewn perthynas â'r Safonau Llundio Polisi.</p> <p>Mae ystyried effeithiau ar y Gymraeg yn gynnar yn y broses yn lleihau'r risg o effeithiau andwyol anfwriadol ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion statudol.</p>
<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaethau - gwasanaethau</p>	<p>Ydy – effaith niwtral.</p> <p>Mae'r cynnig yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau</p>	<p>Y ddogfen ymgynghori statudol ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim, sy'n cadarnhau bod deunyddiau</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol:</p> <p>Mae'r cynnig yn cynnal cydymffurfiaeth lawn</p>

<p>ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg</p>	<p>1–83) ond nid yw'n anfantais i'r Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg.</p> <p>Bydd yr holl wasanaethau, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn parhau i gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg i safon gyfartal.</p>	<p>ymgyngori ac ymgysylltu yn cael eu darparu yn ddwyieithog ac y gall unigolion gyfathrebu a derbyn ymatebion yn eu dewis iaith.</p> <p>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg a threfniadau darparu gwasanaethau dwyieithog.</p> <p>Fframwaith cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n sicrhau bod yr holl wasanaethau, gohebiaeth a gwybodaeth sy'n gyhoeddus ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r un safon.</p> <p>Gwybodaeth am gategoreiddio ieithyddol ysgolion, sy'n cadarnhau bod yr ysgol dderbyn yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith cyfathrebu.</p>	<p>â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod ar gael, yn weladwy ac yn cael ei thrin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth a chyfathrebiad cyhoeddus, gan atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith naturiol, hygyrch ar gyfer ymgysylltu.</p> <p>Effeithiau negyddol:</p> <p>Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi. Mae'r cynnig yn ymwneud â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135) ac ni ddisgwylir iddo gael effaith andwyol ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff.</p>
<p>Safonau Gweithredu – defnydd mewnol</p>	<p>Ydy – effaith niwtral.</p> <p>Mae'r cynnig yn ymwneud â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135) ac ni</p>	<p>Categoreiddio iaith ysgolion ac arferion gweithredol, sy'n cadarnhau bod gan Ysgol Griffith Jones ffrwd Categori</p>	<p>Effeithiau cadarnhaol:</p> <p>Bydd staff yn gweithio mewn amgylchedd</p>

<p>o'r Gymraeg gan staff</p>	<p>ddisgwylir iddo gael effaith andwyol ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff.</p> <p>Mae'r ysgol sy'n derbyn, sef Ysgol Hafodwenog, yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu proffesiynol, gan gefnogi cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol a chynnig cyfle i gryfhau'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.</p>	<p>3 a bod Ysgol Hafodwenog yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 lle Cymraeg yw'r brif iaith addysgu, dysgu a chyfathrebu mewnol.</p> <p>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi gweithrediad parhaus cyfrwng Cymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn yr ysgolion sy'n derbyn.</p> <p>Trefniadau'r Awdurdod Lleol o ran y gweithlu a chydymffurfiaeth â'r Gymraeg, sy'n cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebiadau mewnol a chael cyfle i ddatblygu'r Gymraeg lle bo angen.</p>	<p>cyfrwng Cymraeg sy'n normaleiddio ac yn atgyfnerthu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg ar draws cyfathrebu proffesiynol, cydweithredu a bywyd ysgol, gyda mynediad at gymorth ehangach gan gymheiriaid ac arferion Cymraeg sefydledig.</p> <p>Effeithiau negyddol:</p> <p>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi. Gellir lliniaru unrhyw addasiad tymor byr sy'n gysylltiedig â staffio neu bontio trwy drefniadau cymorth presennol a datblygiad proffesiynol parhaus.</p>
-------------------------------------	--	---	---

6. Cyd-destun leithyddol Cymunedol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad mewn gallu iaith Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymhlith plant a phobl ifanc mewn rhai cymunedau gwledig. Felly, mae ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn chwarae rôl hanfodol wrth drosglwyddo'r iaith a'i defnyddio'n rheolaidd. Mae'r cynnig yn cynnal darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac yn cefnogi gwydnwch y Gymraeg yn lleol.

Proffil ieithyddol Meidrim, Trelech a'r ardaloedd cyfagos.

Mae Meidrim a Threlech wedi'u lleoli o fewn ardal wledig yn bennaf o Sir Gaerfyrddin, ochr yn ochr ag ardal ehangach Sanclêr, sydd wedi profi dirywiad mewn gallu iaith Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu tueddiadau ehangach ledled y sir a nodwyd yn nata Cyfrifiad 2021.- Er bod ardaloedd gwledig yn gyffredinol yn cadw lefelau uwch o ddefnydd y Gymraeg na chanolfannau trefol, mae gostyngiadau yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc, yn cyflwyno heriau cynyddol i gynnal trosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau.

Er bod ardaloedd Meidrim, Trelech, a Sanclêr yn parhau i ddangos cryfderau diwylliannol ac ieithyddol, ni ellir tybio bod defnydd o'r Gymraeg mewn cartrefi a lleoliadau cymunedol yn gyson ar draws pob teulu. Mae newid demograffig, symudedd poblogaeth, a ffactorau cymdeithasol ehangach wedi cynyddu'r pwysau ar y Gymraeg fel iaith gymunedol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd ysgolion fel amgylcheddau allweddol ar gyfer caffael iaith, hyder a defnydd rheolaidd. Mewn cymunedau gwledig fel y rhain, mae ysgolion yn chwarae rôl hanfodol nid yn unig mewn addysg ond hefyd wrth gyfrannu at gyfleoedd ar gyfer amlygrwydd a defnydd o'r Gymraeg o fewn amgylchedd yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Yn y cyd-destun hwn, mae Ysgol Griffith Jones, sy'n gwasanaethu ardal Sanclêr, yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu darpariaeth Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) yn ystod y cyfnod Dysgu Sylfaen, gan sicrhau trochi cynnar yn y Gymraeg, ac o Flwyddyn 3 ymlaen mae'n cynnig llwybrau Categori 3 a Chategori 2 (Dwy iaith). Mae'r strwythur hwn yn cefnogi cynhwysiant ac yn cynnal y Gymraeg fel iaith ddysgu a chyfathrebu gref. Fodd bynnag, mae cyd-destun ieithyddol y dalgylch ehangach yn golygu bod pwyslais parhaus ar brofiadau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i gynnal hyder a chynnydd i ddysgwyr.

Yn draddodiadol, mae **Meidrim** wedi bod yn gymuned wledig lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda lefelau cymharol uchel o ddefnydd y Gymraeg o gymharu â chyfartaledd yn y sir ehangach. Fodd bynnag, mae newid demograffig diweddar a gostyngiad yng nghyfran y plant sy'n siarad Cymraeg yn adlewyrchu tueddiadau gwledig ehangach, sy'n golygu bod darpariaeth addysgol Gymraeg barhaus yn parhau i fod yn hanfodol i gefnogi trosglwyddo'r iaith a'i defnyddio bob dydd ymhlith cenedlaethau iau.

Yn yr un modd, mae **Trelech** yn adlewyrchu proffil ieithyddol gwledig lle mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn weladwy ac yn cael ei defnyddio ym mywyd cymunedol a diwylliannol. Er bod lefelau gallu Cymraeg yn parhau i fod yn gymharol gryf, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn, ceir tystiolaeth o ddirywiad graddol ymhlith plant a phobl ifanc, gan gynyddu pwysigrwydd ysgolion fel amgylcheddau sefydlog ar gyfer dysgu a hyder Cymraeg.

Mae proffil ieithyddol **Sanclêr** yn fwy cymysg, wedi'i ddylanwadu gan ei rôl fel tref fach sy'n gwasanaethu cefnwlod gwledig ehangach a lefelau uwch o symudedd poblogaeth. Mae'r Gymraeg yn bresennol yn y gymuned ond mae'n cael ei defnyddio'n llai cyson ym mywyd bob dydd nag mewn pentrefi gwledig cyfagos, gan wneud ysgolion fel Ysgol Griffith Jones yn arbennig o bwysig o ran darparu profiadau strwythuredig cyfrwng Cymraeg a chefnogi cynnydd ar hyd llwybrau addysg cyfrwng Cymraeg.

Felly, mae gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws cymunedau Meidrim, Trelech, a Sanclêr swyddogaeth hanfodol wrth gynnal y Gymraeg fel iaith fyw. Mae darparu addysg cyfrwng Cymraeg sefydlog, o ansawdd uchel mewn lleoliadau ysgol hyfyw yn cefnogi disgyblion i ddatblygu hyder a rhuglder yn y Gymraeg, waeth beth fo'u cefndir iaith gartref. Mae mynediad at grwpiau cyfoedion ehangach, gweithgareddau cyfoethogi, a chyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned yn cryfhau'r tebygolrwydd bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu hwnt i wersi ffurfiol ac wedi'i hymgorffori ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol bob dydd.

Mae dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 ar draws Sir Gaerfyrddin yn tynnu sylw at amrywiaeth yng ngallu'r Gymraeg rhwng cymunedau, ac mae ardaloedd gwledig fel Meidrim a Threlech yn gyffredinol yn cofnodi cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg na lleoliadau mwy trefol, gan gynnwys rhannau o ardal Sanclêr. Fodd bynnag, mae'r cymunedau hyn yn fregus yn ieithyddol o hyd, yn enwedig lle mae niferoedd poblogaeth yn fach ac mae capasiti'r gymuned yn gyfyngedig. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ddarpariaeth addysgol gynaliadwy, wedi'i gynllunio'n dda a all gefnogi datblygiad a defnydd y Gymraeg ar draws cenedlaethau'n gyson.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod yr amgylchedd ieithyddol ar draws Meidrim, Trelech, ac ardal Sanclêr yn gofyn am gefnogaeth barhaus a rhagweithiol i gynnal a chryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly, mae gan y cynnig rôl allweddol wrth

atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith fyw drwy addysg, cefnogi teuluoedd, a chyfrannu at wydnwch hirdymor y Gymraeg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, yn unol ag amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac uchelgais cenedlaethol Cymraeg 2050.

7. Risgiau a Mesurau Lliniaru

Risg	Lliniaru
Mae perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy iaith) yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain at ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae rhai disgyblion yn ei chael, yn enwedig dros amser os bydd y defnydd o'r llwybr dwy iaith yn cynyddu.	<p>Cynnal ethos cryf yn yr ysgol gyfan, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson mewn gwasanaethau, rhyngweithiadau anffurfiol, arwyddion a gweithgareddau cymdeithasol ar draws pob llwybr.</p> <p>Sicrhau bod llwybr Categori 2 (Dwy iaith) yn darparu o leiaf 50% o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda disgwyliadau clir wedi'u gosod drwy gynllunio'r cwricwlwm ac amserlennu.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynnig i ddiwygio categori iaith Ysgol Griffith Jones.</p> <p>Hyrwyddo manteision llwybr Categori 3 (Cymraeg yn bennaf) i rieni a gwarcheidwaid trwy drefniadau pontio, sesiynau gwybodaeth, a chyfathrebu rheolaidd.</p> <p>Darparu cymorth ieithyddol wedi'i dargedu ac ymyriadau meithrin hyder i ddysgwyr a theuluoedd i annog ymgysylltiad parhaus â dysgu cyfrwng Cymraeg.</p>

	<p>Ehangu gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi cyfrwng Cymraeg sy'n hygyrch i bob disgybl, waeth beth fo'u dewis llwybr.</p> <p>Monitro tueddiadau derbyn a chydbwysedd y ddarpariaeth iaith yn rheolaidd, gyda goruchwyliaeth gan arweinyddiaeth ysgolion, llywodraethwyr, a'r awdurdod lleol, gan alluogi adolygiad amserol os yw mynediad cyfrwng Cymraeg yn cael ei wanhau.</p> <p>Alinio'r gwaith o weithredu'r llwybr iaith â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi mynd ymlaen i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p>
Gostyngiad tymor byr yn y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn ystod y cyfnod pontio	<p>Trefniadau pontio wedi'u cynllunio, gan gynnwys ymweliadau sefydlu a chymorth gan gyfoedion, i helpu disgyblion i fagu hyder gan ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd cymdeithasol newydd. Disgwyliadau clir ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wedi'u hymgorffori mewn arferion dyddiol ac wedi'u cefnogi drwy ofal bugeiliol.</p>
Tarfu ar hyder disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol	<p>Pwyslais parhaus ar y Gymraeg fel prif iaith gyfathrebu yn yr ysgol sy'n derbyn, gyda staff yn modelu Cymraeg o ansawdd uchel ac yn annog</p>

	cyfranogiad cynhwysol mewn gweithgareddau dosbarth a chymdeithasol.
Colli rhai gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg lleol a oedd yn canolbwyntio ar Ysgol Meidrim yn flaenorol	Ymgysylltu â Menter Iaith, lleoliadau a grwpiau cymunedol lleol lle bo'n ymarferol, ochr yn ochr â chyfathrebu clir i gefnogi teuluoedd i barhau â gweithgareddau cymunedol trwy ddarpariaeth leol amgen a chyfleoedd ehangach mewn ysgolion.
Y Gymraeg yn llai amlwg yng nghymuned Meidrim ar ôl i'r ysgol gau	Atgyfnerthu bod addysg cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chadw'n lleol, a bod disgyblion yn cael mynediad at ysgol Gymraeg gynaliadwy sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, gweithgareddau cyfoethogi ac wrth ymgysylltu â'r gymuned. Mwy o gysylltiadau â Menter Iaith, yr Urdd a darparwyr lleol eraill.
Lefel amrywiol o ymgysylltu ymhlith rhieni/gofalwyr mewn gweithgareddau cymunedol ac ysgol cyfrwng Cymraeg	Cyfathrebu dwyieithog clir, hygyrch sy'n amlinellu cyfleoedd i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned, gwirfoddoli a chyfranogiad drwy ddigwyddiadau a phartneriaethau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol sy'n derbyn.-
Cyfranogiad anwastad mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, gweithgareddau diwylliannol neu	Cefnogi ymsefydlu mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau'r Urdd, digwyddiadau diwylliannol, a darpariaeth cyfoethogi, gydag

weithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg	anogaeth gan staff a chyfoedion i sicrhau bod gweithgareddau'n gynhwysol ac yn hygyrch i bob disgybl
Canfyddiad y gallai cau'r ysgol leihau trosglwyddo'r Gymraeg yn yr ardal leol	Cyfathrebu tryloyw yn esbonio sut y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyfranogiad diwylliannol, a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal a'u gwella.
Pwysau posibl ar staff i gefnogi parhad y Gymraeg yn ystod y cyfnod pontio	Defnyddio prosesau cynllunio pontio, cydweithio proffesiynol rhwng ysgolion a mynediad at gymorth yr Awdurdod Lleol lle bo angen, ochr yn ochr â monitro parhaus o gynnydd y Gymraeg.
Llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg rhwng cenedlaethau yng nghymuned Meidrim	Annog ymgysylltu parhaus â digwyddiadau cymunedol Meidrim, gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd a mentrau lleol sy'n darparu cyfleoedd Cymraeg rhwng cenedlaethau, ochr yn ochr â hyrwyddo cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â'r ysgol sy'n derbyn.
Colli pwyntiau cyswllt Cymraeg anffurfiol sy'n gysylltiedig ag adeilad ffisegol yr ysgol	Cefnogi parhau i ddefnyddio lleoliadau cymunedol lleol a mannau a rennir ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n briodol, gan leihau dibyniaeth ar hen safle yr ysgol yn unig.

Risg y bydd y defnydd o'r Gymraeg wedi'i ganoli yn yr ysgol yn hytrach na'r gymuned ehangach	<p>Cryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol sy'n derbyn a sefydliadau cymunedol, darpariaeth blynnyddoedd cynnar a grwpiau diwylliannol i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol.</p> <p>Mwy o gysylltiadau â Menter Iaith, yr Urdd a darparwyr lleol eraill.</p>
--	---

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd camau lliniaru a nodir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael eu monitro drwy brosesau gwella sefydledig yr Awdurdod Lleol ac ysgolion ac adborth ymgynghori, a bydd addasiadau yn cael eu gwneud lle bo angen i gael yr effaith fwyaf cadarnhaol bosibl ar y Gymraeg.

Bydd gwaith monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Gweithredu (127–135), y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu bodloni.

9. Dulliau Gwella Parhaus

Mae'r cynnig hwn yn dangos sylw dyladwy clir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro deilliannau o ran y Gymraeg drwy gydol y broses dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu fel bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. Casgliad a Chrynodeb

Mae'r cynnig i gau Ysgol Meidrim, gyda disgyblion yn trosglwyddo i naill ai Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, wedi cael ei asesu'n ofalus o ran ei effaith bosibl ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, bydd mynediad at addysg cyfrwng Gymraeg yn cael ei gynnal, a bydd cyfleoedd i gefnogi a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach drwy fesurau lliniaru effeithiol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod perygl posibl y gallai rhai teuluoedd ddewis llwybr Categori 2 (Dwy Iaith) yn Ysgol Griffith Jones, a allai arwain

at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o Flwyddyn 3 ymlaen.

Gellir lliniaru'r risg hon drwy arweinyddiaeth gref, hyrwyddo llwybrau cyfrwng Cymraeg yn glir ac yn gyson, a monitro parhaus o ddarpariaeth iaith a chynnydd disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgolion sy'n derbyn yn cynnig grwpiau cyfoedion mwy ac ystod ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol, sydd â'r potensial i wella'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol.

Yn amodol ar y mesurau hyn, mae'r cynnig yn alinio â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac uchelgeisiau cenedlaethol Cymraeg 2050, drwy ddiogelu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi datblygiad parhaus y defnydd bob dydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, disgwylir y bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal neu eu gwella, ac y bydd mesurau diogelu cadarn yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o ostyngiad yn y nifer sy'n dewis cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

ATODIAD E – ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

Adroddiad Asesiad Effaith Integredig Drafft – Y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim.

Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

MANYLION Y CYNNIG			
Gwasanaeth ac Adran:	Cwblhawyd gan (swyddog arweiniol):	Dyddiad yr asesiad cychwynnol:	Rhagfyr 2025
Addysg a Gwasanaethau Plant	Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg	Fersiwn rhif:	3
		Dyddiad Adolygu:	10/08/26
Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?	<p>Cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 31 Rhagfyr 2026.</p> <p>Ailasesiad ar ôl yr Ymgynghoriad</p> <p>Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 16 Ionawr a 2 Mawrth 2026 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adolygiad wedi rhoi sylw llawn i'r sylwadau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr, Estyn ac aelodau o'r gymuned ehangach.</p> <p>Roedd adborth yr ymgynghoriad yn tynnu sylw at nifer o themâu cyson a mynegwyd yn gryf, yn fwyaf nodedig effaith canfyddedig y cynnig ar y gymuned leol a'r Gymraeg. Yn benodol, pwysleisiodd yr ymatebion fod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei hystyried yn eang fel un sydd wrth galon y gymuned, a bod ei gwerth yn ymestyn y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol i'w rôl wrth gefnogi hunaniaeth gymunedol, cydlyniant a chynaliadwyedd y pentref. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd yr ysgol wrth feithrin cysylltiadau cymdeithasol, cefnogi teuluoedd lleol, a chyfrannu at fywiogrwydd cymuned Gymraeg wledig.</p> <p>Mae'r materion hyn, ochr yn ochr â materion sy'n ymwneud â llesiant disgyblion a staff, anghenion dysgu ychwanegol, trefniadau teithio ac ystyriaethau amgylcheddol, wedi'u hystyried yn ofalus ac yn cael eu hadlewyrchu a'u cryfhau yn adrannau perthnasol yr Asesiad hwn. Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi mewnwelediad pellach i effeithiau diriaethol ac anniriaethol y cynnig, yn enwedig mewn perthynas â llesiant</p>		

	<p>cymunedol, lle, a'r gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r ysgol ym marn y rhanddeiliaid.</p> <p>Er bod ymatebion i'r ymgynghoriad wedi ychwanegu cyddestun pwysig ac wedi cryfhau dealltwriaeth o'r effeithiau hyn — gan gynnwys rôl gymdeithasol a diwylliannol yr ysgol o fewn y gymuned — ni nodwyd unrhyw dystiolaeth newydd neu wahanol yn sylweddol, gan gynnwys mewn perthynas â niferoedd disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol neu ganlyniadau Estyn, a fyddai'n newid yr asesiad craidd o gynaliadwyedd addysgol, ariannol neu sefydliadol y cynnig. O ganlyniad, nid oes unrhyw newidiadau i'r cynnig ei hun.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.</p> <p>Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru ac ystyriaethau gweithredu wedi'u datblygu a'u cryfhau ymhellach yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau pontio, cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed, ystyriaethau cymunedol, a pharhau a hyrwyddo'r Gymraeg.</p> <p>Ailasesiad ar ôl y Cyfnod Gwrthwynebu</p> <p>Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i adolygu ar ôl cwblhau'r cyfnod gwrthwynebu statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adolygiad wedi rhoi sylw llawn i'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol, ynghyd â chanlyniadau'r broses ymgynghori a'r dystiolaeth a ystyriwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod Lleol.</p> <p>Roedd y gwrthwynebiadau yn codi nifer o faterion yn ymwneud ag effaith bosibl y cynnig ar y gymuned leol, y Gymraeg, llesiant dysgwyr, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, trefniadau teithio a chynaliadwyedd hirdymor y pentref. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar rôl Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol wledig a'i phwysigrwydd i hunaniaeth a chydlyniant cymunedol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r materion hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth addysgol, ariannol a sefydliadol sy'n cefnogi'r cynnig, gan gynnwys rhagolygon o ran nifer y disgyblion, lleoedd gwag, trefniadau arweinyddiaeth,</p>
--	---

	<p>amcanestyniadau cyllideb, ystyriaethau ynghylch y Gymraeg ac effeithiau ar y gymuned.</p> <p>Ar ôl cynnal y craffu ychwanegol sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar ysgolion gwledig, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn rhoi tystiolaeth newydd sy'n newid canfyddiadau'r Asesiad hwn yn sylweddol. O ganlyniad, nid oes unrhyw newidiadau i'r cynnig.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu wedi llywio mesurau cynllunio gweithredu a lliniaru'r Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddo dysgwyr, cymorth ADY, trefniadau cludiant, llesiant staff, ymgysylltu â'r gymuned a hyrwyddo'r Gymraeg.</p> <p>Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori, yr Adroddiad Gwrthwynebu, yr Ailasesiad o Ysgolion Gwledig ar ôl y Cyfnod Gwrthwynebu, yr Hysbysiad Statudol a'r holl wrthwynebiadau dilys a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.</p>
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?	<p>Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd Rhieni a gofalmwr y disgyblion hyn Staff ysgol yn Ysgol Gynradd Meidrim Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Meidrim Staff a disgyblion yr ysgolion sy'n derbyn (Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog Cymuned leol Meidrim Ysgolion lleol eraill.</p>
<p>Wrth i chi gwblhau'r asesiad, gofynnir i chi nodi'r holl ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ddata a dogfennau eraill ac ati a'u cwblhau trwy hyperddolenni.</p>	
<p>DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM Ffordd o WEITHIO</p> <p><i>(gelwir hyn hefyd yn egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)</i></p>	
<p>Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '... bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'</p>	

Ffyrdd o Weithio	Sut mae'r cynnig yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?
<p>Tymor Hir</p> <p>Cydbwyso anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r status quo anghynaliadwy yn Ysgol Gynradd Meidrim, sydd â niferoedd disgyblion isel iawn sy'n gostwng (32 disgybl, 43% o leoedd gwag) a diffyg ariannol o £62,581 yn 2025/26. Ym mis Medi 2026, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond 24 o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Ni fyddai cynnal yr ysgol yn hyfyw yn y tymor hir. Drwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, mae'r cynnig yn gwella deilliannau addysgol drwy sicrhau mynediad at gwricwlwm ehangach, dosbarthiadau sy'n briodol i oedran y disgyblion, a chyfleusterau gwell, gan gefnogi llwyddiant addysgol hirdymor. Mae hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol trwy leihau costau parhaus ac atal twf pellach yn y diffyg ariannol, gan alluogi adnoddau i gael eu defnyddio'n fwy effeithiol ledled y sir. Ar ben hynny, mae'r cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth yn y dyfodol trwy gyd-fynd â'r Strategaeth Moderneiddio Rhaglen Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy sy'n cynnwys yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif.</p> <p>Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?</p> <p>Data CYBLD: Yn dangos nifer isel o ddisgyblion yn gyson a nifer fawr o leoedd gwag (43% yn 2026).</p> <p>Adroddiadau cyllidebol: Yn tynnu sylw at y tueddiadau anghynaliadwy o ran y diffyg ariannol a'r gost uchel fesul disgybl (£6,363 yn erbyn cyfartaledd y sir, sef £5,479).</p> <p>Arolygiad Estyn (Ebrill 2024): Rhoddwyd yr ysgol yn y categori Mesurau Arbennig, sy'n nodi angen brys am wella. Cafodd yr ysgol ei thynnu allan o Fesurau Arbennig Estyn ym mis Rhagfyr 2025.</p> <p>Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Yn nodi amcanion ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor a safonau addysgol gwell.</p> <p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018): Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu lle mae lleoedd gwag yn fwy na 25% a lle mae 30 o leoedd heb eu llenwi,</p>
<p>Atal</p> <p>Atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Mae'r cynnig yn atal y sefyllfa rhag gwaethygu drwy fynd i'r afael â'r heriau parhaus yn Ysgol Gynradd Meidrim cyn iddynt ddod yn anadferadwy. Ar hyn o bryd mae nifer y disgyblion yn yr ysgol yn isel. Dim ond 32 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ac mae 43% o leoedd gwag, ynghyd â diffyg ariannol o £62,581 yn 2025/26. Ym mis Medi 2026, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond 24 o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Byddai cynnal y status quo yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol pellach ac anawsterau parhaus wrth gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, fel y nodwyd gan arolygiad diweddar Estyn a nodwyd bod yr ysgol yn y categori Mesurau Arbennig. Cafodd yr ysgol ei thynnu allan o Fesurau Arbennig Estyn ym mis Rhagfyr 2025. Drwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, mae'r cynnig yn lliniaru'r risgiau</p>

	<p>hyn, gan sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at addysg mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran a chyfleusterau modern. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac atal safonau addysgol a hyfywedd ariannol rhag dirywio ymhellach.</p> <p>Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?</p> <p>Data CYBLD (2026): Yn dangos dim ond 32 o ddisgyblion ar y gofrestr a 43% o leoedd gwag, gydag amcanestyniadau'n dangos niferoedd isel parhaus a nifer uchel o leoedd gwag. Ym mis Medi 2026, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond 24 o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol.</p> <p>Adroddiadau Cyllidebol: Mae gan Ysgol Gynradd Meidrim ddiffyg ariannol o £62,581 yn 2025/26 heb unrhyw ddiffyg ariannol trwyddedig ar waith.</p> <p>Cost fesul Disgybl: £6,363 o gymharu â chyfartaledd Sir Gaerfyrddin o £5,479, sy'n tynnu sylw at aneffeithlonrwydd ariannol.</p> <p>Arolygiad Estyn (Ebrill 2024): Rhoddwyd yr Ysgol yn y categori Mesurau Arbennig oherwydd pryderon diogelu, arweinyddiaeth wan, a safonau gwael. Cafodd yr ysgol ei thynnu allan o Fesurau Arbennig Estyn ym mis Rhagfyr 2025.</p> <p>Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Yn nodi amcanion ar gyfer creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol.</p> <p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018): Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu lle mae lleoedd gwag yn fwy na 25% a lle mae 30 o leoedd heb eu llenwi, sy'n berthnasol i Ysgol Gynradd Meidrim.</p>
<p>Integreiddio</p> <p>Cydnabod perthnasoedd a rhyng-ddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.</p>	<p>Mae'r cynnig yn dangos integreiddio trwy gydnabod y perthnasoedd a'r rhyngddibyniaethau rhwng darpariaeth addysgol, cynaliadwyedd ariannol, llesiant cymunedol, ac amcanion diwylliannol. Mae cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn cyd-fynd â Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy sy'n cefnogi blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymraeg 2050. Mae hefyd yn cyfrannu at amcanion corfforaethol ehangach megis lleihau lleoedd gwag, gwella effeithlonrwydd adnoddau, a chefnogi cydraddoldeb economaidd-gymdeithasol trwy sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel waeth beth fo'u lleoliad. Mae'r cynnig yn integreiddio â pholisi cludiant drwy ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, a gyda chynllunio cymunedol drwy ystyried yr effaith ar wasanaethau lleol fel y grŵp Cylch Ti a Fi. Mae'r dull cyfannol hwn yn sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch darpariaeth addysg yn cael eu gwneud ar wahân ond yn ystyried nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.</p>

	<p>Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at y ffaith bod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei hystyried yn eang fel un sydd wrth galon y gymuned, er nad yw'r adeilad ysgol ei hun yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol ffurfiol. Disgrifiodd rhanddeiliaid fod yr ysgol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi hunaniaeth gymunedol, cryfhau perthnasoedd lleol, a darparu canolbwynt i deuluoedd yn y pentref. Ystyriwyd bod presenoldeb yr ysgol yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymdeithasol yr ardal, yn enwedig wrth annog teuluoedd ifanc i aros yn y gymuned neu symud iddi. Felly, ystyrir bod y cynnig i gau'r ysgol yn debygol o gael effaith ehangach y tu hwnt i addysg, yn enwedig mewn perthynas â chydlyniant cymunedol a bywiogrwydd hirdymor y pentref.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.</p>
	<p>Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?</p> <p>Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Yn nodi amcanion ar gyfer rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol.</p> <p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018): Yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried lleoedd gwag ac effaith gymunedol.</p> <p>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: Yn sicrhau parhad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi Cymraeg 2050.</p> <p>Data Ariannol: Yn dangos diffyg ariannol anghynnaladwy a chost uchel fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Meidrim.</p> <p>Polisi Cludiant: Cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys er mwyn cynnal hygyrchedd.</p> <p>Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned: Yn tynnu sylw at gysylltiadau â sefydliadau a gwasanaethau lleol.</p> <p>Adborth o'r Ymgynghoriad Yn tynnu sylw at farn rhanddeiliaid a'r cyhoedd.</p> <p>Adroddiad Ymgynghori Adroddiad Gwrthwynebu Ailasesiad o Ysgolion Gwledig ar ôl y Cyfnod Gwrthwynebu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned</p>
<p>Cydweithio</p> <p>Wedi'i gyflawni trwy weithio gyda phartneriaid</p>	<p>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno trwy gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i nodi atebion cynaliadwy a rennir. Yn fewnol, bu'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda thimau Gwasanaethau Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Thrafnidiaeth i sicrhau bod y cynnig yn mynd i'r afael â safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol, a hygyrchedd. Yn allanol,</p>

<p>mewnol ac allanol eraill (sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir</p>	<p>ymgysylltwyd â chorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r aelod etholedig lleol yn ystod y trafodaethau cychwynnol. Fe gafodd y broses ymgynghori ei chynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), a sicrhodd y gallai rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff, undebau llafur, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg, fynegi eu barn. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi tryloywder, cyfrifoldeb a rennir, a datblygu ateb sy'n cydbwysu anghenion addysgol, ariannol a chymunedol.</p> <p>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, rhoddwyd cyfle i randdeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law ac wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses statudol.</p> <p>Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?</p> <p>Llunio Trafodaethau: Trafodaethau cychwynnol gyda chorff llywodraethu ac aelod lleol Ysgol Gynradd Meidrim (Mawrth 2025).</p> <p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018): Yn gosod gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.</p> <p>Dogfen Ymgynghori: Yn amlinellu'r broses o ymgysylltu rhieni, staff, undebau, a grwpiau cymunedol.</p> <p>Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Wedi'i ddatblygu'n gydweithredol ar draws meysydd gwasanaeth i sicrhau rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy.</p> <p>Asesiad Effaith Cymunedol: Yn ystyried sefydliadau a gwasanaethau lleol y gallai'r cynnig effeithio arnynt.</p> <p>Adroddiad Ymgynghori Adroddiad Gwrthwynebu Cofnod o gyhoeddi hysbysiad statudol</p>
<p>Cynnwys</p> <p>Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt</p>	<p>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu trwy gynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin broses ymgynghori gynhwysfawr â rhanddeiliaid rhwng 16 Ionawr a 2 Mawrth 2026, cyn cyfnod gwrthwynebu statudol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol. Rhoddwyd cyfleoedd i randdeiliaid drwy gydol dau gam y broses fynegi eu barn a chyflwyno sylwadau. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni, gofalmwyr, disgyblion, staff yr ysgol, cyrff llywodraethu, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, aelodau etholedig lleol, a chynrychiolwyr cymunedol.</p> <p>Ymgynghorwyd â disgyblion drwy ddeunyddiau a oedd yn briodol i'w hoedran a sesiynau'r cyngor ysgol, gan sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Darparodd y cyfnod ymgynghori (16 Ionawr i 2 Mawrth 2026) sawl sianel ar gyfer adborth, gan gynnwys arolygon ar-lein, cyflwyniadau drwy e-bost a ffurflenni</p>

	ymateb papur. Cyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn crynhoi'r holl ymatebion a'r ystyriaethau a roddwyd iddynt gan y Cyngor cyn gwneud penderfyniad terfynol. Sicrhodd y dull hwn dryloywder a chyfranogiad ystyrion rhanddeiliaid wrth lunio'r cynnig. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018.
	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
	<p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018): Gosod gofynion statudol ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid.</p> <p>Dogfen Ymgynghori: Manylion amserlen ymgynghori, dulliau a rhanddeiliaid.</p> <p>Gweithgareddau Ymgynghori a Gynlluniwyd: Arolwg ar-lein, ymatebion e-bost, ffurflenni papur, a sesiynau ymgysylltu â disgyblion.</p> <p>Ymrwymiad i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori: Yn sicrhau bod adborth yn cael ei ystyried cyn gwneud penderfyniadau.</p> <p>Adroddiad Ymgynghori Adroddiad Gwrthwynebu Adroddiad Ymgynghori â Disgyblion Dadansoddiad o'r Gwrthwynebiadau</p>

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Tymor Hir	I gefnogi cynaliadwyedd tymor hir, mae'r cynnig yn cynnwys cynllun pontio graddol i sicrhau bod y disgyblion yn symud yn hwylus i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog neu unrhyw ysgol arall o ddewis y rhieni neu'r gofawyr, gan gynnal parhad o ran addysg a llesiant. Os bydd angen, bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith cynaliadwy yn yr ysgol sy'n derbyn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol heb amharu ar ansawdd. Bydd y Cyngor hefyd yn monitro'r effaith hirdymor ar gydlyniant cymunedol ac yn archwilio'r opsiynau ar gyfer rhoi pwrpas newydd i safle Ysgol Gynradd Meidrim er budd y gymuned, yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol ar gyfer adeiladau ysgol nad oes eu hangen at ddibenion addysg mwyach.
2. Atal	Mae mesurau atal yn canolbwyntio ar leihau ansicrwydd ac atal y sefyllfa rhag dirywio ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar a chyfathrebu clir â rhieni a staff, cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod pontio, a gweithredu rheolaethau ariannol i atal twf diffyg pellach yn Ysgol Gynradd Meidrim cyn i'r ysgol gau.
3. Integreiddio	Mae'r cynnig yn integreiddio â strategaethau ac amcanion ehangach trwy alinio â'r Strategaeth Moderneiddio Addysg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'n sicrhau

	cysondeb â nodau addysgol a diwylliannol wrth gydlynw â gwasanaethau trafniadaeth i ddarparu trefniadau teithio diogel ac effeithlon.
4. Cydweithio	Mae cydweithio yn ganolog i'r cynnig, gydag ymgysylltu parhaus rhwng timau mewnol, Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Chludiant, a phartneriaid allanol fel Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, ac undebau llafur. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod pob parti yn cydweithio'n llawn yn y broses bontio.
5. Cynnwys	I sicrhau cyfranogiad ystyrlon, mae'r Cyngor wedi cynnal prosesau ymgynghori tryloyw, gan roi cyfleoedd i rieni, disgyblion, staff a rhanddeiliaid cymunedol roi adborth. Defnyddiwyd deunyddiau ymgynghori addas i ddisgyblion a sesiynau gyda'r cyngor ysgol i gynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Cyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn crynhoi'r adborth a sut yr oedd wedi dylanwadu ar y penderfyniad terfynol. Yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol a pharatowyd Adroddiad Gwrthwynebu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018.

CYDRADDOLDEBAU (*mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau*)

Nodweddion Gwarchodedig	A ydy'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
Oedran	<p>Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion oedran cynradd sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd, gan y bydd angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Mae hefyd yn effeithio ar rieni a gofalwyr a allai fod angen addasu i drefniadau teithio newydd.</p> <p>Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr holl staff sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Meidrim. Bydd angen ystyried lliniaru unrhyw effaith ar staff, gan gynnwys y rhai sydd dros 55</p>	<p>Data CYBLD (2026) yn dangos 32 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ym mis Medi 2026, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond 24 o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol.</p> <p>Proffil staffio</p>

	oed.	
Anabledd	<p>Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at nifer o ystyriaethau mewn perthynas ag anabledd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd sicrhau parhad cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn ystod unrhyw gyfnod pontio, gan nodi bod Ysgol Gynradd Meidrim yn darparu amgylchedd cyfarwydd, cefnogol a chynhwysol lle mae anghenion unigol yn cael eu deall yn dda. Mynegwyd pryderon am effaith bosibl newid ar ddysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig mewn perthynas ag aflonyddwch, llesiant emosiynol a'r angen i ailsefydlu trefniadau cymorth mewn lleoliad newydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod prosesau ar waith yn yr ysgolion sy'n derbyn i gefnogi dysgwyr ag ADY, gan gynnwys staff arbenigol, ystod ehangach o adnoddau a phrofiad o ddarparu cymorth unigol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y safbwyntiau hyn a bydd yn sicrhau bod cynllunio pontio priodol, dulliau sy'n canolbwyntio ar y person a chymorth wedi'i deilwra ar waith i leihau tarfu a chynnal parhad y ddarpariaeth i bob dysgwr ag anghenion ychwanegol.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw</p>	<p>Cod ADY Cymru</p> <p>Adroddiad Ymgynghori</p> <p>Adroddiad Gwrthwynebu</p> <p>Gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â darpariaeth ADY a llesiant dysgwyr</p>

	dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.	
Ailbennu rhywedd	Dim effaith wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd nac yn cynnwys newidiadau a fyddai'n effeithio ar unigolion sy'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd.	Nid yw natur y cynnig (cau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion) yn gysylltiedig â'r nodwedd hon.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim effaith wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar statws priodasol neu statws partneriaeth sifil.	Cwmpas y cynnig wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ysgol.
Hil	Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol. Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.	Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ac adroddiadau Estyn yn cadarnhau arferion cynhwysol.
Crefydd/Cred	Dim effaith wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn newid darpariaeth addysg crefyddol nac yn cyfyngu mynediad at weithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd.	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol heb gymeriad crefyddol dynodedig.
Beichiogrwydd a mamolaeth	<p>Effaith bosibl ar rieni sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth oherwydd newidiadau i drefniadau teithio. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys cyfathrebu clir a chymorth o ran cludiant.</p> <p>Bydd staff beichiog, y rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth, neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn cael mynediad at gyngor ac arweiniad parhaus gan AD trwy gydol y broses weithredu. Lle bo'n bosibl, bydd cyswllt AD enwebedig yn cael ei nodi ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth.</p>	Polisi cludiant i'r ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin a mesurau cymorth.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd na thriniaeth ar sail rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.

Rhyw	<p>Ni nodwyd unrhyw effaith ar ddisgyblion. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd na thriniaeth ar sail rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol ar staff. Byddai unrhyw effeithiau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau cyflogaeth y Cyngor, gan sicrhau triniaeth deg a chyfartal waeth beth fo'u rhyw.</p>	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.
-------------	---	---

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Oedran	Darparu cymorth pontio a chyfathrebu clir ar gyfer disgyblion a rhieni, gan gynnwys ymweliadau ymgyswrtio â'r ysgolion sy'n derbyn. Cynnig gofal bugeiliol ychwanegol ar gyfer disgyblion iau i leddfu pryder yn ystod y newid.
2. Anabledd	Sicrhau bod yr ysgolion sy'n derbyn yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau os oes angen, gan gynnwys addasiadau hygyrchedd a threfniadau cludiant. Darparu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
3. Ailbennu rhywedd	Cadw cyfrinachedd a sicrhau bod polisïau cynhwysol yn cael eu cynnal. Darparu hyfforddiant staff (os oes angen) ar gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn atal gwahaniaethu a meithrin amgylchedd cynhwysol.
4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith uniongyrchol, ond cynnal sianeli cyfathrebu hyblyg i rieni ddarparu ar gyfer amgylchiadau teuluol.
5. Hil	Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn yr ysgolion sy'n derbyn. Monitro am unrhyw broblemau posibl a darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol i gynnal perthynas gadarnhaol.
6. Crefydd/Cred	Sicrhau bod unrhyw arferion crefyddol neu ofynion deietegol yn parhau i gael eu parchu yn yr ysgolion sy'n derbyn. Cyfathrebu â rhieni i gadarnhau'r trefniadau.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni/staff sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, megis cyfarfodydd rhithwir a dyddiadau cau estynedig ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad.

	Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.
8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff er mwyn cynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu os oes angen. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gweithredu.
9. Rhyw	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff er mwyn cynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu os oes angen. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gweithredu. Byddai unrhyw effeithiau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau cyflogaeth y Cyngor, gan sicrhau triniaeth deg a chyfartal waeth beth fo'u rhyw.

Y GYMRAEG (mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r effaith bositif neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)

Gofyniad	A ydy'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	A ydy'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau positif neu negyddol?
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Ydy, yn gadarnhaol. Bydd disgyblion yn parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Griffith Jones, sy'n ysgol iaith Categori 3.2 Dwy Ffrwd neu'n parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Hafodwenog sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Nododd ymatebion yr ymgynghoriad fod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol, a thynnodd llawer o	Mae'r ddwy ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y cynnig yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050. Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol dwy ffrwd ac mae Ysgol Hafodwenog yn ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n ysgol yn yr un categori ag Ysgol Gynradd Meidrim.	Effaith gadarnhaol: Bydd disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn grŵp cyfoedion mwy a chael mynediad at weithgareddau allgyrsiol (e.e. clybiau'r Urdd) sy'n hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg.

	<p>randdeiliaid sylw at y rôl bwysig y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ei chwarae wrth gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, ystyriwyd yn eang ei bod yn cyfrannu'n sylweddol at y defnydd bob dydd o'r iaith, yn yr ystafell ddosbarth ac yn ehangach ar draws y pentref, gan atgyfnerthu ei rôl o fewn cymuned Gymraeg wledig. Codwyd pryderon y gallai cau'r ysgol leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn yr ardal a gallai effeithio ar gymeriad ieithyddol y gymuned. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ysgolion derbyn a gynigir, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog, yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig cyfleoedd ehangach i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg o fewn grwpiau cyfoedion mwy a thrwy ystod ehangach o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y safbwyntiau hyn ac</p>	<p>Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y cynnig yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith ac mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog wedi ennill y Wobr Aur.</p> <p>Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.</p> <p>Adroddiad Ymgynghori.</p> <p>Adroddiad Gwrthwynebu.</p> <p>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032.</p> <p>Gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol sy'n derbyn</p> <p>Ymatebion a ddaeth i law yn ymwneud ag effeithiau ar y Gymraeg.</p>	
--	---	--	--

	<p>mae'n fodlon y bydd cyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn cael eu cynnal ac, mewn rhai agweddau, yn cael eu gwella drwy fynediad i amgylchedd Cymraeg ehangach.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.</p> <p>Atgyfnerthodd gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol bryderon a godwyd yn flaenorol yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch rôl Ysgol Gynradd Meidrim wrth gefnogi'r Gymraeg o fewn y gymuned leol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r pryderon hyn ac mae'n parhau i fod yn fodlon y bydd cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau drwy'r ysgolion sy'n derbyn.</p>		
--	--	--	--

Dim trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Dim effaith negyddol. Bydd darpariaeth Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn gyfartal a'i hyrwyddo yn unol â gofynion statudol.	Mae pob ysgol yn gweithredu o dan Safonau'r Gymraeg.	Effaith gadarnhaol: Cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddysgu a chyfathrebu yn bennaf yn Gymraeg.
---	--	--	---

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran deilliannau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn deilliannau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)

Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau deilliannau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	Mae data CYBLD (2026) yn dangos nad oes unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Fodd bynnag, darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, gan ysgafnhau'r baich ariannol.
A ydych wedi ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	<p>Cynhaliwyd trafodaethau llunio gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethu. Cynhaliwyd proses ymgynghori statudol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofawyr, disgyblion, staff a rhanddeiliaid cymunedol drwy arolygon ar-lein, ymatebion e-bost a chyfarfodydd. Cafodd llais y disgyblion ei gynnwys drwy sesiynau gyda'r cyngor ysgol a deunyddiau a oedd yn briodol i'w hoedran.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal proses ymgynghori statudol a phroses gwrthwynebu statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae rhieni, gofawyr, disgyblion,</p>

	<p>staff, llywodraethwyr, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill wedi cael cyfleoedd i gyflwyno barn a sylwadau drwy gydol y ddau gam.</p>
<p>A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?</p>	<p>Ydyn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei ailystyried yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad ac mae'n tynnu sylw at rôl arwyddocaol Ysgol Gynradd Meidrim yng 'nghalon' cymuned Meidrim, gan gynnwys ei rôl wrth gefnogi cydlyniant cymdeithasol, hunaniaeth leol a rhyngweithio rhwng cenedlaethau. Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch effeithiau posibl ar weithgarwch cymunedol a'r defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>Atgyfnerthodd ymatebion i'r ymgynghoriad y farn bod Ysgol Gynradd Meidrim yn chwarae rôl arwyddocaol fel calon y gymuned leol. Er nad yw adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer defnydd cymunedol ffurfiol, tynnodd rhanddeiliaid sylw at ei werth cymdeithasol ehangach yn gyson, gan nodi ei gyfraniad at hunaniaeth gymunedol, rhyngweithio cymdeithasol anffurfiol, a'i rôl fel canolbwynt i deuluoedd. Dywedwyd bod yr ysgol yn cefnogi cysylltiadau rhwng trigolion, yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn, ac yn ffurfio rhan annatod o fywyd bob dydd yn y pentref.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.</p> <p>Nododd yr ymatebwyr hefyd fod presenoldeb ysgol leol yn ffactor pwysig wrth gynnal cymunedau gwledig, yn enwedig wrth ddenu a chadw teuluoedd ifanc. Felly, ystyriwyd y gallai cau'r ysgol gael goblygiadau i gynaliadwyedd a bywiogrwydd hirdymor yr ardal. Mae'r adborth hwn wedi llywio'r asesiad trwy gydnabod bod effaith y cynnig yn ymestyn y tu hwnt i ddefnydd ffisegol yr adeilad ac yn cynnwys ystyriaethau llesiant cymdeithasol a chymunedol llai diriaethol ond sylweddol.</p> <p>Roedd gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol yn ailadrodd pryderon ynghylch cynaliadwyedd cymunedol, rôl yr ysgol ym mywyd y pentref a'r effaith bosibl ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. Mae'r materion hyn wedi cael eu hailystyried fel rhan o'r ailasesiad ar ôl y</p>

	cyfnod gwrthwynebu ac maent yn parhau i lywio dealltwriaeth yr Awdurdod o effeithiau cymunedol y cynnig.
Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	Mae'r prif effeithiau yn cynnwys cau ysgol leol, a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol a hygyrchedd i deuluoedd Meidrim. Bydd angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynychu Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, a allai gynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant ysgol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg barhaus a gwell safonau addysgol drwy drosglwyddo disgyblion i ysgol fwy o faint sydd â chyfleusterau gwell. Yn ariannol, mae'r cynnig yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn atal y diffyg rhag cynyddu ymhellach.
Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau deilliannau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	<p>Gellid gwella'r cynnig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer pob disgybl cymwys. • Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni (e.e., cyfarfodydd rhithwir). • Darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgolion sy'n derbyn. <p>Mae cyllid ysgolion yn ystyried lefelau amddifadedd drwy ddefnyddio cymhwysedd am Brydau Ysgol am Ddim fel dangosydd o anfantais. Darperir cyllid ychwanegol ar gyfer pob disgybl cymwys, sy'n golygu bod ysgolion sydd â mwy o ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn cael mwy o gymorth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu at y mannau lle mae eu hangen fwyaf.</p>
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a beth yw'r effeithiau pellach o ran croestoriadedd?	Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar y rhan fwyaf o nodweddion gwarchodedig, gan y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac arferion cynhwysol yn parhau. Fodd bynnag, gallai fod effeithiau croestoriadol i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel sydd hefyd ag anghenion dysgu ychwanegol neu rieni sy'n feichiog/mamolaeth. Gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy gynlluniau pontio unigol, cymorth cludiant, a gofal bugeiliol wedi'i dargedu.

HAWLIAU'R PLENTYN (*Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc*).

Gofyniad		Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	<p>Bydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd, gan y bydd angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Gallai'r newid hwn effeithio ar eu hymdeimlad o ddiogelwch, cyfeillgarwch, ac arferion dyddiol. Mae effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i drefniadau teithio ac effeithiau posibl ar fywyd teuluol.</p> <p>Mae Erthygl 28 (Hawl i Addysg) wedi'i ystyried gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ble y bydd plant yn derbyn eu haddysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu a fydd mynediad at addysg yn cael ei gynnal ac yn nodi y byddai dysgwyr yn parhau i gael</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Data CYBLD (2026) sy'n dangos bod 32 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ym mis Medi 2026, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond 24 o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. • Adroddiad arolygu Estyn (Ebrill 2024) yn rhoi'r ysgol mewn Mesurau Arbennig, gan dynnu sylw at yr angen am well safonau addysgol. Cafodd yr ysgol ei thynnu allan o Fesurau Arbennig Estyn ym mis Rhagfyr 2025. • Adroddiad Ymgynghori • Adroddiad Gwrthwynebu <p>Erthygl 12 (parch at farn y plentyn) Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'u dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynllun pontio, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ag Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog os oes angen. • Darparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio. • Sicrhau cyfathrebu clir â rhieni a disgyblion ynghylch amserlenni a threfniadau. • Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gynnal perthynas â chyfoedion drwy weithgareddau ar y cyd cyn symud ysgol. • Datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY, wedi'u llywio gan adborth o'r ymgynghoriad a llais disgyblion.

	<p>mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Hafodwenog neu Ysgol Griffith Jones neu ysgol arall a ddewiswyd gan rieni drwy'r broses dderbyn.</p> <p>Mae Erthygl 29 (Nodau Addysg) wedi'i ystyried gan fod y cynnig yn ceisio darparu mynediad i ddysgwyr at ystod ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion mwy, cyfleusterau gwell a phrofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gefnogi datblygiad galluoedd a photensial pob plentyn.</p> <p>Mae Erthygl 12 (Parch at Farn y Plentyn) yn cael ei gweithredu oherwydd bydd disgyblion a effeithir arnynt gan y cynnig yn cael cyfle i fynegi eu barn yn ystod y broses ymgynghori.</p>	<p>i gael eu barn eu hystyried a'u cymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau tai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd.</p> <p>Erthygl 28 (hawl i addysg) Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.</p> <p>Erthygl 29 (nodau addysg) Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliannau eu hunain a</p>	
--	---	---	--

	<p>Mae Erthygl 30 (Plant o Grwpiau Lleiafrifoedd) wedi'i ystyried oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddarpariaeth yn Ysgol Hafodwenog neu Ysgol Griffith Jones.</p>	<p>diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.</p> <p>Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol) Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.</p>	
<p>A ydy'r fenter wedi'i dylunio / chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?</p>	<p>Ydy, mae'r fenter wedi'i chynllunio i wella deilliannau addysgol drwy drosglwyddo disgyblion i ysgol sydd â chyfleusterau gwell, arweinyddiaeth sefydlog, a'r gallu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn. Mae hyn hefyd yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhaus.</p> <p>Mae Erthygl 3 (Buddiannau Gorau'r Plentyn) wedi'i ystyried drwy gydol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Hafodwenog (Mesurau Arbennig) vs. Ysgol Griffith Jones (Dim statws Dilynol) ac Ysgol Hafodwenog (Dim statws Dilynol). • Mae Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn blaenoriaethu addysg gynaliadwy o safon. • Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n cadarnhau 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori gan ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w hoedran. • Darparu cymorth emosiynol a llesiant yn ystod y pontio ac ar ôl hynny. • Monitro cynnydd a llesiant y disgyblion sy'n trosglwyddo i sicrhau deilliannau cadarnhaol. • Cynnal cyfathrebu â rhieni i fynd i'r afael â phryderon yn brydlon.

	<p>datblygiad y cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu goblygiadau addysgol, lles, hygyrchedd a oblygiadau chymunedol y cynnig ac mae'n ystyried bod y cynnig wedi'i fwriadu i gefnogi buddiannau gorau hirdymor dysgwyr trwy ddarparu mynediad at addysg Gymraeg gynaliadwy, cyfleoedd addysgol ehangach, cyfleusterau gwell a gwasanaethau cymorth gwell.</p> <p>Mae Erthygl 23 (Plant ag Anableddau) wedi'i ystyried oherwydd gall y cynnig effeithio ar ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried hygyrchedd yr ysgol sy'n derbyn, parhau â darpariaeth ddysgu ychwanegol, mynediad at wasanaethau arbenigol a'r</p>	<p>parhad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Erthygl 3 (buddiannau gorau'r plentyn) Rhaid i fuddion gorau'r plentyn fod yn brif flaenoriaeth mewn pob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.</p> <p>Erthygl 23 (plant ag anabledd) Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac, cyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth y gallant i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.</p> <p>Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant) Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig.</p>	
--	---	--	--

	<p>angen am drefniadau pontio unigol. Lle fydd y cynnig yn cael ei weithredu, darperir cymorth priodol ac addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn parhau i gael mynediad at addysg ac yn cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol.</p> <p>Mae Erthygl 31 (Hamdden, Chwarae a Chyfranogiad mewn Bywyd Diwylliannol) wedi'i ystyried gan y gallai'r cynnig effeithio ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog neu Ysgol Griffith Jones yn cael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys cyfleoedd i</p>		
--	--	--	--

	gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg, gan gefnogi eu hawliau o dan Erthygl 31.		
--	--	--	--

Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol*". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol."

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hól troed carbon hwythau.

Gofyniad	
A ydy'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?	<p>Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad a gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y broses statudol yn codi pryderon ynghylch pellteroedd teithio cynyddol ac effeithiau carbon cysylltiedig. Mae'r materion hyn wedi cael eu hadolygu drwy ddefnyddio'r data diweddaraf am drafnidiaeth ac adeiladau.</p> <p>Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pryderon ynghylch pellteroedd teithio cynyddol ac effeithiau carbon cysylltiedig. Ailaseswyd y materion hyn yn dilyn yr ymgynghoriad gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar ddefnydd ynni adeiladau ac allyriadau trafnidiaeth er mwyn sicrhau gwerthusiad gwybodus a chymesur.</p> <p>Cafodd y materion hyn eu hailystyried ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol ac ni nodwyd unrhyw</p>

	<p>dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n newid yr asesiad yn sylweddol.</p> <p>Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol uniongyrchol ar fioamrywiaeth a gwydnwch yr ecosystem. Mae cau Ysgol Gynradd Meidrim yn golygu rhoi pwrpas newydd i adeilad presennol neu ei werthu yn hytrach na chreu datblygiad newydd, felly ni ddisgwylir tarfu mawr ar gynefinoedd. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol gydymffurfio â dyletswyddau bioamrywiaeth.</p> <p>Gallai mwy o draffig o gludiant ysgol amharu ar gynefinoedd cyfagos. Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn fach iawn gan na fydd angen ehangu seilwaith na cholli mannau gwyrdd ar gyfer y cynnig. Gallai'r cynnig hefyd hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy fannau dysgu awyr agored a rhaglenni eco-addysgol yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion gynhyrchu mwy o wastraff yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, fodd bynnag, byddai'r camau rheoli gwastraff effeithiol yn yr ysgol yn lliniaru effeithiau negyddol.</p>
<p>A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030?</p>	<p>Cofnododd Ysgol Gynradd Meidrim, a adeiladwyd tua 1900 ac sy'n cael ei gwresogi gan system olew, ôl troed carbon o 11.37 tonnelli o allyriadau CO₂e yn 2024/25, gyda defnydd ynni wedi'i feincnodi o 172.6 kWh/m². Mae'r metrig hwn yn darparu sail normaleiddio ar gyfer cymharu ar draws safleoedd o wahanol faint a defnydd gweithredol.</p> <p>Yn yr un modd, cofnododd Ysgol Hafodwenog, a adeiladwyd ym 1971 ac sy'n cael ei gwresogi gan nwy LPG ôl troed carbon uwch o 21.2 tonnelli o allyriadau CO₂e yn yr un cyfnod, gyda defnydd tebyg o ynni o 172.9 kWh/m².</p> <p>Mewn cyferbyniad, mae gan Ysgol Griffiths Jones, a adeiladwyd ym 1963 ac sy'n cael ei gwresogi drwy nwy naturiol, arwynebedd mewnol gros sylweddol mwy (3,676 m²) o gymharu ag Ysgol Gynradd Meidrim (268 m²) ac Ysgol Hafodwenog (566 m²). Er gwaethaf hyn, cofnododd allyriadau o 70.41 tonnelli CO₂e yn 2024/25, ochr yn ochr â defnydd sylweddol is o ynni o 98.6 kWh/m² - ychydig dros hanner defnydd yr ysgolion eraill.</p> <p>Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at yr allyriadau anghymesur o uchel sy'n gysylltiedig â chynnal adeiladau ysgol llai o faint sy'n llai ynni-effeithlon, yn enwedig lle mae lefelau defnydd yn isel.</p>

	<p>Wrth ystyried cludiant disgyblion i ddarpariaeth amgen, byddai bws a rennir sy'n teithio 13 milltir rhwng Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Hafodwenog, Trelech, dros 190 diwrnod addysgu yn cynhyrchu oddeutu 2.5tCO₂e y flwyddyn, yn seiliedig ar ffactorau allyriadau sy'n deillio o DEFRA (oddeutu 13 kg CO₂e y daith).</p> <p>Fel arall, byddai bws a rennir sy'n gwneud taith fyrrach o 6 milltir rhwng Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Griffith Jones, Sanclêr, dros yr un cyfnod, yn cynhyrchu oddeutu 1.1 tCO₂e y flwyddyn (oddeutu 6 kg CO₂e y daith).</p> <p>Er bod yr amcangyfrifon hyn yn eithrio allyriadau sy'n gysylltiedig â theithiau lleoli cerbydau, mae cyfanswm yr allyriadau sy'n gysylltiedig â chludiant yn parhau i fod yn sylweddol is na'r rhai sy'n gysylltiedig â gweithredu parhaus Ysgol Gynradd Meidrim.</p> <p>Gallai'r cynnig gael effaith negyddol fach oherwydd pellteroedd teithio cynyddol i ddisgyblion, gan arwain at allyriadau trafnidiaeth uwch. Fodd bynnag, mae hefyd yn dileu'r angen i gynnal a chynhesu adeilad ysgol arall, a allai leihau'r ôl troed carbon yn gyffredinol.</p>
A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?	<p>Mae'r cynnig yn cael effaith niwtral ar ei allu i wrthsefyll. Byddai cyfuno'r ddarpariaeth addysg mewn adeiladau modern sy'n ynni-effeithlon (Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog) yn cefnogi nodau addasu i'r hinsawdd. Fodd bynnag, gallai mwy o ddibyniaeth ar gludiant wrthbwysu rhai manteision.</p>

DIOGELU DATA (Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partïon i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).

A ydy'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae modd ei adnabod)?	Ydy	Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o ddata
		<p>Gofynnir am gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post os yw ymgynghoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.</p> <p>Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.</p>

A ydy'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?	Nac ydy.	Os 'ydy', rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd
		Roedd y dogfennau ymgynghori a'r Adroddiad Ymgynghori ar gael i'w gweld ar-lein ac ar ffurf bapur yn yr ysgol. Roedd ffurflenni ymateb ar gael ar-lein ac ar ffurf bapur yn yr ysgol. Roedd yr Adroddiad Gwrthwynebu hefyd ar gael ar-lein ac ar ffurf bapur.
A ydy'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?	Nac ydy	Os 'ydy', rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu
Os ydych wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r ystyriaethau hyn, siaradwch â'r Swyddog Diogelu Data i gychwyn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a/neu drafod a oes angen Cytundeb Prosesu Data.		

GOBLYGIADAU <i>(Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)</i>
A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg
Mae'r cyfnod hysbysiad statudol wedi'i gwblhau yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r Awdurdod Lleol wedi paratoi Adroddiad Gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymateb yr Awdurdod. Bydd y cynnig bellach yn mynd ymlaen trwy'r broses benderfynu berthnasol.
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol
Os cymeradwyir y cynnig, bydd yn cael ei ariannu'n unol ag ysgolion 3-11 a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.
Mae sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol yn ogystal â'r cyllidebau a ragwelir wedi'u hystyried fel rhan o bapurau'r cynnig. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, byddai arbedion refeniw blynyddol disgwylidig. Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyio.
Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddai'r ysgol sy'n derbyn yn elwa ar gyllid disgyblion ychwanegol.
Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb

corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi Defnyddio/Gwaredu Tir ac Adeiladau Diangen yn y Dyfodol, yna byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored a gallai gynhyrchu derbyniad cyfalaf. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ac yn cael ei weithredu, byddai gan yr Awdurdod Lleol un adeilad ysgol diangen yn ei ystad, â gwerth amcangyfrifedig o £150,000.

Trosglwyddir yr eiddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.

3. Staffio

Os cymeradwyir y cynnig, byddai Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn defnyddio'u staff presennol.

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yno. Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid. Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli yn ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt.

Rydym yn deall bod hyn yn creu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

4. Marchnata a'r Cyfryngau

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a'i gyhoeddi drwy wefan y Cyngor a sianeli priodol eraill. Hysbyswyd rhanddeiliaid o'r cyfnod gwrthwynebu a'u hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi yn unol â gofynion statudol.

5. Troseddau ac Anhrefn

Ni ragwelir unrhyw oblygiadau. Gallai cau'r ysgol olygu y bydd safle'r ysgol yn wag am gyfnod. Gall adeiladau cyhoeddus gwag ddenu fandaliaeth, tresmasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon, gan greu pryderon diogelwch cymunedol a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diogelwch a chynnal a chadw'r safle.

Gallai cau'r ysgol leihau lefelau gweithgarwch dyddiol a goruchwyliaeth anffurfiol yng nghyffiniau'r ysgol. Gallai llai o feddiannaeth greu cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnydd anawdurdodedig o dir ysgol, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gallai adeiladau gwag brofi risg uchel o losgi bwriadol. Gallai unrhyw ddigwyddiad o'r fath gael goblygiadau y tu hwnt i'r safle ei hun, gan gynnwys risgiau i drigolion cyfagos, effeithiau amgylcheddol a galw am y gwasanaethau brys.

Disgwylir i unrhyw broblemau diogelwch cymunedol posibl sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol fod yn rhai dros dro ac yn dibynnu i raddau helaeth ar ddefnydd y safle yn y dyfodol.

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu gweithredu i ddiogelu'r eiddo a lleihau'r risg o fynediad anawdurdodedig, fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon neu losgi pwrpasol. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i benderfynu ar ddefnydd y safle yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau unrhyw gyfnod y gallai'r adeilad aros yn wag ac i leihau'r tebygolrwydd o bryderon diogelwch cymunedol tymor hwy.